# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 14/10/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
2. Questions to the Minister for Public Services

Cwestiwn Brys: Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan Ewrop
Urgent Question: The All-Wales European Programme Monitoring Committee

3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru—Tlodi ac Anghydraddoldeb
3. Debate on the Communities, Equality and Local Government Committee's Report on its Inquiry into Poverty in Wales—Poverty and Inequality

4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y Bil Undebau Llafur
4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): The Trade Union Bill

5. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Cymunedau Gwledig
5. Welsh Conservatives Debate: Rural Communities

6. Cyfnod Pleidleisio
6. Voting Time

7. Dadl Fer: Diogelu Cleifion yn Sir Benfro—Pam Mae Angen Gwasanaethau Hanfodol yn Ysbyty Llwynhelyg
7. Short Debate: Protecting Patients in Pembrokeshire—Why We Need Essential Services at Withybush Hospital


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly of Wales is now in session.

Prynhawn Da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## 1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first item this afternoon is questions to the Minister for Finance and Government Business, and question 1 is from Llyr Gruffydd.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a daw cwestiwn 1 gan Llyr Gruffydd.

### Cyllid Ychwanegol

### Additional Funding

13:31

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A oes gan y Gweinidog gynlluniau i ddyrannu cyllid ychwanegol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0619(FIN)[W]*

*1. Does the Minister have plans to allocate additional funding to the health and social services portfolio? OAQ(4)0619(FIN)[W]*

13:31

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Presiding Officer, I understand you've given permission for questions 1 and 8 to be grouped.

Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 1 ac 8 gael eu grwpio.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given that Darren Millar is not in the Chamber, and he is asking question 8, so we won't group it at the moment.

O ystyried nad yw Darren Millar yn y Siambr, ac mai ef sy'n gofyn cwestiwn 8, ni fyddwn yn grwpio hwnnw ar hyn o bryd.

13:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Right. Diolch yn fawr, Llyr Gruffydd. I recently announced an additional £58.8 million to the health and social services main expenditure group in this financial year.

Iawn. Diolch yn fawr, Llyr Gruffydd. Yn ddiweddar, cyhoeddais y bydd £58.8 miliwn yn ychwanegol yn cael ei roi i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

13:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Betsi Cadwaladr University Local Health Board, of course, hasn't had its three-year financial plan approved by the Minister as yet. So, with the projected deficit of £30 million this year, and the requirement to repay the £20 million cash-only support provided by the Welsh Government this year, do you expect to have to bail them out?

Nid yw cynllun ariannol tair blynedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, wrth gwrs, wedi cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog hyd yn hyn. Felly, gyda'r diffyg a ragwelir o £30 miliwn eleni, a'r gofyniad i ad-dalu'r cymorth arian parod o £20 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru eleni, a ydych yn disgwyl y bydd yn rhaid i chi achub eu crwyn?

13:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, clearly, the opportunities that the new funding that I've announced—the £58.8 million—to the health and social services MEG, even though part of that was for all-important new treatments, of course, some of that was also to support the improvement in performance for the health boards.

Wel, yn amlwg, mae'r cyfleoedd y bydd y cyllid newydd rwyf wedi'i gyhoeddi—y £58.8 miliwn—i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, er bod rhan o hwnnw ar gyfer triniaethau newydd hollbwysig wrth gwrs, roedd rhywfaint ohono hefyd i gefnogi gwella perfformiad y byrddau iechyd.

13:32 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Noting your commitment, Minister, and that of the Minister for Health and Social Services, to investing in social care, will you consider including in the revenue support grant a 1 per cent protection for social services in order to reduce the pressure on the NHS and to empower local government to meet the increasing demand for care and support for users and for carers who are aging?

Gan nodi eich ymrwymiad, Weinidog, ac ymrwymiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol, a wnewch chi ystyried cynnwys diogelwch o 1 y cant i wasanaethau cymdeithasol yn y grant cynnal refeniw er mwyn lleihau'r pwysau ar y GIG ac i rymuso llywodraeth leol i ateb y galw cynyddol am ofal a chymorth i ddefnyddwyr a gofalwyr sy'n heneiddio?

13:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Gwenda Thomas. Of course, over the spending review, we have recognised the importance of social services in the health service, its importance to the health service, and integrating with the health service. We've taken a holistic view of public service delivery in Wales and, without investment in social services, as you say, calls on the emergency health services and bedblocking would be greater. So, based on latest available figures from the Treasury, overall combined health and social services spend per year, per head in Wales, was 5 per cent higher than in England. And, in this year's settlement, we've invested an additional £10 million in recognition of the pressures on social services.

Diolch i chi, Gwenda Thomas. Wrth gwrs, dros yr adolygiad o wariant, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol yn y gwasanaeth iechyd, eu pwysigrwydd i'r gwasanaeth iechyd, ac integreiddio â'r gwasanaeth iechyd. Rydym wedi edrych yn gyfannol ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a heb fuddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol, fel y dywedwch, byddai'r galw am wasanaethau iechyd brys a blocio gwelyau yn fwy. Felly, yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan y Trysorlys, roedd gwariant blynyddol y pen yng Nghymru ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd 5 y cant yn uwch nag yn Lloegr. Ac yn y setliad eleni, rydym wedi buddsoddi £10 miliwn yn ychwanegol i gydnabod y pwysau ar wasanaethau cymdeithasol.

So, we're currently considering the budget, of course, but all indications are that the financial outlook will continue to be difficult, and we'll need to find revenue savings of an equivalent level to those that we have faced over the spending review period. But, clearly, the importance of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 coming into force next year will provide a springboard for transforming the way services are developed and delivered in Wales.

Felly, rydym ar hyn o bryd yn ystyried y gyllideb, wrth gwrs, ond mae pob arwydd yn awgrymu y bydd y rhagolygon ariannol yn parhau'n anodd, a bydd angen i ni ddod o hyd i arbedion refeniw ar lefel gyfatebol i'r rhai a wynebwyd gennym dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Ond yn amlwg, bydd pwysigrwydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaw i rym y flwyddyn nesaf, yn rhoi sbardun ar gyfer trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu datblygu a'u darparu yng Nghymru.

13:33 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Welsh Conservatives welcome all additional funding to the health portfolio and, as you know, we've supported the UK Government's protection of the health budget in England over the last five years. You've been disparaging of Welsh Conservative estimates of the underfunding of the NHS in Wales. So, what is your own assessment of the shortfall in the NHS budget in real terms—I mean the NHS budget, not NHS and social services—over the last five years because of your Welsh Government's cuts?

Weinidog, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu pob cyllid ychwanegol i'r portffolio iechyd ac fel y gwyddoch, rydym wedi cefnogi'r modd y mae Llywodraeth y DU wedi diogelu'r gyllideb iechyd yn Lloegr dros y pum mlynedd diwethaf. Rydych wedi bod yn feirniadol o amcangyfrifon y Ceidwadwyr Cymreig ynghylch i ba raddau y mae'r GIG yng Nghymru yn cael ei danariannu. Felly, beth yw eich asesiad chi o'r diffyg yng nghyllideb y GIG mewn termau real—rwy'n sôn am gyllideb y GIG, nid y GIG a gwasanaethau cymdeithasol—dros y pum mlynedd diwethaf oherwydd toriadau Llywodraeth Cymru?

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I hope you will also welcome—in fact, I think, Nick Ramsay, you have welcomed—the fact that the investment in our health service in Wales has reached record levels, with over £6.7 billion allocated to the health and social services MEG. This figure includes the extra £1.1 billion we've invested in the NHS over the last two years, and this extra investment is despite the £1.3 billion that has been cut in real terms from the overall Welsh budget by the UK Government since 2011.

Wel, rwy'n gobeithio y byddwch hefyd yn croesawu—a dweud y gwir, rwy'n credu, Nick Ramsay, eich bod wedi croesawu—y ffaith fod y buddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed, gyda thros £6.7 biliwn wedi'i ddyrannu i brif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr £1.1 biliwn ychwanegol rydym wedi'i fuddsoddi yn y GIG dros y ddwy flynedd diwethaf, a gwneir y buddsoddiad ychwanegol hwn er gwaethaf y £1.3 biliwn sydd wedi'i dorri mewn termau real o gyllideb gyffredinol Cymru gan Lywodraeth y DU ers 2011.

13:35 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, I've been contacted by a number of social care providers, providing both residential and domiciliary care services to my constituency, regarding the impact of the so-called living wage being introduced by the Westminster Government. Now, whilst nobody argues that these lower paid workers should have a higher salary, they're concerned about how this will be reflected in fee levels that they are able to charge to social services departments. Given that the care of most people in my constituency is paid for by their local authority, then that becomes a critical issue. What discussions have you had with Westminster about additional resources that may be made available by the Westminster Government as a result of their announcement to fund social care fee levels, and what discussions are you having within your own Cabinet to ensure that increases in fee levels, which are now inevitable, will be able to be met by social services departments, and that individuals will not be asked to pay a top-up?

Weinidog, mae nifer o ddarparwyr gofal cymdeithasol, sy'n darparu gwasanaethau gofal preswyl a gofal cartref yn fy etholaeth, wedi cysylltu â mi ynglŷn ag effaith y cyflog byw fel y'i gelwir sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth San Steffan. Nawr, er nad oes neb yn dadlau na ddylid cynyddu cyflogau'r gweithwyr hyn sydd ar gyflog is, maent yn pryderu sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn lefelau'r ffioedd y gallant eu codi ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol. O ystyried mai eu hawdurdod lleol sy'n talu am ofal y rhan fwyaf o bobl yn fy etholaeth, daw hyn yn fater allweddol. Pa drafodaethau a gawsoch gyda San Steffan ynglŷn ag adnoddau ychwanegol y gallai Llywodraeth San Steffan eu darparu o ganlyniad i'w chyhoeddiad i ariannu lefelau ffioedd gofal cymdeithasol, a pha drafodaethau rydych yn eu cael yn eich Cabinet eich hun i sicrhau bod adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn lefelau ffioedd, sydd bellach yn anochel, ac na fydd gofyn i unigolion dalu'n ychwanegol?

13:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Kirsty Williams raises a very important question, and it is a point that was made in every one of my budget tour meetings that I held over the summer, by care providers and indeed, local authorities themselves. It is a message that I am taking to the UK Government, to the Chief Secretary to the Treasury. We must consider that, in this financial year, within year, £46 million was taken out of our budget and we are, in terms of some budget forecasts, anticipating cuts in the spending review that is forthcoming. But it is a serious issue that we have to look at and it is a further pressure on local authorities as well.

Mae Kirsty Williams yn gofyn cwestiwn pwysig iawn, ac mae'n bwynt a wnaed ym mhob un o gyfarfodydd taith y gyllideb a gynhaliais dros yr haf, gan ddarparwyr gofal ac yn wir, yr awdurdodau lleol eu hunain. Mae'n neges rwy'n mynd i'w chyflwyno i Lywodraeth y DU, i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Yn y flwyddyn ariannol hon, o fewn y flwyddyn, rhaid i ni ystyried bod £46 miliwn wedi'i dorri o'n cyllideb ac o ran rhai rhagolygon cyllidebol, rydym yn rhagweld toriadau yn yr adolygiad o wariant sydd i ddod. Ond mae'n fater difrifol sy'n rhaid i ni edrych arno ac mae'n rhoi pwysau pellach ar awdurdodau lleol hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

### Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU

### The UK Government Spending Review

13:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau penderfyniad Llywodraeth y DU i gyhoeddi ei hadolygiad o wariant ar ddiwedd mis Tachwedd? OAQ(4)0615(FIN)*

*2. Will the Minister make a statement on the implications of the UK Government's decision to publish its spending review in late November? OAQ(4)0615(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We face unprecedented challenges as a result of the late spending review not only in terms of managing further cuts to the budget, but also in terms of the constraints it places on our own budget process.

Rydym yn wynebu heriau heb eu tebyg o'r blaen o ganlyniad i'r ffaith fod yr adolygiad o wariant yn hwyr, nid yn unig o ran rheoli toriadau pellach i'r gyllideb, ond hefyd o ran y cyfyngiadau y mae'n eu rhoi ar broses ein cyllideb ein hunain.

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Minister, I've heard from a lot of organisations lately that are greatly concerned because of the implications of late notice in terms of their own budgets. Obviously, this late announcement by the UK Government creates major difficulties for Welsh Government and local authorities, but also for a whole raft of organisations that depend upon Welsh Government and local authorities for their own funding. Given the general background of ideologically driven austerity cuts, would you agree with me that if we cannot change this sort of mindset and process by UK Government, we are going to find major difficulties for policy delivery on the ground here in Wales?

Weinidog, rwyf wedi clywed gan lawer o sefydliadau yn ddiweddar sy'n pryderu'n fawr oherwydd goblygiadau'r hysbysiad hwyr ar eu cyllidebau eu hunain. Yn amlwg, mae'r cyhoeddiad hwyr hwn gan Lywodraeth y DU yn creu anawsterau mawr i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ond hefyd i lu o sefydliadau sy'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol am eu cyllid eu hunain. O ystyried cefndir cyffredinol toriadau caledi sy'n cael eu gyrru gan ideoleg, a fyddech yn cytuno â mi, os na allwn newid y math hwn o feddylfryd a phroses gan Lywodraeth y DU, rydym yn mynd i gael anawsterau mawr wrth gyflwyno polisi ar lawr gwlad yma yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank John Griffiths for that question, because it's imperative in any of our budget cycles that we do provide early certainty for our partners on future spending plans, as well as allowing the Assembly sufficient time to complete meaningful scrutiny of our spending plans. This is almost impossible now in terms of the timescales imposed by the UK Government. I would say that, in the context of the UK financial outlook, based on latest projections, it's likely we'll have to find further revenue savings of equivalent level to those which we faced over the spending review period.

Diolch i John Griffiths am ei gwestiwn, oherwydd mae'n hanfodol, ym mhob un o'n cylchoedd cyllideb, ein bod yn rhoi sicrwydd cynnar i'n partneriaid ar gynlluniau gwario yn y dyfodol, yn ogystal â chaniatáu digon o amser i'r Cynulliad gwblhau'r broses o graffu'n ystyrlon ar ein cynlluniau gwariant. Mae hyn bron yn amhosibl bellach o ran y terfynau amser a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Yng nghyd-destun rhagolygon ariannol y DU, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau diweddaraf, fe fyddwn i'n dweud ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i ni ddod o hyd i arbedion refeniw pellach ar lefel gyfatebol i'r rhai y bu'n rhaid i ni eu hwynebu dros gyfnod yr adolygiad o wariant.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, obviously, the spending review will give you certainty about the money you're going to get, and we keep hearing, time and time again, that it's always Westminster's fault. The reality of this situation is that you need to start getting on with the job of delivering services here in Wales. One of the things you can be getting on with is delivering a city deal for Cardiff that is not dependent on the review, and yet the Welsh Government haven't faced up to that. It is a way of levering money into Wales, like Scotland have done and like cities in England have done. So, why aren't you pulling your finger out and bringing money in via a city deal for Cardiff?

Weinidog, yn amlwg, bydd yr adolygiad o wariant yn rhoi sicrwydd i chi ynglŷn â'r arian rydych yn mynd i'w gael, a chlywn o hyd, dro ar ôl tro, mai bai San Steffan ydyw bob tro. Realiti'r sefyllfa yw bod angen i chi ddechrau bwrw ymlaen â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yma yng Nghymru. Un o'r pethau y gallech fwrw ymlaen ag ef yw darparu cytundeb dinas i Gaerdydd nad yw'n ddibynnol ar yr adolygiad, ac eto nid yw Llywodraeth Cymru wedi wynebu hynny. Mae'n ffordd o ddenu arian i Gymru, fel y mae'r Alban wedi'i wneud ac fel y mae dinasoedd yn Lloegr wedi'i wneud. Felly, pam nad ydych yn tynnu eich bys allan a dod ag arian i mewn drwy gyfrwng cytundeb dinas i Gaerdydd?

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I mean—extraordinary language from the leader of the opposition.

Dyna iaith ryfeddol gan arweinydd yr wrthblaid.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It certainly wasn't gentlemanly.

Yn sicr, nid oedd yn fonheddig.

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm just surprised that you're so out of date, Andrew R.T. Davies, with what we are doing and what Cardiff council is doing in terms of leading the city deal on behalf of the south-east Wales region. I beg you to look at my statement in July, which stated very clearly the Welsh Government's full engagement with taking forward a city deal. Indeed, not only did I meet the chief secretary in July to discuss it, but I met with the Secretary of State for Wales in September to discuss it, and we had very positive constructive discussions. And, again, four weeks ago, I met with the chief secretary again and it was on our agenda.

Rwy'n synnu eich bod cymaint ar ei hôl hi, Andrew R.T. Davies, ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud a'r hyn y mae cyngor Caerdydd yn ei wneud ar arwain y cytundeb dinas ar ran rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Erfyniaf arnoch i edrych ar fy natganiad ym mis Gorffennaf, a oedd yn datgan yn glir iawn fod Llywodraeth Cymru yn ymroi'n llawn i fwrw ymlaen â'r cytundeb dinas. Yn wir, cefais gyfarfod â'r prif ysgrifennydd ym mis Gorffennaf i drafod y peth, a chyfarfûm hefyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Medi i'w drafod, ac roedd y trafodaethau'n adeiladol ac yn gadarnhaol iawn. Hefyd, bedair wythnos yn ôl, cefais gyfarfod gyda'r prif ysgrifennydd eto ac roedd ar ein hagenda.

13:40 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was really what I was trying to ask, namely could you exemplify how and what you have discussed with the UK Government with regard to the spending review, so that we can understand, when it gets to that point, that local authorities and public service organisations will be able to fully understand the consequences of the budget and, inevitably, the harsh reality of delivering services on the ground?

Dyna roeddwn yn ceisio ei ofyn, sef a allech chi roi enghreifftiau o sut a beth rydych wedi'i drafod gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r adolygiad o wariant, er mwyn i ni allu deall, pan ddaw i hynny, y bydd awdurdodau lleol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gallu deall canlyniadau'r gyllideb yn llawn ac yn anochel, realiti llym darparu gwasanaethau ar lawr gwlad.

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Bethan Jenkins. This has been my constant call in my meetings with UK Government Ministers over the past few months. All we have to go on at the moment is the summer budget forecasts and, if you recall from the summer budget, it confirmed the UK Government's intention to find £37 billion of cuts over the next spending review.

Diolch i chi, Bethan Jenkins. Dyma fy ngalwad cyson yn fy nghyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Yr unig beth sydd gennym ar hyn o bryd yw rhagolygon cyllideb yr haf ac os ydych yn cofio cyllideb yr haf, roedd yn cadarnhau bwriad Llywodraeth y DU i ddod o hyd i £37 biliwn o doriadau dros yr adolygiad o wariant nesaf.

13:40 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the autumn spending review is anticipated to include an announcement on paying for social care in England. It appears that the promised cap on care costs will not now be brought in until 2020. It is anticipated, though, that funding previously earmarked for the implementation of Dilnot may now be used to ease the crisis in day-to-day social care services in England. If this does occur, does the Minister anticipate any Barnett consequentials arising from the decision and has she discussed this with UK Ministers?

Weinidog, rhagwelir y bydd adolygiad o wariant yr hydref yn cynnwys cyhoeddiad ar dalu am ofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'n ymddangos na fydd y cap a addawyd ar gostau gofal yn cael ei gyflwyno bellach tan 2020. Fodd bynnag, rhagwelir y gellid defnyddio'r cyllid a glustnodwyd yn flaenorol ar gyfer gweithredu Dilnot i leddfu'r argyfwng mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol o ddydd i ddydd yn Lloegr. Os bydd hyn yn digwydd, a yw'r Gweinidog yn rhagweld unrhyw symiau canlyniadol Barnett yn deillio o'r penderfyniad ac a yw hi wedi trafod hyn gyda Gweinidogion y DU?

13:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Gwenda Thomas for that question because, if Members recall, originally, April 2016 was when the Government was set to introduce a cap on care costs in England and an extension of means-tested support so that more people could be eligible for local authority support with their care costs. Indeed, it was in the Conservative manifesto that they would cap charges for residential social care from 2016. But, in July, the Minister of State for Community and Social Care wrote to the Local Government Association to confirm that this introduction would be postponed to April 2020. These proposals were very important, along with the expectation of what that would mean in terms of support for carers in the care sector. So, now we have to wait to see if there will be any announcement in the spending review, and we won't know the consequential impact, of course, until we can see how comparable UK Government departments have fared in the spending review.

Diolch i Gwenda Thomas am y cwestiwn oherwydd, os yw'r Aelodau'n cofio, yn wreiddiol, bwriadai'r Llywodraeth gyflwyno cap ar gostau gofal yn Lloegr erbyn Ebrill 2016 ac ymestyn cymorth prawf modd er mwyn i fwy o bobl fod yn gymwys i gael cymorth awdurdod lleol tuag at eu costau gofal. Yn wir, roedd yn dweud ym maniffesto'r Ceidwadwyr y byddent yn capio taliadau am ofal cymdeithasol preswyl o 2016. Ond ym mis Gorffennaf, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ofal Cymunedol a Chymdeithasol at y Gymdeithas Llywodraeth Leol i gadarnhau y byddai cyflwyno'r cap yn cael ei ohirio tan Ebrill 2020. Roedd y cynigion hyn yn bwysig iawn, ynghyd â'r disgwyliad o'r hyn a fyddai'n ei olygu o ran cymorth i ofalwyr yn y sector gofal. Felly, yn awr mae'n rhaid i ni aros i weld a fydd unrhyw gyhoeddiad yn yr adolygiad o wariant, ac ni fyddwn yn gwybod beth fydd yr effaith ganlyniadol, wrth gwrs, hyd nes y gallwn weld sut y mae adrannau cyffelyb Llywodraeth y DU wedi gwneud yn yr adolygiad o wariant.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Now we have questions from the party spokespeople and first to start this afternoon, the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Mae gennym gwestiynau yn awr gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:42 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, your supplementary budget on 14 July gave a substantial sum of extra money to the health service, despite which many health boards are still struggling to make ends meet and to constrain their spending within the resources available to them. However, one of the reasons they are struggling is because, in contrast to the extra money going to health, local authorities had a 3.5 per cent cut in their expenditure this year and social services have subsequently been cut and, as a result, there is bedblocking and there are people who are not able to get the care at home that they need, which means, of course, that further pressure is being put on health. I recognise that you gave an extra £10 million to social services in the last budget. That, of course, would just about cover the deficit in one of the larger authorities in terms of social services. Can I ask you, therefore, whether you are proposing to give additional money to social services in a future supplementary budget in the current financial year?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, roedd eich cyllideb atodol ar 14 Gorffennaf yn rhoi swm sylweddol o arian ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd. Er hynny, mae llawer o fyrddau iechyd yn dal i gael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd a chyfyngu eu gwariant i'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, un o'r rhesymau y maent yn ei chael yn anodd yw bod awdurdodau lleol, yn wahanol i'r arian ychwanegol sy'n mynd tuag at iechyd, wedi dioddef toriad o 3.5 y cant yn eu gwariant eleni gan arwain at dorri gwasanaethau cymdeithasol, ac o ganlyniad, mae gwelyau'n cael eu blocio a phobl yn methu â chael y gofal yn y cartref sydd ei angen arnynt, gan olygu bod pwysau pellach yn cael ei roi ar iechyd, wrth gwrs. Rwy'n cydnabod eich bod wedi rhoi £10 miliwn ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol yn y gyllideb ddiwethaf. Ni fyddai hynny, wrth gwrs, prin yn talu am y diffyg yn un o'r awdurdodau mwy o faint o ran gwasanaethau cymdeithasol. A gaf fi ofyn i chi, felly, a ydych yn bwriadu rhoi arian ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol mewn cyllideb atodol i ddod yn ystod y flwyddyn ariannol hon?

13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is important to look at social services expenditure in Wales and, according to the public expenditure statement last year, social services expenditure in Wales grew by 0.9 per cent in real terms between 2009-10 and 2013-14, and that's compared with a 4.7 per cent real-terms reduction, for example, in expenditure in England over the same period. I've already mentioned the figure of £120 more being spent per head on health and social services in Wales than in England. But it is clear that we have to ensure that the social services spend and, indeed, the intermediate care fund, do address those pressures that you rightly identify.

Mae'n bwysig edrych ar wariant gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn ôl y datganiad o wariant cyhoeddus y llynedd, cafwyd cynnydd yn y gwariant ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o 0.9 y cant mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14, a hynny o'i gymharu â gostyngiad mewn termau real o 4.7 y cant, er enghraifft, yn y gwariant yn Lloegr dros yr un cyfnod. Rwyf eisoes wedi crybwyll y ffigur o £120 y pen yn fwy a werir ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr. Ond mae'n amlwg fod yn rhaid i ni sicrhau bod gwariant ar wasanaethau cymdeithasol ac yn wir, y gronfa gofal canolraddol, yn mynd i'r afael â'r pwysau rydych yn iawn i'w nodi.

13:44 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. Of course, the figures you gave for the growth in social services do not include the current financial year, where the big cut in local government expenditure came about. The increase that you've quoted for health and social services lumps the two together when, in fact, the vast majority of that increase has gone to health and not to social services.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, nid yw'r ffigurau a roesoch ar gyfer y twf yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys y flwyddyn ariannol gyfredol, pan gafwyd y toriad mawr yng ngwariant llywodraeth leol. Mae'r cynnydd rydych wedi'i ddyfynnu ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gosod y ddau gyda'i gilydd er bod y mwyafrif helaeth o'r cynnydd hwnnw wedi mynd tuag at iechyd mewn gwirionedd, ac nid y gwasanaethau cymdeithasol.

I noted the suggestion from Gwenda Thomas about ring-fencing 1 per cent of funding for social services. I'm sure that local authorities would not support that if that came from existing resources, but if you were to provide an additional ring-fenced sum over and above the revenue support grant for social services, I think you would get support from local authorities for that and I think you would also get support from local authorities for that, and I think you would also get support from the health boards as well, who would find that some of the pressure on them has been relieved. Would you consider that?

Nodais yr awgrym gan Gwenda Thomas ynglŷn â chlustnodi 1 y cant o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Rwy'n siŵr na fyddai awdurdodau lleol yn cefnogi hynny pe bai'n dod o adnoddau presennol, ond pe baech yn darparu swm ychwanegol wedi'i glustnodi ar ben y grant cynnal refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, rwy'n credu y byddech yn cael cefnogaeth awdurdodau lleol i hynny ac rwy'n credu y byddech yn cael cefnogaeth gan y byrddau iechyd i wneud hynny hefyd, a fyddai'n gweld bod ychydig o'r pwysau arnynt wedi'i leddfu. A fyddech yn ystyried hynny?

13:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important that we consider not only pressures that are on our budgets, and, again, reminding you—and you're very well aware, Peter Black—of the £46 million taken out of the budget this year by the UK Government—totally unwarranted, totally unnecessary, and having an impact, of course, in terms of the pressures. But it is about priorities as well, and that's why, of course, I welcome very much the pioneering intermediate care fund, which was as a result of the budget agreement with the Welsh Liberal Democrats and Plaid Cymru, providing ways in which we can then identify how we do integrate health and social care effectively.

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y pwysau sydd ar ein cyllidebau, ac yn eich atgoffa unwaith eto—ac rydych yn ymwybodol iawn, Peter Black—o'r £46 miliwn a gafodd ei dorri o'r gyllideb eleni gan Lywodraeth y DU—yn hollol ddireswm, yn hollol ddiangen, ac sy'n cael effaith, wrth gwrs, o ran y pwysau. Ond mae'n ymwneud â blaenoriaethau hefyd, a dyna pam, wrth gwrs, rwy'n croesawu'n fawr y gronfa gofal canolraddol arloesol a ddeilliodd o'r cytundeb cyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru, gan ddarparu ffyrdd o nodi wedyn sut y gallwn integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol.

13:45 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you, again, for that answer, Minister. I recognise that the Welsh Government is in a very difficult position in terms of the finances. I notice also that your supplementary budget effectively covered that £46 million with underspends from the current year's budget, so it didn't directly affect services, although it would've been useful to have that money to spend elsewhere, of course.

Wel, diolch i chi, unwaith eto, am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa anodd iawn o ran y cyllid. Sylwaf hefyd fod eich cyllideb atodol i bob pwrpas wedi darparu ar gyfer y £46 miliwn hwnnw o danwariant cyllideb y flwyddyn gyfredol, fel nad oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau, er y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael yr arian hwnnw i'w wario mewn mannau eraill, wrth gwrs.

Given that you don't have any additional money, would you be looking at trying to redress the balance in terms of how you allocate money between health and social services, and most probably through expanding the intermediate care fund, which, as you say, has had a huge impression in terms of helping to relieve that pressure, but has, of course, been scaled back quite significantly in the current year? If you were to scale that up again in subsequent years, I'm sure that both health boards and local authorities would benefit from that. Would you consider that?

O ystyried nad oes gennych unrhyw arian ychwanegol, a fyddech yn ystyried ceisio unioni'r cydbwysedd o ran sut rydych yn dyrannu arian rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac yn ôl pob tebyg drwy ehangu'r gronfa gofal canolraddol, sydd, fel y dywedwch, wedi gadael argraff fawr o ran helpu i leddfu'r pwysau hwnnw, ond sydd, wrth gwrs, wedi cael ei leihau'n eithaf sylweddol yn ystod y flwyddyn gyfredol? Pe baech yn cynyddu hwnnw eto yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, rwy'n siŵr y byddai'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn elwa o hynny. A fyddech yn ystyried hynny?

13:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is very important that we look to ways in which we can deal not only with the pressures that are on social services, but those on the health service as well—and earlier questions, of course, focused on the health service. It is always a difficult balance and always important that we not only look at priorities and pressures, but also at what's working, and clearly integrating health and social care in Wales is having an impact.

Wel, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar ffyrdd i ni allu mynd i'r afael â'r pwysau, nid yn unig ar wasanaethau cymdeithasol, ond ar y gwasanaeth iechyd hefyd—ac roedd cwestiynau cynharach, wrth gwrs, yn canolbwyntio ar y gwasanaeth iechyd. Mae'n gydbwysedd anodd bob amser ac mae hi bob amser yn bwysig ein bod yn edrych ar flaenoriaethau a phwysau, a hefyd ar yr hyn sy'n gweithio, ac yn amlwg mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael effaith.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Nick Ramsay.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Presiding Officer. Minister, did the First Minister discuss his intention to dismiss the chair of the all-Wales European programme monitoring committee with you in advance of his decision?

Diolch, Lywydd. Weinidog, a wnaeth y Prif Weinidog drafod ei fwriad i ddiswyddo cadeirydd pwyllgor monitro rhaglenni Cymru gyfan ar gyfer cronfeydd Ewrop gyda chi cyn ei benderfyniad?

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is not a matter for me; it is a matter for the First Minister.

Nid yw hyn yn fater i mi; mae'n fater i'r Prif Weinidog.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The ambiguity of that answer, I think, speaks volumes, doesn't it? [Interruption.] Well, Minister—

Mae amwysedd yr ateb hwnnw, rwy'n credu, yn dweud cyfrolau, onid yw? [Torri ar draws.] Wel, Weinidog—

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you are responsible—

Weinidog, rydych yn gyfrifol—

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you are responsible for structural funds, and yesterday we heard you give a statement to this Chamber on the importance of various European programmes and funds to the Welsh economy, at the very same time that the First Minister was busily dismissing the chair of the committee charged with monitoring the programmes—I might add over an unrelated issue, bizarrely.

Weinidog, rydych yn gyfrifol am gronfeydd strwythurol, a ddoe fe'ch clywsom yn rhoi datganiad i'r Siambr hon am bwysigrwydd gwahanol raglenni a chronfeydd Ewropeaidd i economi Cymru, ar yr un pryd yn union ag yr oedd y Prif Weinidog yn brysur yn diswyddo cadeirydd y pwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro'r rhaglenni—a hynny, os caf ychwanegu, dros fater amherthnasol, yn rhyfedd iawn.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That seems a tad undermining to me. Did you agree with his decision?

Mae hynny'n ymddangos braidd yn ddinistriol i mi. A oeddech chi'n cytuno â'i benderfyniad?

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is not an appropriate question to the Minister for Finance and Government Business.

Nid yw hwn yn gwestiwn priodol i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

13:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, you might think it's inappropriate, but I've got your statement from yesterday here, and in that statement, you say,

Wel, Weinidog, efallai eich bod yn credu ei fod yn amhriodol, ond mae'r datganiad a wnaethoch ddoe gennyf yma, ac yn y datganiad hwnnw, rydych yn dweud,

'The next 18 months will be critical for the UK's relationship with the EU and the decisions taken will influence all our lives.'

'The next 18 months will be critical for the UK's relationship with the EU and the decisions taken will influence all our lives.'

Wonderful stuff. On INTERREG, you said

Gwych. Ar INTERREG, fe ddywedoch

'it is…vital that we maximise Welsh engagement'

'it is…vital that we maximise Welsh engagement'

on these issues.

ar y materion hyn.

You've told us how much you value engagement, but that wasn't the message that went out yesterday, was it? Isn't the real message that went out from your Welsh Government yesterday that the Welsh Government is more interested in playing politics with important European positions, rather than getting on with the job of positive engagement and delivery of European funding?

Rydych wedi dweud wrthym cymaint o werth sydd i ymgysylltu yn eich barn chi, ond nid dyna'r neges a fynegwyd ddoe, nage? Onid y neges go iawn a gyflewyd gan Lywodraeth Cymru ddoe oedd bod gan Lywodraeth Cymru fwy o ddiddordeb mewn chwarae gwleidyddiaeth gyda swyddi Ewropeaidd pwysig na mewn bwrw ymlaen â'r gwaith o ymgysylltu'n gadarnhaol a darparu cyllid Ewropeaidd?

13:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I am pleased that you have mentioned the importance of European funding to Wales. I'm very pleased that you acknowledged that I made a significant statement yesterday about progress in terms of the implementation of this phase of European funding and the impact that it's having on individuals, communities and businesses and universities in Wales. I'm delighted to be able, again, to state very clearly how important the European Union is to us, and how glad I am that the Welsh Government is a pro-EU Government. I think that there probably is a lot of support across this Chamber for Wales staying within the European Union, and I hope you will be backing the campaign to ensure that the UK Government is clearly at the forefront of that.

Wel, rwy'n falch eich bod wedi crybwyll pwysigrwydd cyllid Ewropeaidd i Gymru. Rwy'n falch iawn eich bod wedi cydnabod fy mod wedi gwneud datganiad arwyddocaol ddoe ynglŷn â chynnydd ar weithredu'r cam hwn o gyllid Ewropeaidd a'r effaith y mae'n ei chael ar unigolion, cymunedau a busnesau a phrifysgolion yng Nghymru. Rwyf wrth fy modd fy mod yn gallu datgan yn glir iawn, unwaith eto, pa mor bwysig yw'r Undeb Ewropeaidd i ni, a pha mor falch wyf fi fod Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth sydd o blaid yr UE. Rwy'n credu bod llawer o gefnogaeth ar draws y Siambr hon, yn ôl pob tebyg, o blaid gweld Cymru yn aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cefnogi'r ymgyrch i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn amlwg ar flaen y gad ar hynny.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

13:49 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Conservative party committed in its manifesto to introducing a funding floor. Does the Welsh Government have any role in this process, or is the UK Government drawing up its own funding floor without reference to you or to the Government?

Weinidog, mae'r blaid Geidwadol wedi ymrwymo yn ei maniffesto i gyflwyno cyllid gwaelodol. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl yn y broses hon, neu a yw Llywodraeth y DU yn cynllunio ei chyllid gwaelodol ei hun heb drafod gyda chi na'r Llywodraeth?

13:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I did have a meeting with the Chief Secretary to the Treasury only four weeks ago, just before my last set of finance questions. At that meeting, we did discuss the funding floor, and I stressed the urgency of the UK Government now coming back to clarify the implementation of the funding floor in line with the spending review.

Wel, cefais gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys bedair wythnos yn ôl yn unig, ychydig cyn fy set olaf o gwestiynau cyllid. Yn y cyfarfod hwnnw, buom yn trafod y cyllid gwaelodol, a phwysleisiais yr angen i Lywodraeth y DU ddod yn ôl atom ar frys yn awr i egluro sut y rhoddir y cyllid gwaelodol ar waith yn unol â'r adolygiad o wariant.

13:50 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With a funding floor—thank you for that—the devil is, of course, in the detail. A floor does not actually guarantee any additional funding for Wales, and the so-called Barnett squeeze, where Wales loses out financially, only happens when public spending increases. The level of agreed funding is, therefore, important. As Minister, can you confirm what relative level of funding per head we are currently receiving and at which rate you want a floor to be fixed? Was this part of the discussions you had with your counterpart?

Gyda chyllid gwaelodol—diolch i chi am hynny—yn y manylion y mae'r diafol, wrth gwrs. Nid yw cyllid gwaelodol mewn gwirionedd yn gwarantu unrhyw gyllid ychwanegol i Gymru, ac ni fydd gwasgfa Barnett fel y'i gelwir, lle y mae Cymru ar ei cholled yn ariannol, ond yn digwydd pan fydd gwariant cyhoeddus yn cynyddu. Mae lefel y cyllid y cytunir arno'n bwysig felly. Fel Gweinidog, a allwch gadarnhau pa lefel gymharol o gyllid y pen rydym yn ei chael ar hyn o bryd ac ar ba gyfradd y dymunwch osod y cyllid gwaelodol? A oedd hyn yn rhan o'r trafodaethau a gawsoch gyda'ch Gweinidog cyfatebol?

13:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We certainly had discussions about the position we're in now. In fact, it's very pertinent, your question, because, as you recall, three years ago, we had an agreement between the Welsh Government and the UK Government that we would look, prior to every spending review period, to see if there'd been convergence and that if there had been convergence then the two Governments would consider a mechanism for addressing that. Now, we've moved on since then; we've got commitment. We've had commitment from the Prime Minister and all the political parties that we would have a funding floor. That is the mechanism. So, at the meeting, I discussed the fact that we now need to agree the mechanism, as we haven't been in a position of convergence, with the cuts that we've had over the last five years. But, of course, as soon as public funding starts to rise again, then convergence will kick in. We need to have the funding floor implemented now, in advance of the spending review.

Yn sicr cawsom drafodaethau am y sefyllfa rydym ynddi yn awr. Yn wir, mae eich cwestiwn yn berthnasol iawn, oherwydd, fel y cofiwch, dair blynedd yn ôl cawsom gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU y byddem yn edrych, cyn pob cyfnod adolygiad o wariant, i weld a oedd cydgyfeirio wedi bod ac os bu cydgyfeirio yna byddai'r ddwy Lywodraeth yn ystyried mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â hynny. Nawr, rydym wedi symud ymlaen ers hynny; mae gennym ymrwymiad. Rydym wedi cael ymrwymiad gan y Prif Weinidog a'r holl bleidiau gwleidyddol y byddem yn cael cyllid gwaelodol. Dyna'r mecanwaith. Felly, yn y cyfarfod, trafodais y ffaith fod angen i ni gytuno ar y mecanwaith yn awr, gan nad ydym wedi cael cydgyfeirio, gyda'r toriadau a gawsom dros y pum mlynedd diwethaf. Ond wrth gwrs, cyn gynted ag y bydd arian cyhoeddus yn dechrau cynyddu eto, yna bydd cydgyfeirio yn dechrau. Mae angen i ni roi'r cyllid gwaelodol ar waith yn awr, cyn yr adolygiad o wariant.

13:51 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree it's vital for our public services that we know about future relative levels of funding, and the people of Wales do sense that the country is being underfunded and will be unimpressed that this has persisted for so many years, both with the Conservatives and Labour running the UK Government. When can we expect the funding floor agreement to be announced, and is such an announcement linked to income tax being devolved?

Rwy'n cytuno ei bod yn allweddol i'n gwasanaethau cyhoeddus ein bod yn gwybod am lefelau cymharol o gyllid yn y dyfodol, ac mae pobl Cymru yn synhwyro nad yw'r wlad yn cael ei chyllido'n ddigonol, ac ni fyddant yn hapus fod hyn wedi parhau dros gymaint o flynyddoedd, gyda'r Ceidwadwyr a'r Blaid Lafur yn arwain Llywodraeth y DU. Pa bryd y gallwn ddisgwyl gweld y cytundeb cyllid gwaelodol yn cael ei gyhoeddi, ac a yw cyhoeddiad o'r fath yn gysylltiedig â datganoli treth incwm?

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, again, very much welcome the question, Alun Ffred Jones. I would expect, and I, indeed, am calling for the clarity about the funding floor and the implementation of it. We've discussed the mechanisms in terms of how it would be implemented. I would expect that to be announced alongside or, indeed, before the spending review on 25 November.

Unwaith eto, rwy'n croesawu'r cwestiwn yn fawr, Alun Ffred Jones. Byddwn yn disgwyl, ac yn wir, rwy'n galw am eglurder ynghylch y cyllid gwaelodol a'r modd y caiff ei weithredu. Rydym wedi trafod y mecanweithiau o ran sut y byddai'n cael ei roi ar waith. Byddwn yn disgwyl i hynny gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adolygiad o wariant ar 25 Tachwedd, neu'n gynt na hynny, yn wir.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Gwyn Price.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Gwyn Price.

### Polisi Caffael

### Procurement Policy

13:52 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall Llywodraeth Cymru i gael yr effaith orau posibl o bolisi caffael? OAQ(4)0611(FIN)*

*3. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government can maximise the effect of procurement policy? OAQ(4)0611(FIN)*

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have secured a general designation on public procurement and will use these new powers to strengthen adoption of the refreshed Wales procurement policy statement published in June.

Rwyf wedi sicrhau dynodiad cyffredinol ar gaffael cyhoeddus a byddwn yn defnyddio'r pwerau newydd hyn i gryfhau'r broses o fabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru ar ei newydd wedd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

13:52 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Minister, I represent communities that contain significant pockets of deprivation. How can changes to the procurement rules be used to assist these communities?

Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, rwy'n cynrychioli cymunedau sy'n cynnwys pocedi sylweddol o amddifadedd. Sut y gellir defnyddio'r newidiadau i'r rheolau caffael i helpu'r cymunedau hyn?

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are real opportunities now, as a result of this designation and also the fact that we have got new opportunities with the EU directives to ensure that we can have a wider range of disadvantaged workers who can benefit from areas of expenditure that can be reserved for suppliers. So, I'm delighted with the Wales TUC report on better jobs closer to home—their campaign. It's a great example of social partners and Welsh Government developing policy through collaboration, and I'm working closely with them and setting up a task group.

Mae yna gyfleoedd go iawn yn awr, o ganlyniad i'r dynodiad a hefyd y ffaith fod gennym gyfleoedd newydd gyda chyfarwyddebau'r UE i sicrhau y gallwn gael ystod ehangach o weithwyr dan anfantais a all elwa o feysydd gwariant y gellir eu cadw ar gyfer cyflenwyr. Felly, rwyf wrth fy modd gydag adroddiad TUC Cymru ar swyddi gwell yn nes at adref—eu hymgyrch. Mae'n enghraifft wych o bartneriaid cymdeithasol a Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi drwy gydweithio, ac rwy'n gweithio'n agos gyda hwy ac yn sefydlu grŵp gorchwyl.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next questioner, then, is Paul Davies.

Yr holwr nesaf, felly, yw Paul Davies.

13:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Minister, earlier this year, Pembrokeshire County Council was recognised by the Wales procurement awards for their work on e-procurement and procurement collaboration. In light of Pembrokeshire's success in this area, what is the Welsh Government doing to ensure that this best practice is actually rolled out across Wales?

Diolch, Lywydd. Weinidog, yn gynharach eleni, cafodd Cyngor Sir Penfro ei gydnabod gan wobrau caffael Cymru am ei waith ar e-gaffael a chydweithio ym maes caffael. Yng ngoleuni llwyddiant Sir Benfro yn y maes hwn, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod arfer gorau o'r fath yn cael ei gyflwyno ledled Cymru?

13:54 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was at the awards ceremony, and was very pleased to also congratulate Pembrokeshire County Council on their e-procurement success. Of course, that was one of the purposes of the ceremony and, in fact, of a week of focusing on procurement to spread the word to enable good practice to be shared, but very much in line with our Wales procurement policy statement.

Roeddwn yn y seremoni wobrwyo, ac roeddwn yn falch iawn hefyd o gael llongyfarch Cyngor Sir Penfro ar eu llwyddiant ym maes e-gaffael. Wrth gwrs, dyna oedd un o ddibenion y seremoni, ac wythnos o ganolbwyntio ar gaffael mewn gwirionedd, er mwyn lledaenu'r neges a galluogi arferion da i gael eu rhannu, ond yn unol iawn â datganiad polisi caffael Cymru.

13:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure you'll agree with me that there are many areas where the third sector could potentially deliver public services in an effective and cost-effective manner. However, I've been approached by representatives of the Community Transport Association who have disclosed to me that there are difficulties with the way that local authorities are bundling contracts that are preventing them from being able to engage with those contracts. I wonder if you'd agree to write to local authorities in Wales and ask them to review the way in which they package contracts together to make sure that they're not disenfranchising third sector operators.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi fod yna nifer o feysydd lle y gallai'r trydydd sector ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd effeithiol a chosteffeithiol. Fodd bynnag, daeth cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol i gysylltiad â mi i nodi bod yna anawsterau gyda'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn bwndelu contractau gan eu hatal rhag gallu ymgeisio am y contractau hynny. Tybed a fyddech yn fodlon ysgrifennu at awdurdodau lleol Cymru i ofyn iddynt adolygu'r ffordd y maent yn pecynnu contractau gyda'i gilydd er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn difreinio gweithredwyr y trydydd sector.

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

It's very helpful to have that feedback from community transport providers, and I'd certainly like you to write to me about it. But I would say that I hope they are aware and have been thinking of utilising the joint bidding guide, because that is a bidding guide that was developed with the Wales Council for Voluntary Action, and indeed the Wales Co-operative Centre, to enable third sector providers like community transport to be able to access these contracts.

Mae cael yr adborth hwnnw gan ddarparwyr trafnidiaeth gymunedol yn ddefnyddiol iawn, a byddwn yn sicr yn hoffi i chi ysgrifennu ataf ynglŷn â'r mater. Ond hoffwn ddweud fy mod yn gobeithio eu bod yn ymwybodol ac wedi bod yn meddwl am ddefnyddio'r canllaw cynnig ar y cyd, gan fod hwnnw'n ganllaw cynnig a ddatblygwyd gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, i alluogi darparwyr trydydd sector fel cludiant cymunedol i gynnig am y contractau hyn.

Senedd.tv Fideo Video

### Buddsoddiad Seilwaith Mawr

### Major Infrastructure Investment

13:55 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad seilwaith mawr yng ngorllewin Nghymru? OAQ(4)0606(FIN)*

*4. Will the Minister make a statement on major infrastructure investment in west Wales? OAQ(4)0606(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The Wales infrastructure investment plan pipeline provides details of capital projects across all parts of Wales, including west Wales.

Mae piblinell y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn rhoi manylion am brosiectau cyfalaf ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys gorllewin Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

As you're already aware, Minister, I'm a keen advocate of dualling the A40 in my constituency, which I believe will significantly support the local and, indeed, the national economy. The Minister for Economy Science and Transport's feasibility study showed that dualling the A40 could provide positive returns in the longer term. In light of this study, can you tell us what role your department is taking in sourcing innovative financing options for any expansion of the A40? And will you tell us what funding sources are actually being considered?

Fel rydych eisoes yn ymwybodol, Weinidog, rwy'n gefnogwr brwd i ddeuoli'r A40 yn fy etholaeth, a fydd, yn fy marn i, yn cefnogi'r economi leol yn sylweddol, ac yn wir, yr economi genedlaethol. Dangosodd astudiaeth ddichonoldeb Gweinidog yr Economi Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y gallai deuoli'r A40 sicrhau enillion cadarnhaol yn y tymor hwy. Yng ngoleuni'r astudiaeth hon, a allwch ddweud wrthym pa rôl sydd gan eich adran chi yn y gwaith o ddod o hyd i opsiynau ariannu arloesol ar gyfer lledu'r A40? Ac a wnewch chi ddweud wrthym pa ffynonellau ariannu sy'n cael eu hystyried mewn gwirionedd?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Thank you, Paul Davies. The Minister for Economy, Science and Transport, as you said, made a statement in June, providing the update on A40 improvement studies and indicating intentions to take the work forward. Just in terms of EU funds, which, of course, is one important stream, just over £85 million has been prioritised for trans-European transport networks, which does include sections of the A40 and A55.

Diolch i chi, Paul Davies. Fel y dywedasoch, gwnaed datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Mehefin a ddarparai'r wybodaeth ddiweddaraf am astudiaethau gwella'r A40 ac yn nodi bwriadau i fwrw ymlaen â'r gwaith. O ran cronfeydd yr UE, sydd, wrth gwrs, yn un ffrwd bwysig, mae ychydig dros £85 miliwn wedi cael ei flaenoriaethu ar gyfer rhwydweithiau trafnidiaeth traws-Ewropeaidd, sy'n cynnwys rhannau o'r A40 a'r A55.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure you're aware that the Minister for Economy, Science and Transport has her transport infrastructure plan, and in that plan there is a proposal to trunk the current Cleddau bridge, which is a toll bridge—75p each way. Trunking means that it then becomes the responsibility of the national Government. I'm sure, after everything you've said about the Severn tolls, you're not keen to become toll collectors on behalf of the local people of Pembrokeshire, particularly as this is a tax on tourism and bringing local communities together. So, when that trunking does happen, what financial preparations are you making, as the finance Minister, to take over that debt, although there's some confusion about the exact size of it, and certainly what you'll be doing, in time, to get rid of the tolls on the Cleddau bridge?

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei chynllun seilwaith trafnidiaeth, ac yn y cynllun hwnnw mae cynnig i greu statws cefnffordd i bont Cleddau, sy'n dollbont—75c i'r ddau gyfeiriad. Mae creu statws cefnffordd yn golygu y daw'n gyfrifoldeb i'r Llywodraeth genedlaethol wedyn. Ar ôl popeth rydych wedi'i ddweud am dollau'r Hafren, rwy'n siŵr nad ydych yn awyddus i ddod yn gasglwyr tollau ar ran pobl leol Sir Benfro, yn enwedig gan fod hon yn doll ar dwristiaeth a dod â chymunedau lleol at ei gilydd. Felly, pan ddaw'r statws cefnffordd i rym, pa baratoadau ariannol rydych yn eu gwneud, fel Gweinidog cyllid, i fabwysiadu'r ddyled honno, er bod rhywfaint o ddryswch ynghylch ei hunion faint, ac yn sicr beth fyddwch yn ei wneud, ymhen amser, i gael gwared ar y tollau ar bont Cleddau?

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'll certainly look into this and report back on the arrangements that will follow in terms of trunking the Cleddau bridge.

Wel, byddaf yn sicr yn edrych ar hyn ac yn adrodd yn ôl ar y trefniadau a fydd yn dilyn o ran creu statws cefnffordd i bont Cleddau.

### Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

### Substance Misuse Services

13:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn dyrannu i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau? OAQ(4)0616(FIN)*

*5. What additional funding will the Minister allocate to the Minister for Health and Social Services to support substance misuse services? OAQ(4)0616(FIN)*

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This year we've invested almost £50 million in support of our commitments set out in the substance misuse strategy.

Eleni, rydym wedi buddsoddi bron i £50 miliwn i gefnogi ein hymrwymiadau a nodwyd yn y strategaeth camddefnyddio sylweddau.

13:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Well, when the European Court of Auditors prematurely ended the substance misuse peer mentoring scheme in March 2014, after expressing concerns about the Welsh Government's audit of the scheme, the six drug and alcohol charities in Wales delivering it said that the cessation of the service was a severe blow for health, substance misuse and criminal justice in Wales. What action, now we are into a new round of European funding, have you taken to ensure that funding is put in place to support such a peer mentoring scheme into the future?

Diolch. Wel, pan ddaeth Llys Archwilwyr Ewrop â chynllun mentora cymheiriaid camddefnyddio sylweddau i ben ym mis Mawrth 2014, ar ôl mynegi pryderon am archwiliad Llywodraeth Cymru o'r cynllun, dywedodd y chwe elusen cyffuriau ac alcohol yng Nghymru a oedd yn ei gyflwyno fod rhoi'r gorau i'r gwasanaeth yn ergyd ddifrifol i iechyd, camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Gan ein bod bellach mewn cylch newydd o gyllid Ewropeaidd, pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi cynllun mentora cymheiriaid o'r fath yn y dyfodol?

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think it's important to recognise that the Welsh Government invests £32 million from our substance misuse action plan, including £22 million, which goes to seven area planning boards that commission those substance misuse services for their regions, and also to recognise that in terms of the tier 4 working group, of course, which was established back in 2013, £1 million of this funding is ring-fenced for that. So, the local health boards are clearly very involved in taking this forward. Any new opportunities for European funding in terms of successor projects of course will be considered in due course.

Credaf ei bod yn bwysig cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £32 miliwn o'n cynllun gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys £22 miliwn i saith bwrdd cynllunio ardal sy'n comisiynu'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hynny ar gyfer eu hardaloedd, a chydnabod hefyd, o ran gweithgor haen 4, wrth gwrs, a sefydlwyd yn ôl yn 2013, fod gwerth £1 miliwn o'r cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer hynny. Felly, mae'r byrddau iechyd lleol yn amlwg yn weithgar iawn yn y broses o fwrw ymlaen â hyn. Bydd unrhyw gyfleoedd newydd am gyllid Ewropeaidd o ran prosiectau olynol, wrth gwrs, yn cael eu hystyried maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, when allocating the £50 million, I understand £5 million was for residential and detox centres. Has any consideration been given to those areas where it can be evidenced that there is clear inadequate funding? Mark Isherwood's region, for example—the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area—has only one detox and rehab centre, with just seven residential places available.

Weinidog, wrth ddyrannu'r £50 miliwn, rwy'n deall bod £5 miliwn o hwnnw ar gyfer canolfannau preswyl a dadwenwyno. A oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i ardaloedd y gellir dangos yn amlwg nad ydynt yn cael digon o gyllid? Un canolfan ddadwenwyno ac adsefydlu sydd yn rhanbarth Mark Isherwood, er enghraifft—ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr—a dim ond saith o leoedd preswyl sydd ar gael.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The tier 4 working group that I've mentioned, established in 2013, has advised on the residential rehabilitation framework for Wales, and that's to ensure that substance misusers across Wales receive that quality treatment and support. I am sure that further questions to the Deputy Minister for Health will clarify this further.

Mae'r gweithgor haen 4 y soniais amdano, a sefydlwyd yn 2013, wedi bod yn rhoi cyngor ar y fframwaith adsefydlu preswyl ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod camddefnyddwyr sylweddau ledled Cymru yn cael triniaeth a chymorth o ansawdd. Rwy'n siŵr y bydd cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog Iechyd yn egluro hyn ymhellach.

Senedd.tv Fideo Video

### Bargen Ddinesig

### City Deal

13:59 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau ynghylch bargen ddinesig posibl yng Nghymru? OAQ(4)0614(FIN)*

*6. Will the Minister provide an update on her discussions regarding a possible city deal in Wales? OAQ(4)0614(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Following my written statement in July, a proposal for a city deal for the Cardiff capital region is being developed.

Yn dilyn fy natganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf, mae cynnig ynglŷn â chytundeb dinas ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd yn cael ei ddatblygu.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response, and I think it's great that the 10 councils have come together in south-east Wales and are working together with the Welsh Government to come up with a business proposal. Could she update us on how far those discussions have gone, and is it possible for her to give us any indication of a timeline as to when these negotiations might be concluded?

Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb, ac rwy'n credu ei bod yn wych fod y 10 cyngor wedi dod at ei gilydd yn ne-ddwyrain Cymru a'u bod yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu cynnig busnes. A yw hi'n gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynglŷn â pha mor bell y mae'r trafodaethau hynny wedi mynd, ac a yw'n bosibl iddi roi rhyw syniad o linell amser i ni o ran pa bryd y cwblheir y trafodaethau?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank the Member for Cardiff North for that question. I'm pleased to follow on from earlier points made about the progress with the Cardiff city deal. It's a huge opportunity. It's a big opportunity for the region and for Wales. It's very positive, as you said, that 10 local authorities have come together to back the campaign. I have met with them; I have met with all the leaders. They have a working group, in terms of chief executives and leaders. Also, our officials are working closely on this. I have to again say that all partners are working very closely together with that shared ambition to develop a proposal. Good progress is being made—central to the successful delivery of a future city deal. But also, we are learning from others. I was talking about this with the finance Minister in Scotland, in terms of the city deal for Glasgow and further city deals being considered. I have also met with the Core Cities commission, which came to Cardiff. Also, at that meeting, I was able to meet with the leader of greater Manchester council, in terms of the northern powerhouse, looking at links to north Wales, as well as meeting with the Chief Secretary to the Treasury and the Secretary of State for Wales on the city deal.

Wel, diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn. Rwy'n falch o ddilyn y pwyntiau a wnaed yn gynharach ynghylch y cynnydd ar gytundeb dinas Caerdydd. Mae'n gyfle enfawr. Mae'n gyfle mawr i'r rhanbarth ac i Gymru. Mae'n gadarnhaol iawn, fel y dywedoch, fod 10 awdurdod lleol wedi dod at ei gilydd i gefnogi'r ymgyrch. Rwyf wedi cyfarfod â hwy; rwyf wedi cwrdd â'r holl arweinwyr. Mae ganddynt weithgor o brif weithredwyr ac arweinwyr. Hefyd, mae ein swyddogion yn gweithio'n agos ar hyn. Mae'n rhaid i mi ddweud eto fod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n agos iawn ac yn rhannu'r uchelgais i ddatblygu cynnig. Mae cynnydd da yn cael ei wneud—sy'n ganolog i ddarparu cytundeb dinas llwyddiannus yn y dyfodol. Ond hefyd, rydym yn dysgu gan eraill. Roeddwn yn siarad am hyn gyda Gweinidog cyllid yr Alban, mewn perthynas â'r cytundeb dinas ar gyfer Glasgow a chytundebau dinasoedd eraill sy'n cael eu hystyried. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â chomisiwn Core Cities, a ddaeth i Gaerdydd. Hefyd, yn y cyfarfod hwnnw, cefais gyfle i gyfarfod ag arweinydd cyngor Manceinion Fwyaf mewn perthynas â'r pwerdy gogleddol hwnnw, gan edrych ar gysylltiadau â gogledd Cymru, a chefais gyfarfodydd hefyd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y cytundeb dinas.

14:01 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Prime Minister has highlighted that a very exciting potential exists for the city deal for Cardiff. The Secretary of State for Wales reports that he had very productive meetings with council and business leaders. Craig Williams, the newly elected MP for Cardiff North, referred to the city deal for Cardiff in his maiden speech in Parliament. As you have said this afternoon, everybody realises that city deal is a really good idea. It will also benefit the region that I represent. But, Minister, please could you tell us what benefits are going to be achieved within a timescale?

Mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio bod potensial cyffrous iawn i gytundeb dinas Caerdydd. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn dweud ei fod wedi cael cyfarfodydd cynhyrchiol iawn gydag arweinwyr cynghorau a busnesau. Cyfeiriodd Craig Williams, yr AS sydd newydd ei ethol dros Ogledd Caerdydd, at gytundeb dinas Caerdydd yn ei araith gyntaf yn y Senedd. Fel rydych wedi'i ddweud y prynhawn yma, mae pawb yn sylweddoli bod cytundeb dinas yn syniad da iawn. Bydd hefyd o fudd i'r rhanbarth rwy'n ei chynrychioli. Ond Weinidog, os gwelwch yn dda, a wnewch chi ddweud wrthym pa fanteision sy'n mynd i gael eu cyflawni o fewn amserlen?

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's important, in terms of the development of the proposal, that it is coming from the local authorities, and you know that we're working very collaboratively with the local authorities in taking this forward. But also, they did submit a high-level proposal by the beginning of September, which, of course, was in accord with many other city deal proposals that were coming forward from other parts of the UK. But, each city deal is bespoke, recognising the needs of those particular regions. Of course, we are looking at increasing infrastructure investment to boost the economy, and looking at wider issues in relation to connectivity, innovation and skills.

O ran datblygiad y cynnig, rwy'n credu ei bod yn bwysig ei fod yn dod gan yr awdurdodau lleol, ac fe wyddoch ein bod yn gweithio'n gydweithredol iawn gyda'r awdurdodau lleol wrth fwrw ymlaen â hyn. Ond hefyd, cyflwynasant gynnig lefel uchel erbyn dechrau mis Medi a oedd yn cyd-fynd â llawer o gynigion cytundeb dinas eraill a gyflwynwyd o rannau eraill y DU. Ond mae pob cytundeb dinas yn bwrpasol, ac yn cydnabod anghenion y rhanbarthau penodol hynny. Wrth gwrs, rydym yn ystyried cynyddu buddsoddiad yn y seilwaith i hybu'r economi ac yn edrych ar faterion ehangach o ran cysylltedd, arloesedd a sgiliau.

### Rhaglenni Ewropeaidd

### European Programmes

14:03 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon mewn perthynas â rhaglenni Ewropeaidd? OAQ(4)0610(FIN)[W]*

*7. Will the Minister make a statement on collaboration between Wales and Ireland in relation to European programmes? OAQ(4)0610(FIN)[W]*

14:03 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On 2 October in Brussels, I launched a new Wales action plan for maximising Welsh engagement in European territorial co-operation programmes during 2014-2020, including the €100 million Ireland-Wales programme.

Ar 2 Hydref ym Mrwsel, lansiais gynllun gweithredu newydd i Gymru newydd ar gyfer hybu ymgysylltiad Cymru i'r eithaf â rhaglenni cydweithio tiriogaethol Ewropeaidd yn ystod 2014-2020, gan gynnwys y rhaglen Iwerddon Cymru sy'n werth €100 miliwn.

14:03 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. It was a matter of some concern to myself and other Members of the Assembly's Enterprise and Business Committee at recent meetings in the Republic of Ireland that there appeared to be little awareness there in Government, at ministerial level and across other bodies and organisations, of contact or collaborations with the Welsh Government. Will the Minister give an assurance that, in the delivery of projects that could make use of European funding that would be mutually beneficial to both Ireland and Wales, there will be an increased effort by the Welsh Government to seek to form partnerships? In particular, will the Minister give an undertaking to work closely with the Dublin Port Company on the delivery of improvements to port access at Holyhead port?

Diolch. Roedd yn fater o gryn bryder i mi ac Aelodau eraill o Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad mewn cyfarfodydd diweddar yng Ngweriniaeth Iwerddon ei bod yn ymddangos mai ychydig o ymwybyddiaeth sydd gan y Llywodraeth yno, ar lefel weinidogol ac ar draws cyrff a sefydliadau eraill, o gyswllt neu drefniadau cydweithio â Llywodraeth Cymru. Yn y gwaith o gyflawni prosiectau a allai wneud defnydd o gyllid Ewropeaidd a fyddai o fudd i Iwerddon a Chymru, a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ymdrech i geisio ffurfio partneriaethau? Yn benodol, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i weithio'n agos â'r Dublin Port Company ar ddarparu gwelliannau i'r mynediad i'r porthladd ym mhorthladd Caergybi?

14:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the new Ireland-Wales programme will build on the success of the former ground, where we have strong Irish-Welsh partner projects—and I'm sure you were made well aware of them—such as the Wales Ireland network for social entrepreneurship and Celtic Wave. They have assisted over 1,700 businesses, created 100 new businesses and almost 300 new jobs. There are such strong synergies between the Irish and Welsh Governments in terms of our aspirations for economic growth and jobs. Also, of course, this complements, very clearly, the regional structural funds programme investment. Having launched the new Ireland-Wales programme in Wales, in Swansea, and having been to Ireland and met with the Minister, and, indeed, having met with projects across Ireland, of course I'd want to take up any opportunities and would be very glad to follow up that contact that you mentioned.

Bydd y rhaglen Iwerddon Cymru newydd yn adeiladu ar lwyddiant blaenorol, lle y mae gennym brosiectau partneriaeth cryf rhwng Iwerddon a Chymru—ac rwy'n siŵr eich bod wedi cael gwybod llawer amdanynt—fel rhwydwaith Cymru Iwerddon ar gyfer entrepreneuriaeth gymdeithasol a Celtic Wave. Maent wedi cynorthwyo dros 1,700 o fusnesau ac wedi creu 100 o fusnesau a bron i 300 o swyddi newydd. Mae yna synergedd mor gryf rhwng Llywodraethau Iwerddon a Chymru o ran ein dyheadau am dwf economaidd a swyddi. Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn ategu buddsoddiad rhaglenni'r cronfeydd strwythurol rhanbarthol yn amlwg iawn. Ar ôl lansio'r rhaglen Iwerddon Cymru newydd yng Nghymru, yn Abertawe, ac ar ôl bod yn Iwerddon a chyfarfod â'r Gweinidog, ac yn wir, ar ôl cyfarfod â phrosiectau ledled Iwerddon, byddwn yn awyddus, wrth gwrs, i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd ac yn falch iawn o fynd ar drywydd y cysylltiad a grybwyllwyd gennych.

14:05 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I also believe in the importance of working with Ireland. We are missing the Swansea-Cork ferry, unfortunately—the old Innisfallen, which many of us remember. I want to raise the importance of the road and sea links from Ireland to continental Europe. What can be done to improve transport links between Ireland and Wales?

Rwyf hefyd yn credu ei bod hi'n bwysig gweithio gydag Iwerddon. Rydym wedi colli'r fferi rhwng Abertawe a Chorc, yn anffodus—yr hen Innisfallen, y mae llawer ohonom yn ei chofio. Hoffwn grybwyll pwysigrwydd y cysylltiadau ffordd a môr o Iwerddon i gyfandir Ewrop. Beth y gellir ei wneud i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Iwerddon a Chymru?

14:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, it's an important collaboration that we're developing through the Ireland-Wales arrangement programme. In terms of EU funds, I mentioned earlier on that just over £85 million is being prioritised for the TEN-T road network, which does include sections of the A40 and the A55. So, the A40, providing that important regional, national and international link with access to the ports of Fishguard and Milford Haven, and access to Haven waterway enterprise zones. And the A55, again, the main economic artery for the whole of north Wales, but also forming part of the Euroroute 22—that's the trans-European route from Dublin in Ireland to Ishim in Russia. So, we're playing an important role here. So, I think, obviously, issues like the Swansea-Cork ferry are a matter for the Minister for Economy, Science and Transport, and she’s working with partners to maximise opportunities for linkages to Ireland and into England, Europe and beyond.

Unwaith eto, mae’r cydweithrediad rydym yn ei ddatblygu drwy drefniant y rhaglen Iwerddon Cymru yn bwysig. O ran arian yr UE, soniais yn gynharach fod ychydig dros £85 miliwn yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y rhwydwaith ffordd TEN-T, sy’n cynnwys adrannau o’r A40 a’r A55. Felly, mae’r A40 yn darparu’r cyswllt rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol pwysig hwnnw gyda mynediad i borthladdoedd Abergwaun ac Aberdaugleddau, a mynediad i ardaloedd menter dyfrffordd Aberdaugleddau. A’r A55, unwaith eto, prif wythïen economaidd gogledd Cymru gyfan, ond sydd hefyd yn ffurfio rhan o’r Euroroute 22—sef y llwybr traws-Ewropeaidd o Ddulyn yn Iwerddon i Ishim yn Rwsia. Rydym yn chwarae rhan bwysig yma. Felly, wrth gwrs, mae materion fel y fferi rhwng Abertawe a Chorc yn fater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ac mae hi’n gweithio gyda phartneriaid i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd am gysylltiadau ag Iwerddon ac i Loegr, Ewrop a thu hwnt.

14:06 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the budget for the Ireland-Wales co-operation programme has been has been increased to €100 million for 2014-20, utilising €79 million in ERDF grant. What targets, Minister, have been set by the Welsh Government for this programme, to monitor its success and to ensure that this money is spent effectively to deliver real benefit for Wales?

Weinidog, mae’r gyllideb ar gyfer y rhaglen gydweithredu rhwng Iwerddon a Chymru wedi’i chynyddu i €100 miliwn ar gyfer 2014-20, gan ddefnyddio €79 miliwn o grant ERDF. Weinidog, pa dargedau y mae Llywodraeth Cymru wedi’u gosod ar gyfer y rhaglen hon, i fonitro ei llwyddiant ac i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario’n effeithiol er mwyn darparu budd go iawn i Gymru?

14:07 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you again for laying out the importance of the investment that’s being made in the new Ireland-Wales programme, of course very clearly delivering on those transnational projects, following on from the partner projects that were so successful in the first round. We have an action plan, of course, and I launched the maximising opportunities action plan in Brussels only a couple of weeks ago, and that actually lays out how we are going to ensure that we have maximum engagement in the European territorial co-operation projects. But, in terms of delivery, we have a programme technical group, we have Ireland-Wales operations officers who are working very closely with partners to accelerate development, and the programme steering group is meeting on 5 November to consider operations for funding. First formal approvals are in fact expected in early 2016.

Diolch i chi unwaith eto am nodi pwysigrwydd y buddsoddiad yn y rhaglen Iwerddon Cymru newydd, sydd, wrth gwrs, yn amlwg yn cyflawni gwaith ar y prosiectau trawswladol hynny, gan arwain ymlaen o’r prosiectau partneriaeth a oedd mor llwyddiannus yn y cylch cyntaf. Mae gennym gynllun gweithredu, wrth gwrs, a lansiais y cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau’r cyfleoedd gorau posibl ym Mrwsel ychydig wythnosau yn ôl, ac mae hwnnw’n nodi sut rydym am sicrhau y bydd ein hymgysylltiad â phrosiectau cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd cystal ag y gall fod. Ond o ran cyflawni, mae gennym grŵp technegol ar gyfer y rhaglen, mae gennym swyddogion gweithrediadau Iwerddon Cymru sy’n gweithio’n agos iawn gyda phartneriaid i gyflymu datblygiad, a bydd grŵp llywio’r rhaglen yn cyfarfod ar 5 Tachwedd i ystyried gweithgarwch ar gyfer cyllido. Disgwylir y cymeradwyaethau ffurfiol cyntaf yn gynnar yn 2016.

14:08 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, as you know, the Ireland-Wales cross-border programme 2014-20 is currently funding a number of projects such as the advanced communication technologies—or ACT—project in my region, in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire, and it's also actively linking up communities in south Tipperary and Kilkenny. Following last year's announcement that the programme would be receiving an additional £75 million, Minister, would you agree with me that these funds must be monitored carefully to ensure that the projects delivered bring tangible benefits to the communities in which that money is invested? And, would it be possible to explore the feasibility of the Cleddau bridge trunking being explored as a potential for considerable benefit from that investment in the next period?

Arweinydd y tŷ, fel y gwyddoch, mae rhaglen drawsffiniol Iwerddon Cymru 2014-20 ar hyn o bryd yn ariannu nifer o brosiectau megis y prosiect technolegau cyfathrebu uwch —neu ACT—yn fy rhanbarth, yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, ac mae hefyd yn mynd ati i gysylltu cymunedau yn ne Tipperary a Kilkenny. Yn dilyn cyhoeddiad y llynedd y byddai'r rhaglen yn derbyn £75 miliwn yn ychwanegol, Weinidog, a fyddech yn cytuno bod yn rhaid monitro'r cronfeydd hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod y prosiectau a gyflawnir yn creu manteision gwirioneddol i'r cymunedau lle y buddsoddir yr arian? Ac a fyddai'n bosibl archwilio dichonoldeb creu statws cefnffordd i bont Cleddau fel mater â photensial i sicrhau budd sylweddol o'r buddsoddiad yn y cyfnod nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving some examples of the benefits of the Ireland-Wales co-operation programme 2007-13, because those benefits, or examples of them, are located all across Wales. That had very clear priorities in terms of knowledge, innovation, skills for growth, climate change and sustainable regeneration. In that round, in fact, the managing authority was the southern and eastern regional assembly in Waterford in Ireland, but we have now taken over as the managing authority, and it is important that it is now located in our Welsh European Funding Office. We do have to look in terms of the new opportunities; the focus of the new programme is clearly on sustainable jobs and growth, building on the achievements of the Ireland-Wales cross-border programme for 2007-13. I think it's important that we recognise that those operations, those projects, have to involve partner organisations from both Wales and Ireland, with one organisation taking the lead.

Diolch i chi am roi rhai enghreifftiau o fanteision rhaglen gydweithredu Iwerddon Cymru 2007-13, gan fod y manteision hynny, neu enghreifftiau ohonynt, i'w gweld ledled Cymru. Roedd blaenoriaethau clir iawn yn y rhaglen o ran gwybodaeth, arloesedd, sgiliau ar gyfer twf, newid yn yr hinsawdd ac adfywio cynaliadwy. Yn y cylch hwnnw, mewn gwirionedd, yr awdurdod rheoli oedd cynulliad rhanbarthol y de a'r dwyrain yn Waterford yn Iwerddon, ond rydym bellach wedi cymryd yr awenau fel yr awdurdod rheoli, ac mae'n bwysig ei fod wedi'i leoli yn awr yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'n rhaid i ni edrych ar y cyfleoedd newydd; mae ffocws y rhaglen newydd yn glir ar swyddi a thwf cynaliadwy, gan adeiladu ar gyflawniadau rhaglen drawsffiniol Iwerddon Cymru ar gyfer 2007-13. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod yn rhaid i'r gweithrediadau hynny, y prosiectau hynny, gynnwys sefydliadau partner o Gymru ac Iwerddon, gydag un sefydliad yn arwain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

### Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Health and Social Services Portfolio

14:10 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0608(FIN)*

*8. Will the Minister make a statement on funding allocated to the health and social services portfolio in the fourth Assembly? OAQ(4)0608(FIN)*

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm going back to the fact that I did group this. It was supposed to be grouped, this, with question 1, but you weren't in the Chamber at that point, Darren Millar. So, I repeat my reply to Llyr Gruffydd.

I recently announced an additional £58.8 million to the health and social services main expenditure group in this financial year.

Rwy'n dychwelyd at y ffaith fy mod wedi grwpio hyn. Roedd i fod i gael ei grwpio gyda chwestiwn 1, ond nid oeddech yn y Siambr bryd hynny, Darren Millar. Felly, rwy'n ailadrodd fy ateb i Llyr Gruffydd.

Yn ddiweddar, cyhoeddais £58.8 miliwn ychwanegol i brif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You will be aware that, had you stuck to our spending plans, the national health service in Wales would have received an additional £1 billion over the past five years. Instead, because of your Government's plans, it received the deepest and the worst cuts of any of the UK nations. In fact, in one year it lost almost £0.25 billion—in a single year. Given the pressures that our national health service is now under, and having seen the impact of your record-breaking cuts on services across Wales, do you regret those cuts, and will you agree to take forward a commitment to spend in line with the increase in the Barnett consequential that will result from the increase in health spending in England throughout the next Assembly?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol, pe baech wedi cadw at ein cynlluniau gwario, y byddai'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru wedi derbyn £1 biliwn yn ychwanegol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn lle hynny, oherwydd cynlluniau eich Llywodraeth, dioddefodd doriadau dyfnach a gwaeth nag unrhyw wlad arall yn y DU. Yn wir, mewn un flwyddyn collodd bron i £0.25 biliwn—mewn un flwyddyn. O ystyried y pwysau sydd ar ein gwasanaeth iechyd gwladol yn awr, ac ar ôl gweld effaith y toriadau mwyaf erioed gennych ar wasanaethau ledled Cymru, a ydych yn edifarhau am y toriadau hynny, ac a gytunwch i fwrw ymlaen ag ymrwymiad i wario yn unol â'r cynnydd yn y cyllid canlyniadol Barnett a fydd yn deillio o'r cynnydd yn y gwariant ar iechyd yn Lloegr drwy gydol y Cynulliad nesaf?

14:11 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do regret, Darren Millar, that you weren't here earlier on this afternoon to hear the answers to the questions, because I was able to very clearly answer a question that was put to me about our investment in the health service, showing that investment has reached record levels, with over £6.7 billion allocated to health and social services—and that includes the £1.1 billion we've invested in the NHS over the last two years.

Rwy'n edifarhau, Darren Millar, nad oeddech yma yn gynharach y prynhawn yma i glywed yr atebion i'r cwestiynau, gan i mi allu ateb cwestiwn a ofynnwyd i mi am ein buddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd yn eglur iawn, gan ddangos bod buddsoddiad wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed, gyda thros £6.7 biliwn wedi'i ddyrannu i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol—ac mae hynny'n cynnwys y £1.1 biliwn rydym wedi'i fuddsoddi yn y GIG yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

But if we were in the position where your budget from 2010 had been adopted, look at the cuts that we would have seen in our public services: 12.5 per cent cuts in social justice and local government; 12 per cent cuts in education, children and lifelong learning; 30 per cent cuts in economy and transport; and, across the board, you would be making those cuts if we'd had your budget from 2010. So, be pleased with the budget that has been brought forward by this Welsh Labour Government, despite the fact that your Government has cut again, in year, our budget by £46 million, and the Chancellor is now saying that they're going to look for £37 billion-worth of cuts in the forthcoming spending review.

Ond pe baem yn y sefyllfa lle y byddai eich cyllideb chi yn 2010 wedi'i mabwysiadu, edrychwch ar y toriadau y byddem wedi'u gweld yn ein gwasanaethau cyhoeddus: toriad o 12.5 y cant i gyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol; toriad o 12 y cant i addysg, plant a dysgu gydol oes; toriad o 30 y cant i'r economi a thrafnidiaeth; a byddech yn gwneud y toriadau hynny ym mhob maes pe baem wedi cael eich cyllideb chi yn 2010. Felly, byddwch yn falch o'r gyllideb a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru, er gwaethaf y ffaith fod eich Llywodraeth chi wedi torri £46 miliwn oddi ar ein cyllideb mewn blwyddyn, a'r Canghellor yn dweud yn awr eu bod yn mynd i chwilio am werth £37 biliwn o doriadau yn yr adolygiad o wariant sydd ar ddod.

14:12 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, pan roddwyd bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr i fewn i fesurau arbennig rai misoedd yn ôl, un o'r rhesymau oedd y ffaith bod eu sefyllfa ariannol nhw wedi gwaethygu yn annisgwyl. Ddoe, o fewn adroddiad i'r bwrdd, fe ddywedwyd bod y sefyllfa ariannol wedi gwaethygu unwaith eto i ddiffyg o £30 miliwn. Felly, a gaf i ailadrodd cwestiwn Llyr Huws Gruffydd na chafodd ei ateb yn y lle cyntaf? A fyddwch chi yn rhoi arian ychwanegol i'r bwrdd iechyd yn y gogledd o achos eu sefyllfa ariannol nhw, wrth gofio, wrth gwrs, mewn rhai blynyddoedd yn y gorffennol maen nhw wedi cael gwared ar driniaethau er mwyn cael arian ar gyfer y misoedd olaf yn y flwyddyn ariannol?

Minister, when Betsi Cadwaladr health board was put into special measures some months ago, one of the reasons was the fact that its financial situation had worsened unexpectedly. Yesterday, in a report to the board, it was said that the financial situation had worsened once more to a deficit of £30 million. So, may I repeat Llyr Huws Gruffydd's question that didn't receive an answer in the first place? Will you be giving additional money to the health board in north Wales as a result of their financial situation, given of course that, in some years in the past, they have got rid of treatments in order to have funding for the last months in the financial year?

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm very happy, Aled Roberts, to report on the local health board's plans. Looking at those final integrated medium-term plans for all the health boards, they were submitted on 1 April this year—plans, of course, that were put through a very robust round of scrutiny and analysis. Five organisations did have approval for their medium-term plans for this financial year—Aneurin Bevan, Cwm Taf, Powys, Public Health Wales and Velindre NHS Trust—but other boards weren't able to produce plans that met the requirements of our three-year planning under the NHS Finance (Wales) Act 2014 and the criteria for approval in the planning framework. They included Betsi Cadwaladr, and that organisation, along with the others in that position, are agreeing a one-year plan with their boards, and they will be subject to increased scrutiny, monitoring and support. But, I would say again—as I responded to the earlier question from Llyr Gruffydd—that we have put in £45 million extra this year to help with the performance of our health boards.

Wel, Aled Roberts, rwy'n hapus iawn i adrodd ar gynlluniau'r bwrdd iechyd lleol. O edrych ar y cynlluniau tymor canolig integredig terfynol ar gyfer yr holl fyrddau iechyd, cawsant eu cyflwyno ar 1 Ebrill eleni—cynlluniau a gafodd eu craffu a'u dadansoddi yn drylwyr iawn, wrth gwrs. Cafodd pum sefydliad gymeradwyaeth i'w cynlluniau tymor canolig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon—Aneurin Bevan, Cwm Taf, Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre—ond nid oedd y byrddau eraill yn gallu cynhyrchu cynlluniau a oedd yn bodloni gofynion ein cynllun tair blynedd dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth yn y fframwaith cynllunio. Roeddent yn cynnwys Betsi Cadwaladr, ac mae'r sefydliad hwnnw, ynghyd â'r rhai eraill yn y sefyllfa honno, yn cytuno ar gynllun un flwyddyn gyda'u byrddau, a byddant yn ddarostyngedig i fwy o graffu, monitro a chymorth. Ond byddwn yn dweud eto—fel yr atebais y cwestiwn cynharach gan Llyr Gruffydd—ein bod wedi rhoi £45 miliwn ychwanegol eleni i helpu perfformiad ein byrddau iechyd.

## Cyngres Undebau Llafur Cymru

## Wales Trades Union Congress

14:14 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y grŵp gorchwyl a sefydlwyd i fwrw ymlaen â chynnig caffael diweddar Cyngres Undebau Llafur Cymru? OAQ(4)0617(FIN)*

*9. Will the Minister make a statement on the task group established to progress the recent Wales Trades Union Congress procurement proposal? OAQ(4)0617(FIN)*

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Keith Davies for that question. In terms of the response to the ways in which I'm now supporting the Wales Trades Union Congress, I'm setting up a task group comprising representation from all relevant stakeholders, which is to be established.

Diolch i Keith Davies am y cwestiwn. O ran yr ymateb i'r ffyrdd rwy'n cefnogi Cyngres Undebau Llafur Cymru yn awr, rwy'n sefydlu grŵp gorchwyl sy'n cynnwys cynrychiolaeth ar ran yr holl randdeiliaid perthnasol, a fydd yn cael ei sefydlu.

14:15 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Rwy'n croesawu cynlluniau Cyngres Undebau Llafur Cymru i gynnig caffael yn ne Cymru, ond, fel rŷch chi'n gwybod, Weinidog, mae'r Cymoedd a gorllewin Cymru yn derbyn cyllid Ewropeaidd ar y cyd. Rwy'n credu felly bod achos am ddarpariaeth caffael yng nghymoedd y gorllewin yn ogystal â chymoedd gweddill de Cymru. A ydych yn cytuno â mi?

Thank you. I welcome the Wales TUC proposals to provide procurement in south Wales, but, as you know, Minister, the Valleys and west Wales do receive European funding jointly. I think, therefore, there is a case for procurement provision in the valleys in west Wales as well as the valleys in the rest of south Wales. Would you agree with me on that?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, and I think the task group and the work that we're doing through the Wales TUC—Valleys communities need better jobs close to home—will then demonstrate how we can spread that across the rest of Wales in our most disadvantaged areas.

Ydw, ac rwy'n credu y bydd y grŵp gorchwyl a'r gwaith rydym yn ei wneud drwy TUC Cymru—mae cymunedau'r Cymoedd angen swyddi gwell yn agos i gartref—yn dangos wedyn sut y gallwn ledaenu hynny ar draws gweddill Cymru yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

14:16 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the Wales TUC proposals call for the Welsh Government to reserve public contracts for organisations supporting disadvantaged people into work in the Valleys. I'm pleased to hear your comment that you'll consider this outside the Valleys as well, because there are communities disadvantaged in north-east, mid and west north Wales as well. However, how do you respond to concern expressed to me by representatives of small and medium enterprises that, although Welsh Government has announced targets for their involvement in public sector work, you still seem to rely on larger firms then subcontracting a proportion to small and medium enterprises, when those larger firms' local offices are under internal pressure to keep work in house, rather than to use local, smaller companies?

Yn amlwg, mae cynigion TUC Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i neilltuo contractau cyhoeddus ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi pobl dan anfantais i gael gwaith yn y Cymoedd. Rwy'n falch o glywed eich sylw y byddwch yn ystyried hyn y tu allan i'r Cymoedd yn ogystal, oherwydd mae yna gymunedau dan anfantais yng ngogledd-ddwyrain, canolbarth a gorllewin gogledd Cymru hefyd. Fodd bynnag, sut rydych chi'n ymateb i bryder a fynegwyd wrthyf gan gynrychiolwyr busnesau bach a chanolig eu maint fod Llywodraeth Cymru, er iddi gyhoeddi targedau ar gyfer eu cyfranogiad mewn gwaith yn y sector cyhoeddus, yn ymddangos fel pe baech yn dal i ddibynnu ar gwmnïau mwy o faint i is-gontractio cyfran i fusnesau bach a chanolig eu maint, pan fo swyddfeydd lleol y cwmnïau mwy o faint hynny o dan bwysau mewnol i gadw gwaith yn fewnol, yn hytrach na defnyddio cwmnïau lleol, llai o faint?

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I mentioned earlier on, in response to questions, the importance of the joint bidding guidance, which has enabled smaller companies—SMEs as well as third sector companies—to come together and successfully win contracts. I hope you will—. I can certainly share again the details of access to that joint bidding guide for your constituents. Clearly, we are making progress as a result of reducing the barriers. If we look at the joint bidding guide, pilot projects have included, across Wales, a number of joint projects that enable buyers, through Value Wales and suppliers, to be successful in their contracts, and, of course, it will mean SMEs will be at the forefront of those opportunities.

Soniais yn gynharach, wrth ymateb i gwestiynau, am bwysigrwydd y canllaw cynnig ar y cyd, sydd wedi galluogi cwmnïau llai—busnesau bach a chanolig yn ogystal â chwmnïau trydydd sector—i ddod at ei gilydd ac ennill contractau'n llwyddiannus. Rwy'n gobeithio y byddwch—. Yn sicr, gallaf rannu'r manylion i'ch etholwyr eto ynglŷn â chael gafael ar y canllaw cynnig ar y cyd. Yn amlwg, rydym yn gwneud cynnydd o ganlyniad i leihau'r rhwystrau. Os edrychwn ar y canllaw cynnig ar y cyd, mae prosiectau peilot wedi cynnwys nifer o brosiectau ar y cyd, ledled Cymru, sy'n galluogi prynwyr, drwy Gwerth Cymru a chyflenwyr, i fod yn llwyddiannus yn eu contractau, a bydd yn golygu y bydd busnesau bach a chanolig ar flaen y gad o ran y cyfleoedd hynny.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 2. Questions to the Minister for Public Services

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services. Question 1 is Russell George.

Symudwn nawr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Daw cwestiwn 1 gan Russell George.

### Datganoli

### Devolution

14:17 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli cyfrifoldebau i awdurdodau lleol? OAQ(4)0627(PS)*

*1. Will the Minister make a statement on the devolution of responsibilities to local authorities? OAQ(4)0627(PS)*

14:17 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, I said in the 'Power to Local People' White Paper that the Welsh Government is in favour of giving more powers to local government following reform. The First Minister also made this clear in the Chamber on 28 January last year.

Lywydd, dywedais yn y Papur Gwyn, 'Grym i Bobl Leol', fod Llywodraeth Cymru o blaid rhoi mwy o rymoedd i lywodraeth leol yn dilyn y diwygio. Nododd y Prif Weinidog hyn yn glir hefyd, yn y Siambr ar 28 Ionawr y llynedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for your answer. The UK Government's Energy Bill proposes to transfer planning decisions on large-scale windfarms from the Secretary of State to local planning authorities. The Welsh Government want to suck that power from local authorities in Wales for Ministers here to make those decisions. As the Minister responsible for local government, would you not agree with me that local communities, via local planning authorities, are best placed to make these decisions? Isn't it a shame that we will have less local democracy in Wales than is enjoyed in other parts of the UK?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae Bil Ynni Llywodraeth y DU yn cynnig trosglwyddo penderfyniadau cynllunio ar ffermydd gwynt ar raddfa fawr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodau cynllunio lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sugno'r grym hwnnw oddi wrth awdurdodau lleol yng Nghymru i Weinidogion yma wneud y penderfyniadau. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol, oni fyddech yn cytuno mai cymunedau lleol, drwy awdurdodau cynllunio lleol, sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau hyn? Onid yw'n drueni y bydd gennym lai o ddemocratiaeth leol yng Nghymru nag a welir mewn rhannau eraill o'r DU?

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I completely reject the idea that we have less local democracy in Wales than is enjoyed in other parts of the United Kingdom, but can I point out that matters on planning are for a different Minister?

Rwy'n gwrthod yn llwyr y syniad fod gennym lai o ddemocratiaeth leol yng Nghymru nag a welir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond a gaf fi nodi mai materion i Weinidog gwahanol yw materion cynllunio?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Ochr yn ochr â datganoli cyfrifoldebau, a ydy'r Gweinidog yn cytuno bod angen datganoli i gynghorau fwy o bŵer dros sut i wario'u harian, a bod clymu cyfran uchel o wariant cynghorau ar gynlluniau sy'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru'n ganolog yn cyfyngu ar hyblygrwydd cynghorau fel cyngor Môn i allu gwneud penderfyniadau gwariant sy'n adlewyrchu anghenion penodol eu hardaloedd nhw?

Side by side with the devolution of responsibilities, does the Minister agree that there is a need to devolve to councils more power over how to spend their money, and that tying a high proportion of council spending into plans that are decided by the Welsh Government centrally limits the flexibility of councils, such as Anglesey council, to make spending decisions that reflect the specific needs of their areas?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I don't consider that we have fettered the ability of local government to make their own spending decisions. If the Member is referring to the 1 per cent above the block grant that we received from the UK Government in respect of education, that was a manifesto commitment of my party at the last election, and I'm delighted that local government has delivered that.

Nid wyf o'r farn ein bod wedi llyffetheirio gallu llywodraeth leol i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar wariant. Os yw'r Aelod yn cyfeirio at yr 1 y cant yn uwch na'r grant bloc a gawsom gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag addysg, roedd hwnnw'n ymrwymiad ym maniffesto fy mhlaid yn yr etholiad diwethaf, ac rwy'n falch iawn fod llywodraeth leol wedi sicrhau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

### Cyllid Llywodraeth Leol

### Local Government Finance

14:19 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*2. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddyfodol cyllid llywodraeth leol? OAQ(4)0626(PS)*

*2. What consideration has the Minister given to the future of local government finance? OAQ(4)0626(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:20

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Considerations on the future of local government finance are for the longer term. I have established a 'finance futures' panel of experts with an interest in local government finance to share and test innovative ideas in relation to the future finance system. The panel met for the first time this morning.

Mae ystyriaethau ar ddyfodol cyllid llywodraeth leol yn fater ar gyfer y tymor hwy. Rwyf wedi sefydlu panel 'dyfodol cyllid' o arbenigwyr sydd â diddordeb mewn cyllid llywodraeth leol i rannu a phrofi syniadau arloesol mewn perthynas â system gyllid y dyfodol. Cyfarfu'r panel am y tro cyntaf y bore yma.

14:20

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. You'll also be aware of the statement from the Welsh Local Government Association about the impact on local government finance of the decision by the UK Government to end the national insurance rebate for contracted out employees, which the leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council has said will cost the authority £4.5 million. Does the Minister agree with me that this represents another devastating blow from the UK Government on the delivery of public services in Wales, and what consideration has this been given in your discussions on local government budget allocations?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fe fyddwch hefyd yn ymwybodol o'r datganiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am effaith penderfyniad gan Lywodraeth y DU i roi terfyn ar yr ad-daliad yswiriant gwladol i weithwyr sy'n ymryddhau o gytundeb ar gyllid llywodraeth leol, y dywedodd arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y bydd yn costio £4.5 i'r awdurdod. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod hon yn ergyd drom arall gan Lywodraeth y DU ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a pha ystyriaeth a roddwyd i hyn yn eich trafodaethau ar ddyraniadau cyllidebau llywodraeth leol?

14:20

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, my colleague the Member for Cynon Valley is absolutely right to point out the impact this will have on local authority budgets for 2016-17 and, as she rightly says, the leader of RCT council has provided estimates of that for his council and also for other local authorities across Wales. This is, of course, a consequential increase for employers and employees as a result of UK Government policy. Our view is that the UK Government should be factoring this into the UK spending review so that Wales receives an appropriate funding consequential.

Lywydd, mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gwm Cynon, yn gwbl gywir i dynnu sylw at yr effaith a gaiff hyn ar gyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer 2016-17 ac fel y mae'n gywir i'w ddweud, mae arweinydd cyngor Rhondda Cynon Taf wedi darparu amcangyfrifon o hyn ar gyfer ei gyngor, ac ar gyfer awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Wrth gwrs, mae hwn yn gynnydd canlyniadol i gyflogwyr a gweithwyr o ganlyniad i bolisi Llywodraeth y DU. Ein barn ni yw y dylai Llywodraeth y DU fod yn ffactoreiddio hyn i adolygiad gwariant y DU fel bod Cymru yn cael cyllid canlyniadol priodol.

14:21

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what discussions have you had with the Minister for Economy, Science and Transport regarding the local retention of business rates? Professor Brian Morgan recommended this as a way forward in his task and finish group, and the UK Chancellor is now progressing it. Do you agree that it could be an important way of incentivising local authorities to promote economic growth in their areas?

Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch cadw ardrethi busnes yn lleol? Cafodd hyn ei argymell gan yr Athro Brian Morgan fel ffordd ymlaen yn ei grŵp gorchwyl a gorffen, ac mae Canghellor y DU yn ei ddatblygu. A ydych yn cytuno y gallai fod yn ffordd bwysig o gymell awdurdodau lleol i hyrwyddo twf economaidd yn eu hardaloedd?

14:21

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've had a number of informal discussions with the Minister for Economy, Science and Transport in respect of this matter. I think that we have taken the view in Wales that it is fair to share the benefits of business rates across Wales.

Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau anffurfiol gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn perthynas â'r mater. Credaf mai ein barn ni yng Nghymru yw ei bod yn deg rhannu manteision ardrethi busnes ledled Cymru.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from party spokespeople. First this afternoon, we have the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:22 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Weinidog, bu lobi bwysig y prynhawn yma—wel, amser cinio—gan undebau llafur Cymru i wrthwynebu Mesur undebau llafur Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Mae'ch Llywodraeth chi eisoes wedi datgan y bydd y Mesur yn amharu ar briod hawliau'r Cynulliad hwn dros wasanaethau cyhoeddus hanfodol megis addysg, iechyd a'r gwasanaeth tân. Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi eu trefnu'n wahanol, yn gweithio i ethos cydweithredol gwahanol, ac yn atebol i Lywodraeth wahanol na rai Lloegr. A ydych chi wedi trafod yr agwedd hon gyda Llywodraeth San Steffan?

Thank you, Presiding Officer. Minister, there was an important lobby this lunchtime from Wales TUC to oppose the UK Government's Trade Union Bill. Your Government has already stated that the Bill will conflict with the proper rights of this Assembly over public services such as health, education and the fire service. Public services are arranged differently here in Wales, they work to a different, collaborative ethos, and are accountable to a different Government than those in England. Have you discussed this aspect with the Westminster Government?

14:22 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I think the Member will be aware from the statement that the First Minister made, if I remember rightly, in early September, that we have set out our concerns in detail about the Bill. I can tell the Chamber that, yesterday, I gave evidence by video link to the House of Commons committee on the Trade Union Bill and reiterated our concerns about that Bill, and no doubt we will be discussing these matters further later this afternoon.

Rwy'n credu y bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r datganiad a wnaeth y Prif Weinidog, os cofiaf yn iawn, ar ddechrau mis Medi, ein bod wedi nodi ein pryderon ynglŷn â'r Bil yn fanwl. Gallaf ddweud wrth y Siambr fy mod wedi rhoi tystiolaeth ddoe drwy gyswllt fideo i bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Bil Undebau Llafur ac ailadroddais ein pryderon am y Bil, ac nid oes amheuaeth y byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach yn ddiweddarach y prynhawn yma.

14:23 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Weinidog. Byddwn ni yn eu trafod, mae'n siŵr, ac rwy'n gobeithio y bydd pawb yn y Cynulliad hwn yn gallu uno i amddiffyn priod hawliau'r Cynulliad.

Thank you, Minister. I'm sure we will discuss them, and I hope that everyone in this Assembly will be able to unite to protect the proper rights of this Assembly.

Rydym eisoes wedi gweld ym maes tâl ac amodau gwaith athrawon, er enghraifft, bod anfodlonrwydd gyda phenderfyniadau Llywodraeth ganolog Llundain yn gallu arwain at streiciau yng Nghymru, sy'n amharu ar ein plant a'n pobl ifanc ni, a'u hamddifadu nhw o amser yn yr ysgol, er enghraifft. Yn fy marn i, nid trwy osod trothwy artiffisial, y byddai prin neb o'r Cynulliad hwn yn cael eu hethol oddi tano, y mae osgoi streiciau, ond yn hytrach trwy barchu undebau llafur a'u cynnwys yn y penderfyniadau a wnaed drwy ddulliau cydweithio, hyrwyddo cydberchnogaeth o wasanaethau cyhoeddus a phenderfyniadau anodd sy'n ein hwynebu ni. Ym mha ffordd y gallwn ni barhau gyda'r dull positif hwn o gydweithio gydag undebau llafur yng Nghymru yn wyneb beth mae'r Mesur yn San Steffan yn ei gynnig?

We've already seen in the area of teachers' pay and conditions, for example, that dissatisfaction with decisions taken in Westminster can lead to strikes in Wales, which have an effect on our children and young people, and deprive them of time in school, for example. In my view, it's not by setting an artificial threshold, under which almost no-one in this Assembly would be elected, that you avoid strikes, but by actually respecting trade unions and including them in the decisions taken through methods of collaboration, promoting co-ownership of public services and the difficult decisions that we face. How can we continue with this positive approach of collaboration with trade unions in Wales in light of what this Bill in Westminster is proposing?

14:24 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Member is right to say that we have adopted a collaborative approach in Wales and, of course, we have the workforce partnership council, which, indeed, discussed the Trade Union Bill at its meeting last week, and it was quite clear that the employer organisations that spoke at the workforce partnership council, including representatives from local government, health, and, indeed, the further education colleges themselves, had severe misgivings about the Bill. The Member will also be aware, of course, that we have established the Public Services Staff Commission, which will enable us to take forward discussions around the future of staffing mobility and other issues in our public service workforce on a collaborative basis.

Mae'r Aelod yn gywir i ddweud ein bod wedi mabwysiadu ymagwedd gydweithredol yng Nghymru ac mae gennym Gyngor Partneriaeth y Gweithlu yma, a drafododd y Bil Undebau Llafur yn ei gyfarfod yr wythnos diwethaf, ac roedd yn gwbl glir fod gan sefydliadau cyflogwyr a siaradodd yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu, gan gynnwys cynrychiolwyr ar ran llywodraeth leol, iechyd, a'r colegau addysg bellach eu hunain, amheuon difrifol ynglŷn â'r Bil. Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol ein bod wedi sefydlu'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, a fydd yn ein galluogi i fwrw ymlaen â thrafodaethau ynghylch dyfodol symudedd staff a materion eraill yn ein gweithlu gwasanaethau cyhoeddus ar sail gydweithredol.

14:25

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Ar yr union bwynt hwnnw, Weinidog, gallai rhai o'r amodau yn y Bil gyfyngu ar yr amser a ganiateir i swyddogion undebau llafur i weithio ar faterion yr undeb, ac i gael amser rhydd felly i wneud hynny. Gall hynny lesteirio ar eich amcanion chi yn y comisiwn rydych yn sôn amdano o ran diwygio llywodraeth leol, lle bydd angen llawer o ymdrech gan swyddogion undeb i helpu i ddod â'r maen arbennig hwnnw i'r wal. A fyddech chi'n gallu cadarnhau felly bod yr hawl yna—sy'n cael ei ddisgrifio fel 'facilities' ymysg pethau eraill—yn mynd i gael ei gadw yng Nghymru yn y gwasanaethau rydych chi yn gyfrifol amdanyn nhw?

On that exact point, Minister, some of the terms in the Bill could limit the time provided to trade union officials to work on union business, and to have time to do so. That could actually conflict with your objectives in the commission that you mention in terms of the reform of local government, where there will be a requirement for a great deal of effort from union officials to actually achieve that. Can you confirm therefore that that right—which is described as 'facilities' among other things—will be retained here in Wales in the services that you are responsible for?

14:25

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I just start by saying to the Member that, in fact, the very point that he has raised is a point that I made to the House of Commons Bill committee yesterday in respect of the potential impact on our local government reform agenda. I cannot, of course, give any undertakings at this point because we are still in that process of understanding better the UK Government's objectives. It is very clear what their objectives are in their interpretation of the legislation; they do not believe that their Bill requires a legislative consent motion. I will have more to say about that this afternoon later, in the debate, but, clearly, we are currently considering our position on that, which I believe will be very much in line with the position that's currently being explored by the Scottish Government. But, at the end of the day, in an act of parliamentary Leninism, of course, it is open to the UK Government to impose those conditions and we would not welcome that.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud wrth yr Aelod fod yr union bwynt y mae wedi'i grybwyll yn bwynt a wneuthum gerbron pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Bil ddoe mewn perthynas â'r effaith bosibl ar ein hagenda diwygio llywodraeth leol? Ni allaf roi unrhyw ymrwymiadau ar hyn o bryd, wrth gwrs, am ein bod yn dal i fod ynghanol y broses o ddeall amcanion Llywodraeth y DU yn well. Mae'n amlwg iawn beth yw eu hamcanion yn eu dehongliad o'r ddeddfwriaeth; nid ydynt yn credu bod eu Bil yn galw am gynnig cydsyniad deddfwriaethol. Bydd gennyf fwy i'w ddweud am hynny yn y ddadl yn nes ymlaen y prynhawn yma, ond yn amlwg, rydym wrthi'n ystyried ein safbwynt ar hynny, a fydd yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r safbwynt y mae Llywodraeth yr Alban yn edrych arno ar hyn o bryd, rwy'n credu. Ond yn y pen draw, mewn gweithred o Leniniaeth seneddol, mae'n agored i Lywodraeth y DU osod yr amodau hynny ac ni fyddem yn croesawu hynny.

14:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:27

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, could you outline what requirements are put on community councils by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa ofynion y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu creu i gynghorau cymuned?

14:27

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Well-being of Future Generations (Wales) Act obviously sets down a series of obligations in respect of public services in Wales. We will be implementing that Act in stages; we will be moving towards the creation of public service boards next year. Clearly, we would want to discuss the specific implications with town and community councils as we move forward.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn amlwg yn nodi cyfres o rwymedigaethau mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Byddwn yn gweithredu'r Ddeddf mewn camau; byddwn yn symud tuag at greu byrddau gwasanaethau cyhoeddus y flwyddyn nesaf. Yn amlwg, byddem yn dymuno trafod y goblygiadau penodol gyda chynghorau tref a chymuned wrth i ni symud ymlaen.

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. The Act actually puts obligations on community councils that have an income of more than £200,000 a year, and specifically asks them to consider the public service board's local wellbeing plan, ratify a plan at the annual general meeting, have the clerk evaluate progress and feed back to council, draft an annual report, agree an annual report at full council, and publish the annual report. Do you not accept that that is actually quite a large burden on community councils, who, although they may have that sort of income, tend to spend it on maintaining local parks and public toilets, rather than actually on the sort of bureaucracy needed to carry out that sequence of events?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'r Ddeddf mewn gwirionedd yn gosod rhwymedigaethau ar gynghorau cymuned sydd ag incwm o fwy na £200,000 y flwyddyn, ac yn gofyn yn benodol iddynt ystyried cynllun lles lleol bwrdd gwasanaeth cyhoeddus, cadarnhau'r cynllun yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, gofyn i'r clerc werthuso cynnydd a bwydo'n ôl i'r cyngor, drafftio adroddiad blynyddol, cytuno ar adroddiad blynyddol yn y cyngor llawn, a chyhoeddi'r adroddiad blynyddol. Onid ydych yn derbyn bod hynny mewn gwirionedd yn faich go fawr ar gynghorau cymuned, ac er y gallai fod ganddynt y math hwn o incwm, maent yn tueddu i'w wario ar gynnal a chadw parciau lleol a thoiledau cyhoeddus, yn hytrach nag ar y math o fiwrocratiaeth sydd ei hangen i gyflawni'r gyfres hon o weithredoedd?

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm disappointed that the Member doesn't think that community councils should comply with legislation passed by this Assembly.

Rwy'n siomedig nad yw'r Aelod yn credu y dylai cynghorau cymuned gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad hwn.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I haven't actually said that, Minister; what I've actually asked you is: what discussions have you had with community councils as to whether they can afford to do that, whether you think that they have the resources to do that, and whether you think that that is not an excessive burden on community councils? Have you had discussions with community councils around Wales about this burden, and do you understand what community councils are considering in terms of what they would have to cut from their basic services to deliver this agenda?

Nid dyna a ddywedais mewn gwirionedd, Weinidog; yr hyn a ofynnais i chi oedd: pa drafodaethau a gawsoch gyda chynghorau cymuned ynglŷn â'u gallu i fforddio gwneud hynny, a ydych yn meddwl bod ganddynt yr adnoddau i wneud hynny, ac a ydych yn credu nad yw hynny'n faich gormodol ar gynghorau cymuned? A ydych wedi cael trafodaethau gyda chynghorau cymuned ledled Cymru am y baich hwn, ac a ydych yn deall beth y mae cynghorau cymuned yn ei ystyried o ran yr hyn y byddai'n rhaid iddynt ei dorri o'u gwasanaethau sylfaenol er mwyn cyflawni'r agenda hon?

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can say to the Member that, when I spoke at the One Voice Wales conference less than two weeks ago, nobody raised it with me.

Wel, gallaf ddweud wrth yr Aelod, pan siaradais yng nghynhadledd Un Llais Cymru lai na phythefnos yn ôl, ni chrybwyllodd neb hyn wrthyf.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.

14:29 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, Flintshire County Council's refusal this week to respond to a freedom of information request on the total of rent arrears owing to their council, submitted by their own leader, is rather bizarre and quite outrageous, and it does raise larger concerns about the culture of openness and transparency in local government across Wales under your leadership. Recently, too, the Wales Audit Office published additional concerns that Torfaen County Borough Council did not publish its 2015-16 improvement plan as soon as was reasonably practicable after the start of the financial year. Minister, how are you able to evidence that you are acknowledging this blatant lack of reference and duty, under the public interest test? And what are you doing to ensure that councils, under your leadership, in Wales, are able to demonstrate openness, transparency, and democratic accountability?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae gwrthodiad Cyngor Sir y Fflint yr wythnos hon i ymateb i gais rhyddid gwybodaeth am gyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus i'w cyngor, a gyflwynwyd gan eu harweinydd eu hunain, braidd yn rhyfedd ac yn eithaf gwarthus, ac mae'n creu pryderon mwy am ddiwylliant agored a thryloywder mewn llywodraeth leol ledled Cymru o dan eich arweinyddiaeth. Yn ddiweddar, hefyd, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru bryderon ychwanegol nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cyhoeddi ei gynllun gwella ar gyfer 2015-16 cyn gynted ag oedd yn rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Weinidog, sut y gallwch ddangos tystiolaeth eich bod yn cydnabod diffyg ystyriaeth a dyletswydd amlwg o'r fath o dan brawf lles y cyhoedd? A beth rydych chi'n ei wneud i sicrhau bod cynghorau, o dan eich arweiniad, yng Nghymru, yn gallu dangos eu bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol yn ddemocrataidd?

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, it is my understanding that the UK Conservative Government is currently looking at proposals to restrict the operation of the Freedom of Information Act 2000, which would have an impact on the ability of the public to scrutinise local authorities in Wales, as in England.

Llywydd, yn ôl yr hyn a ddeallaf mae Llywodraeth Geidwadol y DU ar hyn o bryd yn edrych ar gynigion i gyfyngu gweithrediad Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a fyddai'n effeithio ar allu'r cyhoedd i graffu ar awdurdodau lleol yng Nghymru, fel yn Lloegr.

14:30 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, with all due respect, I'd just like to remind you that I'm an Assembly Member representing the residents of Aberconwy, and you are also an AM, representing the Rhondda. Nothing to do with the UK Government in my question. The Wales Audit Office has recently found long-standing governance weaknesses at Newport City Council, a number of fragmented services lacking cohesion and accountability at Torfaen County Borough Council, and significant challenges still remaining in care and social services at Bridgend County Borough Council. As part of your local government reform, where do you actually take any responsibility for true and strong leadership of local governance in Wales? And will you look at this overriding culture that exists now in Wales—that local authorities do exactly what they want to do, and they are completely overriding the interests of our public?

Weinidog, gyda phob parch, hoffwn eich atgoffa fy mod yn Aelod o'r Cynulliad sy'n cynrychioli trigolion Aberconwy, ac rydych chi hefyd yn AC, sy'n cynrychioli'r Rhondda. Nid yw fy nghwestiwn yn ymwneud â Llywodraeth y DU. Yn ddiweddar, canfu Swyddfa Archwilio Cymru wendidau llywodraethu hirsefydlog yng Nghyngor Dinas Casnewydd, nifer o wasanaethau tameidiog yn brin o gydlyniant ac atebolrwydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac mae heriau sylweddol yn parhau ym maes gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fel rhan o'ch gwaith ar ddiwygio llywodraeth leol, ymhle rydych chi'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn gwirionedd am arwain llywodraeth leol yng Nghymru yn gywir ac yn gryf? Ac a wnewch chi edrych ar y diwylliant amlwg hwn sy'n bodoli yng Nghymru bellach —fod awdurdodau lleol yn gwneud yn union yr hyn y maent am ei wneud, ac yn diystyru buddiannau'r cyhoedd yn llwyr?

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's interesting—the previous question began with reference to the Freedom of Information Act, which, of course, is a UK Government Act. And it is her Government at Westminster that appears now to be seeking to undermine the Freedom of Information Act and its operation, which will, of course, undermine the ability of members of the public in Wales to scrutinise public bodies in Wales, including local authorities.

Wel, mae'n ddiddorol—dechreuodd y cwestiwn blaenorol â chyfeiriad at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sydd, wrth gwrs, yn Ddeddf Llywodraeth y DU. A'i Llywodraeth hi yn San Steffan sydd i'w gweld bellach yn ceisio tanseilio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'i gweithrediad, a fydd, wrth gwrs, yn tanseilio gallu'r cyhoedd yng Nghymru i graffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol.

And if I can just remind her, in terms of the performance of local government, of course, amongst the authorities that were put into special measures by Estyn, over education issues, was Monmouthshire County Council—not referred to by her in her question. I think that we have a system of accountability for local government that is working, and, in fact, the very fact that we have the WAO, and others, scrutinising local authorities, and producing reports upon them, suggests that we have a system that is operating with effect.

Ac os caf ei hatgoffa, o ran perfformiad llywodraeth leol, wrth gwrs, ymhlith yr awdurdodau a gafodd eu rhoi dan weithdrefn mesurau arbennig gan Estyn, ynghylch materion addysg, oedd y Cyngor Sir Fynwy—na chyfeiriodd ato yn ei chwestiwn. Credaf fod gennym system o atebolrwydd ar gyfer llywodraeth leol sy'n gweithio, ac yn wir, mae'r union ffaith fod gennym Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill yn craffu ar awdurdodau lleol, ac yn llunio adroddiadau arnynt, yn awgrymu bod gennym system sy'n gweithredu'n effeithiol.

14:32 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, Minister, what discussions have you had with opposition parties, here, in this institution, regarding Stage 4 of the Local Government (Wales) Bill?

Yn olaf, Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda'r gwrthbleidiau, yma, yn y sefydliad hwn, ynghylch Cam 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru)?

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A number.

Sawl un.

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Aled Roberts.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Aled Roberts.

## Diogelwch Cymunedol

## Community Safety

14:33

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

*3. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru am ddiogelwch cymunedol? OAQ(4)0622(PS)[W]*

*3. What recent discussions has the Minister had with local authorities in North Wales regarding community safety? OAQ(4)0622(PS)[W]*

Senedd.tv
Fideo Video

14:33

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol gydag awdurdodau lleol yn y gogledd yn ddiweddar. Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â phrif swyddogion tân Cymru, a'r prif gwnstabliaid, gan gynnwys rhai o'r gogledd, i drafod materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol.

I have not had any recent discussions directly with local authorities in north Wales. I regularly meet the Wales chief fire officers and chief constables, including those from north Wales, to discuss matters relating to community safety.

Senedd.tv
Fideo Video

14:33

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. Nid wyf yn gwybod a ydych yn ymwybodol o broblemau o fewn nifer o drefi yn y gogledd—ac ar draws y ffin, a dweud y gwir—ynglŷn â phobl, yn fuan yn y bore, hyd yn oed, ar 'legal highs', yn creu sefyllfa o fewn trefi lle mae yna lawer iawn o bobl yn pryderu am eu diogelwch. A ydych chi wedi cael unrhyw fath o drafodaethau efo Llywodraeth Prydain ynglŷn â sefyllfa 'legal highs', lle mae'r heddlu a chynghorau lleol wedi dweud nad ydyn nhw'n gallu ymyrryd yn y sefyllfa, o achos bod yna gwestiynu mawr ynglŷn â sefyllfa gyfreithiol gwneud unrhyw beth ynglŷn â'r sefyllfa?

Thank you very much. I'm not sure whether you're aware of problems within a number of towns in north Wales—and across the border, really—in terms of people, even early in the morning, on legal highs, creating a situation in towns where a number of people are concerned about their safety. Have you had any sort of discussions with the UK Government regarding the situation in terms of legal highs, where the police and local councils have said that they cannot intervene in situations such as these because there are questions regarding the legality of doing anything about this?

Senedd.tv
Fideo Video

14:34

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Well, obviously, the subject of legal highs has been raised by a number of Members in the past, not least my colleague, the Member for Torfaen. I know she has raised it, indeed, within the deliberations of the Health and Social Care Committee in the past. There are clearly a series of issues around this agenda. I have not myself had conversations with the Home Office about these issues. But, if the Member wishes to write to me, I will explore what could be taken forward.

Wel, yn amlwg, mae testun cyffuriau anterth cyfreithlon wedi cael ei grybwyll gan nifer o Aelodau yn y gorffennol, yn enwedig fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Dorfaen. Rwy'n gwybod ei bod wedi'i grybwyll, yn wir, yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y gorffennol. Mae'n amlwg fod cyfres o faterion yn codi ynghylch yr agenda hon. Nid wyf wedi cael sgyrsiau fy hun gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch y materion hyn. Ond os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf, byddaf yn edrych ar yr hyn y gellid bwrw ymlaen ag ef.

Senedd.tv
Fideo Video

14:34

### Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Minister, last week, I visited the DangerPoint charity, near Prestatyn. This project is an activity centre, which aims to educate families and schoolchildren on everyday safety issues, and it is one of its kind in Wales, attracting over 60,000 visitors over the last 10 years. Minister, will you pledge to take a look at the excellent work that DangerPoint undertakes in educating around community safety, and look into the possibility of setting up similar schemes with local government support elsewhere in Wales?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, ymwelais â'r elusen PentrePeryglon, ger Prestatyn. Canolfan weithgareddau yw'r prosiect hwn, sy'n ceisio addysgu teuluoedd a phlant ysgol ynglŷn â materion diogelwch o ddydd i ddydd, ac mae'n unigryw yng Nghymru, gan ddenu dros 60,000 o ymwelwyr yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Weinidog, a wnewch chi addewid i edrych ar y gwaith ardderchog y mae PentrePeryglon yn ei wneud yn addysgu ynglŷn â diogelwch cymunedol, ac i ystyried y posibilrwydd o sefydlu cynlluniau tebyg gyda chefnogaeth llywodraeth leol mewn mannau eraill yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

14:35

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

I know from my ministerial colleagues that this is a very good example of work done by a charity locally, and I know that it's well supported by my colleague, the Member for the Vale of Clwyd. We will happily look at this example, but it's one, of course, that crosses a number of ministerial portfolios.

Mae fy nghyd-Weinidogion wedi dweud wrthyf fod hon yn enghraifft dda iawn o waith lleol gan elusen, a gwn ei fod yn cael cefnogaeth dda gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd. Byddwn yn hapus i edrych ar yr enghraifft hon, ond wrth gwrs, mae'n un sy'n croesi nifer o bortffolios gweinidogol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:35 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un nodwedd o'r gwaith achos rwy'n ei dderbyn yn gyson yw problemau sy'n codi yn dilyn 'off-road-io' mewn nifer o gymunedau gwledig, ac mae hynny'n aml iawn yn arwain at wrthdaro. A gaf ofyn i chi beth rydych yn ei wneud wrth weithio gydag awdurdodau lleol yn benodol er mwyn trio cryfhau presenoldeb ar y llwybrau yma, er mwyn sicrhau efallai bod achosion tebyg yn cael eu taclo?

One feature of the casework that I regularly receive is problems arising as a result of off-roading in a number of rural communities, and that very often leads to conflict. Can I ask you what you are doing, working with local authorities in particular, in order to strengthen presence on these routes, to ensure that similar cases are tackled?

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think these are issues not only for the Member in north Wales; there are issues in many Valley authorities as well, and I'm sure in other authorities. I think we need to understand the limits of the local government portfolio responsibility, but I will have conversations with other ministerial colleagues about those issues.

Nid problemau i'r Aelod yng ngogledd Cymru yn unig yw'r rhain; mae yna broblemau yn llawer o awdurdodau'r Cymoedd hefyd, ac mewn awdurdodau eraill rwy'n siŵr. Rwy'n credu bod angen i ni ddeall terfynau cyfrifoldeb y portffolio llywodraeth leol, ond byddaf yn cael sgyrsiau gyda chyd-Weinidogion eraill am y materion hyn.

### Contractau Cymorth Cyfreithiol Troseddol

### Criminal Legal Aid Contracts

14:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am effaith newidiadau i gontractau cymorth cyfreithiol troseddol ar wasanaethau yng Nghymru wledig? OAQ(4)0623(PS)[W]*

*4. What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the impact of changes to criminal legal aid contracts on services in rural Wales? OAQ(4)0623(PS)[W]*

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n hanfodol sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ym mhob rhan o Gymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am y newidiadau i gontractau cymorth cyfreithiol troseddol.

It is vital to ensure there is full service coverage in all parts of Wales. Welsh Government officials are in regular contact with the Ministry of Justice about the changes to criminal legal aid contracts.

14:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi bod y broses o ddyfarnu'r contractau mawr yma gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn debygol iawn o leihau mynediad at gyfiawnder i gymunedau cefn gwlad, i danseilio rhai o'r cwmnïau cyfreithwyr bach mewn etholaethau fel fy un i yng Ngheredigion, ac i fygwth hefyd i leihau'r defnydd o'r Gymraeg mewn achosion llysoedd? Hyd yn oed mor hwyr â hyn yn y dydd yn y broses yma, a wnewch chi unwaith eto, drwy'ch swyddogion a chi'ch hunan, godi'r bygythiadau real yma i gyfiawnder mewn etholaethau gwledig, a lle mae'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn gyson?

Minister, do you agree with me that the process of awarding these large contracts by the Ministry of Justice is likely to reduce access to justice for communities in rural Wales, to undermine some of the smaller solicitors' firms that are in constituencies such as mine in Ceredigion, and also to threaten the use of Welsh in court cases? Even as late in the day as this in the process, can you once again, through your officials and yourself, raise these real threats to justice in rural constituencies and places where the Welsh language is used on a regular basis?

14:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I say to the Member that we have raised our concerns with the Ministry of Justice about the impact of changes to criminal legal aid on rural areas in Wales, including particularly the Dyfed Powys area? Of course, the availability of criminal legal aid is key to ensuring a fair and just system of justice for the people of Wales. There are concerns—she's right to say this—that the tendering process favoured larger legal firms; smaller legal firms, particularly in rural areas such as Ceredigion and Powys, may not have had sufficient capacity to make bids. Welsh Government officials will continue to liaise with the Ministry of Justice to ensure that the new contracts respond to the needs of local people in Wales, including in the Dyfed Powys area.

A gaf fi ddweud wrth yr Aelod ein bod wedi lleisio ein pryderon wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch effaith newidiadau i gymorth cyfreithiol troseddol ar ardaloedd gwledig yng Nghymru, gan gynnwys ardal Dyfed Powys yn arbennig? Wrth gwrs, mae argaeledd cymorth cyfreithiol troseddol yn allweddol i sicrhau system deg a chyfiawn o gyfiawnder i bobl Cymru. Mae yna bryderon—mae'n llygaid ei lle ar hynny—fod y broses dendro wedi ffafrio cwmnïau cyfreithiol mwy o faint; efallai nad yw cwmnïau cyfreithiol llai o faint, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig megis Ceredigion a Phowys, wedi bod â digon o gapasiti i gyflwyno ceisiadau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y contractau newydd yn ymateb i anghenion pobl leol yng Nghymru, gan gynnwys yn ardal Dyfed Powys.

14:38 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I've also been contacted by constituents who have expressed concern at the decisions to change criminal aid rates and introduce duty solicitors' criminal legal aid contracts. I'm pleased, Minister, that you have raised this directly with the Minister for justice. My own MP, Glyn Davies, has also raised this matter with the Minister. I ask, Minister, whether you have had any discussions with the Police and Crime Commissioner for Dyfed Powys, Christopher Salmon, who also envisages that these changes will have an impact and a knock-on effect on police resources in mid Wales.

Weinidog, mae etholwyr wedi cysylltu â mi hefyd i fynegi pryder am y penderfyniadau i newid cyfraddau cymorth troseddol a chyflwyno contractau cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfreithwyr ar ddyletswydd. Rwy'n falch, Weinidog, eich bod wedi tynnu sylw'r Gweinidog dros gyfiawnder at hyn yn uniongyrchol. Mae fy AS fy hun, Glyn Davies, hefyd wedi trafod y mater gyda'r Gweinidog. Weinidog, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, Christopher Salmon, sydd hefyd yn rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ac yn cael sgil-effaith ar adnoddau'r heddlu yng nghanolbarth Cymru.

14:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very pleased to hear that our old friend, Glyn Davies, has taken these issues up with his own Government in Westminster. That might be a good model for other Conservatives in this Chamber to follow. Can I say that I've not had any recent discussions with the police and crime commissioner for his area on these particular issues, but that I would always be open to such conversations?

Rwy'n falch iawn o glywed bod ein hen gyfaill, Glyn Davies, wedi dwyn y materion hyn i sylw ei Lywodraeth ei hun yn San Steffan. Gallai hynny fod yn fodel da i Geidwadwyr eraill yn y Siambr hon ei ddilyn. A gaf fi ddweud nad wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r comisiynydd heddlu a throseddu yn ddiweddar ynglŷn â'r materion hyn yn ei ardal, ond byddwn bob amser yn barod i gael sgyrsiau o'r fath?

14:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Another threat to small legal firms in my constituency is the decision by the Ministry of Justice to close the court in Brecon, meaning that those small legal firms will now have to send their solicitors much further afield. It also has a massive impact on access to justice to my constituents, both people who are being prosecuted, and people who perhaps will have to be witnesses. The Government did make a commitment that it would respond in the strongest terms against the court closures, not just in Brecon, but in other parts of Wales. Would you be willing to put a copy of your consultation response in the library? I've not been able to find a copy on the Welsh Government website. Could you outline what discussions you have had with the Ministry of Justice to oppose these closures, which are only bad news for the criminal justice system in my constituency?

Bygythiad arall i gwmnïau cyfreithiol bach yn fy etholaeth yw penderfyniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gau'r llys yn Aberhonddu, sy'n golygu y bydd cwmnïau cyfreithiol bach yn awr yn gorfod anfon eu cyfreithwyr lawer ymhellach. Mae hefyd yn effeithio'n helaeth ar fynediad at gyfiawnder i fy etholwyr, yn bobl sy'n cael eu herlyn, ac yn bobl y bydd yn rhaid iddynt fod yn dystion o bosibl. Ymrwymodd y Llywodraeth i ymateb yn y modd cryfaf yn erbyn cau llysoedd, nid yn unig yn Aberhonddu, ond mewn rhannau eraill o Gymru. A fyddech yn barod i roi copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad yn y llyfrgell? Nid wyf wedi gallu dod o hyd i gopi ar wefan Llywodraeth Cymru. A allech amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i wrthwynebu'r cau, sy'n newydd drwg i'r system cyfiawnder troseddol yn fy etholaeth?

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is right and we have made very clear our views on the court closure programme that the Ministry of Justice has. We've done that in correspondence; we've prepared a full submission on these issues and I will be pleased to make that submission more widely available.

Mae'r Aelod yn iawn ac rydym wedi gwneud ein safbwynt yn glir iawn ynglŷn â rhaglen cau llysoedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym wedi gwneud hynny mewn gohebiaeth; rydym wedi paratoi cyflwyniad llawn ar y materion hyn a byddaf yn falch o sicrhau bod y cyflwyniad hwnnw ar gael yn ehangach.

**Tanau Bwriadol**

**Deliberate Fires**

14:40 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A yw'r Gweinidog wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y gwasanaeth tân er mwyn trafod nifer cynyddol yr achosion o danau bwriadol yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0621(PS)*

*5. Has the Minister met with representatives of the fire service to discuss the increasing incidence of deliberate fires in South Wales East? OAQ(4)0621(PS)*

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I meet the three fire and rescue authorities regularly to discuss this and other issues. I last did so this morning.

Do. Rwy'n cyfarfod â'r tri awdurdod tân ac achub yn rheolaidd i drafod hyn a materion eraill. Fe wnes hynny ddiwethaf y bore yma.

14:40 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I wonder if you could give us an outline of what you discussed, because you will know that five separate fires have been started in south Wales even in the last 24 hours, and another fire in Commercial Street in Newport in premises that have already been set on fire and largely destroyed. This incidence is increasing. What can be done to prevent it?

Diolch yn fawr, Weinidog. Tybed a allech roi amlinelliad o'r hyn rydych yn ei drafod, oherwydd fe wyddoch fod pump o danau gwahanol wedi'u cynnau yn ne Cymru yn ystod y 24 awr ddiwethaf hyd yn oed, a thân arall yn Commercial Street yng Nghasnewydd mewn adeiladau sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar dân a'u dinistrio i raddau helaeth. Mae'r achosion yn cynyddu. Beth y gellir ei wneud i atal hyn?

14:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we need to give the right context to this. In fact, the incidence of deliberate fires is falling, not rising. There were actually 16 per cent fewer deliberate fires in south Wales in 2014-15, compared to the previous year, for example. Across the whole of Wales, the number of deliberate fires has fallen by over two thirds since responsibility was devolved 10 years ago. This, I think, reflects the success of the fire and rescue authorities in preventing such fires. It's important, obviously, that this work continues, including the work that is under way to divert young people from fire-setting, which is supported by ourselves and by the fire service.

Rwy'n credu bod angen i ni roi cyd-destun cywir i hyn. Yn wir, gostwng y mae nifer yr achosion o danau bwriadol, nid codi. Mewn gwirionedd, cafwyd 16 y cant yn llai o danau bwriadol yn ne Cymru yn 2014-15, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er enghraifft. Ar draws Cymru gyfan, mae nifer y tanau bwriadol wedi gostwng mwy na dwy ran o dair ers datganoli'r cyfrifoldeb 10 mlynedd yn ôl. Mae hyn, rwy'n meddwl, yn adlewyrchu llwyddiant yr awdurdodau tân ac achub yn atal tanau o'r fath. Mae'n bwysig, yn amlwg, fod y gwaith hwn yn parhau, gan gynnwys y gwaith sydd ar y gweill i gymell pobl ifanc rhag cynnau tanau, a gefnogir gennym ni a chan y gwasanaeth tân.

14:41 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Earlier this year, firefighters in South Wales East had to deal with 49 fires in 12 hours, trying to prevent damage to land, property and prevent possible serious harm to residents. Yet, they are often subjected to verbal and physical assaults. What measures are being taken to protect members of the fire and rescue service from such appalling abuse?

Yn gynharach eleni, bu'n rhaid i ddiffoddwyr tân yn Nwyrain De Cymru ymdopi â 49 o danau mewn 12 awr, a cheisio atal difrod i dir, eiddo ac atal niwed difrifol posibl i breswylwyr. Eto i gyd, maent yn aml yn dioddef ymosodiadau geiriol a chorfforol. Pa gamau sydd ar y gweill i ddiogelu aelodau'r gwasanaeth tân ac achub rhag camdriniaeth ofnadwy o'r fath?

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the Member is right to raise the issue and it is unacceptable that people working in public services, whether in fire and rescue or in any other public service, are subject to such abuse. Clearly we have worked very closely with the fire and rescue authorities and with the police on this issue. There is of course legislation in place and it is very important, I think, that we continue to work with the fire and rescue authorities and give them the support that they need whenever this situation arises.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn i dynnu sylw at y mater ac mae'n annerbyniol bod pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus, boed yn y gwasanaethau tân ac achub neu mewn unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall, yn destun cam-drin o'r fath. Yn amlwg buom yn gweithio'n agos iawn gyda'r awdurdodau tân ac achub a gyda'r heddlu ar y broblem hon. Wrth gwrs, mae deddfwriaeth ar waith ac mae'n bwysig iawn, rwy'n meddwl, ein bod yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau tân ac achub ac yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt lle bynnag y bo hyn yn digwydd.

## Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU

## The UK Government Spending Review

14:42 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa effaith y bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i gyhoeddi ei hadolygiad o wariant mor hwyr yn ei chael ar lywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0629(PS)*

*6. What impact will the UK Government's decision to publish its spending review so late have on local government in Wales? OAQ(4)0629(PS)*

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lateness of the UK Government's announcement of its spending review will present local authorities with significant challenges in preparing their budgets for next year. The Welsh Government is seeking to mitigate the situation.

Bydd y ffaith fod adolygiad o wariant Llywodraeth y DU mor hwyr yn cael ei gyhoeddi yn creu heriau sylweddol i awdurdodau lleol wrth iddynt fynd ati i baratoi eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio lliniaru'r sefyllfa.

14:43 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. In response to an earlier answer to my colleague, Christine Chapman, you identified the difficulties they will face because of the hardships and austerity already in place. The Welsh Government has attempted to protect local government funding from the worst UK Government cuts since 2010, since the Tories came into power. Given the likelihood that 25 per cent, 40 per cent and 50 per cent cuts are going to occur in under-protected departments, is there any hope that we can give to our local authorities that we can continue to shield councils from these damaging cuts, because the Tories in Westminster are keen on making sure that local government suffers?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mewn ymateb i ateb cynharach i fy nghyd-Aelod, Christine Chapman, fe nodoch yr anawsterau y byddant yn eu hwynebu oherwydd y cyni a'r caledi sydd eisoes yn bodoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu cyllid llywodraeth leol rhag y gwaethaf o doriadau Llywodraeth y DU ers 2010, ers i'r Torïaid ddod i rym. O ystyried y tebygolrwydd y bydd toriadau o 25 y cant, 40 y cant a 50 y cant yn digwydd mewn adrannau nad ydynt yn cael eu diogelu'n ddigonol, a oes unrhyw obaith y gallwn ei roi i'n hawdurdodau lleol y byddwn yn gallu parhau i warchod cynghorau rhag y toriadau niweidiol hyn, oherwydd bod y Torïaid yn San Steffan yn awyddus i sicrhau bod llywodraeth leol yn dioddef?

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague, the Member for Aberavon, is absolutely right to draw attention to the impact of UK Government austerity measures on public services in Wales, including public services operated by local authorities.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, yn gwbl gywir i dynnu sylw at effaith mesurau caledi Llywodraeth y DU ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus a weithredir gan awdurdodau lleol.

We have been working closely with the Welsh Local Government Association and we will be holding a seminar on the future financial implications for local government next month to look at the situation in Wales. We will also be seeking to learn from those councils in England as to the steps that they have taken to address the austerity measures that they have suffered, which, of course, have been far deeper than have been inflicted on local authorities in Wales because of the actions that we have taken.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a byddwn yn cynnal seminar ar y goblygiadau ariannol yn y dyfodol i lywodraeth leol y mis nesaf i edrych ar y sefyllfa yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ceisio dysgu gan gynghorau yn Lloegr o ran y camau a roddwyd ar waith ganddynt i fynd i'r afael â'r mesurau caledi y maent wedi'u dioddef, sydd, wrth gwrs, wedi bod yn llawer dyfnach na'r hyn a orfodwyd ar awdurdodau lleol yng Nghymru oherwydd y camau a roesom ar waith.

Can I say that I also intend to publish the provisional and final settlements the day after the draft and final budgets, to give local government as much time as possible to prepare their budgets?

A gaf fi ddweud fy mod hefyd yn bwriadu cyhoeddi'r setliadau dros dro a therfynol y diwrnod ar ôl y cyllidebau drafft a therfynol, er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i lywodraeth leol baratoi eu cyllidebau?

14:44

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we ought to have a little reality check here. Minister, the CSR is going to be 20 days late, which is nothing against a backdrop of five years, whereas the reality of the situation here in Wales is that local government and public services suffer from a lack of timely commitments and long-term strategies on funding from the Welsh Government. For example, the sector priorities fund has taken months to be announced, holding lecturers' and teachers' jobs at risk. Grants have short lives that allow projects to start up but with no resource capability to build on project successes. So, Minister, when will you put an end to this short-termism by the Welsh Government?

Rwy'n meddwl y dylem wynebu realiti yma. Weinidog, mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn mynd i fod 20 diwrnod yn hwyr, sy'n ddim byd yn erbyn cefndir o bum mlynedd, tra mai realiti'r sefyllfa yma yng Nghymru yw bod llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn dioddef o ddiffyg ymrwymiadau amserol a strategaethau cyllid hirdymor gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae wedi cymryd misoedd i gyhoeddi'r gronfa blaenoriaethau sector, gan beryglu swyddi darlithwyr ac athrawon. Oes fer sydd i grantiau sy'n caniatáu i brosiectau ddechrau ond heb adnoddau i adeiladu ar lwyddiannau'r prosiectau. Felly, Weinidog, pa bryd y byddwch yn rhoi diwedd ar yr ymagwedd fyrdymor hon gan Lywodraeth Cymru?

14:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I've got to ask, initially, where is the responsibility for the cuts that are being forced on the Welsh budget. The responsibility lies with the UK Conservative Government and the previous coalition Government. And we can have whatever smokescreens we like from Slasher Burns over there; the reality is that it's the Conservative cuts that are being imposed on Wales. The twenty-fifth of November is incredibly late in the planning cycle. We normally publish the draft budget in early October. We have had to postpone the draft budget by two months in order to accommodate the lateness of the UK Government's—[Interruption.]—comprehensive—

Wel, mae'n rhaid i mi ofyn, yn y lle cyntaf, ble mae'r cyfrifoldeb am y toriadau sy'n cael eu gorfodi ar gyllideb Cymru? Mae'r cyfrifoldeb ar Lywodraeth Geidwadol y DU a'r Llywodraeth glymblaid flaenorol. A gall Slasher Burns yn y fan acw daflu cymaint o lwch i'n llygaid ag y mynn; y gwir amdani yw mai toriadau Ceidwadol sy'n cael eu gorfodi ar Gymru. Mae 25 Tachwedd yn hynod o hwyr yn y cylch cynllunio. Fel arfer, byddwn yn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar ddechrau mis Hydref. Bu'n rhaid i ni ohirio'r gyllideb ddrafft am ddau fis am fod adolygiad—[Torri ar draws.]—cynhwysfawr—

14:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Order.

Trefn. Trefn.

14:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]— spending review. This is a fundamental spending review. We know that it is likely to result in cuts in some Whitehall spending departments of 40 per cent. Those will have serious and deep implications for the budget here in Wales.

[Yn parhau.]—o wariant Llywodraeth y DU yn hwyr. Adolygiad sylfaenol o wariant yw hwn. Rydym yn gwybod ei fod yn debygol o arwain at doriadau o 40 y cant yn rhai o adrannau gwariant Whitehall. Bydd gan y rhain oblygiadau difrifol a dwfn i'r gyllideb yma yng Nghymru.

### Gwasanaethau Cyhoeddus

### Public Services

14:46

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0620(PS)*

*7. Will the Minister outline how the Welsh Government ensures that local authorities deliver improvements to public services? OAQ(4)0620(PS)*

14:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, it is the Welsh Government's role to set out national expectations and to articulate the standards that local people can expect local authorities to meet. Each local authority is responsible for having appropriate systems and processes in place to ensure they deliver quality services for their local communities.

Lywydd, rôl Llywodraeth Cymru yw amlinellu disgwyliadau cenedlaethol a mynegi'r safonau y gall pobl leol ddisgwyl i awdurdodau lleol eu cyrraedd. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal systemau a phrosesau priodol i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd ar gyfer eu cymunedau lleol.

14:47 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. Minister, many types of public services, such as local bus services, depend on huge investment by the private sector but are often seen as a source of income by local authorities. What is your Government doing to encourage genuine partnership between the public and private sectors to improve the services the public depend upon?

Diolch yn fawr iawn. Weinidog, mae llawer o fathau o wasanaethau cyhoeddus, fel gwasanaethau bysiau lleol, yn dibynnu ar fuddsoddiad enfawr gan y sector preifat, ond yn aml bydd awdurdodau lleol yn eu hystyried yn ffynonellau incwm. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i annog partneriaeth wirioneddol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i wella'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt?

14:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Member picks the subject of local bus services, and it is fair to say, I think, that bus services in Wales have enjoyed very strong subsidies from this Welsh Government over the last decade through, for example, the investment that we make in the free bus services for pensioners and disabled people, amongst other grants that go to local bus companies. So, I think we are doing an enormous amount to encourage that partnership. Obviously, local authorities also, then, ensure that they are providing support to allow services to be run to parts of their communities that might not otherwise see bus services.

Wel, mae'r Aelod yn dewis mater gwasanaethau bysiau lleol, ac mae'n deg dweud, rwy'n meddwl, bod gwasanaethau bysiau yng Nghymru wedi mwynhau cymorthdaliadau cadarn iawn gan y Llywodraeth hon dros y degawd diwethaf drwy, er enghraifft, y buddsoddi a wnawn yn y gwasanaethau bysiau am ddim i bensiynwyr a phobl anabl, ymysg grantiau eraill sy'n mynd i gwmnïau bysiau lleol. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn gwneud llawer iawn i annog y bartneriaeth. Yn amlwg, mae awdurdodau lleol hefyd, felly, yn sicrhau eu bod yn darparu cymorth i'w gwneud hi'n bosibl cynnig gwasanaethau i rannau o'u cymunedau na fyddai'n cael gwasanaethau bysiau fel arall.

14:48 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, public protection in Wales is a vital public service. How will the Welsh Government work with colleagues in the newly established public service boards provided for under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 to ensure that this service continues to be delivered with the same level of quality as was previously the case? I'm thinking particularly of the danger of public epidemics, such as Ebola, avian flu or, indeed, swine fever.

Weinidog, mae diogelu'r cyhoedd yng Nghymru yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn y byrddau gwasanaethau cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu ac y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau bod ansawdd y broses o gyflwyno'r gwasanaeth hwn yn parhau ar yr un lefel ag o'r blaen ? Rwy'n meddwl yn benodol am y perygl o heintiau epidemig cyhoeddus, megis Ebola, ffliw adar neu glwy'r moch, yn wir.

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Member is right to raise this issue, and we have obviously been working through the guidance to public service boards. We will be implementing the procedures around public service boards from next April. I think the planning is well under way. I think we've got a good record in Wales of agencies such as Public Health Wales working with local authorities and other providers. The implications of the well-being of future generations Act, which put public service boards on a statutory footing, I think, will enable us to strengthen our response.

Wel, mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater hwn, ac yn amlwg rydym wedi bod yn gweithio drwy'r canllawiau i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn gweithredu'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus o fis Ebrill nesaf. Rwy'n meddwl bod y gwaith cynllunio yn mynd rhagddo'n dda. Rwy'n credu bod gennym hanes da yng Nghymru o asiantaethau megis Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr eraill. Rwy'n credu y bydd goblygiadau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a osododd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar sail statudol, yn ein galluogi i gryfhau ein hymateb.

### Gweithlu'r Sector Cyhoeddus

### The Public Sector Workforce

14:49 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa effaith fydd Bil undebau llafur Llywodraeth y DU yn ei chael ar weithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0619(PS)*

*8. What impact will the UK Government's Trade Union Bill have on the public sector workforce in Wales? OAQ(4)0619(PS)*

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government's Trade Union Bill risks doing significant damage to the public service workforce and public services in Wales.

Mae Bil Undebau Llafur Llywodraeth y DU mewn perygl o wneud difrod sylweddol i'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus ac i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

14:49 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I heard the earlier exchange you had with Simon Thomas. My particular concerns are around the fact that strikes are always a last resort and, sometimes, they are a result of management failings to engage with the workforce. If trade unions are to be incapacitated, I'm afraid that makes that rather much more likely. In particular, I'm concerned about the thresholds required in the public sector for ballots and, also, the 40 per cent of the total workforce that will be needed in so-called important services, and that, in particular, around the women's fight for equal pay for work of equal value, where, inevitably, part of the workforce may be those who don't wish to see women pursuing that claim. What legal advice have you had on whether any of the Bill or some of the Bill might not be applicable to Wales?

Clywais yr hyn a ddywedoch yn gynharach wrth Simon Thomas. Mae fy mhryderon penodol yn ymwneud â'r ffaith mai dewis olaf yw streiciau bob amser ac weithiau, deilliant o fethiant rheolwyr i ymgysylltu â'r gweithlu. Os caiff undebau llafur eu dirymu, mae gennyf ofn y bydd yn gwneud hynny'n llawer mwy tebygol. Yn benodol, rwy'n pryderu ynghylch y trothwyon sy'n ofynnol yn y sector cyhoeddus ar gyfer pleidleisio, a hefyd y 40 y cant o'r gweithlu cyfan y bydd ei angen yn y gwasanaethau pwysig fel y'u gelwir, ac yn arbennig, ynghylch brwydr menywod i sicrhau cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal, lle y bydd rhan o'r gweithlu'n anochel efallai yn cynnwys rhai nad ydynt yn dymuno gweld menywod yn mynd ar drywydd yr hawl honno. Pa gyngor cyfreithiol a gawsoch ynglŷn â'r posibilrwydd na fydd unrhyw ran o'r Bil neu ran o'r Bil yn berthnasol i Gymru?

14:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the UK Government, of course, has asserted that the Bill is not a matter for the Welsh Government or the Assembly. We have challenged that assertion, and, of course, our position has been informed by legal advice. In our view, there are sections of the Bill, not least the additional 40 per cent overall membership support threshold, that relate specifically to devolved responsibilities such as education, health and fire. In view of the UK Government's position, we are considering how we seek to protect legitimate devolved interests, including devolved public services, from this misguided Bill.

Wel, mae Llywodraeth y DU, wrth gwrs, wedi honni nad yw'r Bil yn fater i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad. Rydym wedi herio'r honiad hwnnw, ac wrth gwrs, mae ein safbwynt yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol. Yn ein barn ni, mae rhannau o'r Bil, yn enwedig y trothwy ychwanegol o 40 y cant o gefnogaeth yr aelodaeth yn gyffredinol, sy'n ymwneud yn benodol â chyfrifoldebau datganoledig megis addysg, iechyd a'r gwasanaeth tân. O ystyried safbwynt Llywodraeth y DU, rydym yn ystyried sut rydym am geisio diogelu buddiannau datganoledig cyfreithlon, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, rhag y Bil cyfeiliornus hwn.

14:51 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the turnout in ballot support and some strike action in the public sector in recent years has been so low as to question the legitimacy of the mandate for this action. Do you agree with me that introducing a 50 per cent turnout requirement and a 40 per cent support threshold will ensure that the strikes in the public sector are the result of clear and positive democratic mandate?

Weinidog, mae'r niferoedd sydd wedi pleidleisio dros streic ac wedi mynd ar streic yn y sector cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod mor isel nes cwestiynu dilysrwydd y mandad dros weithredu o'r fath. A ydych yn cytuno â mi y bydd cyflwyno gofyniad o 50 y cant ar y nifer sy'n pleidleisio a throthwy o 40 y cant ar y nifer sy'n cefnogi streic yn sicrhau bod streiciau yn y sector cyhoeddus yn deillio o fandad democrataidd clir a chadarnhaol?

14:51 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't recognise that as being the situation here in Wales. I can give specific examples, of course, where strike action has taken place in England but has been avoided in Wales, as we managed to avoid it last year over fire service pensions, for example. We know the British Medical Association in Wales is not seeking strike action amongst junior doctors, for example. There've been a series of areas where we have been able to avoid strike action being taken. I regret very much the way in which some in this Chamber seek to continue to undermine good working relationships between employers and trade unions.

Nid wyf yn cydnabod mai dyna'r sefyllfa yma yng Nghymru. Gallaf roi enghreifftiau penodol, wrth gwrs, lle y mae streiciau wedi digwydd yn Lloegr, ond wedi cael eu hosgoi yng Nghymru, fel y llwyddasom i'w hosgoi y llynedd dros bensiynau'r gwasanaeth tân, er enghraifft. Gwyddom nad yw Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru yn awyddus i gynnal streic ymysg meddygon iau, er enghraifft. Cafwyd cyfres o feysydd lle rydym wedi gallu osgoi streiciau. Rwy'n gresynu'n fawr at y ffordd y mae rhai yn y Siambr hon yn ceisio parhau i danseilio perthynas waith dda rhwng cyflogwyr ac undebau llafur.

14:52 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what are public sector bodies doing now to exemplify clearly as to why this trade union Bill should not go forward on a UK level? I ask as, only last week, in Neath Port Talbot, the cabinet decided to completely ignore a deal of work carried out by Unison and voted to outsource adult social care, even given the report jointly commissioned with Neath Port Talbot council to try and run it cost effectively in-house at the council. What would be your advice to local authorities that disregard trade unions in this way?

Weinidog, beth y mae cyrff y sector cyhoeddus yn ei wneud yn awr i ddangos yn glir pam na ddylai'r Bil undebau llafur hwn fynd rhagddo ar lefel y DU? Rwy'n gofyn oherwydd yr wythnos diwethaf, yng Nghastell-nedd Port Talbot, penderfynodd y cabinet anwybyddu llawer o waith a wnaed gan Unsain yn gyfan gwbl a phleidleisio i roi gofal cymdeithasol i oedolion ar gontract allanol, hyd yn oed o ystyried yr adroddiad a gomisiynwyd ar y cyd gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot i geisio cynnal y gwasanaeth yn gosteffeithiol gan y cyngor yn fewnol. Beth fyddai eich cyngor i awdurdodau lleol sy'n diystyru undebau llafur fel hyn?

14:52 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We're going slightly beyond the question, which was around the Trade Union Bill. Let me put on record the fact that local government employers, health service employers and employers in the further education sector have made clear their concerns about the Trade Union Bill in respect of the delivery of local council services. Obviously, the questions that the Member has raised are matters for Neath Port Talbot council.

Rydym yn mynd ychydig y tu hwnt i'r cwestiwn a oedd yn ymwneud â'r Bil Undebau Llafur. Gadewch i mi gofnodi'r ffaith fod cyflogwyr llywodraeth leol, cyflogwyr y gwasanaeth iechyd a chyflogwyr yn y sector addysg bellach wedi egluro eu pryderon ynglŷn â'r Bil Undebau Llafur mewn perthynas â darparu gwasanaethau cynghorau lleol. Yn amlwg, materion ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot yw'r cwestiynau y mae'r Aelod wedi'u gofyn.

## Blaenoriaethau Cyllidebol

## Budget Priorities

14:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllidebol y portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0617(PS)*

*9. Will the Minister make a statement on the public services portfolio's budget priorities? OAQ(4)0617(PS)*

14:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Spending priorities for 2016-17 will be announced on 8 December, following the conclusion of the UK Government spending review.

Bydd y blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2016-17 yn cael eu cyhoeddi ar 8 Rhagfyr, ar ôl i adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ddod i ben.

14:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You'll be aware that one of the tremendous successes we've achieved in Wales is that all 22 local authorities across the country have subscribed to the armed forces community covenants scheme. Obviously, resources need to go into ensuring that those ambitions that have been identified by local authorities are actually fulfilled. Given the spending pressures for local authorities, what work are you doing, as the Minister responsible for the armed forces, to ensure that as much advantage is taken as possible of the armed forces community covenants scheme, which is being funded by the Ministry of Defence, with a £10 million-fund to promote bids from Wales?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fe wyddoch mai un o'r llwyddiannau aruthrol rydym wedi'u cyflawni yng Nghymru yw bod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ar draws y wlad wedi cefnogi cynllun cyfamodau cymunedol y lluoedd arfog. Yn amlwg, mae angen adnoddau er mwyn sicrhau bod yr uchelgeisiau a nodwyd gan yr awdurdodau lleol yn cael eu gwireddu. O ystyried y pwysau ar wariant awdurdodau lleol, pa waith rydych yn ei wneud, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y lluoedd arfog, i sicrhau cymaint o fudd â phosibl o gynllun cyfamodau cymunedol y lluoedd arfog, sy'n cael ei ariannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda chronfa gwerth £10 miliwn i hyrwyddo ceisiadau o Gymru?

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I first of all say that I welcome what the Member said? I'm very pleased at the progress that has been made in Wales by the 22 local authorities in taking forward the covenant and in appointing armed forces champions. We've had regular meetings now across Wales, bringing those armed forces champions together. We've obviously engaged, through our armed forces expert group, with the MOD in respect of the £10 million-fund. They have had discussions with local authorities and other partners about how that fund can be used to benefit people in the armed forces in Wales and veterans in Wales, and we will continue to promote those relationships.

Yn gyntaf oll, a gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'r hyn a ddywedodd yr Aelod? Rwy'n falch iawn o'r cynnydd a wnaed yng Nghymru gan y 22 awdurdod lleol ar ddatblygu'r cyfamod ac ar benodi hyrwyddwyr y lluoedd arfog. Rydym wedi cael cyfarfodydd rheolaidd bellach ar draws Cymru, gan ddod â hyrwyddwyr y lluoedd arfog at ei gilydd. Yn amlwg, rydym wedi ymgysylltu, drwy ein grŵp arbenigol ar y lluoedd arfog, â'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'r gronfa £10 miliwn. Maent wedi cael trafodaethau gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ynglŷn â sut y gellir defnyddio'r gronfa er budd pobl yn y lluoedd arfog yng Nghymru a chyn-filwyr yng Nghymru, a byddwn yn parhau i hybu'r cysylltiadau hynny.

### Cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol

### Funding for Local Authorities

14:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0613(PS)*

*10. Will the Minister make a statement on funding for local authorities in north Wales? OAQ(4)0613(PS)*

14:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Authorities receive funding from a number of sources. The majority of the funding provided by the Welsh Government is delivered through the local government settlement. Allocations for 2016-17 will be announced following the conclusion of the UK Government spending review.

Mae awdurdodau'n derbyn cyllid o nifer o ffynonellau. Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad i lywodraeth leol. Cyhoeddir y dyraniadau ar gyfer 2016-17 ar ôl i adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ddod i ben.

14:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you'll be aware that many rural local authorities in Wales feel unfairly disadvantaged by the local government funding formula and that they feel that it needs to be reviewed in order to give greater weighting towards rural sparsity. I know that you constantly bat this back to the WLGA and their committee that looks at the formula on an annual basis, but, given that most of the local authorities in Wales would, potentially, be disadvantaged through any change in respect of rural sparsity, will you seek to look at this yourself to determine whether the formula is fair, going forward, and given that Conwy, Denbighshire and other local authorities with rural communities feel badly let down?

Weinidog, fe wyddoch fod llawer o awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru yn teimlo dan anfantais annheg oherwydd y fformiwla ariannu llywodraeth leol a'u bod yn teimlo bod angen ei hadolygu er mwyn sicrhau mwy o bwysoliad tuag at deneurwydd y boblogaeth wledig. Rwy'n gwybod eich bod yn gyson yn dwyn hyn i sylw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'u pwyllgor sy'n edrych ar y fformiwla ar sail flynyddol, ond o ystyried y byddai'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru o bosibl o dan anfantais yn sgil unrhyw newid o ran teneurwydd y boblogaeth wledig, a wnewch chi geisio edrych ar hyn eich hun i benderfynu a yw'r fformiwla'n deg ar gyfer y dyfodol, ac o ystyried bod Conwy, Sir Ddinbych ac awdurdodau lleol eraill sydd â chymunedau gwledig yn teimlo'u bod yn cael cam mawr?

14:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I've yet to meet a single local government leader in Wales who thinks that the funding formula works to benefit his or her authority more than any other. I think that everybody in this Chamber understands that the funding formula is complex, it is not straightforward, it is not simple and there is a whole series of elements that has to be taken into account, including sparsity, including deprivation and many others. We have had the meeting of the distribution sub-group, and of the finance sub-group alongside that, recently. Again, we've looked at—and there have been natural, you know, changes and adjustments to the formula this year, as there are every year, but I think that unpicking the funding formula at this particular time would be a mistake.

Lywydd, rwyf eto i gwrdd ag unrhyw arweinydd llywodraeth leol yng Nghymru sy'n credu bod y fformiwla gyllido yn gweithio er budd ei awdurdod yn fwy nag unrhyw awdurdod arall. Credaf fod pawb yn y Siambr hon yn deall bod y fformiwla ariannu'n gymhleth, nid yw'n rhwydd, nid yw'n syml ac mae cyfres gyfan o elfennau sy'n rhaid eu hystyried, gan gynnwys teneurwydd y boblogaeth, gan gynnwys amddifadedd a llawer o elfennau eraill. Rydym wedi cael y cyfarfod o'r is-grŵp dosbarthu, a'r is-grŵp cyllid ochr yn ochr â hynny, yn ddiweddar. Unwaith eto, rydym wedi edrych ar—a chafwyd newidiadau, wyddoch chi, ac addasiadau naturiol i'r fformiwla eleni, fel pob blwyddyn, ond rwy'n meddwl y byddai edrych yn fanwl ar y fformiwla cyllido ar hyn o bryd yn gamgymeriad.

14:56 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r toriadau i'r grant cefnogi'r dreth wedi creu argyfwng ymhlith cynghorau ledled Cymru. Mae Cyngor Gwynedd, er enghraifft, yn paratoi i dorri ei gyllideb o £50 miliwn y flwyddyn dros y blynyddoedd nesaf yma, ac mae'r rhan fwyaf o'r arbedion hynny'n dod o newid ffyrdd o weithio a bydd hynny'n cyfrannu at yr arbedion. Ond mi fydd yna doriadau o £7 miliwn, ac mae'r cyngor yn ymgynghori gyda'r cyhoedd ar hyn o bryd i weld pa fath o wasanaethau y mae'r cyhoedd yn fodlon gwneud hebddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cau'r holl ganolfannau hamdden a chau'r mwyafrif o'r llyfrgelloedd. Pa fath o doriadau i wasanaethau fyddai'n dderbyniol gennych chi, gan fod hyn yn anochel yn yr hinsawdd sydd ohoni?

The cuts to the rate support grant have led to a crisis for councils across Wales. Gwynedd Council, for example, is preparing to cut its budget by £50 million a year over the next few years, and most of those savings will come from changing working practices, and this will contribute to the savings. However, there will be cuts of £7 million, and the council is consulting with the public at the moment to see what sort of services the public is willing to live without. This includes, for example, closing all the leisure centres and the majority of libraries. What sort of cuts to services would be acceptable to you, as this is inevitable in the current climate?

14:57 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't think it's a question of what kind of cuts would be acceptable to me. These are decisions, obviously, that Gwynedd has got to take. But, Gwynedd faces the same sort of challenges as local authorities across the whole of Wales in trying to determine its own local priorities. What I would say to the Member is that I hope that Gwynedd, like other authorities, would look at alternatives to closure of services, which might include, for example, community asset transfers on a mutual or co-operative basis, as a number of authorities in Wales are seeking to do.

Nid wyf yn credu ei fod yn fater o ba fath o doriadau a fyddai'n dderbyniol i mi. Dyma benderfyniadau, yn amlwg, sy'n rhaid i Wynedd eu gwneud. Ond mae Gwynedd yn wynebu'r un math o heriau ag awdurdodau lleol ar draws Cymru gyfan wrth iddynt geisio penderfynu ar eu blaenoriaethau lleol eu hunain. Yr hyn a ddywedwn wrth yr Aelod yw fy mod yn gobeithio y byddai Gwynedd, fel awdurdodau eraill, yn edrych ar ddewisiadau amgen yn lle diddymu gwasanaethau, a allai gynnwys, er enghraifft, trosglwyddo asedau cymunedol ar sail gydfuddiannol neu gydweithredol, fel y mae nifer o awdurdodau yng Nghymru yn ceisio ei wneud.

### Atebolrwydd Llywodraeth Leol

### Local Government Accountability

14:58 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau atebolrwydd llawn mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0604(PS)*

*11. How does the Minister ensure full accountability in local government? OAQ(4)0624(PS)*

14:58 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Local government, like all democratic bodies, is subject to accountability to the electorate through the ballot box, but also through the requirements to meet in public and publish papers, minutes and performance outcomes.

Mae llywodraeth leol, fel pob corff democrataidd, yn atebol i'r etholwyr drwy'r blwch pleidleisio, ond hefyd drwy'r gofynion i gyfarfod yn gyhoeddus a chyhoeddi papurau, cofnodion a chanlyniadau perfformiad.

14:58 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm most grateful to the Minister for his answer. You'll be aware of numerous issues, particularly in recent years, regarding IT procurement, with charges incurred by Torfaen County Borough Council, over £400,000 overspend on their shared resource service, suspension on full pay then termination of employment of an IT officer cleared of criminal activity, and the storage of 2,500 laptops intended for use by pupils and never used. Can you ensure that all necessary details of these incidents are placed on public record to ensure adequate public scrutiny?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. Fe fyddwch yn ymwybodol o nifer o faterion, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf, yn ymwneud â chaffael TG, a thaliadau a ysgwyddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, dros £400,000 o orwariant ar eu gwasanaeth adnoddau a rennir, atal dros dro ar gyflog llawn cyn terfynu cyflogaeth swyddog TG a gafwyd yn ddieuog o weithgarwch troseddol, a storio 2,500 o liniaduron y bwriadwyd i ddisgyblion eu defnyddio, er na wnaed unrhyw ddefnydd ohonynt byth. A allwch chi sicrhau bod holl fanylion angenrheidiol y digwyddiadau hyn yn cael eu cofnodi'n gyhoeddus i sicrhau eu bod yn cael eu craffu'n ddigonol gan y cyhoedd?

14:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure that the Member will have taken the appropriate steps in respect of raising these issues directly with the leadership of Torfaen County Borough Council. I think it's important that he does so, if he's not done so. I think that a considerable amount of material has been put in the public domain, as he rightly said. There were proceedings that resulted, as I understand it, in an acquittal of the individual to whom he referred. Clearly, in any situation like this, we would want to see a proper post-mortem being carried out of what had occurred and what had gone wrong.

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod wedi cymryd y camau priodol o ran crybwyll y materion hyn yn uniongyrchol wrth arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iddo wneud hynny, os nad yw wedi gwneud hynny. Credaf fod cryn dipyn o ddeunydd wedi'i ryddhau i'r cyhoedd, fel yr oedd yn iawn i ddweud. Cafwyd achos a arweiniodd, yn ôl a ddeallaf, at gael yr unigolyn y cyfeiriodd ato'n ddieuog. Yn amlwg, mewn unrhyw sefyllfa o'r fath, byddem am weld post mortem priodol yn cael ei gynnal o'r hyn a ddigwyddodd a beth aeth o'i le.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

### Public Service Boards

**Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0625(PS)*

*12. Will the Minister provide an update on the setting-up of public service boards? OAQ(4)0625(PS)*

Will the Minister provide an update on the setting up of public services boards under the new Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015?

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 newydd?

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, public services boards will be established next spring alongside the commencement of the other main provisions in the Well-being of Future Generations (Wales) Act.

Lywydd, bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu sefydlu yn y gwanwyn ochr yn ochr â phrif ddarpariaethau eraill Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

15:00 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The future generations Act established public services boards for each local authority area of Wales. In light of the fact that the much-delayed plans to reorganise local government has still to be approved by this Assembly, can you outline how long you envisage the current PSBs to sit for, and explain how the public can have confidence in the decisions that these boards may take when they may only exist in their current form for a couple of years, if at all?

Diolch yn fawr, Weinidog. Sefydlodd Deddf cenedlaethau'r dyfodol fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. O ystyried bod y cynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol sydd wedi wynebu oedi mawr heb gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad hwn hyd yn hyn, a wnewch chi amlinellu am ba hyd y rhagwelwch y bydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus cyfredol yn cyfarfod, ac esbonio sut y gall y cyhoedd gael hyder yn y penderfyniadau y gallai'r byrddau hyn eu gwneud er na fyddant o bosibl yn bodoli ar eu ffurf bresennol am fwy na blwyddyn neu ddwy, os o gwbl?

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Llywydd, there are no current public services boards. As I said in the answer to the question from the Member, they come into effect next year. It will obviously then be for the Assembly to determine the future shape of local government, and therefore the future shape of public services boards.

Wel, Lywydd, ni cheir unrhyw fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd. Fel y dywedais yn yr ateb i'r cwestiwn gan yr Aelod, dônt i rym y flwyddyn nesaf. Mater i'r Cynulliad wedyn, yn amlwg, fydd penderfynu ar ffurf llywodraeth leol yn y dyfodol, ac felly ar ffurf byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:01

## Cwestiwn Brys: Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan Ewrop

## Urgent Question: The All-Wales European Programme Monitoring Committee

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Andrew R.T. Davies to ask the question.

Rwyf wedi cael cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn.

15:01

### Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei benderfyniad i ddiswyddo cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan Ewrop ar gyfer 2014-2020? EAQ(4)2513(FM)

Will the First Minister make a statement on his decision to dismiss the chair of the All-Wales European Programme Monitoring Committee 2014-2020? EAQ(4)2513(FM)

15:01

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The chair of the programme monitoring committee is an appointment made by the First Minister because that person, as is made clear in a letter of appointment, is a representative of the Welsh Government. It's further made clear in the provisions of the appointment that that person is required to have particular regard to acting within the spirit of collective responsibility, the main principles of the ministerial code, and the code of practice for ministerial appointments to public bodies.

Mae cadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn benodiad a wnaed gan y Prif Weinidog am fod y cyfryw unigolyn, fel sy'n cael ei wneud yn glir mewn llythyr penodi, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Gwnaed yn glir hefyd yn narpariaethau'r penodiad ei bod yn ofynnol i'r cyfryw unigolyn roi sylw arbennig i weithredu mewn ysbryd o gydgyfrifoldeb, prif egwyddorion y cod gweinidogol, a'r cod ymarfer ar gyfer penodiadau gweinidogol i gyrff cyhoeddus.

15:01

### Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. Could you be a little more clear as to how you believe that the past chairman, who you dismissed yesterday, was deficient in her role in carrying out the role as chairman of that oversight of a considerable sum of European money—£1.6 billion-worth of European money—and wouldn't you agree with the comments of Jo Stevens, the Labour Member of Parliament for Cardiff Central, when she said:

'Jenny raised reasonable and legitimate concerns about the M4 relief road consultation spend'?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. A wnewch chi fod ychydig yn fwy eglur ynglŷn â sut y credwch fod y cadeirydd yn y gorffennol, a ddiswyddwyd gennych ddoe, yn ddiffygiol o ran y modd y cyflawnodd ei rôl fel cadeirydd yn goruchwylio swm sylweddol o arian Ewropeaidd—gwerth £1.6 biliwn o arian Ewropeaidd—ac oni fyddech yn cytuno â sylwadau Jo Stevens, yr Aelod Seneddol Llafur dros Ganol Caerdydd, pan ddywedodd:

'Jenny raised reasonable and legitimate concerns about the M4 relief road consultation spend'?

15:02

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The ability of the chair did not form part of my considerations, and I draw the leader of the opposition back to what I said about collective responsibility and the need to avoid statements that conflict with that.

Nid oedd gallu'r cadeirydd yn rhan o fy ystyriaethau, ac rwy'n tynnu sylw arweinydd yr wrthblaid yn ôl at yr hyn a ddywedais am gydgyfrifoldeb a'r angen i osgoi datganiadau sy'n gwrthdaro â hynny.

15:02 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, when I compared your managerial style to that of Sepp Blatter the other day I was clearly wrong. [Laughter.] I underestimated your ruthlessness. I have to say that it confuses me now that we can have a chair of a monitoring committee that has to follow the Government's line. What monitoring can possibly take place when the chair has to be held to the Government's collective responsibility? Now, your own Assembly Member, Jenny Rathbone, says that this demonstrates an unhealthy culture at the top of Welsh Government. So, I can ask you, First Minister: what does it say about your culture, your accountability, and your stewardship of public finances when the chair of a committee gets sacked for asking for a debate about spending £20 million, but those responsible for undervaluing land, and losing the public finances £21 million, just carry on?

Brif Weinidog, pan gymharais eich arddull reoli ag un Sepp Blatter y diwrnod o'r blaen, roeddwn yn amlwg yn anghywir. [Chwerthin.] Roeddwn yn synied yn rhy isel am eich diffyg tosturi. Mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn peri penbleth i mi yn awr ein bod yn gallu cael cadeirydd pwyllgor monitro sy'n gorfod dilyn safbwyntiau'r Llywodraeth. Pa fonitro posibl a all ddigwydd pan fydd yn rhaid i'r cadeirydd gael ei ddwyn i gyfrif ar y cyd â'r Llywodraeth? Nawr, mae eich Aelod Cynulliad eich hun, Jenny Rathbone, yn dweud bod hyn yn dangos diwylliant afiach ar frig Llywodraeth Cymru. Felly, a gaf fi ofyn i chi, Brif Weinidog: beth y mae'n ei ddweud am eich diwylliant, eich atebolrwydd a'ch stiwardiaeth o gyllid cyhoeddus pan ddiswyddir cadeirydd pwyllgor am ofyn am ddadl ynglŷn â gwario £20 miliwn, a'r rhai sy'n gyfrifol am danbrisio tir, a cholli cyllid cyhoeddus gwerth £21 miliwn yn dal ati?

15:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

As the Member will be aware, his party was more than happy with the arrangements for the chair of the PMC when they were in power. They did not raise any issues regarding the propriety of the appointments process. There are requirements the chair of the PMC must meet, as somebody who must have regard to collective responsibility. They don't necessarily apply, of course, to somebody who is on the back benches. Nevertheless, in my judgment, I had to take a view based on the requirement that the collective responsibility requires, of course, that that person adheres to that principle at all times.

Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, roedd ei blaid yn fwy na bodlon â'r trefniadau ar gyfer cadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen pan oeddent mewn grym. Ni chrybwyllwyd unrhyw broblemau ganddynt o ran priodoldeb y broses benodi. Ceir gofynion sy'n rhaid i gadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen eu cyflawni, fel rhywun sy'n gorfod rhoi sylw i gydgyfrifoldeb. Nid ydynt o reidrwydd yn berthnasol, wrth gwrs, i rywun sydd ar y meinciau cefn. Serch hynny, yn fy marn i, roedd rhaid i mi ffurfio barn yn seiliedig ar y gofyniad fod cydgyfrifoldeb yn ei gwneud yn ofynnol, wrth gwrs, i'r unigolyn dan sylw gydymffurfio â'r egwyddor honno bob amser.

15:04 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, in 1997 and in 2011 we fought a referendum telling the people of Wales that devolution could provide a better politics and a different way of doing things, yet in the last month you have removed access to ministerial decision reports, you continually duck out of giving straight answers in First Minister's questions, and now you have removed a committee chair whose job it was to scrutinise the performance of your Government. So much for a different kind of politics, a better politics, a kinder politics. First Minister, scrutinising how your Government effectively spends millions of pounds of European structural funds is surely the most important thing—more important than Cabinet responsibility and collectivism and more important than party political disputes. Could you please review how the programme monitoring committee now works, and how we can have confidence that, if that spending is not as it should be, that chair will be able to bring that to our attention? And given my understanding that you have now appointed a new chair who shares the views of the previous chair on the folly of your M4 relief plans, does that mean that he, too, is not going to be long for the job?

Brif Weinidog, yn 1997 ac yn 2011 ymladdwyd refferendwm gennym yn dweud wrth bobl Cymru y gallai datganoli ddarparu gwleidyddiaeth well a ffordd wahanol o wneud pethau, ac eto yn ystod y mis diwethaf rydych wedi cael gwared ar fynediad at adroddiadau ar benderfyniadau gweinidogol, rydych yn gyson yn osgoi rhoi atebion uniongyrchol i gwestiynau i'r Prif Weinidog, ac yn awr rydych wedi cael gwared ar gadeirydd pwyllgor a oedd â'r gwaith o graffu ar berfformiad eich Llywodraeth. Beth ddigwyddodd i fath gwahanol o wleidyddiaeth, gwleidyddiaeth well, gwleidyddiaeth fwy caredig? Brif Weinidog, craffu ar sut y mae eich Llywodraeth yn gwario miliynau o bunnoedd o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn effeithiol yw'r peth pwysicaf un—mae'n bwysicach na chyfrifoldeb Cabinet a chyfunoliaeth a phwysicach na dadleuon gwleidyddiaeth plaid. A wnewch chi adolygu sut y mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn gweithio bellach os gwelwch yn dda, a sut y gallwn fod yn hyderus, os nad yw'r gwariant fel y dylai fod, y bydd y cadeirydd yn gallu dwyn hynny i'n sylw? Ac o ystyried fy nealltwriaeth eich bod bellach wedi penodi cadeirydd newydd sy'n rhannu barn y cadeirydd blaenorol ar ffolineb eich cynlluniau lliniaru ar gyfer yr M4, a yw hynny'n golygu na fydd ef, chwaith, yn y swydd yn hir?

15:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Really. I mean, the leader of the Lib Dems yesterday asked me a direct question and got a direct answer. She was quite stunned by it; I could tell by her face. So, I think that that suggestion—

Wel wir. Gofynnodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol gwestiwn uniongyrchol i mi ddoe a chael ateb uniongyrchol. Cafodd ei synnu ganddo; gallwn ddweud wrth ei hwyneb. Felly, credaf fod yr awgrym hwnnw'n—

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Yes, because it's a first.

Do, am mai dyna'r tro cyntaf iddo ddigwydd.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—is fallacious from her point of view.

[Yn parhau.]—yn gyfeiliornus o'i safbwynt hi.

The second allegation is that, somehow, there is a ruthless culture at the top of the leadership. Well, if that were the case, then Mick Antoniw would not be the chair of the PMC, would he, given his previous comments? That clearly gives the lie to any suggestion along those lines. There is also a misunderstanding, I would suggest, on behalf of the Lib Dems, that this is an Assembly committee. It is not an Assembly committee. It is not responsible to the Assembly in any way. It is a committee that monitors the programme itself, as the name suggests. It takes no decisions, and its job is not to scrutinise Ministers. She's wrong about that. Its job is to—well, I'll read it out. It's responsible for monitoring the effective delivery of the programmes. It approves the project and selection criteria for the European regional development fund, European social fund and European agricultural fund for rural development programmes, but it is not involved in decisions or funding approvals on projects. The PMC reviews implementation of the programmes and their progress towards achieving the objectives agreed with the EC. In doing so, it considers financial data, common and programme-specific output and result indicators, and the performance framework milestones agreed with the EC. It is also consulted on any issues regarding modification of a programme put forward by the managing authority—that's the Welsh Government—before submission to the EC. It may also issue observations to the programme managing authorities regarding implementation of the programmes and their evaluation.

Yr ail honiad yw bod yna ddiwylliant didostur, rywsut, ar frig yr arweinyddiaeth. Wel, pe bai hynny'n wir, yna ni fyddai Mick Antoniw yn gadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, na fyddai, o ystyried ei sylwadau blaenorol? Mae hynny'n dangos yn glir nad yw'n ddim o'r fath. Mae yna gamddealltwriaeth hefyd, fe fyddwn yn awgrymu, ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, mai un o bwyllgorau'r Cynulliad yw hwn. Nid yw'n un o bwyllgorau'r Cynulliad. Nid yw'n atebol i'r Cynulliad mewn unrhyw ffordd. Mae'n bwyllgor sy'n monitro'r rhaglen ei hun, fel yr awgryma'r enw. Nid yw'n gwneud unrhyw benderfyniadau, ac nid craffu ar Weinidogion yw ei waith. Mae hi'n anghywir ynglŷn â hynny. Ei waith yw—wel, fe'i darllennaf. Mae'n gyfrifol am fonitro bod y rhaglenni'n cael eu darparu'n effeithiol. Mae'n cymeradwyo'r meini prawf prosiect a dethol ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig, ond nid yw'n rhan o'r broses o benderfynu neu gymeradwyo cyllid ar gyfer prosiectau. Mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn adolygu gweithrediad y rhaglenni a'u cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried data ariannol, dangosyddion allbwn a chanlyniadau cyffredinol a phenodol i'r rhaglen, a cherrig milltir y fframwaith perfformiad y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Ymgynghorir â'r pwyllgor hefyd ar unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas ag addasu rhaglen a gyflwynwyd gan yr awdurdod rheoli—sef Llywodraeth Cymru—cyn ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Gall hefyd roi sylwadau i'r awdurdodau rheoli rhaglen ynglŷn â gweithrediad y rhaglenni a'u gwerthusiad.

It's not actually a committee designed to hold Ministers to account. It's not a scrutiny committee in that regard. It's more like an advisory group, and the chair of the PMC is bound by collective responsibility, and that is something I have to take into account when these decisions are taken.

Nid yw'n bwyllgor a gynlluniwyd mewn gwirionedd ar gyfer dwyn Gweinidogion i gyfrif. Nid yw'n bwyllgor craffu yn hynny o beth. Mae'n fwy fel grŵp ymgynghorol, a rhwymir cadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen gan gydgyfrifoldeb, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n rhaid i mi ei ystyried pan wneir y penderfyniadau hyn.

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Is it me?

Ai fi sydd i fynd?

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Come on. Keep up.

Dewch. Dewch ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Diolch. First Minister, given that the Welsh European Funding Office website still has Jenny Rathbone as chair of the committee, did you discuss this change with anyone in Brussels in advance of yesterday? If not, what message does this send to the EU about your commitment to the monitoring of the spend of EU funds?

Diolch. Brif Weinidog, o gofio bod gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn dal i nodi mai Jenny Rathbone yw cadeirydd y pwyllgor, a ydych chi wedi trafod y newid hwn gydag unrhyw un ym Mrwsel cyn ddoe? Os na, pa neges y mae hyn yn ei hanfon i'r UE am eich ymrwymiad i fonitro'r gwariant ar gronfeydd yr UE?

Senedd.tv Fideo Video

15:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The answer is 'no' and 'none'.

Yr ateb yw 'naddo' a 'dim'.

Senedd.tv Fideo Video

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have no more questions.

Nid oes gennyf ragor o gwestiynau.

Senedd.tv Fideo Video

15:08

## 3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru—Tlodi ac Anghydraddoldeb

## 3. Debate on the Communities, Equality and Local Government Committee's Report on its Inquiry into Poverty in Wales—Poverty and Inequality

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a debate on the Communities, Equality and Local Government Committee's report—'Inquiry into Poverty in Wales: Poverty and Inequality'. I call on the Chair of the committee, Christine Chapman.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol—'Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Tlodi ac Anghydraddoldeb'. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, Christine Chapman.

Cynnig NDM5842 Christine Chapman

Motion NDM5842 Christine Chapman

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Dlodi yng Nghymru: tlodi ac anghydraddoldeb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2015.

Notes the report of the Communities, Equality and Local Government Committee into Poverty in Wales: poverty and inequality, which was laid in the Table Office on 18 June 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:08 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Giving evidence to our inquiry into poverty and inequality in Wales, the Trussell Trust told Members that, between April 2013 and March 2014, there had been 124 per cent increase in the number of people in Wales having to rely on food banks. Now, this is just one symptom of the more than one in five people in Wales who live in poverty. Over the past 20 years, the percentage of people in poverty in Wales has dropped slightly, but in other areas of the UK with high poverty, like the north-east of England, the level of poverty has dropped more than in Wales. Since the early 2000s, the level of poverty in Wales has not reduced at all. As a committee, we were very worried about these statistics, and that was the starting point for our inquiry. On this point, before I continue, I would like to pay tribute to our clerking team and our research team, who helped us with our report.

Wrth roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i dlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru, dywedodd Ymddiriedolaeth Trussell wrth yr Aelodau fod cynnydd o 124 y cant wedi bod rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014 yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n gorfod dibynnu ar fanciau bwyd. Nawr, dyma un symptom yn unig o'r mwy nag un o bob pump o bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi gostwng ychydig, ond mewn ardaloedd eraill yn y DU sydd â lefelau uchel o dlodi, fel gogledd-ddwyrain Lloegr, mae lefel tlodi wedi gostwng mwy nag yng Nghymru. Ers y 2000au cynnar, nid yw lefel tlodi yng Nghymru wedi gostwng o gwbl. Fel pwyllgor, roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'r ystadegau hyn, a dyna oedd y man cychwyn ar gyfer ein hymchwiliad. Ar y pwynt hwn, cyn i mi barhau, hoffwn roi teyrnged i'n tîm clercio a'n tîm ymchwil, a'n helpodd gyda'n hadroddiad.

Senedd.tv Fideo Video

Going back to the report, when we started this work, we talked to organisations such as Oxfam and Save the Children to find out what they thought the Welsh Government should be doing differently to help people in poverty. We also visited some interesting projects, including a number of projects working with people on low incomes across Wales, to talk about their work. I would like to record the committee's gratitude to everyone who contributed to this inquiry. We have made a number of recommendations to the Minister, but given the time available, I will focus on just a few of our main concerns.

As a committee, we noted the many ongoing commitments from the Welsh Government to tackling poverty. We were pleased that this remains a priority for Welsh Government, but we were concerned that more needs to be done to make a real reduction in poverty levels, and we believe that this is due, at least in part, to the approach taken by the Government to date, which we felt focuses on treating the symptoms of poverty, rather than tackling the root causes. We felt that the Welsh Government needs to be more accountable for poverty reduction in Wales and that there needs to be more external involvement in scrutiny and policy creation from the public, third, private and academic sectors, because we felt that poverty reduction is not something that can be achieved by the Government in isolation.

We also felt, as a committee, that the Welsh Government also needs to listen to people's experiences of poverty and to formulate policy based on what works best for individuals, taking into account different needs, characteristics and circumstances. We also felt that, if you are someone living in poverty, people in poverty are not just one homogenous group. It's therefore disappointing that our recommendation for the Welsh Government to establish a Welsh poverty reduction alliance, which would bring together these different groups, was rejected.

As a committee, we felt strongly that the Welsh Government needs a deeper understanding of what it means to be living in poverty. We feel that a clear definition of poverty based on needs and resources is needed, rather than the standard income-based measurement. The Government's approach to tackling poverty should be formed around addressing every person's minimum human needs, and this means food, shelter and fuel. I'm therefore pleased that the Minister has accepted our recommendation that the Welsh Government should adopt a clear definition of poverty. We thought that that is very positive. We suggest that this definition should be based on the measurement of whether a person's resources are sufficient to meet their minimum human needs and to have an acceptable living standard that allows them to participate in society. We also recommended that the Welsh Government makes a commitment, in its tackling poverty strategy, to ensure that every person in Wales has food, shelter and warmth, and this should include detailed analyses and targets for food poverty, fuel poverty and homelessness. The Minister has accepted this recommendation in principle and I do welcome her assurance that the Welsh Government will do all it can to ensure people's minimum needs are met.

Gan fynd yn ôl at yr adroddiad, ar ddechrau'r gwaith, buom yn siarad â sefydliadau megis Oxfam ac Achub y Plant i gael gwybod beth yn eu barn hwy y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud yn wahanol i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi. Ymwelsom hefyd ag ambell brosiect diddorol, gan gynnwys nifer o brosiectau sy'n gweithio gyda phobl ar incwm isel ar draws Cymru, i siarad am eu gwaith. Hoffwn gofnodi diolch y pwyllgor i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Gweinidog, ond o ystyried yr amser sydd ar gael, fe ganolbwyntiaf ar ychydig o'n prif bryderon yn unig.

Fel pwyllgor, nodasom y nifer o ymrwymiadau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi. Roeddem yn falch fod hon yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ond rydym yn pryderu bod angen gwneud mwy i sicrhau gostyngiad gwirioneddol yn lefelau tlodi, ac rydym yn credu bod hyn yn deillio, yn rhannol o leiaf, o ddull y Llywodraeth o weithredu hyd yn hyn, y teimlwn ei fod yn canolbwyntio ar drin symptomau tlodi, yn hytrach na mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Roeddem yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy atebol am leihau tlodi yng Nghymru a bod angen mwy o ymwneud allanol â chraffu a chreu polisi o'r sector preifat, y trydydd sector a sectorau academaidd, gan ein bod yn teimlo nad yw lleihau tlodi yn rhywbeth y gall y Llywodraeth ei gyflawni ar ei phen ei hun.

Fel pwyllgor, roeddem hefyd yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru wrando ar brofiadau pobl o dlodi a ffurfio polisi'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau i unigolion, gan ystyried gwahanol anghenion, nodweddion ac amgylchiadau. Roeddem yn teimlo hefyd, os ydych yn rhywun sy'n byw mewn tlodi, nid un grŵp homogenaidd yn unig yw pobl sy'n byw mewn tlodi. Felly, mae'n siomedig fod ein hargymhelliad y dylai Lywodraeth Cymru sefydlu cynghrair lleihau tlodi yng Nghymru, a fyddai'n dod â'r gwahanol grwpiau at ei gilydd, wedi cael ei wrthod.

Fel pwyllgor, teimlem yn gryf fod angen dealltwriaeth ddyfnach ar Lywodraeth Cymru o'r hyn y mae byw mewn tlodi yn ei olygu. Teimlwn fod angen diffiniad clir o dlodi yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau, yn hytrach na'r mesur safonol sy'n seiliedig ar incwm. Dylai dull y Llywodraeth o drechu tlodi gael ei seilio ar fynd i'r afael ag anghenion dynol sylfaenol pob unigolyn, ac mae hyn yn golygu bwyd, cysgod a thanwydd. Rwy'n falch felly fod y Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad clir o dlodi. Roeddem o'r farn fod hynny'n gadarnhaol iawn. Awgrymwn y dylai'r diffiniad hwn fod yn seiliedig ar fesur a yw adnoddau unigolyn yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion dynol sylfaenol ac i gael safon byw dderbyniol sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas. Roeddem hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad, yn ei strategaeth trechu tlodi, i sicrhau bod gan bob unigolyn yng Nghymru fwyd, cysgod a gwres, a dylai hyn gynnwys dadansoddiadau a thargedau manwl ar gyfer tlodi bwyd, tlodi tanwydd a digartrefedd. Mae'r Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ac rwy'n croesawu ei sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod anghenion sylfaenol pobl yn cael eu diwallu.

Finally, I'd like to turn to the issue of those living in poverty. We found out that over half of people in poverty are actually living in working households—it's almost counterintuitive, really—but they are poorly paid or don't have guaranteed hours, and we believe that the Welsh Government needs to deal with the low-skilled end of the labour market in Wales, such as in the care, retail and hospitality sectors. It should work to drive up the quality of low-skilled jobs using the influence it already has, for example through procurement rules and grant funding conditions. I think this would go a long way to improving the quality of life for people experiencing in-work poverty.

Yn olaf, hoffwn droi at y rhai sy'n byw mewn tlodi. Darganfuom fod dros hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi mewn gwirionedd yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio—mae bron yn groes i reswm, yn wir—ond cânt eu talu'n wael neu nid ydynt yn cael oriau pendant, a chredwn fod angen i Lywodraeth Cymru ymdrin â'r pen o'r farchnad lafur yng Nghymru sydd heb lawer o sgiliau, megis y sectorau gofal, manwerthu a lletygarwch. Dylai weithio i wella ansawdd y swyddi nad oes angen llawer o sgiliau i'w gwneud gan ddefnyddio'r dylanwad sydd ganddi eisoes, er enghraifft drwy reolau caffael ac amodau cyllid grantiau. Rwy'n credu y byddai hyn yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at wella ansawdd bywyd i bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith.

Improved engagement with the private sector is also crucial to poverty reduction. Jobs created by Government initiatives should be high quality, with decent pay, secure contracts and good employment packages, such as childcare and flexible hours. As such, we have recommended that the Welsh Government uses its influence to improve the quality of these low-paid jobs. I am pleased that, in accepting this recommendation, the Minister has given a commitment to using the funding available to the Welsh Government through procurement and grant funding in order to maximise benefit for the Welsh economy in general, and for those living in poverty in particular. Of course, we recognise that many of the levers to tackle poverty are not devolved, such as tax and social security benefits. These are with the UK Government, but this should not stop us doing all we can with the tools that are available to us. Poverty is corrosive. It is toxic, and I think it's not inevitable. I think it is about a choice and a priority. So, I commend this report to the Assembly, and I look forward to the debate. Thank you.

Mae gwella ymgysylltiad â'r sector preifat hefyd yn hanfodol i leihau tlodi. Dylai swyddi a grëwyd gan fentrau Llywodraeth fod o ansawdd da, gyda chyflog gweddus, contractau diogel a phecynnau cyflogaeth da, megis gofal plant ac oriau hyblyg. Fel y cyfryw, rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei dylanwad i wella ansawdd y swyddi cyflog isel hyn. Rwy'n falch fod y Gweinidog, wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, wedi ymrwymo i ddefnyddio'r arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy gaffael a chyllid grantiau er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i economi Cymru yn gyffredinol, ac i'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn arbennig. Wrth gwrs, rydym yn cydnabod nad yw llawer o'r ysgogwyr ar gyfer mynd i'r afael â thlodi wedi'u datganoli, fel treth a budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Llywodraeth y DU sydd â'r rhain, ond ni ddylai hyn ein hatal rhag gwneud popeth yn ein gallu gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae tlodi'n gyrydol. Mae'n wenwynig, ac nid yw'n anochel yn fy marn i. Rwy'n credu ei fod yn ymwneud â dewis a blaenoriaeth. Felly, rwy'n cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad, ac edrychaf ymlaen at y ddadl. Diolch.

15:14

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With 2 million more people in work today than in 2010 and the number of workless households at a record low across the UK, it is alarming that, as our report found, more than one in five people live in poverty in Wales. Since the early 2000s, the level of poverty in Wales has been static, and Wales is currently behind only London, with 23 per cent of the population in poverty. In other areas of the UK with high poverty, like north-east England, as we heard, the level of poverty has fallen more than in Wales over the same period—this, despite 16 years of devolution and hundreds of millions of pounds spent by Welsh Government on tackling poverty in Wales.

Gyda 2 filiwn yn fwy o bobl mewn gwaith heddiw nag yn 2010 a nifer y cartrefi di-waith yn is nag erioed ar draws y DU, mae'n frawychus, fel y canfu ein hadroddiad, fod mwy nag un o bob pump o bobl yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Ers y 2000au cynnar, mae lefel tlodi yng Nghymru wedi bod yn sefydlog. Mae tlodi Cymru ar hyn o bryd yn waeth nag unman arall heblaw Llundain, gyda 23 y cant o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi. Mewn ardaloedd eraill o'r DU sydd â lefelau uchel o dlodi, fel gogledd-ddwyrain Lloegr, fel y clywsom, mae lefel tlodi wedi gostwng mwy nag yng Nghymru dros yr un cyfnod—a hyn, er gwaethaf 16 mlynedd o ddatganoli a gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.

The Minister's rejection of committee recommendation 1 is both revealing and unacceptable. We recommended the establishment of a Welsh poverty reduction alliance, drawing together Ministers and officials, including local government, with the third, private and academic sectors, and including representation from people living in poverty. As we said,

Mae'r ffaith fod y Gweinidog wedi gwrthod argymhelliad 1 y pwyllgor yn ddadlennol ac yn annerbyniol. Roeddem yn argymell sefydlu cynghrair lleihau tlodi yng Nghymru, gan ddod â Gweinidogion a swyddogion ynghyd, gan gynnwys llywodraeth leol, gyda'r trydydd sector, y sector preifat a'r sector academaidd, ac yn cynnwys cynrychiolwyr pobl sy'n byw mewn tlodi. Fel y dywedasom,

'This group should form the basis of innovative policy development, implementation and on-going scrutiny'.

'Dylai'r grŵp hwn fod yn sail i ddatblygu polisïau arloesol, gweithredu a chraffu'n barhaus'.

The Minister's statement that she is content with the current level of engagement is symptomatic of the statist mindset that has kept Wales back.

Mae datganiad y Gweinidog ei bod yn fodlon ar y lefel bresennol o ymgysylltiad yn symptom o'r meddylfryd gwladoliaethol sydd wedi dal Cymru'n ôl.

As the Wales Council for Voluntary Action report on citizen-directed support for vulnerable groups states, this

Fel y mae adroddiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn ei nodi,

'is about people being in control of the support they need to live the life they choose',

mae hyn yn ymwneud â rhoi rheolaeth i bobl dros y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis',

and there is,

ac mae,

'scope for local authorities, health boards and the third sector to work much more imaginatively to develop better services that are closer to people, more responsive to needs, and add value by drawing on community resources.'

'scope for local authorities, health boards and the third sector to work much more imaginatively to develop better services that are closer to people, more responsive to needs, and add value by drawing on community resources.'

We did not support recommendation 8, for the devolution of the Work Programme, on the grounds that that work, by its two providers in Wales, is already locally delivered and focused on people furthest from the workplace. We strongly reject the Minister's statement that participants in the Work Programme have not been able to access ESF or Welsh Government-funded support due to the inability within the Work Programme to demonstrate added value. In reality, the Welsh Affairs Committee called on the Welsh and UK Governments to better integrate their respective welfare-to-work programmes, where the Welsh Government currently denies access to its programmes, such as Jobs Growth Wales, to people placed on the UK Government Work Programme, despite the added value it has clearly demonstrated for people furthest from the workplace.

Nid oeddem yn cefnogi argymhelliad 8, ar ddatganoli'r Rhaglen Waith, ar y sail bod y gwaith hwnnw, gan ei ddau ddarparwr yng Nghymru, eisoes yn cael ei ddarparu'n lleol ac yn canolbwyntio ar y bobl sydd bellaf o'r gweithle. Rydym yn bendant yn gwrthod datganiad y Gweinidog nad yw cyfranogwyr yn y Rhaglen Waith wedi gallu cael mynediad at gymorth o Gronfa Gymdeithasol Ewrop neu gan Lywodraeth Cymru oherwydd yr anallu i ddangos gwerth ychwanegol yn y Rhaglen Waith. Mewn gwirionedd, galwodd y Pwyllgor Materion Cymreig ar Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU i integreiddio eu rhaglenni o fudd-dâl i waith, lle y mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gwadu mynediad at ei rhaglenni, megis Twf Swyddi Cymru, i bobl a roddwyd ar Raglen Waith Llywodraeth y DU, er gwaethaf y gwerth ychwanegol y mae wedi'i ddangos yn glir i'r bobl sydd bellaf o'r gweithle.

Recommendation 3 called for a clear definition of poverty, based on a person's needs and resources, but in her acceptance of this the Minister stated that the relative income-based measure remains useful alongside. In reality, this measure means that, when the economy contracts and overall incomes fall, so do poverty levels, yet absurdly, when the economy grows, poverty rises. So, according to this measure, a bad economy is good for poverty and vice versa.

Galwai argymhelliad 3 am ddiffiniad clir o dlodi yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau unigolyn, ond wrth ei dderbyn dywedodd y Gweinidog fod y mesur sy'n seiliedig ar incwm cymharol yn parhau i fod yn ddefnyddiol ochr yn ochr â hyn. Mewn gwirionedd, pan fydd yr economi'n crebachu ac incymau cyffredinol yn lleihau, mae'r mesur hwn yn golygu y bydd y lefelau tlodi yn lleihau hefyd, ac eto, yn afresymol, pan fydd yr economi'n tyfu, bydd tlodi'n cynyddu. Felly, yn ôl y mesur hwn, mae economi wael yn dda ar gyfer tlodi ac i'r gwrthwyneb.

That is why we want to focus on the causes of poverty, not just the symptoms, looking at educational attainment, worklessness, drug and alcohol addiction, problem debt and family stability. The Minister accepts recommendation 9, which recommends the use of procurement to improve life for people experiencing in-work poverty, in conjunction with the private sector. However, small and medium enterprises state that the huge upfront investment of resources needed in the bidding process is entirely abortive and unproductive. Debt enforcement action should only be used as a last resort, but the Money Advice Trust advised that eight Welsh local authorities have increased their bailiff use despite evidence that the councils using bailiffs the most to collect council tax are the least successful.

Dyna pam rydym yn awyddus i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n achosi tlodi, nid ar y symptomau'n unig, gan edrych ar gyrhaeddiad addysgol, diweithdra, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, problemau dyled a sefydlogrwydd teuluol. Mae'r Gweinidog yn derbyn argymhelliad 9, sy'n argymell defnyddio caffael i wella bywydau pobl sy'n profi tlodi mewn gwaith, ar y cyd â'r sector preifat. Fodd bynnag, mae busnesau bach a chanolig yn nodi bod y buddsoddiad enfawr ymlaen llaw o adnoddau sydd ei angen yn y broses geisiadau yn gwbl ofer ac anghynhyrchiol. Dylid defnyddio camau gorfodi ar gyfer adfer dyledion fel dewis olaf yn unig, ond dywedodd yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol fod wyth awdurdod lleol yng Nghymru wedi cynyddu eu defnydd o feilïod er gwaethaf tystiolaeth mai'r cynghorau sy'n gwneud y defnydd mwyaf o feilïaid ar gyfer casglu'r dreth gyngor yw'r rhai lleiaf llwyddiannus.

The Equality and Human Rights Commission, which provided evidence to our inquiry, highlighted the over-representation of people with protected characteristics living in poverty. They asked what progress has been made in achieving a closer alignment between strategies to tackle inequality and poverty. The Joseph Rowntree Foundation and the Bevan Foundation believe that poverty in Wales can be eradicated, but state that this will need to bring together public bodies, employers and the third sector in working towards a shared goal. As they say, the difference between this aim and previous targets is that it is accompanied by clear and robust evidence of what works across different aspects of people's lives, not just fiscal transfers, and it addresses all age groups.

Amlygodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad, fod gorgynrychiolaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig yn byw mewn tlodi. Roeddent yn gofyn pa gynnydd a wnaed ar sicrhau bod strategaethau'n cyd-fynd â'i gilydd yn well er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi. Mae Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan yn credu y gellid dileu tlodi yng Nghymru, ond yn datgan y byddai hyn yn galw am ddod â chyrff cyhoeddus, cyflogwyr a'r trydydd sector at ei gilydd i weithio tuag at nod cyffredin. Fel y maent yn ei ddweud, y gwahaniaeth rhwng y nod hwn a thargedau blaenorol yw ei fod yn cynnwys tystiolaeth glir a chadarn o'r hyn sy'n gweithio ar draws agweddau gwahanol ar fywydau pobl, yn hytrach na throsglwyddo arian yn unig, ac mae'n ymdrin â phob grŵp oedran.

As they've also said, fuel poverty should be central to the Welsh Government's tackling poverty action plan. Thank you.

Fel y maent wedi dweud hefyd, dylai tlodi tanwydd fod yn ganolog i gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi. Diolch.

15:19

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to start my contribution this afternoon by following the Chair of the committee in thanking committee staff and witnesses who helped the committee with this inquiry. In many ways, this is a fundamental inquiry into the purpose of the Welsh Government and how the Welsh Government responds to changing the lives of people in Wales.

Hoffwn ddechrau fy nghyfraniad y prynhawn yma drwy ategu diolch Cadeirydd y pwyllgor i'r staff a'r tystion a gynorthwyodd y pwyllgor gyda'r ymchwiliad hwn. Mewn sawl ffordd, mae hwn yn ymchwiliad sylfaenol i bwrpas Llywodraeth Cymru a sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i newid bywydau pobl yng Nghymru.

All too often, when we're discussing poverty in Wales, we look towards a range of different statistical evidence to inform us. What we don't do is always appreciate and understand that every number is a person, is a family and is a community, who suffer as a result of poverty, day in, day out. Whether it's cold at night, whether it's hungry in the morning, whether it's a feeling of isolation or dislocation in the home or in the community, poverty is not simply a statistical analysis. It is a human experience in communities across Wales.

Yn rhy aml o lawer, pan fyddwn yn trafod tlodi yng Nghymru, edrychwn am ystod o wahanol dystiolaeth ystadegol i lywio ein gwaith. Yr hyn nad ydym yn ei wneud bob amser yw gwerthfawrogi a deall bod pob rhif yn berson, yn deulu ac yn gymuned, sy'n dioddef o ganlyniad i dlodi, ddydd ar ôl dydd. Boed yn deimlo'n oer yn ystod y nos, boed yn deimlo'n llwglyd yn y bore, boed yn deimlad o unigedd neu anhrefn yn y cartref neu yn y gymuned, nid dadansoddiad ystadegol yn unig yw tlodi. Mae'n brofiad dynol mewn cymunedau ledled Cymru.

This Government, and all Governments, I believe, not only have a responsibility, but I would say a moral duty to its people and its citizens to respond to a crisis of poverty, which we see in Wales today. We are seeing poverty in Wales today increase, and increase not as an accident of history or because of an economic cycle, but largely because of the deliberate carelessness of a United Kingdom Government that really doesn't care about the impact of its policies on the most vulnerable people in our society.

Mae gan y Llywodraeth hon, a phob Llywodraeth yn fy marn i, gyfrifoldeb—a dyletswydd foesol hefyd, ddywedwn i—i'w phobl a'i dinasyddion i ymateb i argyfwng tlodi, fel rydym yn ei weld yng Nghymru heddiw. Rydym yn gweld tlodi ar gynnydd yng Nghymru heddiw, ac nid cynnydd fel damwain mewn hanes neu'n rhan o gylch economaidd ydyw, ond cynnydd yn bennaf oherwydd esgeulustod bwriadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig nad yw'n poeni mewn gwirionedd am effaith ei pholisïau ar y bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

The summer budget, which was trumpeted a month beforehand by the Secretary of State in this Chamber as being a worker's budget—ironic at the time—will deprive the people of Blaenau Gwent of £33 million in income over the next five years. That is one of the poorest communities in the country and the people who will see that loss are people who are already working hard to make ends meet, people who are working one or two jobs to keep their family together, people who are working hard and not being rewarded but being punished by a Government that simply doesn't care about them and their families and their futures.

Bydd cyllideb yr haf, y bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei chanmol fis ymlaen llaw yn y Siambr hon fel cyllideb y gweithiwr—eironig ar y pryd—yn amddifadu pobl Blaenau Gwent o £33 miliwn o incwm dros y pum mlynedd nesaf. Dyna un o'r cymunedau tlotaf yn y wlad ac mae'r bobl a fydd yn teimlo'r golled yn bobl sydd eisoes yn gweithio'n galed i gael dau ben llinyn ynghyd, pobl sydd ag un neu ddwy o swyddi i gadw eu teuluoedd gyda'i gilydd, pobl sy'n gweithio'n galed heb gael eu gwobrwyo ond sy'n cael eu cosbi gan Lywodraeth nad yw'n poeni amdanynt a'u teuluoedd a'u dyfodol.

We need, here, to ensure that our policies in Wales do not simply address the symptoms of that poverty, but address the root causes. It is a matter of very real concern that we have seen significant poverty reduction in many parts of the United Kingdom, but we have not seen the same reductions here in Wales. We've had a Government for 15 or 16 years that says it wishes to reduce poverty as a key objective of its agenda, but we are not seeing the same reductions as they are seeing in parts of England and Scotland under the same United Kingdom Government. We need to address that and we need to ask ourselves why. I would like to see the Welsh Government ensuring that all its policies address poverty as a key ambition objective and target.

Mae angen i ni sicrhau bod ein polisïau yma yng Nghymru yn gwneud mwy na mynd i'r afael â symptomau tlodi yn unig, a'u bod yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Mae'n destun pryder gwirioneddol ein bod wedi gweld lefelau tlodi'n gostwng yn sylweddol mewn sawl rhan o'r Deyrnas Unedig, ond nid ydym wedi gweld yr un gostyngiad yma yng Nghymru. Rydym wedi cael Llywodraeth ers 15 neu 16 mlynedd sy'n dweud ei bod yn dymuno lleihau tlodi fel un o amcanion allweddol ei hagenda, ond nid ydym yn gweld yr un gostyngiadau ag y gwelwn mewn rhannau o Loegr a'r Alban o dan yr un Llywodraeth yn y Deyrnas Unedig. Mae angen i ni fynd i'r afael â hynny ac mae angen i ni ofyn pam. Hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei holl bolisïau'n mynd i'r afael â thlodi fel nod uchelgais a tharged allweddol.

We discussed earlier today the issue of the M4 around Newport—I am hesitating to say very much about it at the moment, actually. It is, to me, astonishing that a Government that is committed to reducing poverty will spend £1 billion of public money on a project that will have no economic impact on my constituents and very little economic impact in some of the poorest parts of the country. A Government must demonstrate leadership and must show throughout all of its actions that its driving force is to eradicate, diminish and attack poverty. If it does not do that, whether it's an economic policy, transport policy or anything else, it is not marshalling all the resources at its disposal and it will fail. So, we do need to demonstrate and show that leadership.

Trafodasom yn gynharach heddiw fater yr M4 o amgylch Casnewydd—rwy'n oedi rhag dweud llawer amdano ar hyn o bryd, mewn gwirionedd. I mi, mae'n rhyfeddol y bydd Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i leihau tlodi yn gwario £1 biliwn o arian cyhoeddus ar brosiect na fydd yn effeithio'n economaidd ar fy etholwyr o gwbl ac ychydig iawn o effaith economaidd a gaiff ar rai o rannau tlotaf y wlad. Rhaid i Lywodraeth ddangos arweiniad a rhaid iddi ddangos drwy ei holl weithredoedd mai'r hyn sy'n ei gyrru yw'r ysgogiad i ddileu, lleihau ac ymladd tlodi. Os nad yw'n gwneud hynny, boed mewn polisi economaidd, polisi trafnidiaeth neu unrhyw beth arall, nid yw'n cynnull yr holl adnoddau sydd ganddi at ei defnydd a bydd yn methu. Felly, mae angen i ni ddangos arweinyddiaeth o'r fath.

In the past, we've seen poverty reduce in Wales: when we had a United Kingdom Government under Brown and Blair, who saw the eradication of poverty as a clear ambition, and we had a Government here working together with that UK Government in order to reduce poverty. We are not going to see a United Kingdom Government committed to reducing poverty in the near future. So, we need to change the way we operate here. I would like to see the next Labour Government being absolutely clear that the driver of all of its different policy objectives is the reduction of poverty. I would like to see the Government take seriously the work of the Deep Place study in Tredegar as a way of ensuring that all of our communities—if we can bring together economic, social and environmental policy—benefit from this.

Yn y gorffennol, rydym wedi gweld lefelau tlodi'n gostwng yng Nghymru, pan oedd gennym Lywodraeth y Deyrnas Unedig o dan Brown a Blair, a ystyriai fod dileu tlodi yn uchelgais glir, a Llywodraeth yma'n cydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn lleihau tlodi. Nid ydym yn mynd i weld ymrwymiad i leihau tlodi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y dyfodol agos. Felly, mae angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithredu yma. Hoffwn weld y Llywodraeth Lafur nesaf yn gwbl glir mai'r hyn sy'n gyrru ei holl wahanol amcanion polisi yw lleihau tlodi. Hoffwn weld y Llywodraeth o ddifrif ynglŷn â gwaith astudiaeth Lle Dwfn yn Nhredegar fel ffordd o sicrhau bod pob un o'n cymunedau—os gallwn ddod â pholisi economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol at ei gilydd—yn elwa o hyn.

In closing, let me say this, Minister: I was very pleased with your response to the committee's report, but this will require more than one response from one Minister. It will require the whole of Government to work together, under very clear leadership, to demonstrate that we will marshal all of our resources to eradicate poverty, which destroys lives and disfigures communities.

Wrth gloi, gadewch i mi ddweud hyn, Weinidog: roeddwn yn fodlon iawn â'ch ymateb i adroddiad y pwyllgor, ond bydd angen mwy nag un ymateb gan un Gweinidog. Bydd gofyn i'r Llywodraeth gyfan weithio gyda'i gilydd, dan arweinyddiaeth glir iawn, i ddangos y byddwn yn cynnull ein holl adnoddau i ddileu tlodi, sy'n dinistrio bywydau ac yn anffurfio cymunedau.

15:24 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Inequality is the defining social justice issue of our age and, while some parts of the UK and some individuals rise to extraordinary heights of wealth and influence, in Wales, the level of poverty has remained unchanged almost throughout the lifespan of this Assembly. If ending the stubbornly high level of poverty and deprivation isn't our first priority in everything we do, then we are failing the people who rely on us. If it is not your top priority, then I think you're probably in the wrong job. I'm sure that many in the Welsh Government were not pleased with the conclusions of our inquiry. The report reads as an indictment of the failure to tackle the root causes of poverty. It is an exceptionally strong report, and reflects the evidence that we received.

Anghydraddoldeb yw'r mater cyfiawnder cymdeithasol sy'n diffinio ein hoes ac er bod rhai rhannau o'r DU a rhai unigolion yn cyrraedd lefelau rhyfeddol o gyfoeth a dylanwad, yng Nghymru, mae lefel tlodi wedi aros yn ddigyfnewid bron drwy gydol oes y Cynulliad hwn. Os nad yw rhoi diwedd ar lefel ystyfnig o uchel o dlodi ac amddifadedd yn brif flaenoriaeth ym mhob dim a wnawn, yna rydym yn gwneud cam â'r bobl sy'n dibynnu arnom. Os nad yw'n brif flaenoriaeth i chi, yna rwy'n credu eich bod yn ôl pob tebyg yn y swydd anghywir. Rwy'n siŵr nad oedd llawer o bobl yn Llywodraeth Cymru yn fodlon â chasgliadau ein hymchwiliad. Mae'r adroddiad yn feirniadaeth ar y methiant i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Mae'n adroddiad eithriadol o gryf, ac mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth a gawsom.

Now, I understand that we live in challenging times. The UK Government's austerity-driven slashing of budgets, the gutting of the social security system and the global economic crisis have created even more difficult conditions for us to work in, and we've got at least another five years of that to put up with. The way to respond to these challenging times is with innovation, creativity and collaboration; instead, our inquiry found that the Government had retreated into arrangements that were introspective, disparate and ineffective, albeit, of course, well intended.

Nawr, rwy'n deall ein bod yn byw mewn cyfnod heriol. Mae toriadau cyllidebol Llywodraeth y DU wedi'u gyrru gan galedi, diberfeddu'r system nawdd cymdeithasol a'r argyfwng economaidd byd-eang wedi creu amodau anos byth i ni weithio ynddynt, ac mae gennym o leiaf bum mlynedd arall o hynny i'w oddef. Y ffordd i ymateb i'r adegau heriol hyn yw gydag arloesedd, creadigrwydd a chydweithio; yn lle hynny, canfu ein hymchwiliad fod y Llywodraeth wedi camu'n ôl at drefniadau a oedd fewnblyg, yn anghymesur ac yn aneffeithiol, er bod ei bwriad yn dda, wrth gwrs.

The Government is working without a clear definition of 'poverty' that reflects people's lived experience and without a thorough understanding of the groups that are particularly at risk. We need an improved evidence base that is built on fact and not anecdote. Too often, when challenged on the record of tackling poverty, Ministers here give vague answers that sound like wishful thinking. We need measurable, achievable targets that set out a clear timespan for action, and we need an effective economic policy that puts ending poverty at its heart.

Mae'r Llywodraeth yn gweithio heb ddiffiniad clir o 'dlodi' sy'n adlewyrchu profiad byw pobl a heb ddealltwriaeth drylwyr o'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl. Mae angen sylfaen dystiolaeth well wedi'i hadeiladu ar ffeithiau ac nid anecdotau. Yn rhy aml, pan gânt eu herio ar eu record yn trechu tlodi, mae Gweinidogion yma'n rhoi atebion amwys sy'n swnio fel breuddwyd gwrach. Mae arnom angen targedau mesuradwy a chyraeddadwy sy'n nodi amserlen glir ar gyfer gweithredu, ac mae angen polisi economaidd effeithiol gyda dileu tlodi yn ganolog iddi.

The Joseph Rowntree Foundation and the Bevan Foundation are working together to put together a programme to identify what actually works in the fight to end poverty. Their evidence so far shows that a stable, growing economy is a pre-requisite for reducing poverty levels. The Government's approach for many years has been helping those out of work into employment, with limited success. Now, a changing labour market means that entering the workplace is no longer a pathway out of poverty. Half of those living in poverty live in working households. The rise of insecure, low-paid and part-time work is something that the Government must do more to address.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan yn gweithio gyda'i gilydd i lunio rhaglen i nodi beth mewn gwirionedd sy'n gweithio yn y frwydr i ddileu tlodi. Mae eu tystiolaeth hyd yn hyn yn dangos bod gofyn cael economi sefydlog sy'n tyfu cyn y gellir lleihau lefelau tlodi. Ymagwedd y Llywodraeth ers nifer o flynyddoedd oedd helpu'r di-waith i gael gwaith, a llwyddiant cyfyngedig a gafwyd. Yn awr, mae marchnad lafur sy'n newid yn golygu nad yw cael gwaith bellach yn llwybr allan o dlodi. Mae hanner y rhai sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio. Mae'r cynnydd mewn gwaith ansicr, ar gyflog isel a rhan-amser yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud mwy i fynd i'r afael ag ef.

We may not have the powers to legislate directly on these issues, but we can have better policies in place to promote better quality work. In the care sector, for example, despite the vital work done by carers, many earn below the living wage and are on zero-hours contracts. The Government could do better procurement policies to ensure that public money is not spent in a way that traps carers in working poverty. Instead, you have rejected Plaid Cymru's proposals to end the use of zero-hours contracts in the care sector several times.

Efallai nad oes gennym bwerau i ddeddfu'n uniongyrchol ar y materion hyn, ond gallwn gael gwell polisïau ar waith i hyrwyddo gwaith o ansawdd gwell. Yn y sector gofal, er enghraifft, er gwaethaf y gwaith hanfodol a wneir gan ofalwyr, mae llawer yn ennill llai na'r cyflog byw ac maent ar gontractau dim oriau. Gallai'r Llywodraeth wneud polisïau caffael gwell er mwyn sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n caethiwo gofalwyr mewn tlodi mewn gwaith. Yn lle hynny, rydych wedi gwrthod cynigion Plaid Cymru i roi terfyn ar ddefnyddio contractau dim oriau yn y sector gofal sawl gwaith.

This is an issue that particularly affects women. Workplaces in which women are overrepresented tend to offer disproportionately low-paid, low-skill, insecure, zero-hours-type work. The evidence suggests that income received by mothers makes more of a difference to families than income received by fathers. If we can increase women's participation in the workplace, and the quality of the work available to them, it will not only transform women's lives, but have a positive knock-on effect for the whole family.

Mae hwn yn fater sy'n effeithio'n arbennig ar fenywod. Mae gweithleoedd lle y ceir gorgynrychiolaeth o fenywod yn tueddu i gynnig lefel anghymesur o waith ansicr heb lawer o sgiliau ar gyflog isel, tebyg i waith ar gontract dim oriau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod incwm y mae mamau'n ei gael yn gwneud mwy o wahaniaeth i deuluoedd nag incwm y mae tadau'n ei gael. Os gallwn gynyddu cyfranogiad menywod yn y gweithle, ac ansawdd y gwaith sydd ar gael iddynt, bydd yn trawsnewid bywydau menywod, a hefyd yn cael effaith ganlyniadol gadarnhaol ar y teulu cyfan.

I've noticed an increasing and disturbing lack of compassion for those who are struggling with poverty. We see policies that seem driven by a pandering towards our worst, tabloid-driven impulses. Newport City Council's plan to ban rough sleeping and begging in the town centre is deeply unpleasant. It'll criminalise the most vulnerable and do nothing to help them, instead pushing the problem out of sight—and out of sight, I think, will mean out of mind. But, it reveals an attitude towards those living in extreme poverty that we must question, and I ask the Minister to tell us how she feels about that proposal.

Rwyf wedi sylwi ar ddiffyg tosturi cynyddol ac annifyr tuag at y rhai sy'n cael trafferth gyda thlodi. Rydym yn gweld polisïau sy'n ymddangos fel pe baent wedi'u gyrru gan ein cymelliadau tabloid gwaethaf. Mae cynllun Cyngor Dinas Casnewydd i wahardd cysgu ar y stryd a chardota yng nghanol y dref yn annymunol tu hwnt. Bydd yn troseddoli'r bobl fwyaf bregus ac yn gwneud dim i'w helpu, gan eu gwthio o'r golwg yn lle hynny—rwy'n credu y bydd o'r golwg yn golygu o sylw. Ond mae'n datgelu agwedd tuag at y rhai sy'n byw mewn tlodi eithafol sy'n rhaid i ni ei chwestiynu, a gofynnaf i'r Gweinidog ddweud wrthym sut y mae'n teimlo am yr argymhelliad hwnnw.

The committee report makes vital reading for us all. The Welsh Government must not retreat into a defensive position and dismiss the inquiry's findings. It's your chance to own up to failings and embrace the need for change. Another 15 years cannot go by without improvement, because the people of this country deserve much better.

Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn darllen adroddiad y pwyllgor. Rhaid i Lywodraeth Cymru beidio ag encilio i safbwynt amddiffynnol a diystyru canfyddiadau'r ymchwiliad. Dyma eich cyfle i gyfaddef methiannau a chroesawu'r angen for newid. Ni all 15 mlynedd arall fynd heibio heb welliant, gan fod pobl y wlad hon yn haeddu llawer gwell.

15:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Jocelyn Davies has just said, this is a very powerful report, and has some very clear conclusions. I very much support the conclusion that Alun Davies drew earlier on, in terms of the way that the Welsh economy is lagging behind other parts of the UK, and, as a consequence of that, our problems with poverty are growing whereas other parts of the UK are improving their position. I think that, given that that has happened under the same UK Government, with the macroeconomic powers that they have, then, clearly, we are doing something wrong here in Wales, which means that we are failing to deal with this particular problem. Alun.

Fel y mae Jocelyn Davies newydd ei ddweud, mae hwn yn adroddiad pwerus iawn, a daw i rai casgliadau clir iawn. Rwy'n cefnogi'r casgliad y daeth Alun Davies iddo'n gynharach, o ran y ffordd y mae economi Cymru ar ei hôl hi o gymharu â rhannau eraill o'r DU, ac o ganlyniad i hynny, mae ein problemau gyda thlodi'n tyfu tra bod rhannau eraill o'r DU yn gwella'u sefyllfa. O ystyried bod hynny wedi digwydd o dan yr un Llywodraeth yn y DU, gyda'r pwerau macroeconomaidd sydd ganddynt, credaf ein bod yn amlwg yn gwneud rhywbeth o'i le yma yng Nghymru, sy'n golygu ein bod yn methu ag ymdopi â'r broblem benodol hon. Alun.

15:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention? Alun Davies.

A wnewch chi dderbyn ymyriad? Alun Davies.

15:30 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, and thank you very much for your kind—. What I tried to say was poverty reduction is differential here in Wales; the economy can grow without reducing poverty if you have the wrong economic policies or not policies in place to eradicate poverty.

Diolch i chi, a diolch yn fawr iawn am eich—. Yr hyn roeddwn i'n ceisio ei ddweud oedd bod lleihau tlodi yn wahaniaethol yma yng Nghymru; gall yr economi dyfu heb leihau tlodi os yw'r polisïau economaidd yn anghywir neu os nad oes polisïau ar waith i ddileu tlodi.

15:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, but I think it's also the case, of course, that the Welsh economy is also lagging behind the rest of the UK, and, of course, I think, as we concluded, if your economic policies are not lined up with your anti-poverty policies, then you do have a situation whereby the economy can grow, but poverty also grows at the same time, which is a phenomenon that you also highlighted, I think, in your speech. And I very much agree with you on that.

Yn hollol, ond rwy'n credu ei bod hefyd yn wir, wrth gwrs, fod economi Cymru hefyd yn llusgo y tu ôl i weddill y DU, ac wrth gwrs, fel y casglwyd, os nad yw eich polisïau economaidd yn cyd-fynd â'ch polisïau gwrthdlodi, yna mae gennych sefyllfa lle y gallai'r economi dyfu, ac mae tlodi hefyd yn tyfu ar yr un pryd, sef y ffenomen y tynnodd eich araith sylw ati, rwy'n meddwl. Ac rwy'n cytuno'n llwyr â chi ar hynny.

I think there are a whole range of issues around the Welsh Government's approach to tackling poverty. But I think the one thing that came out to me as part of the inquiry as we listened to the evidence—and listened not just to the Minister's evidence, but other people's evidence as well—is that what we're actually doing here in Wales is seeking to alleviate poverty, as opposed to tackle poverty, and that a more fundamental approach needs to be taken. I accept the point that Jocelyn Davies made about in-work poverty; I think it's a growing problem in Wales as well, and, to an extent, we are having to rely, of course, on the UK benefits system and tax credits to deal with that, and we are now facing cuts to tax credits, which are going to make that worse.

Rwy'n meddwl bod yna ystod eang o faterion yn codi ynglŷn â dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi. Ond rwy'n credu mai'r un peth a ddaeth yn amlwg i mi yn rhan o'r ymchwiliad wrth i ni wrando ar y dystiolaeth—a gwrando, nid yn unig ar dystiolaeth y Gweinidog, ond ar dystiolaeth pobl eraill hefyd—yw mai'r hyn rydym yn ei wneud yma yng Nghymru mewn gwirionedd yw ceisio lleddfu tlodi, yn hytrach na threchu tlodi, a bod angen mabwysiadu ymagwedd fwy sylfaenol. Rwy'n derbyn y pwynt a wnaeth Jocelyn Davies ynglŷn â thlodi mewn gwaith; rwy'n credu ei bod yn broblem gynyddol yng Nghymru yn ogystal, ac i raddau, rydym yn gorfod dibynnu, wrth gwrs, ar system fudd-daliadau'r DU a chredydau treth i fynd i'r afael â hynny, ac rydym yn awr yn wynebu toriadau i gredydau treth, sy'n mynd i wneud hynny'n waeth.

But, at the core of this, the Welsh Government, I believe, needs to review in some detail the way it's dealing with the poverty agenda, and the way that it's actually seeking to deal with that problem and not just alleviate it. I referred, I think, either yesterday or today—earlier—to childcare being absolutely crucial in terms of helping people get back to work. And, in questioning the Minister about that on a statement yesterday—. The Minister had previously said that she's not able to project Flying Start expenditure past March of this year, because we're still waiting, of course, on the UK Government's deliberations on our budget. But other areas of expenditure are able to be projected that relate to this agenda, and childcare is central to this agenda as well. So, we have a situation in my own region, in Croeserw and Glyncorrwg, where childcare is not being provided through Flying Start because the Minister has not been able to make that commitment, and we have a situation there where people who might rely on that childcare to go into work and to help with their own particular economic problems are not able to deal with it, because they no longer have that childcare available.

Ond wrth wraidd hyn, rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru adolygu'n fanwl y ffordd y mae'n mynd i'r afael ag agenda tlodi, a'r ffordd y mae'n ceisio ymdrin â'r broblem mewn gwirionedd ac nid ei lleddfu'n unig. Rwy'n meddwl fy mod wedi cyfeirio ddoe neu heddiw—yn gynharach—at y ffaith fod gofal plant yn gwbl hanfodol i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Ac wrth holi'r Gweinidog am hynny ar ddatganiad ddoe—. Roedd y Gweinidog wedi dweud o'r blaen nad yw'n gallu rhagweld beth fydd gwariant prosiect Dechrau'n Deg y tu hwnt i fis Mawrth eleni, am ein bod yn dal i aros, wrth gwrs, am benderfyniadau Llywodraeth y DU ynglŷn â'n cyllideb. Ond mae modd rhagweld meysydd eraill o wariant sy'n ymwneud â'r agenda hon, ac mae gofal plant yn ganolog i'r agenda hon hefyd. Felly, mae gennym sefyllfa yn fy rhanbarth i, yng Nghroeserw a Glyncorrwg, lle nad yw gofal plant yn cael ei ddarparu drwy Dechrau'n Deg am nad yw'r Gweinidog wedi gallu gwneud yr ymrwymiad hwnnw, ac mae gennym sefyllfa yno lle nad yw pobl a allai fod yn dibynnu ar ofal plant o'r fath i gael gwaith ac i helpu gyda'u problemau economaidd arbennig eu hunain yn gallu ymdopi am nad oes gofal plant o'r fath ar gael bellach.

Now, in terms of the recommendations that the committee put in, I wanted to highlight particularly the one about the recommendation of the Welsh Government having a clearly articulated economic development strategy that sets out how this strategy is aligned with its policy and interventions aimed at tackling poverty. I note in the Minister's response to this that she believes that is the case. But I think the committee's view—which, I think, was almost a unanimous view—that the primary failing of the Government's approach to tackling poverty is the lack of a clear economic policy, is very clear and very strong. And we felt that, despite the evidence given by the Minister and others, this does need to be rectified and developed alongside that effective poverty-reduction strategy. I think the committee also referred to the Enterprise and Business Committee's inquiry into trade and inward investment, which also concludes that the Welsh Government needs to be clearer about its economic strategy.

Nawr, o ran argymhellion y pwyllgor, roeddwn eisiau tynnu sylw yn arbennig at yr un am yr argymhelliad y dylai Lywodraeth Cymru gael strategaeth datblygu economaidd wedi'i mynegi'n glir sy'n nodi sut y mae'r strategaeth hon yn cydweddu â'i pholisi a'i hymyriadau ar gyfer trechu tlodi. Nodaf yn ymateb y Gweinidog i hyn ei bod yn credu hynny. Ond rwy'n credu bod barn y pwyllgor—a oedd bron yn unfrydol, rwy'n credu—mai prif fethiant dull y Llywodraeth o drechu tlodi yw diffyg polisi economaidd clir, yn eglur ac yn gadarn iawn. Ac er gwaethaf y dystiolaeth a roddwyd gan y Gweinidog ac eraill, roeddem yn teimlo fod angen cywiro a datblygu hyn ochr yn ochr â'r strategaeth leihau tlodi effeithiol honno. Rwy'n credu bod y pwyllgor hefyd wedi cyfeirio at ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i fasnach a mewnfuddsoddi, sydd hefyd yn casglu bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynglŷn â'i strategaeth economaidd.

I believe that, in terms of this agenda—and I think this point has been made as well—it isn't just about one Minister dealing with this, albeit in a cross-cutting role. This is an agenda that every Minister in the Welsh Government should be tackling head on. Tackling poverty needs to be a clear and primary purpose of this Welsh Government in terms of helping people back into work and helping people improve their standards of living. And I would hope that this report will go some way towards helping to focus Ministers' minds on doing precisely that. Thank you, Presiding Officer.

O ran yr agenda hon—ac rwy'n meddwl bod y pwynt hwn wedi cael ei wneud hefyd—nid yw'n ymwneud yn unig ag un Gweinidog yn ymdrin â hyn, er ei fod yn cael ei wneud mewn rôl drawsbynciol. Mae hon yn agenda y dylai pob Gweinidog yn Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hi'n uniongyrchol. Mae angen i drechu tlodi fod yn brif bwrpas clir y Llywodraeth hon yng Nghymru o ran helpu pobl yn ôl i waith a helpu pobl i wella eu safonau byw. A byddwn yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at helpu i ganolbwyntio meddyliau Gweinidogion ar wneud yn union hynny. Diolch i chi, Lywydd.

15:34

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

According to the National Survey for Wales 2014-15, 40 per cent of the people in Wales have some difficulty keeping up with bills. We also know that one in five people in Wales live in relative poverty. Can I put the report in some sort of context? My thanks to Poverty Times, which produced a list of headlines relating to poverty. I'll run through some of them.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15, mae 40 y cant o bobl yng Nghymru yn cael peth anhawster i dalu biliau. Rydym hefyd yn gwybod bod un o bob pump o bobl Cymru yn byw mewn tlodi cymharol. A gaf fi roi rhyw fath o gyd-destun i'r adroddiad? Hoffwn ddiolch i Poverty Times, a gynhyrchodd restr o benawdau'n ymwneud â thlodi. Af drwy rai ohonynt.

Poverty-stricken people forced

Soniwyd am bobl dlawd yn gorfod

'to plead guilty to crimes they didn't commit'

'plead guilty to crimes they didn't commit'

due to crippling court costs—'Independent', August 2015.

due to crippling court costs—'Independent', Awst 2015.

Poverty pay—

Cyflogau tlodi—

'one in four jobs now pay less than the living wage, with almost a THIRD of women on less than £7.65 an hour.'

'one in four jobs now pay less than the living wage, with almost a THIRD of women on less than £7.65 an hour.'

No, that's not from the 'Morning Star'; it's from the 'Daily Mail'.

Na, nid yw'n dod o'r 'Morning Star'; mae'n dod o'r 'Daily Mail'.

'Death has become part of Britain's benefits system. More than 80 people a month are now dying after being declared "fit for work". The safety net that used to be there for the most vulnerable is being torn to shreds.'—

'Death has become part of Britain's benefits system. More than 80 people a month are now dying after being declared "fit for work". The safety net that used to be there for the most vulnerable is being torn to shreds.'—

'The Guardian', August 2015.

'The Guardian', Awst 2015.

'More than six out of 10 parents with a household income of less than £25,000 are struggling to feed their children outside of term time.'—

Northumbria University, Kelloggs report, July 2015.

This is something that affects a number of my constituents: the summer holidays are something that is dreaded by many parents, not because they have to find something for their children to do; they have to find a means of feeding them. We have examples of Faith in the Community, which does a tremendous a job in my constituency, because there would be children who would be going hungry—not not eating at all, but certainly going hungry—if they did not exist.

Zero-hours contracts are offered to a quarter of all unemployed people. The number of people evicted from rented homes has soared since housing benefit cuts began. The key levers for dealing with poverty lie at Westminster. The Westminster Conservative Government has made matters worse with the bedroom tax. This is a tax which fails the two reasons for a tax, which is either to raise money or modify behaviour. It costs rather than raises money, and it cannot modify behaviour because there are no smaller properties for people to move into held by councils and housing associations. As the Westminster Government carry out their commitment regarding tax credits, even more people on low wages will be unable to provide the essentials for themselves and their children.

Poverty in Swansea East is far greater than I would like it to be, and I'm sure far greater than the Minister would like it to be. What's it caused by? Sanctions by the Department for Work and Pensions. I know a woman who spent several months terrified that she'd have a job interview and have to go to the job centre at the same time: no matter what she did, she would be sanctioned if she failed to make one of those appointments. Zero-hours or low guaranteed hours contracts, normally on the minimum wage—especially low guaranteed hours contracts; we don't talk about them very often, but lots of companies employ people on a guarantee of one hour a day, which can become 12 or just be one. Cuts to benefits, not the benefits cap, which affects very few people in Swansea East, and the unfair and iniquitous bedroom tax. As I stated earlier, the major levers to reduce poverty, such as benefits, the minimum wage, and macroeconomic policy, rest with Westminster.

'More than six out of 10 parents with a household income of less than £25,000 are struggling to feed their children outside of term time.'—

Prifysgol Northumbria, adroddiad Kelloggs, Gorffennaf 2015.

Mae hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar nifer o fy etholwyr: mae gwyliau'r haf yn adeg y bydd llawer o rieni yn ofni ei gweld yn dod, nid am fod yn rhaid iddynt ddod o hyd i rywbeth i'w plant ei wneud; mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i ffordd o'u bwydo. Mae gennym enghreifftiau gan Ffydd yn y Gymuned, sy'n gwneud gwaith aruthrol yn fy etholaeth, oherwydd byddai plant yn llwglyd—nid yn methu â bwyta o gwbl, ond yn sicr yn llwglyd—pe na baent yn bodoli.

Cynigir contractau dim oriau i chwarter yr holl bobl sy'n ddi-waith. Mae nifer y bobl sydd wedi'u troi allan o gartrefi ar rent wedi cynyddu ers dechrau'r toriadau i fudd-dal tai. Gan San Steffan y mae'r ysgogwyr allweddol ar gyfer ymdrin â thlodi. Mae'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan wedi gwneud pethau'n waeth gyda'r dreth ystafell wely. Dyma dreth sy'n methu ag ateb y ddau reswm dros godi treth, sef codi arian neu addasu ymddygiad. Mae'n costio yn hytrach na chodi arian, ac ni all addasu ymddygiad gan nad oes rhagor o eiddo llai i bobl symud i mewn iddynt gan gynghorau a chymdeithasau tai. Wrth i Lywodraeth San Steffan gyflawni ei hymrwymiad o ran credydau treth, bydd hyd yn oed rhagor o bobl ar gyflogau isel yn methu â darparu'r hanfodion ar eu cyfer eu hunain a'u plant.

Mae tlodi yn nwyrain Abertawe yn llawer gwaeth na'r hyn yr hoffwn iddo fod, ac yn llawer gwaeth, rwy'n siŵr, na'r hyn yr hoffai'r Gweinidog iddo fod. Beth sy'n ei achosi? Sancsiynau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Gwn am ddynes a dreuliodd sawl mis yn ofni y byddai'n cael cyfweliad am swydd a gorfod mynd i'r ganolfan waith ar yr un pryd: beth wnâi hi, byddai'n cael ei chosbi pe bai'n methu un o'r apwyntiadau hynny. Contractau dim oriau neu gontractau oriau gwarantedig byr, fel arfer ar yr isafswm cyflog—yn enwedig contractau oriau gwarantedig byr; nid ydym yn siarad amdanynt yn aml iawn, ond mae llawer o gwmnïau'n cyflogi pobl gan warantu un awr y dydd o waith, a gall fod yn 12 awr neu'n un awr. Toriadau i fudd-daliadau, nid y cap budd-daliadau, sydd ond yn effeithio ar ychydig iawn o bobl yn nwyrain Abertawe, a'r dreth ystafell wely annheg ac anghyfiawn. Fel y dywedais yn gynharach, San Steffan sydd â'r prif ysgogwyr o hyd ar gyfer lleihau tlodi, megis budd-daliadau, yr isafswm cyflog, a pholisi macroeconomaidd.

I would like to highlight some of the programmes that are helping my constituents. Communities First: I've witnessed at first hand practical examples of Communities First programmes that have made a significant difference to the lives of many people, helping people find employment, helping reduce their financial outgoings, helping people improve their health and wellbeing. The Flying Start programme is creating positive outcomes for children. Far too often, children have started school at three two years behind some of their contemporaries and have then tried to reduce the gap over the next eight years. Children think they must be stupid because the child next to them knows things—it's nothing to do with their innate intelligence; all to do with the opportunity that one child has had and the opportunity that the other child hasn't had. Flying Start means that children at three should start with development exactly at their chronological age.

Hoffwn dynnu sylw at rai o'r rhaglenni sy'n helpu fy etholwyr. Cymunedau yn Gyntaf: rwyf wedi tystio'n uniongyrchol i enghreifftiau ymarferol o raglenni Cymunedau yn Gyntaf a wnaeth wahaniaeth sylweddol i fywydau llawer o bobl, gan helpu pobl i ddod o hyd i waith, helpu i leihau eu costau ariannol, a helpu pobl i wella eu hiechyd a'u lles. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn creu canlyniadau cadarnhaol i blant. Yn rhy aml, mae plant wedi dechrau yn yr ysgol yn dair oed ddwy flynedd y tu ôl i rai o'u cyfoedion ac wedyn wedi ceisio lleihau'r bwlch dros yr wyth mlynedd nesaf. Mae plant yn meddwl bod yn rhaid eu bod yn dwp am fod y plentyn nesaf atynt yn gwybod pethau—nid yw'n ddim i'w wneud â'u deallusrwydd cynhenid; mae'r cyfan yn ymwneud â'r cyfle y mae un plentyn wedi'i gael a'r cyfle nad yw plentyn arall wedi'i gael. Mae Dechrau'n Deg yn golygu y dylai plant tair oed ddechrau ar lefel o ddatblygiad sy'n union yr un fath â'u hoedran cronolegol.

The Lift programme: I talked about that yesterday and I think it's a tremendous opportunity for getting the long-term unemployed into employment. For too many people, unemployment becomes something they expect. They don't expect to work, none of their family work, and we need to break that cycle. We need to get people to expect to work. We need to get people into employment, because employment is still the best route out of poverty. Although, as somebody who believes in the real living wage—as opposed to the pretend one brought out by the Conservative Government at Westminster—where people are paid enough to actually live on, I would very much like to see all employers in Wales pay the living wage. In fact, Mick Antoniw and myself supported trying to make Wales a living wage country in a statement of opinion just a couple of years ago. I think that really is the key: to get people being paid the living wage.

Y rhaglen Esgyn: siaredais am honno ddoe ac rwy'n credu ei bod yn gyfle gwych i gael pobl sy'n ddi-waith yn hirdymor i mewn i waith. I ormod o bobl, mae diweithdra'n dod yn rhywbeth y maent yn ei ddisgwyl. Nid ydynt yn disgwyl gweithio, nid oes neb o'u teuluoedd yn gweithio, ac mae angen i ni dorri'r cylch hwnnw. Mae angen i ni gael pobl i ddisgwyl gweithio. Mae angen i ni gael pobl i mewn i waith, gan mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi o hyd. Er, fel rhywun sy'n credu go iawn yn y cyflog byw—yn hytrach na'r esgus o gyflog byw a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan—lle y telir digon i bobl allu byw, rwy'n awyddus iawn i weld pob cyflogwr yng Nghymru yn talu'r cyflog byw. Yn wir, roedd Mick Antoniw a minnau o blaid ceisio gwneud Cymru'n wlad cyflog byw mewn datganiad barn ychydig o flynyddoedd yn ôl. Credaf yn wir mai dyna yw'r allwedd: sicrhau bod pobl yn cael y cyflog byw.

Unemployment threatens everybody. I look around this room now and a number of people here could well end up unemployed come next May. Remember: it's not just other people; it could be you.

Mae diweithdra'n bygwth pawb. Rwy'n edrych o gwmpas yr ystafell hon yn awr a gallai nifer o bobl yma'n hawdd fod yn ddi-waith pan ddaw mis Mai nesaf. Cofiwch: nid i bobl eraill yn unig y mae'n digwydd; gallai ddigwydd i chi.

15:39

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I welcome the Communities, Equalities and Local Government Committee's report into poverty and inequality and I also welcome the Welsh Government's response. I think that the Minister has struck the right balance in accepting the particular recommendations that he has done. Recommendation 2 calls on the Welsh Government to report back to the committee on the actions it has taken as a consequence of the deep place study in Tredegar—a study that I became quite familiar with during my time as the Minister.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar dlodi ac anghydraddoldeb ac rwyf hefyd yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru. Credaf fod y Gweinidog wedi taro'r cydbwysedd cywir wrth dderbyn yr argymhellion a wnaeth. Mae Argymhelliad 2 yn galw ar Lywodraeth Cymru i adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar y camau y mae wedi'u cymryd o ganlyniad i'r astudiaeth Lle Dwfn yn Nhredegar—astudiaeth y deuthum yn gyfarwydd iawn â hi yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:40.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:40.*

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

This work looks, in particular, at the growing phenomenon of in-work poverty and the role of the economy in reducing it. The problem of in-work poverty, of course, as has already been mentioned by many other speakers, has been exacerbated by the Tory UK Government's welfare reforms, which have disproportionately affected Wales and, in particular, our more deprived areas. Across Wales, the average loss per working-age adult will be £500 and will be significantly more in constituencies like mine.

Mae'r gwaith hwn yn edrych, yn arbennig, ar ffenomen gynyddol tlodi mewn gwaith a rôl yr economi yn ei leihau. Mae problem tlodi mewn gwaith, wrth gwrs, fel y crybwyllodd llawer o siaradwyr eraill eisoes, wedi'i gwaethygu gan ddiwygiadau lles Llywodraeth Dorïaidd y DU, sydd wedi effeithio'n anghymesur ar Gymru ac yn arbennig, ar ein hardaloedd mwy difreintiedig. Ar draws Cymru, bydd y golled ar gyfartaledd i bob oedolyn o oedran gweithio yn £500 a bydd yn llawer mwy mewn etholaethau fel fy un.

Now, as people's spending power is reduced by cuts to their disposable income, this, in turn, will of course lead to job losses amongst many private sector employers in these areas—indeed, a vicious economic cycle. Yet, the fundamentals remain true: we can only bring people out of poverty in the long term by creating sustainable jobs at a decent rate of pay. I know that this has been part of Welsh Government thinking for some time. Now, I welcome the Welsh Government's ongoing efforts to bring in new employers to these areas as well as supporting existing ones, and, because it seems to be fashionable at the moment, I want to put on record that I believe that the proposals for an M4 relief road will bring economic improvements and jobs for the people of my constituency.

Nawr, wrth i rym gwario pobl leihau yn sgil toriadau yn eu hincwm gwario, bydd hyn, yn ei dro, wrth gwrs, yn arwain at golli swyddi ymhlith llawer o gyflogwyr sector preifat yn yr ardaloedd hyn—yn wir, mae'n gylch dieflig economaidd. Eto i gyd, mae'r ffeithiau sylfaenol yn parhau i fod yn wir: yr unig ffordd y gallwn godi pobl allan o dlodi yn y tymor hir yw drwy greu swyddi cynaliadwy ar gyflogau gweddus. Gwn fod hyn wedi bod y rhan o feddylfryd Llywodraeth Cymru ers peth amser. Nawr, rwy'n croesawu ymdrechion parhaus Llywodraeth Cymru i ddod â chyflogwyr newydd i'r ardaloedd hyn yn ogystal â chefnogi'r rhai presennol, ac oherwydd ei fod yn ymddangos yn ffasiynol ar hyn o bryd, rwyf am gofnodi fy mod yn credu y bydd y cynigion ar gyfer ffordd liniaru'r M4 yn dod â gwelliannau economaidd a swyddi i bobl fy etholaeth.

Recommendation 3, which the Minister also accepts, recognises the importance of income-based measures in defining property and I welcome that approach.

Mae Argymhelliad 3, y mae'r Gweinidog hefyd yn ei dderbyn, yn cydnabod pwysigrwydd mesurau seiliedig ar incwm wrth ddiffinio eiddo ac rwy'n croesawu'r ymagwedd honno.

Recommendation 7 calls on the Welsh Government to use procurement and grant funding conditions to support low-skilled workers in sectors such as care, hospitality and retail and improve their quality of life. Again, ensuring sustainable jobs at decent pay, coupled with good-quality training programmes and skills development, will be key to this and I'm pleased that the Minister accepts this recommendation.

Mae Argymhelliad 7 yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio caffael ac amodau cyllid grantiau i gefnogi gweithwyr heb lawer o sgiliau mewn sectorau fel gofal, lletygarwch a manwerthu, a gwella ansawdd eu bywydau. Unwaith eto, mae sicrhau swyddi cynaliadwy ar gyflog gweddus, ynghyd â rhaglenni hyfforddiant o ansawdd da a datblygu sgiliau, yn allweddol i hyn ac rwy'n falch fod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Key to all of this, however, is our membership of the European Union. EU cohesion funding helps us to deliver on our anti-poverty and job-creation programmes through schemes that help to bring hard-to-reach people in deprived areas back to the labour market, helping to boost their skills levels and training options, as well as infrastructure projects that bring in jobs and boost the spending power of those working on them.

Yr allwedd i hyn oll, fodd bynnag, yw ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae cyllid cydlyniant yr UE yn ein helpu i gyflawni ein rhaglenni gwrthdlodi a chreu swyddi drwy gynlluniau sy'n helpu i ddod â phobl anodd eu cyrraedd mewn ardaloedd difreintiedig yn ôl i'r farchnad lafur, gan helpu i roi hwb i'w lefelau sgiliau ac opsiynau hyfforddi, yn ogystal â phrosiectau seilwaith sy'n dod â swyddi i mewn ac yn hybu grym gwario'r rhai sy'n gweithio arnynt.

As we have heard in this Chamber before, Wales gets more out of EU membership than it puts in. In addition to this, our membership of the EU single market is a key pull factor when multinational companies choose to locate here in Wales. It means that they are able to sell their products to a potential market of 0.5 billion customers.

Fel y clywsom yn y Siambr hon o'r blaen, mae Cymru yn cael mwy yn sgil ei haelodaeth o'r UE nag y mae'n ei roi i mewn. Yn ogystal â hyn, mae ein haelodaeth o farchnad sengl yr UE yn ffactor allweddol ar gyfer denu cwmnïau rhyngwladol i ddewis lleoli yma yng Nghymru. Mae'n golygu eu bod yn gallu gwerthu eu cynnyrch i farchnad bosibl o 0.5 biliwn o gwsmeriaid.

So, to conclude, Llywydd, I would once again like to welcome this well-informed and constructive report as well as the Welsh Government's response. While we do not have control of all the necessary levers to fully eradicate poverty here in Wales, we have to do all that we can, despite being handicapped by the Tory UK Government's welfare reforms. At the end of the day, Llywydd, people will only be lifted out of poverty by the creation of long-term, sustainable jobs at decent rates of pay, and, of course, the EU is highly relevant to our aims. This is what has to be the heart of all future strategies to tackle poverty in Wales.

Felly, i gloi, Lywydd, unwaith eto hoffwn groesawu'r adroddiad gwybodus ac adeiladol hwn yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru. Er nad oes gennym reolaeth dros bob ysgogydd angenrheidiol ar gyfer dileu tlodi'n llwyr yma yng Nghymru, mae'n rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu, er ein bod yn cael ein llesteirio gan ddiwygiadau lles Llywodraeth Doriaidd y DU. Yn y pen draw, Lywydd, ni fydd modd codi pobl allan o dlodi heb greu swyddi cynaliadwy hirdymor ar gyflogau gweddus, ac wrth gwrs, mae'r UE yn berthnasol iawn i'n hamcanion. Rhaid i hyn fod yn ganolog i bob strategaeth ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru yn y dyfodol.

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

15:44

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I'd like to thank all members of the Communities, Equality and Local Government Committee, under its Chair, Christine Chapman, for this report as part of their ongoing inquiry into poverty. I welcome the inquiry and it is a valuable contribution to the challenge of talking poverty and it's an opportunity to understand perceptions of our approach and to consider the areas where we can do more. I have accepted, or accepted in principle, the majority of recommendations by the committee.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, o dan ei Gadeirydd, Christine Chapman, am yr adroddiad hwn fel rhan o'i ymchwiliad parhaus i dlodi. Rwy'n croesawu'r ymchwiliad—mae'n gyfraniad gwerthfawr i'r her o drafod tlodi ac mae'n gyfle i ddeall canfyddiadau ynglŷn â'n dull o weithredu ac i ystyried y meysydd lle y gallwn wneud mwy. Rwyf wedi derbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, y rhan fwyaf o argymhellion y pwyllgor.

Tackling poverty is a priority across all Welsh Government departments and I'd like to reassure Alun Davies that all Ministers have to consider tackling poverty when making decisions. Members, definitely of the committee, and other members in the Chamber, will have heard me say that, since I came into portfolio a year ago, we've changed and refreshed our approach across Government and changed the way the tackling poverty implementation board takes evidence, for instance, from officials. And we have Ministers in front of us to scrutinise how their policies are delivering towards the tackling poverty agenda.

Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru a hoffwn dawelu meddwl Alun Davies fod rhaid i bob Gweinidog ystyried trechu tlodi wrth wneud penderfyniadau. Bydd Aelodau'r Pwyllgor, yn bendant, ac aelodau eraill yn y Siambr, wedi fy nghlywed yn dweud, ers i mi gael y portffolio flwyddyn yn ôl, ein bod wedi newid ac adnewyddu ein dull ar draws y Llywodraeth ac wedi newid y ffordd y mae'r bwrdd gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn cymryd tystiolaeth gan swyddogion, er enghraifft. Ac mae gennym Weinidogion o'n blaenau i graffu ar sut y mae eu polisïau'n cyflawni'r agenda trechu tlodi.

We've refreshed our approach to ensure we focus relentlessly on the root causes of poverty by giving children the best possible start in life, supporting people to get a job and improving their health and wellbeing. And over the last year, we've seen 3,500 people supported to enter employment and over 11,000 children helped to improve their academic performance through our Communities First programme. Over 32,000 children have benefited from our Flying Start scheme last year, and through Families First more than 2,700 team-around-the-family action plans were closed with a successful outcome.

Rydym wedi adnewyddu ein dull o sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n ddiflino ar achosion sylfaenol tlodi drwy roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant, cynorthwyo pobl i gael gwaith a gwella eu hiechyd a'u lles. Ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sicrhau bod 3,500 o bobl yn cael cymorth i gael gwaith a thros 11,000 o blant yn cael cymorth i wella eu perfformiad academaidd drwy ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Elwodd dros 32,000 o blant ar ein cynllun Dechrau'n Deg y llynedd, a thrwy Teuluoedd yn Gyntaf, daeth mwy na 2,700 o gynlluniau gweithredu tîm o amgylch y teulu i ben yn llwyddiannus.

The pupil deprivation grant had been introduced and then was significantly increased. In addition, the Supporting People programme provided invaluable housing support to over 60,000 people.

Cyflwynwyd y grant amddifadedd disgyblion a'i gynyddu'n sylweddol wedyn. Yn ogystal, darparodd y rhaglen Cefnogi Pobl gymorth tai amhrisiadwy i dros 60,000 o bobl.

These are positive interventions designed to improve the life chances of those most in need. I do not agree with the committee's assertion that our efforts are focused on the symptoms of poverty, rather than the root causes. Whilst it is important to mitigate the impacts of poverty and provide social protection for those who need it, we are committed to preventing poverty in the first place. This has been central to our approach since we refreshed the tackling poverty action plan in 2013, and was reaffirmed in our revised child poverty strategy earlier this year. Concentrating on prevention is a long-term strategy, and positive outcomes may not be seen immediately. However, we believe this is the correct course, a view shared by the committee.

Mae'r rhain yn ymyriadau cadarnhaol a gynlluniwyd i wella cyfleoedd bywyd y rhai mwyaf anghenus. Nid wyf yn cytuno â honiad y pwyllgor fod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar symptomau tlodi yn hytrach na'r achosion sylfaenol. Er ei bod yn bwysig lliniaru effeithiau tlodi a darparu amddiffyniad cymdeithasol i'r rhai sydd ei angen, rydym wedi ymrwymo i atal tlodi yn y lle cyntaf. Mae hyn wedi bod yn ganolog i'n dull o weithredu ers i ni adnewyddu'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn 2013, a chafodd ei ailddatgan yn ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn gynharach eleni. Mae canolbwyntio ar atal yn strategaeth hirdymor, ac efallai na fydd canlyniadau cadarnhaol i'w gweld ar unwaith. Fodd bynnag, credwn mai dyma'r llwybr cywir, barn y mae'r pwyllgor yn ei rhannu.

The Welsh Government shares the committee's views in a number of other areas. For example, we accept the need for a wider definition of poverty than just income. We have had just such a definition since we published our 2011 child poverty strategy. We accept the need for robust data on the characteristics of poverty, and I'm keen to explore opportunities to improve the amount and quality of the information available to us within the parameters of what is practically and financially possible. We accept the need for strong links between our policies for building a strong economy and tackling poverty. This is why I set out a new strategic objective in our child poverty strategy this year—to create a strong economy and labour market, which supports the tackling poverty agenda and reduces in-work poverty in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu barn y pwyllgor mewn nifer o feysydd eraill. Er enghraifft, rydym yn derbyn yr angen am ddiffiniad ehangach o dlodi nag incwm yn unig. Diffiniad o'r fath sydd wedi bod gennym ers i ni gyhoeddi ein strategaeth tlodi plant yn 2011. Rydym yn derbyn yr angen am ddata cadarn ar nodweddion tlodi, ac rwy'n awyddus i archwilio cyfleoedd i wella swm ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i ni o fewn paramedrau'r hyn sy'n ymarferol ac yn ariannol bosibl. Rydym yn derbyn yr angen am gysylltiadau cryf rhwng ein polisïau ar gyfer adeiladu economi gref a threchu tlodi. Dyma pam y nodais amcan strategol newydd yn ein strategaeth tlodi plant eleni—creu economi a marchnad lafur gref, sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru.

We also accept the importance of Welsh Government using procurement to improve the life chances of people experiencing poverty. Our community benefits policy promotes the use of procurement as a lever to deliver benefits, including job creation, education and training.

Rydym hefyd yn derbyn ei bod hi'n bwysig i Lywodraeth Cymru ddefnyddio caffael i wella cyfleoedd bywyd y bobl sy'n profi tlodi. Mae ein polisi mantais gymunedol yn hyrwyddo'r defnydd o gaffael fel dull o ddarparu manteision, gan gynnwys creu swyddi, addysg a hyfforddiant.

I've not accepted the committee's recommendation to establish a poverty reduction alliance. I do recognise that models like this can provide a valuable service. However, I do hold a variety of meetings with a wide range of stakeholders. Members will be aware that I set up, very soon after coming into post, a tackling poverty practitioner group because I thought it was really important to have a group of people who are out there working in the front-line services providing services through our tackling poverty programmes, including Department for Work and Pensions workers. Mike Hedges raised the very important point about sanctions and what the UK Government welfare reform programme is doing to people who are already in poverty and pushing people into poverty too. We've now also got someone on that group who's benefited from our Lift programme, so I thought it was very important to hear the experiences of someone who had benefited from that programme. I absolutely value the level and breadth of engagement and input those meetings provide, along with all the other organisations and stakeholders who provide me with advice too.

Nid wyf wedi derbyn argymhelliad y pwyllgor i sefydlu cynghrair lleihau tlodi. Rwy'n cydnabod y gallai modelau fel hyn ddarparu gwasanaeth gwerthfawr. Fodd bynnag, rwy'n cynnal amrywiaeth o gyfarfodydd gydag ystod eang o randdeiliaid. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi sefydlu grŵp ymarferwyr ar drechu tlodi yn fuan iawn ar ôl dod i'r swydd oherwydd fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig iawn cael grŵp o bobl ar lawr gwlad sy'n gweithio yn y gwasanaethau rheng flaen yn darparu gwasanaethau drwy ein rhaglenni trechu tlodi, gan gynnwys gweithwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau. Crybwyllodd Mike Hedges y pwynt pwysig iawn ynghylch sancsiynau a'r hyn y mae rhaglen ddiwygio lles Llywodraeth y DU yn ei wneud i bobl sydd eisoes yn dlawd, rhaglen sydd hefyd yn gwthio pobl i mewn i dlodi. Bellach mae gennym rywun yn y grŵp hwnnw sydd wedi elwa o'n rhaglen Esgyn, felly roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig iawn i ni glywed profiadau rywun sydd wedi cael budd o'r rhaglen honno. Rwy'n bendant yn gwerthfawrogi lefel ac ehangder yr ymgysylltiad a'r mewnbwn y mae'r cyfarfodydd hynny yn eu cynnig, ynghyd â'r holl sefydliadau a rhanddeiliaid eraill sy'n rhoi cyngor i mi hefyd.

I've also rejected the recommendation to change the eligibility criteria for the discretionary assistance fund, and increase its budget. I believe the existing criteria to be reasonable, and I've no immediate intention to increase the budget. However, I will continue to review the demands on the fund as we go through the next few months.

Rwyf hefyd wedi gwrthod yr argymhelliad i newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gronfa cymorth dewisol, a chynyddu ei chyllideb. Rwy'n credu bod y meini prawf presennol yn rhesymol, ac nid oes gennyf unrhyw fwriad uniongyrchol i gynyddu'r gyllideb. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i adolygu'r galw ar y gronfa wrth i ni fynd drwy'r misoedd nesaf.

We as a Government are unable to make up for all the damage done by the UK Government changes to the tax and benefits system. We can, however, use policy levers within our powers to improve outcomes—levers which are devolved, designed in Wales and seek to address the inequalities which currently exist. We want to see ensure all children and young people are given the best start in terms of health, wellbeing and education, regardless of their background or household income. And, of course, a child's in poverty if its parents are in poverty, and sustainable work, I believe, remains the best means of avoiding and escaping poverty. So, we want all people to have the skills they need to maximise their chances of securing employment.

Rydym fel Llywodraeth yn methu â gwneud iawn am yr holl ddifrod a wnaed gan newidiadau Llywodraeth y DU i'r system dreth a budd-daliadau. Fodd bynnag, gallwn ddefnyddio ysgogwyr polisi o fewn ein pwerau i wella canlyniadau—ysgogwyr sydd wedi'u datganoli, wedi'u cynllunio yng Nghymru ac sy'n ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rydym am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau o ran iechyd, lles ac addysg, waeth beth fo'u cefndir neu incwm y cartref. Ac wrth gwrs, mae plentyn yn dlawd os yw ei rieni'n dlawd, ac rwy'n credu mai gwaith cynaliadwy yw'r ffordd orau o hyd o osgoi tlodi a dianc rhag tlodi. Felly, rydym am i bawb gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fanteisio i'r eithaf ar eu gobaith o gael gwaith.

A couple of Members referred to the oral statement I made yesterday in the Chamber, where I spoke about the employability support we have within our tackling povertyprogrammes. And it's absolutely essential we do everything we can to help people get sustainable and permanent employment.

Cyfeiriodd un neu ddau o'r Aelodau at y datganiad llafar a wneuthum ddoe yn y Siambr, lle y siaradais am y cymorth cyflogadwyedd sydd gennym yn ein rhaglenni trechu tlodi. Ac mae'n hollol hanfodol ein bod yn gwneud popeth y gallwn i helpu pobl i gael gwaith cynaliadwy a pharhaol.

Other Members referred to working closely with the private sector and other partners, and it's absolutely right that we galvanise all our partners to focus on these priorities. Welsh Government can't do it on our own, and that is absolutely vital too. Tomorrow, I'm hosting a summit of leaders from right across the Welsh public, private and third sectors, and I want to build on the good work already being delivered. I want to learn from organisations, share best practice and identify how we can all work together, systematically, to reduce poverty.

Cyfeiriodd Aelodau eraill at weithio'n agos gyda'r sector preifat a phartneriaid eraill, ac mae'n hollol iawn ein bod yn ysgogi ein holl bartneriaid i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Ni all Llywodraeth Cymru ei wneud ar ei phen ei hun, ac mae hynny'n gwbl hanfodol hefyd. Yfory, rwy'n cynnal uwchgynhadledd o arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru, ac rwyf am adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei gyflawni. Rwyf am ddysgu gan sefydliadau, rhannu arfer gorau a nodi sut y gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd, yn systematig, i leihau tlodi.

I absolutely agree with Christine Chapman that poverty is not inevitable. It's multifaceted, it's complex, it's stubborn, but it's not inevitable. I am pleased that, as the Welsh Government, we've kept our ambition to eradicate child poverty by 2020, unlike the UK Government, who didn't like the target so just got rid of it.

Cytunaf yn llwyr â Christine Chapman nad yw tlodi yn anochel. Mae'n amlochrog, mae'n gymhleth, mae'n ystyfnig, ond nid yw'n anochel. Rwy'n falch ein bod, fel Llywodraeth Cymru, wedi cadw ein huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020, yn wahanol i Lywodraeth y DU, sydd wedi cael gwared ar y targed yn syml am nad oedd yn ei hoffi.

Jocelyn Davies pointed out Newport City Council and the proposals they're bringing forward and asked for my view on it. I read it with concern, and I think such decisions shouldn't be taken at the expense of some of our most disadvantaged and socially excluded members of society.

Cyfeiriodd Jocelyn Davies at Gyngor Dinas Casnewydd a'r cynigion y maent yn eu cyflwyno a gofynnodd am fy marn ar hyn. Fe'u darllenais gyda phryder, ac rwy'n meddwl na ddylai penderfyniadau o'r fath gael eu gwneud ar draul rhai o'n haelodau mwyaf difreintiedig o gymdeithas sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol.

Peter Black asked me again—and I thought I'd answered this question yesterday—why I can extend Lift funding to the end of 2017. Well, that was the programme that was started in 2014. It was a three-year programme, and that funding has been extended to then. You will be aware it's still several millions, but, in the scale of things, it's quite a small budget. Flying Start is a multi-million pound programme, and we will have to wait for—well, you can't call it the autumn statement—the winter statement and comprehensive spending review at the end of November before I can make an announcement.

Gofynnodd Peter Black i mi eto—ac roeddwn yn meddwl fy mod wedi ateb y cwestiwn hwn ddoe—pam rwy'n gallu ymestyn cyllid Esgyn hyd at ddiwedd 2017. Wel, dyna oedd y rhaglen a ddechreuwyd yn 2014. Rhaglen dair blynedd oedd hi, ac mae'r cyllid wedi cael ei ymestyn hyd at hynny. Fe fyddwch yn gwybod ei fod yn dal i fod yn sawl miliwn, ond o gymharu â phethau eraill, mae'n gyllideb eithaf bach. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen gwerth miliynau o bunnoedd, a bydd yn rhaid i chi aros am—wel, ni allwch ei alw'n ddatganiad yr hydref—am ddatganiad y gaeaf a'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ar ddiwedd mis Tachwedd cyn y gallaf wneud cyhoeddiad.

So, in conclusion, Deputy Presiding Officer, I thank the committee for their report. All your recommendations will help inform the approach of Welsh Government and other partners moving forward to address this very difficult issue.

Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad. Bydd eich holl argymhellion yn helpu i lywio ymagwedd Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill wrth symud ymlaen i fynd i'r afael â'r mater anodd hwn.

15:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Christine Chapman to reply to the debate.

Christine Chapman i ymateb i'r ddadl.

15:52

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. First of all, can I thank the Minister and the Members for their very powerful contributions today? I think it has been an excellent debate. I just want to pick out some key points that Members did refer to. Mark Isherwood reminded us of the necessity on the part of Welsh Government to have a deeper understanding of what it means to be in poverty. Again, this came over quite strongly in our report.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn gyntaf oll, a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog a'r Aelodau am eu cyfraniadau pwerus iawn heddiw? Rwy'n credu ei bod wedi bod yn ddadl ardderchog. Hoffwn ddewis rhai pwyntiau allweddol y cyfeiriodd yr Aelodau atynt. Fe'n hatgoffwyd gan Mark Isherwood o'r angen i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi. Unwaith eto, cafodd hyn ei gyfleu'n eithaf cryf yn ein hadroddiad.

Alun Davies, again very powerfully, urged that we need to go beyond the statistics and actually see the human face of poverty. As a Welsh Assembly, it is about asking those difficult questions, and there must be a driving ambition on the part of all of us, including Welsh Government, to eradicate poverty.

Pwysleisiodd Alun Davies, unwaith eto'n bwerus iawn, fod angen i ni fynd y tu hwnt i'r ystadegau a gweld wyneb dynol tlodi. Fel Cynulliad, mae a wnelo â gofyn cwestiynau anodd, ac mae'n rhaid cael uchelgais ysgogol ar ran pob un ohonom, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddileu tlodi.

Jocelyn Davies, again, called for a much better evidence base. We must go beyond vague factors and aspects of this. We need specific information. I think that's very important, Jocelyn.

Galwodd Jocelyn Davies, unwaith eto, am sylfaen dystiolaeth lawer gwell. Mae'n rhaid i ni fynd y tu hwnt i ffactorau ac agweddau amwys ar hyn. Mae arnom angen gwybodaeth benodol. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn, Jocelyn.

Peter Black called for a better alignment between portfolios in tackling poverty; it shouldn't just be down to one Minister. And, of course, on the economy, there is the importance of ensuring that growth in the economy must not leave our poorest communities behind. I think that's very important.

Galwodd Peter Black am gysoni portffolios yn well ar gyfer trechu tlodi; ni ddylai fod yn fater i un Gweinidog yn unig. Ac wrth gwrs, ar yr economi, mae'n bwysig sicrhau nad yw twf yn yr economi yn gadael ein cymunedau tlotaf ar ôl. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

Mike Hedges, particularly talking about his own constituency of Swansea East—but I know that other Members share that as well—reminded us of the hard realities of being in poverty: low wages, hunger, not enough money for food, high rents, but also of the good examples that we are seeing across Wales—those interventions like Communities First and the Lift programme.

Siaradodd Mike Hedges yn benodol am ei etholaeth ei hun, sef dwyrain Abertawe—ond gwn fod Aelodau eraill yn rhannu hyn hefyd—gan ein hatgoffa am realiti moel byw mewn tlodi: cyflogau isel, bod eisiau bwyd, prinder arian i brynu bwyd, rhenti uchel, ond hefyd am yr enghreifftiau da a welwn ledled Cymru—ymyriadau fel Cymunedau yn Gyntaf a'r rhaglen Esgyn.

Jeff Cuthbert, again, continued on that theme about the hard realities of in-work poverty, which is exacerbated by the welfare reforms. Again, a real call there from Jeff for sustainable jobs with decent pay.

Parhaodd Jeff Cuthbert, unwaith eto, ar yr un thema ynglŷn â realiti caled tlodi mewn gwaith, sy'n cael ei wneud yn waeth gan y diwygiadau lles. Unwaith eto, cafwyd galwad go iawn gan Jeff am swyddi cynaliadwy ar gyflog gweddus.

Finally, Minister, I was very pleased that you have outlined the successes of the Welsh Government on its key poverty programmes. I'm pleased that you have accepted most of the recommendations. I mean, obviously, we would have liked all of them, but you have accepted most of the recommendations, and we do look forward, as a committee, to continuing to work with Welsh Government. We will celebrate where there are successes, but I think, as a committee, it is about making our voices heard on behalf of the people of Wales where we feel that there are deficiencies and things that need to be improved.

Yn olaf, Weinidog, roeddwn yn falch iawn eich bod wedi amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cymru gyda'i rhaglenni tlodi allweddol. Rwy'n falch eich bod wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion. Hynny yw, yn amlwg, byddem wedi hoffi pe baech wedi derbyn pob un o'r argymhellion, ond rydych wedi derbyn y rhan fwyaf, ac rydym yn edrych ymlaen, fel pwyllgor, at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Byddwn yn dathlu llwyddiannau, ond rwy'n meddwl, fel pwyllgor, ei fod yn ymwneud â sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed ar ran pobl Cymru lle y teimlwn fod diffygion yn bodoli a phethau angen eu gwella.

Finally, in conclusion, our report warned of the risks and the tendency sometimes to see those in poverty as somehow being separate to the rest of us, and that is not so. What we were told is that people in Wales can actually drift in and out of poverty. In fact, we're all at risk of poverty, so we all have a stake in this. Poverty eradication must be the Welsh Government's No. 1 priority and by not eradicating this, as a society, we are all the weaker. Thank you.

Yn olaf, i gloi, rhybuddiodd ein hadroddiad am y risgiau a'r duedd weithiau i weld pobl sy'n byw mewn tlodi fel bodau ar wahân i'r gweddill ohonom, ac nid yw hynny'n wir. Yr hyn a ddywedwyd wrthym yw y gall pobl yng Nghymru lithro i mewn ac allan o dlodi. Yn wir, rydym i gyd yn wynebu'r risg o fod yn dlawd, felly rydym i gyd â rhan yn hyn. Mae'n rhaid i ddileu tlodi fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a thrwy beidio â chael gwared arno, fel cymdeithas, rydym oll yn wannach. Diolch.

15:55

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to note the Communities, Equality and Local Government Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y Bil Undebau Llafur

## 4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): The Trade Union Bill

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

*[R] signifies the Member has declared an interest.*

15:56

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 4 is the debate by individual Members under Standing Order 11.21 and I call Mick Antoniw to move the motion.

Eitem 4 yw'r ddadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21 a galwaf Mick Antoniw i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5832 Mick Antoniw [R], Rhodri Glyn Thomas, Peter Black

Motion NDM5832 Mick Antoniw [R], Rhodri Glyn Thomas, Peter Black

Cefnogwyd gan Alun Davies, Bethan Jenkins, Mike Hedges, Eluned Parrott, Jenny Rathbone, David Rees, Julie Morgan, Simon Thomas, Ann Jones, Christine Chapman, Aled Roberts, Gwenda Thomas, William Powell, Jeff Cuthbert, Lynne Neagle, Joyce Watson, Keith Davies, Dafydd Elis-Thomas, Llyr Gruffydd, Sandy Mewies.

Supported by Alun Davies, Bethan Jenkins, Mike Hedges, Eluned Parrott, Jenny Rathbone, David Rees, Julie Morgan, Simon Thomas, Ann Jones, Christine Chapman, Aled Roberts, Gwenda Thomas, William Powell, Jeff Cuthbert, Lynne Neagle, Joyce Watson, Keith Davies, Dafydd Elis-Thomas, Llyr Gruffydd, Sandy Mewies.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn ymfalchïo yn y berthynas dda sydd wedi'i sefydlu yng Nghymru rhwng cyflogwyr, undebau llafur a gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; a

1. Takes pride in the good relations that have been established in Wales between employers, trades unions and workers in both the public and private sector; and

2. Yn credu:

2. Believes that:

a) bod Bil Undebau Llafur Llywodraeth y DU yn ymosodiad diangen ar hawliau democrataidd pobl sy'n gweithio ac y bydd yn tanseilio'r cysylltiadau diwydiannol da ac adeiladol sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru ers 1999;

a) the UK Government’s Trade Union Bill is an unnecessary attack on the democratic rights of working people and will undermine the good and constructive industrial relations that have been established in Wales since 1999;

b) bod perygl y bydd y Bil yn mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a chonfensiynau 87, 98 a 151 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol; a

b) the Bill risks contravening the Human Rights Act 1998 and International Labour Organisation’s Conventions 87, 98 and 151; and

c) bod y Bil ymyrryd â meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ac na ddylid ei gymhwyso i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

c) the Bill intrudes in areas that are the responsibility of the Welsh Government and that it should not be applied to Wales without the consent of the National Assembly of Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:56

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I start by declaring an interest as a member of the GMB trade union and the Musicians’ Union trade union, as listed in the register of interests?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddatgan buddiant fel aelod o undeb llafur GMB ac undeb llafur Undeb y Cerddorion, fel y’u rhestrir yn y gofrestr o fuddiannau?

At a 1979 election rally, Margaret Thatcher said the following:

Mewn rali etholiadol yn 1979, dywedodd Margaret Thatcher y geiriau canlynol:

‘As you well know, for over 100 years, ever since Disraeli's day, since before the Labour Party existed, it has been the belief of the Conservative Party that the law should not only permit, but that it should assist, the trades unions to carry out their legitimate function of protecting their members’.

‘As you well know, for over 100 years, ever since Disraeli’s day, since before the Labour Party existed, it has been the belief of the Conservative Party that the law should not only permit, but that it should assist, the trades unions to carry out their legitimate function of protecting their members’.

Now, I’ve never been a fan of Thatcherite policies; she destroyed much of our industry, she decimated the coal industry, allowed profitable mines to be closed for politically vindictive reasons and she left a legacy of politics based on greed and self-interest. However, despite this, she had the qualities of statesmanship and leadership that are now so missing in a Conservative party that is far more vindictive and class-ridden than was ever the case during the Thatcher years—a party that, under the guise of helping working families, is attacking low-paid workers, destroying the public sector and increasing poverty and inequality. Even she would never have supported this trade union Bill and would’ve seen it as a step too far: an act that puts Tory party interests over the interests of the country and that attacks the very basis of our democratic system and fundamental rights.

Nawr, nid wyf erioed wedi bod yn ffan o bolisïau Thatcheraidd; dinistriodd lawer o’n diwydiant, anrheithiodd y diwydiant glo, caniataodd i weithfeydd proffidiol gau am resymau gwleidyddol dialgar a gadawodd ar ei hôl wleidyddiaeth yn seiliedig ar drachwant a hunan-les. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd ganddi rinweddau fel gwladweinydd ac arweinydd sydd bellach wedi’u colli gan blaid Geidwadol sy’n llawer mwy dialgar ac yn cael ei harwain gan ddosbarth i raddau mwy nag a fu’n wir erioed yn ystod y blynyddoedd Thatcheraidd—plaid sydd, dan gochl helpu teuluoedd sy’n gweithio, yn ymosod ar weithwyr ar gyflog isel, gan ddinistrio’r sector cyhoeddus a chynyddu tlodi ac anghydraddoldeb. Ni fyddai hyd yn oed hi byth wedi cefnogi’r Bil undebau llafur hwn a byddai wedi’i weld fel cam yn rhy bell: gweithred sy’n gosod buddiannau’r blaid Dorïaidd yn uwch na lles y wlad ac sy’n ymosod ar union sylfaen ein system ddemocrataidd a’n hawliau sylfaenol.

The Bill is, in my view, an unwarranted and ideological attack on the internationally established rights of trade unions in this country. It has been condemned by Amnesty International; it has been condemned by the civil liberties organisation, Liberty; and it’s been condemned by the British Institute for Human Rights, who, jointly, have stated:

Mae’r Bil, yn fy marn i, yn ymosodiad diangen ac ideolegol ar hawliau undebau llafur yn y wlad hon, hawliau a sefydlwyd yn rhyngwladol. Cafodd ei gondemnio gan Amnest Rhyngwladol; cafodd ei gondemnio gan y sefydliad hawliau sifil, Liberty; a chafodd ei gondemnio gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, sydd, ar y cyd, wedi datgan:

'Taken together the unprecedented measures in the Bill would hamper people's basic rights to protest and shift even more power from the employee to the employer. It is hard to see the aim of this bill as anything but seeking to undermine the rights of all working people'.

'Taken together the unprecedented measures in the Bill would hamper people's basic rights to protest and shift even more power from the employee to the employer. It is hard to see the aim of this bill as anything but seeking to undermine the rights of all working people'.

Even the independent body appointed by the Government to scrutinise regulatory proposals has slammed the Government's impact assessment of the Bill's proposals as 'not fit for purpose'.

Mae hyd yn oed y corff annibynnol a benodwyd gan y Llywodraeth i archwilio cynigion rheoleiddiol wedi condemnio asesiad effaith y Llywodraeth o gynigion y Bil fel rhai nad ydynt yn addas at y diben.

The Bill includes a series of proposals relating to turnouts in strike ballots which far exceed the turnouts required to elect councillors, MPs and Assembly Members. The Bill imposes extensive bureaucratic red tape and costs on trade unions who'll become subject to a new financial levy. The Bill requires employers to report on resources allocated for facility time in the public sector and in organisations that provide public services.

Mae'r Bil yn cynnwys cyfres o gynigion yn ymwneud â'r nifer sy'n pleidleisio dros streic sy'n llawer uwch na'r nifer sydd ei hangen i ethol cynghorwyr, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Bil yn creu biwrocratiaeth a chostau helaeth i undebau llafur a bydd yn rhaid iddynt dalu toll ariannol newydd. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr adrodd ar yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer amser cyfleuster yn y sector cyhoeddus ac mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

15:59

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Would the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:59

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I will take an intervention.

Gwnaf, fe gymeraf ymyriad.

15:59

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for taking the intervention. If this Bill is so wrong, why are more than half of your Members here missing from this debate today?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Os yw'r Bil hwn mor anghywir, pam y mae mwy na hanner eich Aelodau yma yn methu'r ddadl hon heddiw?

15:59

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'll treat that with the contempt that it actually deserves.

Rwyf am drin y sylw hwnnw â'r dirmyg y mae'n ei haeddu.

The net effect of all this is to reduce the ability of unions to represent their members at work effectively, to negotiate on pay, health and safety and terms and conditions at work, and limit access to learning and skills. If this wasn't enough, this anti-freedom, anti-democratic Bill gives the Government the power to interfere in individual contracts of employment and collective agreements that provide for facility time.

Effaith net hyn i gyd yw lleihau gallu'r undebau i gynrychioli eu haelodau yn y gwaith yn effeithiol, i negodi ar gyflog, iechyd a diogelwch a thelerau ac amodau yn y gwaith, a chyfyngu ar fynediad at ddysgu a sgiliau. Os nad yw hyn yn ddigon, mae'r Bil gwrth-ryddid, gwrthddemocrataidd hwn yn rhoi pŵer i'r Llywodraeth ymyrryd mewn contractau cyflogaeth unigol a chydgytundebau sy'n darparu ar gyfer amser cyfleuster.

In a move that tramples on any notion of partnership working, the Bill will change the law and allow and effectively encourage employers to bring in agency workers as strike-breakers, irrespective of the consequence for industrial relations and health and safety. So much for the Tory party's claim of being on the side of hard-working people. This Bill shatters that illusion.

Mewn symudiad sy'n sathru ar unrhyw syniad o weithio mewn partneriaeth, bydd y Bil yn newid y gyfraith ac yn caniatáu ac i bob pwrpas yn annog cyflogwyr i ddod â gweithwyr asiantaeth i mewn fel torwyr streic, heb ystyried y canlyniadau o ran cysylltiadau diwydiannol ac iechyd a diogelwch. Naw wfft i honiad y blaid Doriaidd ei bod ar ochr y bobl weithgar. Mae'r Bil yn chwalu'r rhith hwnnw.

Finally, the Bill will subject trade union protests and picketing to levels of state and police scrutiny that go far beyond what is fair and acceptable in a modern democracy. I worked as a trade union solicitor for 30 years; I've never seen a dispute where workers have wanted to go on strike and, in the past 20 years, the level of strikes has reduced to an all-time low. Workers and their unions know and understand the global pressures that exist today on companies. Wales, a country previously renowned for its militancy, is increasingly recognised for the development of partnership working.

Yn olaf, bydd y Bil yn gwneud protestiadau undebau llafur a phicedu yn ddarostyngedig i lefelau o graffu gan y wladwriaeth a'r heddlu sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n deg ac yn dderbyniol mewn democratiaeth fodern. Bûm yn gweithio fel cyfreithiwr undeb llafur am 30 mlynedd; nid wyf erioed wedi gweld anghydfod lle roedd gweithwyr eisiau mynd ar streic ac yn y 20 mlynedd diwethaf, mae nifer y streiciau a welir yn is nag y bu erioed. Mae gweithwyr a'u hundebau yn gwybod ac yn deall y pwysau byd-eang sydd ar gwmnïau heddiw. Mae Cymru, gwlad a fu'n enwog gynt am ei hysbryd milwriaethus, yn cael ei chydnabod yn gynyddol am y modd y mae wedi datblygu gweithio mewn partneriaeth.

All the accepted evidence shows that, where there are recognised trade unions and where there is an effective industrial partnership between workers and employers, a win-win situation results. Workplaces are safer, with fewer accidents and less illness. Workers' pay and terms and conditions are better and the businesses are more productive and successful. Even Margaret Thatcher recognised this, when she said in 1979 that British industry couldn't prosper unless management and unions work together in partnership. Yet, the right to strike, to withdraw labour, is a fundamental right of workers to counter the unregulated power of employers, and I've always believed that you can measure the strength of democracy in any country in the world by how free its trade unions are. You can take any country in the world, and the more freedom given to trade unions, the freer that country is.

Mae'r holl dystiolaeth dderbyniol yn dangos bod canlyniadau gwell i bawb lle y ceir undebau llafur cydnabyddedig a phartneriaeth ddiwydiannol effeithiol rhwng gweithwyr a chyflogwyr. Mae gweithleoedd yn fwy diogel, gyda llai o ddamweiniau a llai o salwch. Mae cyflogau a thelerau ac amodau gweithwyr yn well ac mae busnesau'n fwy cynhyrchiol a llwyddiannus. Roedd hyd yn oed Margaret Thatcher yn cydnabod hyn, pan ddywedodd yn 1979 na allai ddiwydiant Prydain ffynnu oni bai bod rheolwyr a'r undebau yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth. Eto i gyd, mae'r hawl i streicio, i wrthod gweithio, yn hawl sylfaenol sydd gan weithwyr i wrthsefyll pŵer heb ei reoleiddio cyflogwyr, ac rwyf wedi credu erioed y gallwch fesur cryfder democratiaeth mewn unrhyw wlad yn y byd yn ôl pa mor rhydd yw ei hundebau llafur. Gallwch ddewis unrhyw wlad yn y byd, a pho fwyaf o ryddid a roddir i undebau llafur, y mwyaf rhydd yw'r wlad honno.

The Government will claim that the Bill is about setting reasonable ballot thresholds. They make no comment on the massive technical complications that exist, even under existing legislation, to holding ballots, identifying the groups to be balloted, contacting them, and so on, and they ignore every request by trade unions to allow e-balloting. The general secretary of Unite has said there could well be agreement on this issue if the Government were to allow e-balloting. Of course, the Prime Minister refuses, arguing it is not sufficiently secure, whilst, at the same time, the Tory party just having selected Zac Goldsmith as their London mayoral candidate by e-ballot. The only conclusion you can draw is that this legislation has nothing to do with balloting thresholds or boosting workplace democracy, but it is about chaining working people, gagging trade unionism and restricting democratic protest.

Bydd y Llywodraeth yn honni bod y Bil yn ymwneud â gosod trothwyon pleidleisio rhesymol. Nid ydynt yn sôn dim am y cymhlethdodau technegol enfawr sy'n bodoli, hyd yn oed o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ar gyfer cynnal systemau pleidleisio, nodi'r grwpiau sydd i bleidleisio, cysylltu â hwy, ac yn y blaen, ac maent yn anwybyddu pob cais gan undebau llafur i ganiatáu e-bleidleisio. Mae ysgrifennydd cyffredinol Unite wedi dweud y gallai'n hawdd fod cytundeb ar y mater hwn pe bai'r Llywodraeth yn caniatáu e-bleidleisio. Wrth gwrs, mae'r Prif Weinidog yn gwrthod, gan ddadlau nad yw'n system ddigon cadarn, ac ar yr un pryd, mae'r blaid Dorïaidd newydd ddewis Zac Goldsmith fel eu hymgeisydd ar gyfer etholiad maer Llundain drwy e-bleidlais. Yr unig gasgliad y gallwch ddod iddo yw nad oes gan y ddeddfwriaeth hon ddim oll i'w wneud â throthwyon pleidleisio neu hybu democratiaeth yn y gweithle, ond yn hytrach ei bod yn ymwneud â chaethiwo pobl sy'n gweithio, cau ceg undebaeth lafur a chyfyngu ar brotest democrataidd.

You need only look at the bizarre and oppressive proposals in respect of trade union protests and picketing—contrary to the rulings of the ILO's freedom of association committee and various articles of the European convention on human rights, the Bill, amongst many other legal obligations, would require pickets to appoint a picket supervisor, to give that person's name and address to the police and to provide a letter of authority, and to be present or contactable while the picketing is taking place, and to wear a badge or armband. We can be thankful, I guess, that trade unionists going about their lawful activities won't yet be required to wear a red triangle. The Government is even considering proposals that would require unions to report on plans to run Twitter or Facebook accounts and suggest that unions will have to report in advance on the likely contents of any protest website. What country are we living in? Do we really want our police to emulate the notorious Stasi? Do we want to become a new Soviet Union, which also banned free trade unions, or are we to become, as one Tory MP described the proposals, more in keeping with Franco's Spain?

Nid oes ond angen i chi edrych ar y cynigion rhyfedd a gormesol sy'n ymwneud â phrotestiadau undebau llafur a phicedu—yn groes i ddyfarniadau pwyllgor rhyddid i ymgysylltu'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a gwahanol erthyglau'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, mae'r Bil, ymhlith llawer o rwymedigaethau cyfreithiol eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i bicedwyr benodi goruchwyliwr piced, er mwyn rhoi enw a chyfeiriad y person hwnnw i'r heddlu a darparu llythyr o awdurdod, ac i fod yn bresennol neu fod modd cysylltu â'r person hwnnw tra bod y picedu'n digwydd, ac i wisgo bathodyn neu rwymyn braich. Gallwn fod yn ddiolchgar, mae'n debyg, na fydd hi'n ofynnol i undebwyr llafur wisgo triongl coch wrth gyflawni eu gweithgareddau cyfreithlon. Mae'r Llywodraeth hyd yn oed yn ystyried cynigion a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i undebau adrodd ar gynlluniau i gynnal cyfrifon Twitter neu Facebook ac mae'n awgrymu y bydd yn rhaid i undebau roi gwybod ymlaen llaw ynglŷn â chynnwys tebygol unrhyw wefan brotest. Ym mha wlad rydym yn byw? A ydym eisiau i'n heddlu efelychu'r Stasi anfad? A ydym am ddod yn Undeb Sofietaidd newydd, a oedd hefyd yn gwahardd undebau llafur rhydd, neu a ydym i fod, fel y disgrifia un Aelod Seneddol Torïaidd y cynigion, yn debycach i Sbaen dan Franco?

In Wales, we can be justifiably proud of our good and constructive industrial relations. The proposals can only undermine what we have achieved in Wales and what has been achieved in many other parts of the United Kingdom. The proposals also intrude into our Welsh jurisdiction and devolved powers. As the First Minister said on 9 September, the proposals will

Yng Nghymru, gallwn fod yn haeddiannol falch o'n cysylltiadau diwydiannol da ac adeiladol. Gall y cynigion danseilio'r hyn rydym wedi'i gyflawni yng Nghymru a'r hyn a gyflawnwyd mewn sawl rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Mae'r cynigion hefyd yn amharu ar ein hawdurdodaeth Gymreig a phwerau datganoledig. Fel y dywedodd y Prif Weinidog ar 9 Medi, bydd y cynigion yn

'lead to more confrontational relationships between employers and workers, and ultimately undermine rather than support public services'.

'arwain at berthynas fwy gwrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a gweithwyr ac yn y pen draw, yn tanseilio yn hytrach na chefnogi gwasanaethau cyhoeddus'.

The UK Government says the Bill only relates to non-devolved matters, but that cannot, with any reasonable reading of the proposals, be true. Significant elements of the Bill specifically refer to public services, which are unquestionably devolved in Wales. This is a destructive and unnecessary piece of legislation. It undermines good industrial relations; it is authoritarian and vindictive and undermines civil liberties and long-established principles of freedom of association. I hope that the Bill is defeated. I do not want to see this oppressive Bill enacted in any part of the United Kingdom. I do not want to see it undermine work that has been done over decades to build progressive, co-operative industrial relations in Wales and, in addition, I impose the intention of this Bill to intrude on the devolved responsibilities of this Assembly.

Mae Llywodraeth y DU yn dweud nad yw'r Bil ond yn ymwneud â materion sydd heb eu datganoli, ond ni all hynny fod yn wir, o unrhyw ddarlleniad rhesymol o'r cynigion. Mae elfennau sylweddol o'r Bil yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau cyhoeddus, sy'n bendant wedi'u datganoli yng Nghymru. Mae hon yn ddeddfwriaeth ddinistriol a diangen. Mae'n tanseilio cysylltiadau diwydiannol da; mae'n awdurdodaidd a dialgar ac yn tanseilio hawliau sifil ac egwyddorion hirsefydlog rhyddid i ymgysylltu. Gobeithio y caiff y Bil ei drechu. Nid wyf am weld y Bil gormesol hwn mewn grym yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Nid wyf am ei weld yn tanseilio gwaith a wnaed dros y degawdau i adeiladu cysylltiadau diwydiannol adeiladol, cydweithredol a blaengar yng Nghymru a hefyd, rwy'n gwrthwynebu bwriad y Bil hwn i amharu ar gyfrifoldebau datganoledig y Cynulliad hwn.

We do not need this law in Wales and we do not want this law in Wales. And I know that we will do all that we can to support all those who oppose this Bill and, if necessary, to challenge its legitimacy in the Supreme Court.

Nid oes angen y ddeddf hon yng Nghymru ac nid ydym eisiau'r gyfraith hon yng Nghymru. Ac rwy'n gwybod y gwnawn bopeth yn ein gallu i gefnogi pawb sy'n gwrthwynebu'r Bil hwn ac os oes angen, i herio ei gyfreithlondeb yn y Goruchaf Lys.

I hope that the Welsh Conservatives will have the integrity, decency and independence of thought and principle, and stand up for Wales and our democratic freedoms by supporting this motion. Thank you.

Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn meddu ar yr uniondeb, y gwedduster a'r annibyniaeth barn ac egwyddor i sefyll yn gadarn dros Gymru a'n rhyddid democrataidd drwy gefnogi'r cynnig hwn. Diolch.

16:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in the debate today. The principal speaker moved about decency and integrity. I understand fully that there was an event, I think, over lunchtime. The sponsoring Member didn't have the courtesy to invite one of us to come along and speak at that event. No invitation—

Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl heddiw. Soniodd y prif siaradwr am wedduster ac uniondeb. Rwy'n deall yn iawn fod yna ddigwyddiad, rwy'n meddwl, dros amser cinio. Nid oedd gan yr Aelod y cwrteisi i wahodd un ohonom ni i ddod draw i siarad yn y digwyddiad hwnnw. Dim gwahoddiad—

16:06 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've literally been going for 21 seconds, and you did come in late, but go on.

Rwyf wedi bod yn siarad am 21 eiliad yn llythrennol, ac fe ddaethoch i mewn yn hwyr, ond ewch ymlaen.

16:06 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I understand it, all Assembly Members were invited to that event. Why were you not there?

Yn ôl a ddeallaf, gwahoddwyd holl Aelodau'r Cynulliad i'r digwyddiad. Pam nad oeddech chi yno?

16:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate that you were late to the start of the debate, but if you'd listened to what I'd said, I said about being able to speak. The point being is that, surely, that would have been a courtesy if you're talking about courtesies. I would have welcomed the opportunity to have come along to that event and addressed that event. I believe, along with my colleagues, that unions play a vital role in the workplace. They represent workers' rights, they represent a conduit for the management, the workers—

Rwy'n sylweddoli eich bod yn hwyr ar gyfer dechrau'r ddadl, ond pe baech wedi gwrando ar yr hyn a ddywedais, roeddwn i'n sôn am gael siarad. Y pwynt, yn sicr, yw y byddai hynny wedi bod yn gwrtais os ydych yn sôn am gwrteisi. Byddwn wedi croesawu'r cyfle i ddod draw i'r digwyddiad ac i annerch y digwyddiad hwnnw. Rwy'n credu, fel fy nghyd-Aelodau, fod undebau'n chwarae rhan hanfodol yn y gweithle. Maent yn cynrychioli hawliau gweithwyr, maent yn gyfrwng i'r rheolwyr, y gweithwyr—

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose-*

16:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, let me make a bit of progression. I will invite the courtesy for you to speak, unlike when I wasn't invited this afternoon. The point I am making is that it is regrettable that you cannot see that some of the actions of the unions, especially their political actions, have alienated large parts of British society—and within British society, I call Welsh society one and the same—and the point as well is that many of these proposals were in the Conservative manifesto that was endorsed by the electorate at the general election. Therefore, as a Government, we have the right to legislate in this field. I will take the intervention.

Wel, gadewch i mi symud ymlaen rywfaint. Fe ddangosaf gwrteisi i chi gael siarad, yn wahanol i'r modd na chefais fy ngwahodd y prynhawn yma. Y pwynt rwy'n ei wneud yw ei bod yn resyn na allwch weld bod rhai o weithredoedd yr undebau, yn enwedig eu gweithredoedd gwleidyddol, wedi dieithrio rhannau helaeth o gymdeithas Prydain—ac o fewn cymdeithas Prydain, mae cymdeithas Cymru yr un peth i mi—a'r pwynt hefyd yw bod llawer o'r cynigion hyn yn y maniffesto Ceidwadol a gymeradwywyd gan yr etholwyr yn yr etholiad cyffredinol. Felly, fel Llywodraeth, mae gennym yr hawl i ddeddfu yn y maes hwn. Fe gymeraf yr ymyriad.

16:07 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you confirm, then, that you will write formally, as leader of the Welsh Conservatives, to the Prime Minister urging him to accept the invitation by Len McCluskey, general secretary of Unite, to discuss the implementation of e-balloting?

A wnewch chi gadarnhau, felly, y byddwch yn ysgrifennu'n ffurfiol, fel arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, at y Prif Weinidog yn ei annog i dderbyn y gwahoddiad gan Len McCluskey, ysgrifennydd cyffredinol Unite, i drafod gweithredu system e-bleidleisio?

16:08

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have many discussions with the Prime Minister, and many Secretaries of State up in London, on a continuing basis, and this is one area on which I continue to have those discussions with him. It is important to remember that what the unions' role, as you outlined with Margaret Thatcher's comment in 1979, is that of an important bridge in the workplace that does stand up for workers' rights, that does bridge industrial disputes, and ultimately creates an environment and an atmosphere that is conducive to productivity so that all can benefit from good industrial relations. What we have seen in recent years is the politicisation by Len McCluskey and the rest of his cohorts in Unite, such as in the Falkirk vote-rigging in the Labour Party, and what people are sick and tired of is seeing general secretaries living through their political dreams on the backs of their members. That is something that's not acceptable, and it is something for which I make no apology for the Government looking to legislate in this field.

Rwy'n cael llawer o drafodaethau gyda'r Prif Weinidog, a llawer o'r Ysgrifenyddion Gwladol yn Llundain, ar sail barhaus, ac mae hwn yn un maes rwy'n dal i gael y trafodaethau hynny gydag ef yn eu cylch. Mae'n bwysig cofio mai'r hyn yw rôl yr undebau, fel yr amlinellwyd gennych yn sylwadau Margaret Thatcher yn 1979, yw bod yn bont bwysig yn y gweithle sy'n sefyll dros hawliau gweithwyr, sy'n pontio anghydfodau diwydiannol, ac yn y pendraw sy'n creu amgylchedd ac awyrgylch sy'n gydnaws â chynhyrchiant fel y gall pawb elwa o gysylltiadau diwydiannol da. Yr hyn rydym wedi'i weld dros y blynyddoedd diwethaf yw gwleidyddoli gan Len McCluskey a gweddill ei fintai yn Unite, megis rigio pleidleisiau'r Blaid Lafur yn Falkirk, a'r hyn y mae pobl wedi diflasu a blino arno yw gweld ysgrifenyddion cyffredinol yn byw eu breuddwydion gwleidyddol ar draul eu haelodau. Mae hynny'n rhywbeth nad yw'n dderbyniol, ac nid wyf yn ymddiheuro dros y ffaith fod y Llywodraeth yn ceisio deddfu yn ei gylch yn y maes hwn.

I can fully understand why many Members on the Labour benches are going to speak today, and have taken part in the TUC. The declarations of interest show the amount of union contributions that have gone to Members across this Chamber, predominantly all in the Labour Party. Perfectly legitimate; there are no problems with that at all.

Gallaf ddeall yn iawn pam y mae llawer o'r Aelodau ar y meinciau Llafur yn mynd i siarad heddiw, ac wedi cymryd rhan yn y TUC. Mae'r datganiadau o fuddiant yn dangos cymaint o gyfraniadau undeb sydd wedi mynd i Aelodau ar draws y Siambr hon, bron i gyd yn y Blaid Lafur. Hollol gyfreithlon; nid oes unrhyw broblemau gyda hynny o gwbl.

*David Rees a gododd—*

*David Rees rose—*

16:09

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

David.

David.

16:09

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank you for taking the intervention. I hope you're not implying that I'm only going to speak because I've received a contribution and that I don't have the principles behind my beliefs of being a trade union member.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Rwy'n gobeithio nad ydych chi'n awgrymu fy mod i ond yn mynd i siarad am fy mod i wedi derbyn cyfraniad ac nad oes gennyf egwyddorion yn sail i fy nghredoau o ran bod yn aelod o undeb llafur.

16:09 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The point I'm leading on to is that, surely, if people want to make a political contribution, such as what the legislation allows for, they opt in rather than being forced to make that contribution and it's automatically deducted—it's deducted from their payslips. That cannot be acceptable. Ultimately, if people do want to make a donation to politicians of a political ilk in this Chamber or in any chamber across the United Kingdom, they voluntarily contribute to that. I fail to see how you can argue with that measure that's in the legislation. What is important, going forward, is that, ultimately, workers' rights are represented in the workplace. No-one disagrees with that whatsoever. But what people disagree with is the way that general secretaries of the trade unions have worked hand in glove with Labour politicians to create political tensions, which is not the role that they should be intended to do. What general secretaries should be reflecting on is what their role is—to stand up for their members and improve industrial relations and speak to the issues that their members want spoken to. The key thing here is that, when you look at the general election result, a Conservative majority Government was returned. It is a manifesto commitment. Are you saying that we do not have a democratic mandate to deliver that manifesto commitment? Because the answer, clearly, is: 'No, that is not the case.' We do have the mandate. We will legislate and we will improve workers' rights, but we'll also improve the rights of people the length and breadth of this country to accept public services that are laid on for their benefit, and not held to ransom by general secretaries who are living through their political dreams.

Y pwynt rwy'n arwain ato yw hyn: yn sicr, os yw pobl yn awyddus i wneud cyfraniad gwleidyddol, fel y mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ar ei gyfer, maent yn dewis gwneud hynny yn hytrach na chael eu gorfodi i wneud y cyfraniad hwnnw a'i fod yn cael ei ddidynnu'n awtomatig—ei dynnu o'u slipiau cyflog. Ni all hynny fod yn dderbyniol. Yn y pen draw, os yw pobl yn awyddus i roi rhodd i wleidyddion o duedd wleidyddol yn y Siambr hon neu mewn unrhyw siambr ar draws y Deyrnas Unedig, dylent gyfrannu o'u gwirfodd at hynny. Ni allaf weld sut y gallwch ddadlau â'r mesur hwnnw yn y ddeddfwriaeth. Yr hyn sy'n bwysig, wrth symud ymlaen, yw bod hawliau gweithwyr, yn y pen draw, yn cael eu cynrychioli yn y gweithle. Nid oes unrhyw un yn anghytuno â hynny o gwbl. Ond yr hyn y mae pobl yn anghytuno ag ef yw'r ffordd y mae ysgrifenyddion cyffredinol yr undebau llafur wedi gweithio law yn llaw â gwleidyddion Llafur i greu tensiynau gwleidyddol, ac nid dyna'r rôl y dylent ei chael. Yr hyn y dylai ysgrifenyddion cyffredinol fyfyrio arno yw beth yw eu swyddogaeth—sefyll dros eu haelodau a gwella cysylltiadau diwydiannol a thrafod y materion y mae eu haelodau am iddynt eu trafod. Pan edrychwch ar ganlyniad yr etholiad cyffredinol, y peth allweddol yma yw bod Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol wedi'i hethol. Mae'n ymrwymiad yn y maniffesto. A ydych yn dweud nad oes gennym fandad democrataidd i gyflawni'r ymrwymiad yn y maniffesto? Oherwydd yr ateb, yn amlwg, yw: 'Na, nid yw hynny'n wir.' Mae gennym fandad. Byddwn yn deddfu a byddwn yn gwella hawliau gweithwyr, ond byddwn hefyd yn gwella hawliau pobl ar hyd a lled y wlad hon i gael gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir er eu budd, yn hytrach na chael eu dal yn wystlon gan ysgrifenyddion cyffredinol sy'n byw eu breuddwydion gwleidyddol.

16:11 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very pleased to speak in this very important debate, which looks at this unprecedented attack on workers' rights. I really wonder why the Tories want to do this. It is such a damaging, divisive bit of legislation, which is not needed. I think we all know that people only strike as an absolute last resort. We have heard today from the Minister for Public Services about the strikes in Wales that have been averted by the efforts that have been made here in Wales not to reach the stage where workers have to strike. People strike as a last resort. And, of course, we are not a strike-ridden society. The number of strikes in the UK has drastically reduced. So, I think that this is unnecessary, damaging, divisive legislation, and you're bound to reach the conclusion that it is purely ideologically driven. It goes along with the plans to scrap the Human Rights Act, the scrapping of legal aid—which was mentioned in the Chamber earlier today—and the effects of that, and it goes along with cutting down people's voting rights: all ideological moves by the Westminster Government. I am proud of the Labour Party's strong links with the trade unions. I think it is a huge strength for us that we have this link with the trade unions. And I'm very proud of the Welsh Labour Government's good relationships with the trade unions in Wales, working in partnership. I see us working together to achieve a better situation for working people in Wales.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yn y ddadl bwysig hon, sy'n edrych ar yr ymosodiad digynsail hwn ar hawliau gweithwyr. Rwyf wir yn pendroni pam y mae'r Torïaid eisiau gwneud hyn. Mae'n ddeddfwriaeth mor niweidiol ac ymrannol, nad oes mo'i hangen. Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gwybod mai fel dewis olaf un y bydd pobl yn mynd ar streic. Clywsom heddiw gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus am y streiciau yng Nghymru a gafodd eu hosgoi yn sgil yr ymdrechion a wnaed yma yng Nghymru i beidio â chyrraedd y cam lle y bo'n rhaid i weithwyr fynd ar streic. Mae pobl yn mynd ar streic fel dewis olaf. Ac wrth gwrs, nid ydym yn gymdeithas sy'n gweld streiciau'n aml. Mae nifer y streiciau yn y DU wedi gostwng yn sylweddol. Felly, rwy'n meddwl bod hon yn ddeddfwriaeth niweidiol, ymrannol a diangen ac mae'n rhaid i chi ddod i'r casgliad fod y mater wedi'i yrru ar sail ideoleg yn unig. Mae'n cyd-fynd â'r cynlluniau i gael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol, cael gwared ar gymorth cyfreithiol—a grybwyllwyd yn y Siambr yn gynharach heddiw—ac effeithiau hynny, ac mae'n cyd-fynd â chyfyngu ar hawliau pleidleisio pobl: y cyfan yn gamau ideolegol gan Lywodraeth San Steffan. Rwy'n falch o gysylltiadau cryf y Blaid Lafur â'r undebau llafur. Rwy'n credu bod y ffaith fod gennym y cyswllt hwn â'r undebau llafur yn gryfder enfawr. Ac rwy'n falch iawn o berthynas dda Llywodraeth Llafur Cymru â'r undebau llafur yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth. Rwy'n ein gweld yn cydweithio i sicrhau sefyllfa well i bobl sy'n gweithio yng Nghymru.

I'm also very proud that the three political parties here are standing together today, opposing this Bill, because I think it is in that sort of unity that we will be able to have the strength, I hope, to defeat this Bill and make it not go forward in Westminster. But I do believe that this is an attack by the Conservatives on the relationship between the Labour Party and the affiliated trade unions, by making it more difficult to pay; by bringing in the opt-in system rather than the opt-out system, which exists now; and by getting rid of the check-off in the public sector, which allows union subs to be automatically deducted from the wage bill. I think these are all attempts to restrict membership. One of the most worrying proposals is to remove the ban on the use of agency workers while industrial action is going on, which, effectively, is using temporary workers as strike-breakers. The head of the Recruitment and Employment Confederation says:

'We are not convinced that putting agencies and temporary workers into the middle of difficult industrial relations situations is a good idea for agencies, workers or their clients.'

Feedback from their members was that resolution could be more difficult and situations could be inflamed in such situations. It does seem to me that, if people legitimately go on strike to achieve better conditions and their places are then filled by agency workers, it's a situation that is absolutely rife for explosion. I really feel that this is a very, very damaging proposal.

So, why is the Government making it much harder for working people to achieve better pay and working conditions for themselves? It does seem to me that they are trying to draw lines that are breaking—. They're trying to break up society by making things so difficult for people to take their rightful actions. I believe this is an attack on human rights. I also believe it is an attack on women's rights. Margaret Thomas, who is the head of Unison, has said that 70% of Unison's members are women, and she has claimed that the Government will be rolling back advances won for women by the suffragettes a century ago. By taking away all the other rights that the Government has taken away, we are going backwards. This is such a divisive and such a horrendous attack on workers' rights that I am sure that everybody in this Chamber must recognise that. I know that Andrew R.T. Davies has defended what the Government is doing in Westminster, but he has been challenged here today by Mick Antoniw to think again and to think what he could do to influence the Prime Minister to recognise that, in the way that we've worked in Wales, in the partnership way that we've worked in Wales, we have had good industrial relations and we've had fewer strikes. We have been able to avert strikes, and the good partnership relationship is good for all the workers here in Wales. So, I appeal to the Tories to do what they can to stop this horrendous attack on workers' rights continuing.

Rwy'n falch iawn fod y tair plaid wleidyddol yma yn sefyll gyda'i gilydd heddiw i wrthwynebu'r Bil hwn, oherwydd credaf mai mewn undod o'r fath y gallwn gael y cryfder, rwy'n gobeithio, i drechu'r Bil hwn a sicrhau nad yw'n mynd yn ei flaen yn San Steffan. Ond rwy'n credu bod hwn yn ymosodiad gan y Ceidwadwyr ar y berthynas rhwng y Blaid Lafur a'r undebau llafur cysylltiedig, drwy ei gwneud yn anos talu; drwy ddod yn system optio i mewn yn hytrach na system o ddewis peidio â rhoi, fel sy'n bodoli yn awr; a thrwy gael gwared ar ddidynnu cyfraniadau yn y sector cyhoeddus, sy'n caniatáu i daliadau undeb gael eu tynnu'n awtomatig o'r bil cyflog. Rwy'n meddwl bod y rhain i gyd yn ymgais i gyfyngu ar aelodaeth. Un o'r cynigion sy'n peri fwyaf o bryder yw cael gwared ar y gwaharddiad ar y defnydd o weithwyr asiantaeth tra bod gweithredu diwydiannol yn digwydd, sydd i bob pwrpas yn ddefnydd o weithwyr dros dro i dorri streiciau. Mae pennaeth y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth yn dweud:

'We are not convinced that putting agencies and temporary workers into the middle of difficult industrial relations situations is a good idea for agencies, workers or their clients.'

Yn ôl adborth gan eu haelodau, gallai datrys anghydfod fod yn anos a gallai sefyllfaoedd waethygu mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'n ymddangos i mi, os yw pobl yn mynd ar streic yn gyfreithlon er mwyn gwella amodau a bod eu swyddi wedyn yn cael eu llenwi gan weithwyr asiantaeth, mae'n sefyllfa a allai ffrwydro'n hawdd iawn. Rwy'n teimlo'n wirioneddol fod hwn yn gynnig niweidiol tu hwnt.

Felly, pam y mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn llawer anoddach i bobl sy'n gweithio sicrhau gwell cyflogau ac amodau gwaith drostynt eu hunain? Mae'n ymddangos i mi eu bod yn ceisio gosod ffiniau sy'n rhannu—. Maent yn ceisio rhannu cymdeithas drwy wneud pethau mor anodd i bobl allu gweithredu'n gyfiawn. Credaf fod hyn yn ymosodiad ar hawliau dynol. Rwyf hefyd yn credu ei fod yn ymosodiad ar hawliau menywod. Mae Margaret Thomas, pennaeth Unsain, wedi dweud bod 70% o aelodau Unsain yn fenywod, ac mae hi wedi honni y bydd y Llywodraeth yn dadwneud datblygiadau a enillwyd i fenywod gan y swffragetiaid ganrif yn ôl. Drwy gael gwared ar yr holl hawliau eraill y mae'r Llywodraeth wedi'u dileu, rydym yn mynd tuag yn ôl. Mae hwn yn ymosodiad mor ymrannol ac erchyll ar hawliau gweithwyr fel fy mod yn siŵr fod yn rhaid i bawb yn y Siambr hon gydnabod hynny. Gwn fod Andrew R.T. Davies wedi amddiffyn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn San Steffan, ond cafodd ei herio yma heddiw gan Mick Antoniw i feddwl eto ac i feddwl beth y gallai ei wneud i ddylanwadu ar y Prif Weinidog i gydnabod, drwy'r ffordd rydym wedi bod yn gweithio yng Nghymru, y dull partneriaeth o weithio yng Nghymru, ein bod wedi cael cysylltiadau diwydiannol da ac rydym wedi cael llai o streiciau. Rydym wedi gallu osgoi streiciau, ac mae'r berthynas bartneriaeth dda yn dda i'r holl weithwyr yma yng Nghymru. Felly, rwy'n apelio ar y Torïaid i wneud yr hyn a allant i atal yr ymosodiad erchyll hwn ar hawliau gweithwyr rhag parhau.

16:16 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I like to think that the reason all of us are sat here today is because we all came into politics out of the desire to change Wales and the world for the better. And it is how we go about making those changes that shapes our political differences. That means we group into different parties, and while the interests of constituents always come first, it isn't uncommon—in fact, it happens a lot of the time—that we'll make contributions here that support the views and policies of our particular parties. So, let me start by saying that while Plaid Cymru is opposed to this piece of legislation, I am in no way making a political point when I say that this is an unprecedented and entirely unnecessary attack on the rights of working people, precisely at a time when the interests of employers and the wealthy and the powerful need absolutely no more tipping of the scale in their favour.

Rwy'n hoffi meddwl mai'r rheswm pam y mae pob un ohonom yn eistedd yma heddiw yw oherwydd ein bod i gyd wedi dechrau ymwneud â gwleidyddiaeth o awydd i newid Cymru a'r byd er gwell. A'r ffordd yr awn ati i wneud y newidiadau hynny sy'n siapio ein gwahaniaethau gwleidyddol. Mae hynny'n golygu ein bod yn rhannu'n wahanol bleidiau, ac er bod y buddiannau etholwyr bob amser yn dod yn gyntaf, nid yw'n anghyffredin—yn wir, mae'n digwydd lawer o'r amser—ein bod yn gwneud cyfraniadau yma sy'n cefnogi safbwyntiau a pholisïau ein gwahanol bleidiau. Felly, gadewch i mi ddechrau drwy ddweud, er bod Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth hon, nid wyf mewn unrhyw ffordd yn gwneud pwynt gwleidyddol pan ddywedaf fod hwn yn ymosodiad digynsail a chwbl ddiangen ar hawliau pobl sy'n gweithio, yn union ar yr adeg pan nad oes unrhyw angen pwyso'r fantol o blaid anghenion cyflogwyr, y cyfoethog a'r pwerus.

You have to start by questioning the need. A right-wing media has turned many people against unions. Look at the reaction to the very, very occasional and totally justified Tube strikes, questioning solidarity with those workers. Zero-hours contracts and in-work poverty are just some of the things that are now with us, and this Bill is aimed at preventing anyone from using their democratic right to oppose. By its very nature, this Bill is undemocratic. We're supposed to be living in a cherished free state, but we are more spied upon and monitored than ever. The Trade Union Bill moves this on to the next level. Let's make no bones about it, this is an assault on our right to organise, our right to collective action, and, ultimately, our right to assembly and free association.

Mae'n rhaid i chi ddechrau drwy gwestiynu'r angen. Mae cyfryngau asgell dde wedi troi llawer o bobl yn erbyn undebau. Edrychwch ar yr adwaith i streiciau'r Tube, a oedd yn achlysurol iawn ac yn gwbl gyfiawn, gan gwestiynu cefnogaeth i'r gweithwyr hynny. Dim ond rhai o'r pethau sydd gennym bellach yw contractau dim oriau a thlodi mewn gwaith, a nod y Bil yw atal unrhyw un rhag defnyddio ei hawl ddemocrataidd i wrthwynebu. Yn ôl ei natur, mae'r Bil hwn yn annemocrataidd. Rydym i fod yn byw mewn gwladwriaeth rydd sy'n annwyl i ni, ond rydym yn ddarostyngedig i fwy o ysbïo a monitro nag a welwyd erioed. Mae'r Bil Undebau Llafur yn codi hyn i'r lefel nesaf. Peidiwch â gadael i ni betruso rhag dweud bod hwn yn ymosodiad ar ein hawl i drefnu, ein hawl i weithredu ar y cyd, ac yn y pen draw, ar ein hawl i ymgynnull a chymdeithasu'n rhydd.

If only this UK Government would practice what it preaches. If this Bill had been passed prior to the Conservatives choosing their London mayoral candidate, as was mentioned earlier, that process would have been unlawful through its curb on e-balloting. I imagine such selection processes will continue as before, and as they should, while unions will face the kind of structures found mainly in countries that they don't allow free elections in. That isn't the only discriminatory part of this Bill, which starts with the assumption that all workplace conflict begins with the workforce. Nowhere within it are the numerous problems associated with unreasonable, greedy and spiteful employers addressed. Down the years, most of us can think of work disputes where employers have also been at fault. So, why does this this Bill strengthen their hand while considerably weakening that of the workers?

O na bai Llywodraeth y DU yn gwneud yr hyn y mae'n ei bregethu. Pe bai'r Bil hwn wedi'i basio cyn i'r Ceidwadwyr ddewis eu hymgeisydd ar gyfer etholiad maer Llundain, fel y soniwyd yn gynharach, byddai'r broses honno wedi bod yn anghyfreithlon drwy ei gwaharddiad ar e-bleidleisio. Rwy'n dychmygu y bydd prosesau dethol o'r fath yn parhau fel o'r blaen, fel y dylent, tra bydd undebau'n wynebu'r math o strwythurau a geir yn bennaf mewn gwledydd nad ydynt yn caniatáu etholiadau rhydd. Nid dyna'r unig ran wahaniaethol o'r Bil hwn, sy'n dechrau gyda'r dybiaeth fod pob gwrthdaro yn y gweithle yn dechrau gyda'r gweithlu. Ni cheir sylw yn unrhyw ran ohono ynghylch y problemau niferus sy'n gysylltiedig â chyflogwyr afresymol, barus a sbeitlyd. Ar hyd y blynyddoedd, gall y rhan fwyaf ohonom feddwl am anghydfodau gwaith lle y mae cyflogwyr wedi bod ar fai hefyd. Felly, pam y mae'r Bil hwn yn eu cryfhau ac ar yr un pryd yn gwanhau gweithwyr yn sylweddol?

I'd like to say that I welcome the First Minister's robust response of 9 September and also support his argument that this does involve devolved issues, not least the impact on public sector workers. It's how this happens now that is key to me and to my party. I hope the Welsh Government will pursue its arguments. The previous Secretary of State for Wales was fond of bouncing as many of our laws as he could manage into judicial review. I don't know whether the reverse is possible, so it would be useful to hear what means, at law, Ministers have for dealing with these issues. I'd also like to make reference to the reaction of Scottish local authorities, who have stated that they will not implement measures in this Bill. Given the role that trade unions play in our cultural identity as a nation, I believe that this is a path that should be recommended to councils here to consider.

Hoffwn ddweud fy mod yn croesawu ymateb cadarn y Prif Weinidog ar 9 Medi a hefyd yn cefnogi ei ddadl bod hyn yn ymwneud â materion datganoledig, ac nid y lleiaf o'r rhain yw'r effaith ar weithwyr y sector cyhoeddus. Y ffordd y mae hyn yn digwydd yn awr sy'n allweddol i mi a fy mhlaid. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i dadleuon. Roedd Ysgrifennydd Gwladol blaenorol Cymru yn hoff o daflu cymaint o'n cyfreithiau ag y gallai i adolygiad barnwrol. Nid wyf yn gwybod a yw'r gwrthwyneb yn bosibl, felly byddai'n ddefnyddiol clywed pa ddulliau cyfreithiol sydd gan Weinidogion ar gyfer ymdrin â'r materion hyn. Hoffwn gyfeirio hefyd at ymateb awdurdodau lleol yr Alban, sydd wedi datgan na fyddant yn gweithredu'r mesurau yn y Bil hwn. O ystyried y rhan y mae undebau llafur yn ei chwarae yn ein hunaniaeth ddiwylliannol fel cenedl, rwy'n credu bod hwn yn llwybr y dylid argymell i gynghorau yma ei ystyried.

I'd like the Conservative colleagues here in this Chamber to please consider what the implications of this Bill would be for the reality of the workplace here in Wales. I heard, personally, what Andrew R.T. Davies was saying about the leadership of the trade unions, and I have to say, though I'll be unpopular, probably, for saying it, that I agree with you. On many occasions, I've been blocked from platforms, from speaking at many events, because I'm not the same colour as the labour movement, but that doesn't mean that I don't care about the workforce, and it's the workforce that is important here, not the leadership and their political games. If we put forward this Trade Union Bill it will be their rights that we will be stamping upon: their right to free action, and their right to have those political activities within their workplaces, so that they can support workers who are being taken through disciplinary procedures, whether wrongly or rightly. They need to have that protection from trade unions. So, please think logically about this and please take that message forward to the UK Government, that we in Wales will be supportive of the Welsh workforce, and we will protect their rights to remain as part of a trade union, whether they're affiliated to the Labour Party or not.

Hoffwn i'r cyd-Aelodau Ceidwadol yma yn y Siambr hon ystyried beth fyddai goblygiadau'r Bil hwn i realiti'r gweithle yma yng Nghymru. Clywais, yn bersonol, yr hyn a ddywedodd Andrew R.T. Davies am arweinyddiaeth yr undebau llafur, ac mae'n rhaid i mi ddweud, er y byddaf yn amhoblogaidd am ei ddweud yn ôl pob tebyg, rwy'n cytuno â chi. Ar sawl achlysur, rwyf wedi cael fy rhwystro o lwyfannau, rhag siarad mewn nifer o ddigwyddiadau, am nad wyf o'r un lliw â'r mudiad llafur, ond nid yw hynny'n golygu nad wyf yn poeni am y gweithlu, a'r gweithlu sy'n bwysig yma, nid yr arweinyddiaeth a'u gemau gwleidyddol. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r Bil Undebau Llafur, ar eu hawliau hwy y byddwn yn sathru: eu hawl i weithredu'n rhydd, a'u hawl i gael gweithgareddau gwleidyddol o'r fath yn eu gweithleoedd, fel y gallant gefnogi gweithwyr sy'n wynebu gweithdrefnau disgyblu, boed yn gyfiawn ai peidio. Mae angen iddynt gael y warchodaeth honno gan undebau llafur. Felly, os gwelwch yn dda meddyliwch yn rhesymegol am hyn ac ewch â'r neges at Lywodraeth y DU, y byddwn ni yng Nghymru yn cefnogi gweithlu Cymru, ac y byddwn yn diogelu eu hawliau i barhau'n rhan o undeb llafur, pa un a ydynt yn gysylltiedig â'r Blaid Lafur ai peidio.

16:21 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in this important debate today about one of the most worrying and dangerous initiatives in recent British politics. At the outset I will state that I'm a proud member of a trade union, Unite, and in my previous employment I was a lay branch officer of my union and a member of its Welsh regional council. I was privileged to represent my work colleagues on issues such as conditions, pay, work agreements and contracts of employment, and to represent their issues and concerns in their employment.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw am un o'r cynlluniau mwyaf peryglus ac sy'n peri fwyaf o bryder yng ngwleidyddiaeth ddiweddar Prydain. Ar y cychwyn, rwy'n datgan fy mod yn aelod balch o undeb llafur Unite, ac yn fy swydd flaenorol roeddwn yn swyddog cangen leyg o fy undeb ac yn aelod o'i gyngor rhanbarth Cymru. Cefais y fraint o gynrychioli fy nghydweithwyr ar faterion megis amodau, cyflog, cytundebau gwaith a chontractau cyflogaeth, a chyflwyno eu problemau a'u pryderon yn ymwneud â'u cyflogaeth.

I reiterate: I am speaking here because of my deep-seated belief in the role of trade unions and the representation they have for workers. This Trade Union Bill is a draconian Bill that will lead to a serious imbalance of power within the workplace, undermining effective negotiations between employers and employees, and is purposely designed to restrict workers' rights. The Bill's been described as the greatest threat to workers, trade unions and workers' rights for a generation, and if David Cameron and George Osborne have their way, medieval serfdom and servitude will once again be the lot of the British worker.

Ailadroddaf hyn: rwy'n siarad yma oherwydd fy nghred ddofn yn rôl undebau llafur a'r modd y maent yn cynrychioli gweithwyr. Mae'r Bil Undebau Llafur yn Fil llym a fydd yn arwain at anghydbwysedd pŵer difrifol yn y gweithle, gan danseilio trafodaethau effeithiol rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac mae wedi'i gynllunio'n bwrpasol i gyfyngu ar hawliau gweithwyr. Disgrifiwyd y Bil fel y bygythiad mwyaf i weithwyr, undebau llafur a hawliau gweithwyr ers cenhedlaeth, ac os caiff David Cameron a George Osborne eu ffordd, caethwasanaeth a chaethiwed fydd tynged gweithwyr Prydain unwaith eto.

The UK Government claims to be seeking to promote democracy in the workplace by introducing a threshold for strike ballots. It does nothing to make it easier for trade union members to take part in those ballots. Instead, it attempts to restrict workers' voices and prevent trade unions from effectively representing their members' interests. Mark Serwotka of PCS and Len McCluskey of Unite have both pointed out that their unions have repeatedly asked Ministers to make it easier for people to vote in workplaces by allowing secure online balloting. We have secure online banking, and the Speaker's Commission on Digital Democracy at Parliament recently recommended that, by 2020, we should have secure online voting available for all voters. Despite this, the Government has rejected such calls, citing that they believe that this is not a secure enough system. As has been pointed out by the Member for Pontypridd, the Tory party has used it themselves in their own selection of a candidate for the London mayoral election.

Mae Llywodraeth y DU yn honni ei bod yn ceisio hybu democratiaeth yn y gweithle drwy gyflwyno trothwy ar y nifer sy'n pleidleisio dros streic. Nid yw'n gwneud dim i'w gwneud yn haws i aelodau undebau llafur gymryd rhan mewn pleidlais o'r fath. Yn hytrach, mae'n ceisio cyfyngu ar leisiau gweithwyr ac atal undebau llafur rhag cynrychioli buddiannau eu haelodau yn effeithiol. Mae Mark Serwotka o PCS a Len McCluskey o Unite wedi dweud bod eu hundebau wedi gofyn dro ar ôl tro i Weinidogion ei gwneud yn haws i bobl bleidleisio mewn gweithleoedd drwy ganiatáu pleidlais ar-lein ddiogel. Rydym y gallu bancio ar-lein yn ddiogel, ac argymhellodd Comisiwn y Llefarydd ar Ddemocratiaeth Ddigidol yn y Senedd yn ddiweddar y dylem gael pleidlais ar-lein ddiogel i bob pleidleisiwr erbyn 2020. Er gwaethaf hyn, mae'r Llywodraeth wedi gwrthod galwadau o'r fath, gan nodi ei bod yn credu nad yw hon yn system ddigon cadarn. Fel y nodwyd gan yr Aelod dros Bontypridd, mae'r blaid Dorïaidd wedi'i defnyddio eu hunain wrth fynd ati i ddewis eu hymgeisydd ar gyfer etholiad maer Llundain.

Effective negotiations rely on equal bargaining power. Limiting the right to strike and not allowing technological advances to be used to gather employee views or support for that right will simply create an environment that fosters employers walking away from effective partnerships. We will see the undermining of constructive employment relationships that will only extend disputes and make it much more difficult to reach amicable settlements. The right to take industrial action and to protest are fundamental rights that should be respected in a free and democratic society. The ability to withdraw one's labour is a fundamental right, and the Government should not use legislation to further stress the employer-employee relationship in order to make political and ideological points. The UK already has amongst the most strict and onerous strike laws in Europe.

Mae trafodaethau effeithiol yn dibynnu ar bŵer bargeinio cyfartal. Bydd cyfyngu ar yr hawl i streicio a pheidio â chaniatáu defnydd o ddatblygiadau technolegol i gasglu barn neu gefnogaeth i'r hawl honno yn creu amgylchedd sy'n annog cyflogwyr i droi cefn ar bartneriaethau effeithiol. Byddwn yn gweld perthynas waith adeiladol yn cael ei thanseilio ac ni fydd hynny ond yn ymestyn anghydfodau ac yn ei gwneud yn llawer anos cyrraedd setliadau cyfeillgar. Mae'r hawl i weithredu'n ddiwydiannol ac i brotestio yn hawliau sylfaenol y dylid eu parchu mewn cymdeithas rydd a democrataidd. Mae'r gallu i wrthod gweithio yn hawl sylfaenol, ac ni ddylai Llywodraeth ddefnyddio deddfwriaeth i greu pwysau pellach ar y berthynas rhwng cyflogwr a gweithwyr er mwyn gwneud pwyntiau gwleidyddol ac ideolegol. Eisoes mae'r DU yn meddu ar ddeddfau streic sydd ymhlith y mwyaf caeth a beichus yn Ewrop.

In the twenty-first century, we should be seeking to strengthen industrial democracy, involving the workforce in genuine consultation around the transition to a digital age in training, in-work education and, yes, in pay differentials from top to bottom. We should not be demonising trade unions.

Yn yr unfed ganrif ar hugain, dylem fod yn ceisio cryfhau democratiaeth ddiwydiannol, gan gynnwys y gweithlu mewn ymgynghoriad go iawn ar y newid i oes ddigidol mewn hyfforddiant, addysg mewn gwaith ac ie, mewn gwahaniaethau cyflog o'r brig i'r gwaelod. Ni ddylem fod yn pardduo undebau llafur.

An opportunity is being missed to work with the unions on a positive and forward-looking basis. Unions represent a substantial and, actually, a growing proportion of the workforce. Many good employers, private and public sector, work constructively with unions to raise productivity and, as a consequence, pay, and we all know the Tory Government in Westminster wants to see increased pay.

Rydym yn colli cyfle i weithio gyda'r undebau ar sail gadarnhaol a blaengar. Mae undebau'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r gweithlu, cyfran sy'n cynyddu mewn gwirionedd. Mae nifer o gyflogwyr da, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, yn gweithio'n adeiladol gydag undebau i gynyddu cynhyrchiant, a chyflogau o ganlyniad i hynny, ac rydym i gyd yn gwybod bod y Llywodraeth Dorïaidd yn San Steffan am weld cyflogau'n codi.

One of the most dangerous aspects of this Bill, and one of the most worrying, is the proposed change to the current laws on picketing. Following these proposals, trade unions organising pickets will now have to nominate a picket supervisor, who will be obliged to wear ID armbands and, as we've heard already, report to the police and provide personal details to the employers. Social media surrounding the strike will have to be disclosed to police in advance. This could be considered as state-sponsored blacklisting and the recent experience of blacklisting in the construction industry demonstrates the potential for state coercion to undermine legitimate protests and strikes.

Un o agweddau mwyaf peryglus y Bil hwn, ac un o'r rhai sy'n peri fwyaf o bryder, yw'r newid arfaethedig i'r deddfau cyfredol ar bicedu. Yn dilyn y cynigion hyn, bellach bydd yn rhaid i undebau llafur sy'n trefnu piced enwebu goruchwyliwr piced, a bydd yn rhaid i'r unigolyn hwn wisgo band adnabod ar ei fraich ac fel y clywsom eisoes, bydd yn rhaid iddo roi gwybod i'r heddlu a rhoi manylion personol i'r cyflogwyr. Bydd yn rhaid datgelu cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â'r streic i'r heddlu ymlaen llaw. Gellid ystyried hyn yn gosbrestru o dan nawdd y wladwriaeth ac mae profiad diweddar o gosbrestru yn y diwydiant adeiladu yn dangos y posibilrwydd y gallai gorfodaeth gan y wladwriaeth danseilio protestiadau a streiciau cyfreithlon.

There's fear that the names of picket supervisors, if everyone were to know, would pass from employer to employer, thus making them unemployable. This Welsh Assembly has fought against blacklisting and I would not want to see it coming in through the back door through such a Bill. They are not just an invasion of civil liberties, they go to the heart of the right to protest and they are a massive waste of police time in a period when we are seeing police budgets being cut and police not having the time to do even some of the basics that we expect of them.

Mae yna ofn y byddai enwau goruchwylwyr piced, pe bai pawb yn gwybod, yn pasio o gyflogwr i gyflogwr, gan eu gwneud yn anghyflogadwy. Mae'r Cynulliad hwn wedi ymladd yn erbyn cosbrestru ac ni fyddwn am ei weld yn dod i mewn drwy'r drws cefn drwy Fil o'r fath. Nid tarfu ar hawliau sifil yn unig y mae; mae'n mynd at wraidd yr hawl i brotestio ac yn wastraff enfawr ar amser yr heddlu mewn cyfnod pan welwn gyllidebau'r heddlu yn cael eu torri a'r heddlu heb amser i wneud hyd yn oed y pethau sylfaenol rydym yn eu disgwyl ganddynt.

In conclusion, as has already been pointed out, our First Minister has said the Bill would lead to more confrontational relationships between employers and workers and ultimately undermine the relevant support for public services and the economy. He's also said that the Bill breaches the devolution settlement, including the positive social partnership agreements that we in Wales have developed in our Welsh public sector. As a proud trade union member, I am glad the First Minister has pledged to use Wales's devolved powers to ensure the Bill will not apply here. I hope that such robust opposition will help to frustrate these dangerous plans altogether and protect the long-established rights that promote fairness and justice in our workplace.

I gloi, fel sydd eisoes wedi cael ei nodi, mae ein Prif Weinidog wedi dweud y byddai'r Bil yn arwain at berthynas fwy gwrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a gweithwyr ac yn y pen draw yn tanseilio'r gefnogaeth berthnasol i'r gwasanaethau cyhoeddus a'r economi. Dywedodd hefyd fod y Bil yn tramgwyddo'r setliad datganoli, gan gynnwys y cytundebau partneriaeth gymdeithasol cadarnhaol rydym ni yng Nghymru wedi'u datblygu yn ein sector cyhoeddus yng Nghymru. Fel aelod balch o undeb llafur, rwy'n falch fod y Prif Weinidog wedi addo defnyddio pwerau datganoledig Cymru i sicrhau na fydd y Bil yn gymwys yma. Rwy'n gobeithio y bydd gwrthwynebiad cadarn o'r fath yn helpu i atal y cynlluniau peryglus hyn yn gyfan gwbl ac yn amddiffyn hawliau hirsefydlog sy'n hyrwyddo tegwch a chyfiawnder yn ein gweithle.

16:26

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like other people who have spoken in this debate this afternoon, I'm also very proud to be a trade unionist. I'm a member of Unite trade union and have been for all my working life. I will continue to be a member of a trade union and I will continue to fight and to argue for trade unions and trade unionism, both within the workplace and the wider economy. One thing that can be said about the Conservatives, in taking forward this legislation, is that they can't be accused of hiding their true intentions. This isn't simply an attack on trade unions: it is an attack on civil liberties; it is an attack on our basic freedoms in a mature, democratic society; it is an attack on fair and good industrial relations, based upon respect and joint working between employers and trade unions. The creation of a certification officer will lead to conflict. It will lead to intrusion in the rights of trade unions to manage their own affairs, which simply wouldn't be tolerated in any other part of society. This is authoritarianism, which should be in itself unacceptable in an open democracy.

Fel pobl eraill sydd wedi siarad yn y ddadl y prynhawn yma, rwy'n falch iawn o fod yn undebwr llafur hefyd. Rwy'n aelod o undeb llafur Unite ac wedi bod drwy gydol fy mywyd gwaith. Byddaf yn parhau i fod yn aelod o undeb llafur a byddaf yn parhau i ymladd ac i ddadlau o blaid undebau llafur ac undebaeth lafur, yn y gweithle ac yn yr economi ehangach. Un peth y gellir ei ddweud am y Ceidwadwyr, drwy fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon, ni ellir eu cyhuddo o guddio eu gwir fwriadau. Nid ymosodiad ar undebau llafur yn unig yw hyn: mae'n ymosodiad ar hawliau sifil; mae'n ymosodiad ar ein rhyddid sylfaenol mewn cymdeithas aeddfed, ddemocrataidd; mae'n ymosodiad ar gysylltiadau diwydiannol teg a da, yn seiliedig ar barch a chydweithio rhwng cyflogwyr ac undebau llafur. Bydd creu swyddog ardystio yn arwain at wrthdaro. Bydd yn arwain at ymyrryd yn hawliau undebau llafur i reoli eu materion eu hunain, ac ni fyddai'n cael ei oddef mewn unrhyw ran arall o gymdeithas. Awdurdodyddiaeth ydyw, a ddylai fod ynddo'i hun yn annerbyniol mewn democratiaeth agored.

Can I say this? This is not a Bill that will in any way improve industrial relations and it is not a Bill that is designed to protect or extend the rights of people, which you would expect to find from a Conservative Government. All too often, we have been lectured on individual freedoms by successive Conservative Governments. All too often, the Conservatives tell us about the rights and the freedoms of people in society. Well, what about my rights as a trade unionist? What about the rights of trade unions to determine how they manage their affairs? In an open democracy, you shouldn't have the state looking in and determining those decisions for you. In a democracy, you have the right to do that without the interference of the state. This comes from people who are constantly lecturing us that we want to diminish the state, that the state shouldn't be protecting the vulnerable, that the state shouldn't have a role in determining what goes on in people's homes, workplaces and wherever. The only place they want to see the state involved is in emasculating trade unions and any level of opposition, not simply to their policies, but to their philosophical basis and foundation for this.

A gaf fi ddweud hyn? Nid yw hwn yn Fil a fydd mewn unrhyw ffordd yn gwella cysylltiadau diwydiannol ac nid yw'n Fil a gynlluniwyd i ddiogelu neu i ymestyn hawliau pobl, y byddech yn disgwyl ei weld gan Lywodraeth Geidwadol. Yn rhy aml, rydym wedi cael pregethau ar ryddid yr unigolyn gan Lywodraethau Ceidwadol olynol. Yn rhy aml, mae'r Ceidwadwyr yn dweud wrthym am hawliau a rhyddid pobl mewn cymdeithas. Wel, beth am fy hawliau fel undebwr llafur? Beth am hawliau undebau llafur i bennu sut y maent yn rheoli eu materion? Mewn democratiaeth agored, ni ddylai'r wladwriaeth edrych i mewn a gwneud penderfyniadau o'r fath ar eich rhan. Mewn democratiaeth, mae gennych yr hawl i wneud hynny heb ymyrraeth y wladwriaeth. Daw hyn gan bobl sy'n pregethu wrthym yn gyson ein bod am gyfyngu ar y wladwriaeth, na ddylai'r wladwriaeth amddiffyn pobl agored i niwed, na ddylai'r wladwriaeth fod â rôl yn penderfynu beth sy'n digwydd yng nghartrefi a gweithleoedd pobl, a lle bynnag. Yr unig le y maent am weld y wladwriaeth yn rhan o bethau yw yn y broses o ddirymu undebau llafur ac unrhyw lefel o wrthwynebiad, nid yn unig i'w pholisïau, ond i'w sail athronyddol a'r sylfaen ar gyfer hyn.

This is not about creating a better economy in Wales or the United Kingdom. Any successful economy is based on good industrial relations and mutual respect in the workplace. That is what you base a successful economy upon. Look across the world, take any example you wish to choose of an economy that provides for people, an economy that drives success in society: it isn't based on coercion, it's based on co-operation and it's based on respect. This Bill lacks the basic respect for working people and for trade unions. There is no economic argument for this Bill at all. There is no democratic argument for this Bill at all. And, there is no practical argument for this Bill at all.

Nid yw hyn yn ymwneud â chreu economi well yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig. Mae unrhyw economi lwyddiannus yn seiliedig ar gysylltiadau diwydiannol da a chyd-barch yn y gweithle. Dyna'r hyn rydych yn seilio economi lwyddiannus arno. Edrychwch ar draws y byd, cymerwch unrhyw enghraifft yr hoffech ei dewis o economi sy'n darparu ar gyfer pobl, economi sy'n ysgogi llwyddiant yn y gymdeithas: nid yw'n seiliedig ar orfodaeth, mae'n seiliedig ar gydweithredu ac mae'n seiliedig ar barch. Nid yw'r Bil hwn yn cynnwys parch sylfaenol at bobl sy'n gweithio ac at undebau llafur. Nid oes dadl economaidd dros y Bil hwn o gwbl. Nid oes dadl ddemocrataidd dros y Bil hwn o gwbl. Ac nid oes dadl ymarferol dros y Bil hwn o gwbl.

Let's pay tribute to those Conservative MPs who have had the guts to stand up in the House of Commons and say this to their own Government. The Conservatives, a few minutes ago, were encouraging us as backbenchers to speak against our own Government. Why don't you start doing that? Why don't you stand up for people's freedoms? Why don't you stand up for the rights of people? Why don't you stand up to your front bench? You haven't got the guts to do it, and you don't understand why you should do it.

Gadewch i ni dalu teyrnged i'r ASau Ceidwadol sydd wedi cael yr asgwrn cefn i sefyll yn Nhŷ'r Cyffredin a dweud hyn wrth eu Llywodraeth eu hunain. Ychydig funudau yn ôl, roedd y Ceidwadwyr yn ein hannog fel aelodau'r meinciau cefn i siarad yn erbyn ein Llywodraeth ei hun. Pam na wnewch chi ddechrau gwneud hynny? Pam na wnewch chi sefyll dros ryddid pobl? Pam na wnewch chi sefyll dros hawliau pobl? Pam na wnewch chi sefyll yn erbyn eich mainc flaen? Nid oes gennych y dewrder i wneud hynny, ac nid ydych yn deall pam y dylech ei wneud.

Let me say this: this is a bad Bill intended to do bad things. I am very proud that we have a Government here in Wales that will stand up for people in the Welsh public sector at least. I hope the Minister, in replying to this debate this afternoon, will make it very, very clear that, whatever you have a mandate for across the countries of the United Kingdom, you don't have a mandate to emasculate trade unionism in Wales. That is not what the people voted for last May. Let me say this—[Interruption.] No, I'm not going to let you intervene at the last moment. You are not going to be getting the same mandate next May. It is important, Deputy Presiding Officer, that this Chamber debates and discusses things that are of interest to us, which may or may not be devolved. It is important that this Chamber says to the Welsh Government that we want to see this Government defending people in Wales and that we want to see this Government taking on the United Kingdom Government where we believe they are abusing the trust that people have placed in them. Thank you.

Gadewch i mi ddweud hyn: dyma Fil gwael a'i fwriad yw gwneud pethau gwael. Rwy'n falch iawn fod gennym Lywodraeth yma yng Nghymru a fydd yn sefyll dros bobl yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o leiaf. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma, yn ei gwneud yn glir iawn, iawn, beth bynnag y mae gennych fandad ar ei gyfer ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig, nad oes gennych fandad i ddirymu undebaeth llafur yng Nghymru. Nid dros hynny y pleidleisiodd y bobl fis Mai diwethaf. Gadewch i mi ddweud hyn—[Torri ar draws.] Na, nid wyf am adael i chi ymyrryd ar y funud olaf. Nid ydych yn mynd i gael mandad fis Mai nesaf. Mae'n bwysig, Ddirprwy Lywydd, fod y Siambr hon yn trafod ac yn dadlau ynghylch y pethau sydd o ddiddordeb i ni, sydd wedi'u datganoli neu fel arall. Mae'n bwysig fod y Siambr hon yn dweud wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn dymuno gweld y Llywodraeth hon yn amddiffyn pobl yng Nghymru a'n bod yn dymuno gweld y Llywodraeth hon yn gwrthwynebu Llywodraeth y Deyrnas Unedig lle y credwn ei bod yn difenwi'r ymddiriedaeth sydd gan bobl ynddynt. Diolch.

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

16:31

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, thank you. I welcome this debate as a member of Unite and of the National Union of Journalists.

Ddirprwy Lywydd, diolch. Croesawaf y ddadl hon fel aelod o Unite ac Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr.

The UK Government's Trade Union Bill, which has been introduced into Parliament, has the potential to cause significant damage to the social and economic fabric of the UK. As a Government, we believe this Bill and the associated proposal to remove the ban on the use of agency workers during industrial action will prove socially divisive and lead to more confrontational relationships between employers and workers. These proposals will ultimately undermine, rather than support, the delivery of public services and the economy.

Mae gan Fil Undebau Llafur Llywodraeth y DU, sydd wedi cael ei gyflwyno gerbron y Senedd, y gallu i achosi difrod sylweddol i wead cymdeithasol ac economaidd y DU. Fel Llywodraeth, credwn y bydd y Bil hwn a'r cynnig cysylltiedig i gael gwared ar y gwaharddiad ar y defnydd o weithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol yn ymrannol yn gymdeithasol ac yn arwain at berthynas fwy gwrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a gweithwyr. Yn y pen draw, bydd y cynigion hyn yn tanseilio, yn hytrach na chefnogi'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

I thank Mick Antoniw, Rhodri Glyn Thomas and Peter Black for bringing this motion before the Assembly today. The motion asks the Assembly to recognise the good relations between employers, trade unions and workers in both the public and private sector in Wales since devolution, and to condemn this Bill as an unnecessary attack on the democratic rights of working people in Wales. We agree. As the 'Financial Times' said:

Diolch i Mick Antoniw, Rhodri Glyn Thomas a Peter Black am gyflwyno'r cynnig hwn gerbron y Cynulliad heddiw. Mae'r cynnig yn gofyn i'r Cynulliad gydnabod y berthynas dda rhwng cyflogwyr, undebau llafur a gweithwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru ers datganoli, ac i gondemnio'r Bil hwn fel ymosodiad diangen ar hawliau democrataidd pobl sy'n gweithio yng Nghymru. Rydym yn cytuno. Fel y mae'r 'Financial Times' yn ei ddweud:

'Overregulating unions risks fomenting more workplace disruption'.

'Overregulating unions risks fomenting more workplace disruption'.

The Chartered Institute of Personnel and Development has warned of unintended consequences. The 'Financial Times' suggested that these proposals can be seen as the UK Government crossing the road to pick a fight.

Mae Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu wedi rhybuddio am ganlyniadau anfwriadol. Awgrymodd y 'Financial Times' y gellid gweld y cynigion hyn fel Llywodraeth y DU yn croesi'r ffordd i ddechrau sgarmes.

The Bill is driven by a flawed view of trade unions as a problem. We see trade unions as a partner. So, this Bill contrasts sharply with our constructive social partnership approach in Wales of valuing the workforce, supporting public services and encouraging enterprise. More worryingly, our concern is that this Bill is not supported by evidence. This is exemplified by the inadequate short summer consultation and a feeble evidence base. Even the UK Government's own Regulatory Policy Committee described the related impact assessments as not fit for purpose. The benefits of a constructive approach to social partnership can be seen in our good record of resolving disputes, for example, in public services such as health and fire, more quickly than in England. This legislation is therefore not needed, particularly not in Wales.

Ysgogir y Bil gan farn ddiffygiol am undebau llafur fel problem. Rydym ni'n gweld undebau llafur fel partneriaid. Felly, mae'r Bil hwn yn wahanol iawn i'n dull partneriaeth gymdeithasol adeiladol yng Nghymru sy'n gweld gwerth y gweithlu, yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac yn annog menter. Yn fwy pryderus, rydym yn poeni nad oes tystiolaeth i gefnogi'r Bil. Amlygir hyn gan yr ymgynghoriad byr ac annigonol yn ystod yr haf a sylfaen dystiolaeth wan. Roedd hyd yn oed Pwyllgor Polisi Rheoleiddio Llywodraeth y DU ei hun yn disgrifio'r asesiadau effaith cysylltiedig fel rhai anaddas at y diben. Gellir gweld manteision ymagwedd adeiladol tuag at bartneriaeth gymdeithasol yn ein hanes da o ddatrys anghydfodau, er enghraifft, mewn gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd a thân, yn gyflymach nag yn Lloegr. Felly nid oes angen y ddeddfwriaeth, yn enwedig yng Nghymru.

The motion also asks the Assembly to consider the risk that the Bill contravenes the Human Rights Act 1998 and the International Labour Organization's conventions 87, 98 and 151. While they have made a declaration that the Bill is compatible with convention rights, the UK Government has itself acknowledged that the Bill engages certain convention rights that the Human Rights Act gives effect to. So, certainly there are potential risks that the Bill could contravene the Act and the International Labour Organization's conventions, and this is something that needs proper scrutiny in Parliament.

Mae'r cynnig hefyd yn gofyn i'r Cynulliad ystyried y risg fod y Bil yn mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a chonfensiynau 87, 98 ac 151 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Er eu bod wedi gwneud datganiad fod y Bil yn gydnaws â hawliau'r confensiwn, mae Llywodraeth y DU ei hun wedi cydnabod bod y Bil yn ymgysylltu â rhai hawliau confensiwn y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn eu rhoi ar waith. Felly, yn sicr mae yna risgiau posibl y gallai'r Bil fynd yn groes i'r Ddeddf a chonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol, ac mae hyn yn rhywbeth sydd angen ei archwilio'n briodol yn y Senedd.

I turn to whether proposals in this Bill intrude in areas that are the responsibility of the Welsh Government and that it should not be applied to Wales without the consent of the National Assembly for Wales. Significant parts of the Bill relate specifically to important public services that are clearly devolved. The category subject to the additional 40 per cent overall membership support threshold for industrial action includes health services, education of those aged under 17, and fire services. Some devolved transport responsibilities, such as highways maintenance, may also be affected. It is not acceptable for the UK Government to impose this Bill on Wales.

Trof at y posibilrwydd fod cynigion y Bil yn ymyrryd mewn meysydd sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac na ddylid ei gymhwyso i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhannau sylweddol o'r Bil yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus pwysig sy'n amlwg wedi'u datganoli. Mae'r categori sy'n ddarostyngedig i'r trothwy ychwanegol fod yn rhaid cael cefnogaeth 40 y cant o'r aelodau i weithredu diwydiannol yn cynnwys gwasanaethau iechyd, addysg rhai o dan 17 oed, a gwasanaethau tân. Mae'n bosibl yr effeithir hefyd ar rai cyfrifoldebau trafnidiaeth datganoledig, megis cynnal a chadw priffyrdd. Nid yw'n dderbyniol fod Llywodraeth y DU yn gorfodi'r Bil hwn ar Gymru.

Policy on how to support or protect the delivery of devolved public services, such as health, education and fire, is for the Welsh Government and the National Assembly for Wales. This includes the way public sector bodies in such devolved services work with trade unions to endure effective delivery of services to the public. Indeed, public service employers at the workforce partnership council last week made clear their unhappiness with this Bill.

Mater i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yw polisi ar sut i gefnogi neu ddiogelu'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli, fel iechyd, addysg a thân. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae cyrff sector cyhoeddus mewn gwasanaethau datganoledig o'r fath yn gweithio gydag undebau llafur i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i'r cyhoedd. Yn wir, gwnaeth cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus eu hanfodlonrwydd â'r Bil hwn yn glir yng nghyngor partneriaeth y gweithlu yr wythnos ddiwethaf.

There is an increasing divergence in approach to the delivery of public services between England and Wales, and it would be wrong and potentially damaging to the UK Government's own stated aim of protecting public services for decisions based on English structures and approaches to be imposed on different service delivery models in Wales. Similarly, it cannot be right for the UK Government, blind to policy priorities and devolved service delivery reforms in Wales, to specify how much union facility time devolved public sector employers should allow. Subsequently announced proposals to end the check-off system in the public sector appear a disruptive afterthought designed to harm trade unions without any material benefit for the public sector.

Mae gwahaniaeth cynyddol rhwng Cymru a Lloegr o ran y dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a byddai'n anghywir ac yn niweidiol o bosibl i nod datganedig Llywodraeth y DU ei hun o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus pe bai penderfyniadau sy'n seiliedig ar strwythurau yn Lloegr yn cael eu gorfodi ar fodelau gwahanol ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru. Yn yr un modd, ni all fod yn iawn fod Llywodraeth y DU, yn ddall i flaenoriaethau polisi a diwygiadau o ran darparu gwasanaethau datganoledig yng Nghymru, yn nodi faint o amser cyfleuster undeb y dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig ei ganiatáu. Mae cynigion a gyhoeddwyd yn sgil hynny i roi terfyn ar y system ddidynnu cyfraniad undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus yn ymddangos yn ôl-ystyriaeth aflonyddgar a gynlluniwyd i niweidio undebau llafur heb unrhyw fudd materol i'r sector cyhoeddus.

Public service employers at the workforce partnership council last week made it clear they had no problem with check-off. Check-off arrangements are run not just in the public sector, of course, but also by a number of large successful private companies, and are hardly onerous to operate. We ourselves have not yet been formally presented by the UK Government on their check-off proposals, as I confirmed to the House of Commons Bill committee when I gave evidence yesterday.

Roedd cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yn yng nghyngor partneriaeth gweithlu yr wythnos diwethaf yn ei gwneud yn glir nad oedd ganddynt unrhyw broblem gyda'r system ddidynnu cyfraniad undeb o gyflogau. Gweithredir trefniadau didynnu cyfraniad undeb o gyflogau nid yn unig yn y sector cyhoeddus, wrth gwrs, ond hefyd gan nifer o gwmnïau preifat mawr llwyddiannus, a phrin eu bod yn feichus i'w gweithredu. Nid ydym ni ein hunain wedi cael cyflwyniad ffurfiol eto gan Lywodraeth y DU ar eu cynigion ynglŷn â'r drefn ddidynnu cyfraniad undeb o gyflogau, fel y cadarnheais pan roddais dystiolaeth i bwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe.

In relation to the Bill's potential impact on Wales, the First Minister wrote to the Prime Minister to set out our position and our concerns clearly and constructively, and challenged the UK Government's assertion that this was not a matter for the Welsh Government or the Assembly. It is disappointing that a recent response from the Prime Minister has simply not acknowledged any devolved interest. We are therefore considering further how we will seek to protect legitimate devolved interests, including devolved public services, from this misguided Bill, including whether to table a legislative consent motion. I understand the Scottish Government is in a similar position.

Mewn perthynas ag effaith bosibl y Bil ar Gymru, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Brif Weinidog y DU i nodi ein safbwynt a'n pryderon yn glir ac yn adeiladol, ac i herio honiad Llywodraeth y DU nad oedd hwn yn fater i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad. Mae'n siomedig nad yw ymateb diweddar gan y Prif Weinidog yn cydnabod unrhyw fuddiannau datganoledig. Rydym felly'n ystyried ymhellach sut y byddwn yn ceisio diogelu buddiannau datganoledig cyfreithlon, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, rhag y Bil cyfeiliornus hwn, gan gynnwys a ddylid cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Deallaf fod Llywodraeth yr Alban mewn sefyllfa debyg.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, we believe that this Bill is flawed and should not be pursued. We support the motion.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, credwn fod y Bil hwn yn ddiffygiol ac ni ddylid bwrw ymlaen ag ef. Rydym yn cefnogi'r cynnig.

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to reply to the debate.

Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddadl.

16:38

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank all the Members who've participated in this debate? I think the consensus between all the speakers, with one exception, is quite clear: that this Bill is illiberal and dangerous and is going to seriously impinge on industrial relations in this country and also, of course, impact upon Welsh devolved responsibilities.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Rwy'n meddwl bod y consensws rhwng yr holl siaradwyr, gydag un eithriad, yn hollol glir: mae'r Bil hwn yn anoddefgar ac yn beryglus ac yn mynd i effeithio'n ddifrifol ar gysylltiadau diwydiannol yn y wlad hon, a hefyd, wrth gwrs, ar gyfrifoldebau datganoledig yng Nghymru.

There were references—I think Mick Antoniw referred to it—to the reference to General Franco's Spanish dictatorship. David Davis, in fact, a former shadow Home Secretary, actually made that comparison, in particular criticising the idea that individual people on picket lines should be forced to register with the police. There is, in fact, a YouGov poll that found that 65 per cent of the public are against provisions in the Bill to bring temporary agency staff in to break public sector strikes. And, of course, the Bill also includes sweeping provisions, which have also been referred to during this debate, such as proposals to ban strikers from using social media and to introduce higher voting thresholds for industrial action. It's my view, and I think the view of everyone who's spoken in support of this motion, that those proposals are an infringement of human rights and individual liberties, and I think a precursor to attempts by the UK Government to repeal the Human Rights Act 1998. And I think that that in itself is very, very disturbing and very unsettling in terms of the future intentions of this Government.

Cafwyd cyfeiriadau at unbennaeth Sbaen dan y Cadfridog Franco—cyfeiriodd Mick Antoniw ato, rwy'n credu. Gwnaeth David Davis, cyn Ysgrifennydd Cartref yr wrthblaid mewn gwirionedd, yr un gymhariaeth, gan feirniadu, yn arbennig, y syniad y dylai unigolion ar linellau piced gael eu gorfodi i gofrestru gyda'r heddlu. Mewn gwirionedd, canfu pôl YouGov fod 65 y cant o'r cyhoedd yn erbyn darpariaethau yn y Bil i ddod â staff asiantaeth dros dro i mewn i dorri streiciau yn y sector cyhoeddus. Ac wrth gwrs, mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ysgubol, y cyfeiriwyd atynt yn ystod y ddadl hon hefyd, megis cynigion i wahardd streicwyr rhag defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac i gyflwyno trothwyon pleidleisio uwch ar gyfer gweithredu diwydiannol. Yn fy marn i, ac rwy'n credu mai dyma farn pawb sydd wedi siarad i gefnogi'r cynnig hwn, mae'r cynigion hynny'n groes i hawliau dynol a rhyddid unigolion, ac rwy'n meddwl ei fod yn paratoi'r ffordd i ymdrechion gan Lywodraeth y DU i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998. A chredaf fod hynny ynddo'i hun yn peri pryder a gofid mawr o ran bwriadau'r Llywodraeth hon yn y dyfodol.

In terms of the specific contributions, Mick Antoniw called on Mrs Thatcher as an unlikely ally in opposing the UK Government's Bill, but also set out the way the Bill infringes on civil liberties and undermines the rights of workers and partnership working. He said the Bill would undermine good industrial relations and weaken the living standards of workers, achieved through collective bargaining. And, of course, he referred to the fact that the Bill would intrude on our Welsh jurisdiction. That was picked up by the Minister just now in his summing up, who acknowledged that the Bill does affect devolved responsibilities, and said that it is wrong for decisions based on English service structures to be imposed in Wales, and I absolutely agree with that. I very much welcome the fact that the Minister is considering, with other Ministers, how the Welsh Government will protect our interests, including the possible tabling of a legislative consent Order.

O ran y cyfraniadau penodol, trodd Mick Antoniw at Mrs Thatcher fel cynghreiriad annhebygol i wrthwynebu Bil Llywodraeth y DU, ond nododd hefyd y modd y mae'r Bil yn tramgwyddo hawliau sifil ac yn tanseilio hawliau gweithwyr a gweithio mewn partneriaeth. Dywedodd y byddai'r Bil yn tanseilio cysylltiadau diwydiannol da ac yn gwanhau safonau byw gweithwyr, a gyflawnwyd drwy gydfargeinio. Ac wrth gwrs, cyfeiriodd at y ffaith y byddai'r Bil yn amharu ar ein hawdurdodaeth Gymreig. Cafodd hynny ei grybwyll gan y Gweinidog yn awr wrth iddo grynhoi, a chydnabu fod y Bil yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig. Dywedodd ei bod yn anghywir i orfodi penderfyniadau'n seiliedig ar strwythurau gwasanaeth yn Lloegr ar Gymru, ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Croesawaf yn fawr iawn y ffaith fod y Gweinidog yn ystyried, gyda Gweinidogion eraill, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn amddiffyn ein buddiannau, gan gynnwys cyflwyno Gorchymyn cydsyniad deddfwriaethol o bosibl.

Andrew Davies suggested that some Members here are contributing only because they receive contributions to their campaigns by trade unions. I don't receive any such contributions. I have principled objections to this Bill. I'm not currently a member of a trade union, but I do feel that people should be entitled to join trade unions, should be entitled to collective bargaining—

Awgrymodd Andrew Davies mai'r unig reswm y mae rhai o'r Aelodau yma'n cyfrannu yw am eu bod yn derbyn cyfraniadau i'w hymgyrchoedd gan undebau llafur. Nid wyf yn derbyn unrhyw gyfraniadau o'r fath. Mae gennyf wrthwynebiad egwyddorol i'r Bil hwn. Nid wyf ar hyn o bryd yn aelod o undeb llafur, ond rwy'n teimlo y dylai pobl gael hawl i ymuno ag undeb llafur, dylent gael hawl i gydfargeinio—

16:40 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me just finish this point. And they should be entitled to take action to protect their interests if all other avenues fail. Angela.

Gadewch i mi orffen y pwynt hwn. A dylent gael hawl i roi camau ar waith i amddiffyn eu buddiannau os yw popeth arall yn methu. Angela.

16:40 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank Peter Black for taking this intervention. I will very carefully read the Record of Proceedings tomorrow because I have listened to this debate with interest, and I think there have been some exceptionally good points made. However, my recollection of what Andrew R.T. Davies said was not that people were speaking because they'd been paid by the unions to speak, but rather that he felt that we all have the right to take money from people like trade unions and other organisations that are allowed to donate to politicians or political parties, but that we must look at the whole bigger picture. And so I would like you to have an opportunity tomorrow to clarify that comment, because I do think that was very unjust in a debate that I found of most interest so far.

Diolch i Peter Black am gymryd yr ymyriad. Byddaf yn darllen Cofnod y Trafodion yn ofalus iawn yfory oherwydd gwrandewais ar y ddadl hon gyda diddordeb, ac rwy'n credu bod rhai pwyntiau arbennig o dda wedi'u gwneud. Fodd bynnag, o'r hyn a gofiaf o beth ddywedodd Andrew R.T. Davies, nid oedd yn dweud fod pobl yn siarad am eu bod wedi'u talu gan yr undebau i siarad, ond yn hytrach ei fod yn teimlo bod gennym oll yr hawl i gymryd arian gan bobl fel undebau llafur a sefydliadau eraill y caniateir iddynt roi i wleidyddion neu bleidiau gwleidyddol, ond bod yn rhaid i ni edrych ar y darlun ehangach. Ac felly hoffwn i chi gael cyfle yfory i egluro'r sylw hwnnw, gan fy mod yn credu bod hynny'n anghyfiawn iawn mewn dadl y teimlwn ei bod yn ddiddorol iawn hyd yma.

16:41 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, certainly, Andrew went on to say some of that, but I think he was also implying that people were speaking with clear intentions and clear interests in this, and I think that implication was very strongly there in the words that he spoke. Andrew did argue for good industrial relations but didn't say how this Bill will improve them. I think we have heard from other speakers that this, actually, is going to undermine good industrial relations. Andrew also, of course, said that the Trade Union Bill is a manifesto commitment. I think, from all the commentary I've seen, and from what I've looked up online, there was no clear indication of the contents of this Bill in the Conservative manifesto at all, and I think they do not have a manifesto commitment that supports what they're doing through this Bill.

Wel, yn sicr, aeth Andrew ymlaen i ddweud rhywfaint o hynny, ond rwy'n meddwl ei fod hefyd yn awgrymu bod pobl yn siarad gyda bwriadau clir a buddiannau clir yn hyn, a chredaf fod awgrym cryf iawn yno yn y geiriau a siaradodd. Fe wnaeth Andrew ddadlau o blaid cysylltiadau diwydiannol da ond nid oedd yn dweud sut y bydd y Bil hwn yn eu gwella. Rwy'n credu ein bod wedi clywed gan siaradwyr eraill fod hyn, mewn gwirionedd, yn mynd i danseilio cysylltiadau diwydiannol da. Hefyd, wrth gwrs, dywedodd Andrew fod y Bil Undebau Llafur yn ymrwymiad maniffesto. O'r holl sylwebaeth a welais, ac o'r hyn rwyf wedi dod o hyd iddo ar-lein, nid wyf yn meddwl fod unrhyw ddynodiad clir o gynnwys y Bil hwn ym maniffesto'r Ceidwadwyr o gwbl, ac nid wyf yn meddwl fod ganddynt ymrwymiad maniffesto sy'n cefnogi'r hyn y maent yn ei wneud drwy'r Bil hwn.

Julie Morgan argued that people only strike as a last resort and referred again to the scrapping of the Human Rights Act 1998 and the possibly of cutting, and, in fact, the cutting, of legal aid. Bethan Jenkins argued that the Bill is essentially undemocratic and an assault on the rights to organise, to hold collective action and on free assembly, and David Rees referred to it as a draconian Bill leading to an imbalance of power in the workplace and said the Bill is attacking fundamental rights and that we should be strengthening industrial democracy, not demonising trade unions, and I agree with him.

Dadleuodd Julie Morgan mai fel dewis olaf yn unig y bydd pobl yn mynd ar streic a chyfeiriodd unwaith eto at gael gwared ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r posibilrwydd o dorri, a thorri cymorth cyfreithiol mewn gwirionedd. Dadleuodd Bethan Jenkins fod y Bil yn ei hanfod yn annemocrataidd ac yn ymosodiad ar hawliau i drefnu, i weithredu ar y cyd a rhyddid i ymgynnull, a chyfeiriodd David Rees ato fel Bil llym yn arwain at anghydbwysedd grym yn y gweithle a dywedodd fod y Bil yn ymosod ar hawliau sylfaenol ac y dylem fod yn cryfhau democratiaeth ddiwydiannol, yn hytrach na pharddu undebau llafur, ac rwy'n cytuno ag ef.

Alun Davies said it's an unacceptable authoritarian Bill and accused the Government of using the state to emasculate trade unions and the opposition whilst, at the same time, arguing for a smaller state and said—and again I agree—successful societies are based on co-operation and respect.

Dywedodd Alun Davies, ei fod yn Fil awdurdodaidd annerbyniol a chyhuddodd y Llywodraeth o ddefnyddio'r wladwriaeth i ddirymu undebau llafur a'r gwrthbleidiau gan ddadlau, ar yr un pryd, dros wladwriaeth lai o faint a dywedodd—ac eto rwy'n cytuno—fod cymdeithasau llwyddiannus wedi'u seilio ar gydweithredu a pharch.

I think, Deputy Presiding Officer, that there has been very strong feeling in this Chamber today from all Members who spoke on this Bill—the vast majority opposed to it and the implications it has for civil liberties and human rights. I feel very strongly that this Bill is an unjust one and takes things too far. It takes even the Conservative agenda of the 1980s, where trade union rights were very much undermined by legislation, too far. I hope that we can use what powers we have in the Welsh Assembly and the Welsh Government to actually prevent this being imposed on us here in Wales. Thank you.

Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, fod teimladau cryf iawn wedi'u mynegi yn y Siambr hon heddiw gan bob un o'r Aelodau a siaradodd ar y Bil—y mwyafrif llethol yn ei wrthwynebu a'i oblygiadau i hawliau sifil a hawliau dynol. Rwy'n teimlo'n gryf iawn fod y Bil hwn yn un anghyfiawn ac yn mynd â phethau'n rhy bell. Mae hyd yn oed yn mynd ag agenda'r Ceidwadwyr yn y 1980au, lle y tanseiliwyd hawliau undebau llafur yn helaeth gan ddeddfwriaeth, yn rhy bell. Rwy'n gobeithio y gallwn ddefnyddio'r pwerau sydd gennym yn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i'w atal rhag cael ei orfodi arnom yma yng Nghymru. Diolch.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 5. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Cymunedau Gwledig

# 5. Welsh Conservatives Debate: Rural Communities

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones.*

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Item 5 is the Welsh Conservatives debate, and I call on Russell George to move the motion.

Eitem 5 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf ar Russell George i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5843 Paul Davies

Motion NDM5843 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i ddiwallu anghenion penodol cymunedau gwledig Cymru.

Regrets the failure of the Welsh Government to provide adequate support to meet the specific needs of Wales's rural communities.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:43 **Russell George** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to introduce this wide-ranging debate on rural affairs and move the motion in the name of Paul Davies. I'm also pleased to indicate Welsh Conservative support for all amendments to this motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gyflwyno'r drafodaeth eang hon ar faterion gwledig a chynnig y cynnig yn enw Paul Davies. Rwyf hefyd yn falch o nodi cefnogaeth y Ceidwadwyr Cymreig i'r holl welliannau i'r cynnig hwn.

Deputy Presiding Officer, living and working in our beautiful rural communities is both a great privilege and a great challenge. Rural areas account for a third of the Welsh population. As an Assembly Member who proudly represents a rural constituency, I naturally want the Welsh Government to succeed in providing support to meet the specific challenges of Wales's rural communities. It therefore gives me no pleasure at all to move a motion that regrets the failure of the Welsh Government to support rural areas in Wales. The Welsh Government policies consistently fail to reflect the distinct needs of rural Wales and communities and they are often seen as an afterthought. Any Government should ensure that all its policies are fit for purpose and reflect the distinct needs of our rural communities prior to implementation.

Ddirprwy Lywydd, mae byw a gweithio yn ein cymunedau gwledig hardd yn fraint ac yn her fawr. Mae traean o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig. Fel Aelod Cynulliad sy'n falch o gynrychioli etholaeth wledig, rwy'n naturiol yn awyddus i Lywodraeth Cymru lwyddo i ddarparu cymorth i ymateb i heriau penodol cymunedau gwledig Cymru. Felly, nid yw'n rhoi unrhyw bleser i mi gyflwyno cynnig sy'n gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i gefnogi ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn gyson yn methu ag adlewyrchu anghenion penodol y Gymru wledig a chymunedau ac maent yn aml yn ôl-ystyriaeth. Dylai unrhyw Lywodraeth sicrhau bod ei holl bolisïau yn addas at y diben ac yn adlewyrchu anghenion penodol ein cymunedau gwledig cyn eu gweithredu.

With the right support, rural Wales could be an economic powerhouse, through the responsible use of Wales's abundant natural resources, support for our farming industry and the roll-out of distance-busting IT and more enterprise-focused planning regulations, much-needed jobs can be generated, well protecting the unique characteristic of rural Wales.

Gyda'r cymorth cywir, gallai'r Gymru wledig fod yn bwerdy economaidd, drwy ddefnydd cyfrifol o adnoddau naturiol helaeth Cymru, cymorth i'n diwydiant ffermio a'r broses o gyflwyno TG sy'n trechu pellter, a rheoliadau cynllunio sy'n canolbwyntio mwy ar fenter, gellir creu swyddi mawr eu hangen, a gwarchod cymeriad unigryw cefn gwlad Cymru yn dda.

At the Royal Welsh Show in July, I launched a detailed document with the empowerment of rural communities being at its core. It's the people who live and work in these communities who know best. So, Welsh Government Ministers should be making decisions for them; they should be providing the opportunity for decisions to be made at local level and that's not happening.

Yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, lansiais ddogfen fanwl gyda grymuso cymunedau gwledig yn ganolog iddi. Y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau hyn sy'n gwybod orau. Felly, dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar eu cyfer; dylent roi cyfle i benderfyniadau gael eu gwneud ar lefel leol ac nid yw hynny'n digwydd.

We, as a party, have made a commitment that a future Welsh Conservative Government would mean a Minister for mid and west Wales. That's on top of a—[Interruption.]—it's a shame that Joyce Watson, who represents mid and west Wales, wouldn't support that. Shocking. We've already suggested and made a commitment to a Minister for north Wales. There are specific concerns facing mid and west Wales that require individual problem-solving and a unique ministerial voice around the table could make happen. Every policy announced by the Welsh Government and every decision it takes should face a much-improved assessment of its impact on rural Wales. As it stands, the Labour Government rural-proofs its own policies. We would take that job away from civil servants and Ministers and give it to rural communities' representatives—an independent system of rural-proofing at arm's length from Government.

Rydym ni, fel plaid, wedi gwneud ymrwymiad y byddai Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol yng Nghymru yn golygu Gweinidog dros ganolbarth a gorllewin Cymru. Mae hynny'n ogystal â—[Torri ar draws.]—Mae'n drueni na fyddai Joyce Watson, sy'n cynrychioli canolbarth a gorllewin Cymru, yn cefnogi hynny. Gwarthus. Rydym wedi awgrymu'n barod ac wedi gwneud ymrwymiad i gael Gweinidog dros ogledd Cymru. Mae yna bryderon penodol yn wynebu canolbarth a gorllewin Cymru sy'n galw am ddatrys problemau unigol a gallai llais gweinidogol unigryw o amgylch y bwrdd wneud i hynny ddigwydd. Dylai pob polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a phob penderfyniad y mae'n ei gymryd wynebu asesiad llawer gwell o'i effaith ar gefn gwlad Cymru. Fel y mae, mae'r Llywodraeth Lafur yn prawfesur ei pholisïau ei hun o safbwynt gwledig. Byddem yn cymryd y gwaith hwnnw gan weision sifil a Gweinidogion ac yn ei roi i gynrychiolwyr cymunedau gwledig—system annibynnol o brawfesur o safbwynt gwledig hyd braich oddi wrth y Llywodraeth.

The delivery of public services such as transport, healthcare, education and housing is a challenging task in a sparsely populated rural area—I'm sure we can all agree on that. Only this week, a constituent contacted me—Jenny Rutland. Her daughter has just left school and has just got a job working 9 o'clock until 5 o'clock. She lives in Llanidloes and needs to get to Newtown. No bus service can get her to her job on time for nine o'clock; she either has to be there extremely early or get there extremely late, and it's the same at 5 o'clock. These are some of the specific challenges. The problem is: how are we going to get younger people into work if they can't actually get to work? These are the everyday challenges in rural Wales and these are the challenges that need to be addressed.

Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus megis trafnidiaeth, gofal iechyd, addysg a thai yn dasg heriol mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth—rwy'n siwr y gallwn i gyd gytuno ar hynny. Yr wythnos hon, cysylltodd un o fy etholwyr â mi—Jenny Rutland. Mae ei merch newydd adael yr ysgol a newydd gael swydd yn gweithio o 9 tan 5 o'r gloch. Mae hi'n byw yn Llanidloes ac angen mynd i'r Drenewydd. Ni all yr un gwasanaeth bws ei chael i'w gwaith erbyn 9 o'r gloch; mae hi naill ai'n gorfod cyrraedd yno'n eithriadol o gynnar neu gyrraedd yno'n hwyr iawn, ac mae hi'r un fath am 5 o'r gloch. Dyma rai o'r heriau penodol. Y broblem yw: sut y gallwn gael pobl ifanc i mewn i waith os na allant gyrraedd y gwaith? Dyma'r heriau bob dydd yng nghefn gwlad Cymru ac mae'r rhain yn heriau y mae angen rhoi sylw iddynt.

The lack of housing is a national challenge, but in rural areas, it's a particular constraint to labour and entrepreneurial mobility. The stock of housing is limited in rural areas relative to demand, and we would like to see an amendment of planning rules to allow starter homes to be built on rural exception sites for the first time. This is part of a range of measures that we propose that will increase the availability of housing in rural areas, allowing our rural towns and villages to thrive whilst protecting the countryside. I hope my colleague Mark Isherwood will be called to speak later in more detail on that.

Mae diffyg tai yn her genedlaethol, ond mewn ardaloedd gwledig, mae'n gyfyngiad penodol ar lafur a symudedd entrepreneuraidd. Mae'r stoc dai yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig o gymharu â'r galw, a byddem yn hoffi gweld newid i'r rheolau cynllunio i ganiatáu i dai cyntaf gael eu hadeiladu ar safleoedd eithriedig gwledig am y tro cyntaf. Mae hyn yn rhan o ystod o fesurau rydym yn eu cynnig a fydd yn cynyddu argaeledd tai mewn ardaloedd gwledig, gan ganiatáu i'n trefi a'n pentrefi gwledig ffynnu gan ddiogelu cefn gwlad. Rwy'n gobeithio y bydd fy nghyd-Aelod Mark Isherwood yn cael ei alw i siarad yn fwy manwl ar hynny yn nes ymlaen.

However, for future generations, to see rural communities as viable places to live and work in the twenty-first century, local amenities, whether they be a bank, pub, local shop or post office, must be saved from the threat of closures. It's therefore essential that we think of more innovative ways to ensure that these local amenities and small businesses continue to be commercially viable. We therefore support the amendment in the name of Aled Roberts, which calls for the Welsh Government to convene a round table to explore a community banking model; a new innovative model of community banking is something that I've also called for, which will see banks and organisations such as post offices share building and services to ensure they continue to offer and serve their customers in rural parts of Wales. I hope the Government will be able to confirm today that it will bring all interested parties together and work with the Financial Conduct Authority and the Competition and Markets Authority to explore ways in which regulators can make improvements to inter-bank agency agreements.

Fodd bynnag, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, er mwyn gweld cymunedau gwledig fel lleoedd hyfyw i fyw a gweithio yn yr unfed ganrif ar hugain, rhaid achub amwynderau lleol, boed yn fanc, tafarn, siop leol neu swyddfa bost, rhag y bygythiad o gau. Mae'n hanfodol felly ein bod yn meddwl am ffyrdd mwy arloesol o sicrhau bod yr amwynderau lleol hyn a busnesau bach yn parhau i fod yn fasnachol hyfyw. Felly, rydym yn cefnogi'r gwelliant yn enw Aled Roberts, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddod o amgylch y bwrdd i archwilio model bancio cymunedol; mae model newydd arloesol o fancio cymunedol yn rhywbeth rwyf wedi galw amdano hefyd, er mwyn gweld banciau a sefydliadau megis swyddfeydd post yn rhannu adeiladu a gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wasanaethu a chynnig i'w cwsmeriaid mewn rhannau gwledig o Gymru. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gallu cadarnhau heddiw y bydd yn dod â phawb sydd â diddordeb at ei gilydd ac yn gweithio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i archwilio ffyrdd y gall rheoleiddwyr wneud gwelliannau i gytundebau asiantaeth rhwng banciau.

Given the current levels of volatility in the agricultural markets, the basic payment scheme can, undoubtedly, be a vehicle that can provide the necessary support for the industry to thrive. We therefore support amendment 3 in the name of Elin Jones in urging the Welsh Government to make significant part payments to the majority of farmers within the payment window.

O ystyried y lefelau presennol o anwadalrwydd yn y marchnadoedd amaethyddol, heb os gallai cynllun y taliad sylfaenol fod yn gyfrwng sy'n gallu darparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn i'r diwydiant ffynnu. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 3 yn enw Elin Jones yn annog Llywodraeth Cymru i wneud rhandaliadau sylweddol i'r rhan fwyaf o ffermwyr o fewn y cyfnod talu.

We also believe that agriculture support in Wales from the European programmes must be more effectively administrated and directed. Given the fact that Welsh Government will transfer 15 per cent from direct payments to the rural development fund, the RDP can play a vital role in being a lifeline for farmers who stand to lose out from the basic payment scheme. Therefore, we support calls for a scheme under the RDP that offers more accessible funding to improve the resilience and efficiency of Welsh farms.

Rydym hefyd yn credu bod yn rhaid gweinyddu a chyfarwyddo cymorth amaethyddol yng Nghymru o'r rhaglenni Ewropeaidd yn fwy effeithiol. O ystyried y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo 15 y cant o daliadau uniongyrchol i'r gronfa datblygu gwledig, gall y Cynllun Datblygu Gwledig chwarae rhan hanfodol fel achubiaeth i ffermwyr sy'n mynd i fod ar eu colled o gynllun y taliad sylfaenol. Felly, rydym yn cefnogi galwadau am gynllun o dan y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n cynnig cyllid mwy hygyrch i wella cydnerthedd ac effeithlonrwydd ffermydd Cymru.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, sometimes it's difficult to overestimate just how important farmers and our rural communities are to almost every aspect of our lives. That is why we have called for enhanced support for our dairy industry and red meat industries, to give Welsh produce a much needed leg-up into global markets. That's why we've already called for a voluntary code of practice for supermarkets and shops to dedicate a section of floor space to support the promotion of Welsh food and drink. That's why we have called on retailers to actively promote Welsh PGI status and Welsh Red Tractor products. That's why we have committed, like the UK Government, to a big increase in public procurement of Welsh produce. We'd also safeguard funding and support for young farmers' clubs, protecting the future of communities across rural Wales, and ensuring that the Welsh farming industry and rural communities get the new blood they richly deserve.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, weithiau mae'n anodd gorbwysleisio pa mor bwysig yw ffermwyr a'n cymunedau gwledig i bron bob agwedd ar ein bywydau. Dyna pam rydym wedi galw am gymorth estynedig i'n diwydiant llaeth a diwydiannau cig coch, er mwyn rhoi hwb mawr ei angen i gynnyrch o Gymru mewn marchnadoedd byd-eang. Dyna pam rydym eisoes wedi galw am god ymarfer gwirfoddol i archfarchnadoedd a siopau neilltuo rhan o ofod llawr i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Dyna pam ein bod wedi galw ar fanwerthwyr i hyrwyddo statws PGI Cymru a chynhyrchion Tractor Coch Cymru. Dyna pam rydym wedi ymrwymo, fel Llywodraeth y DU, i gynnydd mawr ym maes caffael cyhoeddus o gynnyrch o Gymru. Byddem hefyd yn diogelu arian a chymorth ar gyfer clybiau ffermwyr ifanc, gan ddiogelu dyfodol cymunedau ledled Cymru wledig, a sicrhau bod y diwydiant ffermio yng Nghymru a chymunedau gwledig yn cael y gwaed newydd y maent yn ei lwyr haeddu.

In short, Deputy Presiding Officer, we would stand up for rural Wales, and call on the Welsh Government to do the same. The Welsh Government has ignored rural Wales for too long, and it's time to put the farming industry at the top of the agenda, along with the rural communities around it.

Yn fyr, Ddirprwy Lywydd, rydym yn sefyll yn gadarn dros y Gymru wledig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr un peth. Mae Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu'r Gymru wledig yn rhy hir, ac mae'n bryd rhoi'r diwydiant ffermio ar frig yr agenda, ynghyd â'r cymunedau gwledig o'i gwmpas.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the five amendments to the motion. I call on William Powell to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith bod rownd arall o fanciau wedi'u cau yng nghefn gwlad Cymru yn ddiweddar.*

*Regrets the recent round of bank closures across rural Wales.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal cyfarfod brys gyda banciau manwerthu mawr i annog cefnogaeth ar gyfer model bancio cymunedol a sicrhau presenoldeb bancio lleol cynaliadwy mewn cymunedau gwledig.*

*Calls on the Welsh Government to hold an urgent round table meeting with major retail banks to encourage support for a community banking model and ensure a sustainable local banking presence in rural communities.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you, Deputy Presiding Officer.

I'm very grateful to the Welsh Conservatives for bringing forward this important debate today and rise to move formally amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts. I'd like, firstly, to address the other amendments that have been tabled today. We will be supporting all of those brought forward by Plaid Cymru. I speak specifically on amendment 5: farmers have had their hands tied by excessive restrictions, such as the six-day movement rule, for too long. I would hope to see the Welsh Government keep to their intention to implement a general exemption to the six-day standstill for cattle, sheep and goats for farms using quarantine units, by the end of next year.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw ac yn codi i gynnig yn ffurfiol gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Yn gyntaf, hoffwn fynd i'r afael â'r gwelliannau eraill a gyflwynwyd heddiw. Byddwn yn cefnogi pob un o'r rhai a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Rwy'n siarad yn benodol am welliant 5: mae dwylo ffermwyr wedi'u clymu gan gyfyngiadau gormodol, megis y rheol symud chwe diwrnod, am gyfnod rhy hir. Byddwn yn gobeithio gweld Llywodraeth Cymru yn cadw at ei bwriad i weithredu eithriad cyffredinol i'r gwaharddiad symud chwe diwrnod ar wartheg, defaid a geifr ar gyfer ffermydd sy'n defnyddio uned cwarantîn, erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

I now turn to the main focus of my contribution this afternoon. The bank branch network in the UK has been declining steadily for some 30 years now, with many communities in Wales losing their last bank in town to the huge detriment of customers and traders. Not surprisingly, this hits rural communities particularly hard. Access to banking services is key, not only to small businesses and retailers, but to individuals and voluntary and charitable groups in communities throughout the land. Maintaining a bank presence keeps people spending locally, brings people onto the high street, supports local business and is, therefore, crucial to community sustainability. In contrast, the rationalisation and centralisation during the past decades has become a catalyst for decline in many of our town centres, with a drift of service outlets up the hierarchy, from villages to small towns, to larger towns and then out of town altogether, forcing people to travel further for the vital services that they need. This increases carbon emissions and leaves behind neglected town centres, as local businesses can no longer survive with the declining footfall. It disadvantages, particularly, the elderly and the vulnerable, and those on low incomes, who rely on public transport to access alternatives, leading, again, to increased isolation. It is, in a very real sense, a vicious circle.

Trof yn awr at brif ffocws fy nghyfraniad y prynhawn yma. Mae'r rhwydwaith o ganghennau banc yn y DU wedi bod yn lleihau'n raddol ers 30 mlynedd bellach, gyda llawer o gymunedau yng Nghymru yn colli eu banc olaf yn y dref er anfantais enfawr i gwsmeriaid a masnachwyr. Nid yw'n syndod fod hyn yn taro cymunedau gwledig yn arbennig o galed. Mae mynediad at wasanaethau bancio yn allweddol, nid yn unig i fusnesau a manwerthwyr bach, ond i unigolion a grwpiau gwirfoddol ac elusennol mewn cymunedau ledled y wlad. Mae cynnal presenoldeb banc yn cadw pobl i wario'n lleol, yn dod â phobl i'r stryd fawr, yn cefnogi busnesau lleol ac felly, yn hanfodol i gynaliadwyedd y gymuned. Ar y llaw arall, mae rhesymoli a chanoli yn ystod y degawdau diwethaf wedi dod yn gatalydd i ddirywiad mewn llawer o ganol trefi, gyda safleoedd gwasanaeth yn symud i fyny'r hierarchaeth, o bentrefi i drefi bach, i drefi mwy ac yna allan o'r dref yn gyfan gwbl, gan orfodi pobl i deithio ymhellach am y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn cynyddu allyriadau carbon ac yn gadael canol trefi wedi'u hesgeuluso, fel na all busnesau lleol oroesi mwyach gyda nifer ymwelwyr yn gostwng. Mae'n creu anfantais arbennig i'r henoed a'r bregus, a phobl ar incwm isel, sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at ddewisiadau amgen, gan arwain, unwaith eto, at fwy o ynysu. Mae'n gylch dieflig mewn ystyr real iawn.

Sadly, despite campaigning by my own party and others, many banks have persisted with their programme of bank closures. Crucially, voluntary pledges by three of the 'big four' to keep open the last bank in town protected 70 per cent of sole bank communities more than one mile from an alternative bank, but, in April of last year, RBS/NatWest cancelled that pledge, which has had a heavy impact in many areas of rural Wales, and I'm sure that's reflected in many of our postbags and e-mail inboxes.

Yn anffodus, er gwaethaf ymgyrchu gan fy mhlaid fy hun ac eraill, mae llawer o fanciau wedi parhau â'u rhaglen o gau banciau. Yn allweddol, diogelwyd 70 y cant o gymunedau un banc gan addewidion gwirfoddol gan dri o'r 'pedwar mawr' i gadw'r banc olaf yn y dref ar agor os oedd y banc hwnnw fwy nag un filltir o fanc arall, ond ym mis Ebrill y llynedd, diddymodd RBS/NatWest yr addewid hwnnw, sydd wedi effeithio'n drwm ar nifer o ardaloedd yng nghefn gwlad Cymru, ac rwy'n siŵr fod hynny wedi cael sylw yn llawer o'n bagiau post a'n mewnflychau e-bost.

According to the Campaign for Community Banking Services, community banks and banking centres offer a cost-effective way to sustain a bank presence in vulnerable communities, to extend coverage and opening hours and, indeed, to reduce banks' operating costs.

Yn ôl yr Ymgyrch dros Wasanaethau Bancio Cymunedol, mae banciau cymunedol a chanolfannau bancio yn cynnig ffordd gosteffeithiol o gynnal presenoldeb banc mewn cymunedau dan fygythiad, er mwyn ymestyn cyrhaeddiad ac oriau agor ac yn wir, i leihau costau gweithredu banciau.

The campaign says that:

Mae'r ymgyrch yn dweud bod:

'Sustainability of communities, financial inclusion and reduction of carbon emissions are concerns deeply held by many people...The closure of easily accessible neighbourhood bank branches, and post offices, inflicts damage in each of these areas but a solution is available, very flexible in its formats, which has the capability to make a positive difference. It is called sharing, and Britain's large retail banks could do this now at little or no extra cost to benefit hundreds of vulnerable communities'.

'cynaliadwyedd cymunedau, cynhwysiant ariannol a lleihau allyriadau carbon yn peri pryder mawr i lawer o bobl... Mae cau canghennau banciau a swyddfeydd post hygyrch a lleol yn niweidiol i bob un o'r meysydd hyn ond mae ateb ar gael, sy'n hyblyg ac sydd â'r gallu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Fe'i gelwir yn rhannu, a gallai banciau manwerthu mawr Prydain wneud hyn yn awr heb fawr o gost ychwanegol, er lles cannoedd o gymunedau agored i niwed'.

The first tier of the solution offered by the community banking model would be a shared banking franchise. For some very small rural communities with no banking presence, a limited shared branch franchise would sit alongside an existing post office model. The second tier is a community bank which would be directly managed as an outlet, similar to a bank sub-branch and potentially taking on suitable premises from a closing bank. Let's face it: there are plenty of those around. The third tier is banking centres, suitable for our larger communities. It is a concept based on airports or on cosmetics and fashion concessions in department stores, where services are outsourced. Shared overheads and responsibilities could potentially save millions in branch operating costs, while at the same time maintaining a vital presence for individual banks within our communities.

Haen gyntaf yr ateb a gynigir gan y model bancio cymunedol fyddai rhyddfraint bancio a rennir. Ar gyfer rhai cymunedau gwledig bach iawn heb unrhyw wasanaeth bancio, byddai rhyddfraint gyfyngedig cangen a rennir yn gweithredu ochr yn ochr â model swyddfa bost sydd eisoes yn bodoli. Yr ail haen yw banc cymunedol a fyddai'n cael ei reoli'n uniongyrchol fel safle gwasanaeth, yn debyg i is-gangen o fanc ac o bosibl yn mabwysiadu safle addas gan fanc sy'n cau. Gadewch i ni ei wynebu: mae digon o'r rheini i'w cael. Y drydedd haen yw canolfannau bancio, sy'n addas ar gyfer ein cymunedau mwy o faint. Mae'n gysyniad sy'n seiliedig ar feysydd awyr neu gonsesiynau ar golur a ffasiwn mewn siopau adrannol, lle y caiff gwasanaethau eu rhoi ar gontract allanol. Gallai rhannu gorbenion a chyfrifoldebau arbed miliynau o bosibl ar gostau gweithredu cangen, gan gynnal presenoldeb hanfodol ar yr un pryd i fanciau unigol yn ein cymunedau.

The key issue here is that we do not just need a more diversified banking sector. We also need a more decentralised banking model. We need lending decisions to be taken locally, based on local knowledge. That's why the answer has to be to establish a network of community banks here in Wales. These have been hugely successful in Germany where the Bausparkassen operate as commercial banks in a decentralised structure. It is that that we call for, and I look forward to other Members' contributions this afternoon.

Y mater allweddol yma yw nid yn unig ein bod angen sector bancio mwy amrywiol, ond hefyd ein bod angen model bancio mwy datganoledig. Mae angen i benderfyniadau benthyca gael eu gwneud yn lleol, yn seiliedig ar wybodaeth leol. Dyna pam y mae'n rhaid mai'r ateb yw sefydlu rhwydwaith o fanciau cymunedol yma yng Nghymru. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn yr Almaen lle y mae'r Bausparkassen yn gweithredu fel banciau masnachol mewn strwythur datganoledig. Dyna rydym yn galw amdano, ac edrychaf ymlaen at gyfraniadau Aelodau eraill y prynhawn yma.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Llyr Gruffydd to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn annog Llywodraeth Cymru i dalu rhan sylweddol o'r taliad sylfaenol i gymaint o ffermwyr â phosibl ar y cyfle cyntaf o fewn cyfnod talu'r Cynllun Taliad Sylfaenol.*

*Urges the Welsh Government to make a significant part payment to as many farmers as possible at the earliest opportunity within the Basic Payment Scheme payment window.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am gynllun o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n cynnig cyllid mwy hygyrch ar raddfa bach i wella gwydnwch ac effeithlonrwydd ffermydd Cymru.*

*Calls for a scheme under the Rural Development Programme which offers more accessible, small scale funding to improve the resilience and efficiency of Welsh farms.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am ddileu'r rheol chwe diwrnod ar wahardd symud yn gynnar.*

*Calls for the early scrapping of the six day standstill rule.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3, 4 a 5.*

*Amendments 3, 4 and 5 moved.*

16:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gen i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5 ar ran Plaid Cymru. Mi fyddwn i yn cychwyn drwy ddweud y byddwn ni'n cefnogi'r cynnig gan y Ceidwadwyr, ond fel rŷm ni wedi dod i glywed ar ambell achlysur y prynhawn yma, wrth gwrs, mae'r Ceidwadwyr yn dda iawn am bwyntio bys at bobl eraill ond ddim cystal, efallai, am edrych ar rai o'u ffaeleddau nhw eu hunain. Mae'n drueni na fuasai'r Ceidwadwyr wedi bod yn bangio'r bwrdd, fel y maen nhw ar rai materion, pan oedd eu Prif Weinidog nhw eu hunain yn mynd allan i Frwsel i ddadlau dros dorri cyllideb yr Undeb Ewropeaidd a thorri cyllideb y polisi amaeth cyffredin. Roedd hyn yn ddim byd llai nag ymosodiad ar fuddiannau ffermwyr Cymru. Rŷm ni'n gwybod bod tua 80 y cant o ffermydd Cymru yn ddibynnol ar y taliadau hynny, ac roedd unrhyw ymdrech i leihau y symiau yna yn dweud stori ei hun mewn gwirionedd. Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni—

Thank you, Deputy Presiding Officer. It's my pleasure to move amendments 3, 4 and 5 on behalf of Plaid Cymru. However, I would start by saying that we will support the Conservative motion, but as we've heard on a few occasions this afternoon, the Conservatives are very good at pointing the finger at others, but aren't perhaps as positive in looking at their own failings. It is a shame that the Conservatives hadn't been banging the table, as they have been on some issues, when their own Prime Minister was going out to Brussels to argue for cutting the EU budget and cutting the common agricultural policy budget. It was nothing less than an attack on the interests of Welsh farmers. We know that some 80 per cent of Welsh farms are reliant on those payments, and any attempt to reduce those sums actually tells its own story, if truth be told. Therefore, I think that we must—

16:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:58 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs.

Of course.

16:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Member for taking the intervention. Why was it that your party allowed a budget to pass last year by the Welsh Government that cut the rural department's budget by 17 per cent in one year?

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Pam y caniataodd eich plaid chi i gyllideb basio y llynedd gan Lywodraeth Cymru a dorrodd 17 y cant oddi ar gyllideb yr adran wledig mewn un flwyddyn?

16:58 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf i'n meddwl y gallwch chi luchio llwch i lygaid pobl yn yr ystyr hynny. Pan fyddwn ni'n sôn am gyllidebau'r Undeb Ewropeaidd, rŷm ni'n sôn am gyllidebau sy'n taflu cysgod dros bob math o gyllidebau yn y lle yma. Rŷm ni yn gyson wedi codi'r angen i amddiffyn cymunedau gwledig. Rŷch chi hefyd yn codi'r materion yn gyson ond, wrth gwrs, pan fyddwn ni'n edrych i gyfeiriad San Steffan, nid ydych chi'n wastad yn canu o'r un daflen—i gyfieithu idiom Saesneg.

I don't think that you can throw dust into people's eyes in that sense. When we're talking about European Union budgets, we are talking about budgets that cast a shadow over any budget in this place. We have consistently raised the need to protect rural communities. You also raise these issues regularly, but of course, when we look to Westminster, you don't always sing from the same hymn sheet.

Nawr, rŷm ni hefyd wedi bod yn feirniadol o benderfyniad y Llywodraeth i drosglwyddo'r 15 y cant o biler 1 i biler 2, sydd wedi cymryd cannoedd o filiynau o bunnau allan o daliadau uniongyrchol i ffermwyr Cymru, sydd, eto, yn yr un modd yn fy marn i, wedi bod yn andwyol i gymunedau gwledig, oherwydd byddai llawer iawn o'r arian yna wedi cael ei wario a'i fuddsoddi mewn economïau gwledig ar hyd a lled Cymru. Mae'r addewid, fel rŷm ni'n wastad yn cael ein hatgoffa, y byddai'r pres hwnnw'n dod yn ôl yn rhywbeth y mae angen i ni glywed rhagor ynglŷn ag e, a byddaf yn codi yn un o'n gwelliannau ni yr angen i sicrhau bod y pres yna ar gael i fwy o ffermwyr. Mae gennym ni ar hyn o bryd y cynllun grant cynnyrch cynaliadwy, ac mae hwnnw yn gynllun i'w groesawu. Mae e'n cyflawni pwrpas i nifer fawr o fusnesau fferm, ond y realiti yw ei fod e y tu hwnt i gyrraedd nifer o fusnesau fferm oherwydd lefel y buddsoddiad sydd ei angen. Rŷm ni'n sôn am brojectau £40,000 ac, yn yr hinsawdd sydd ohoni a gyda phrisiau gât y fferm mor isel, a gyda phroblemau difrifol o safbwynt llif arian, mae hynny'n golygu nad yw'r rhelyw o fusnesau fferm, y byddwn yn tybio, yn medru cael mynediad at y math hwn o gefnogaeth. Felly, mae angen cynllun sydd yn darparu grantiau llai. Codwyd hyn gyda'r Dirprwy Weinidog y bore yma yn y pwyllgor. Cawsom awgrym y byddai'r Llywodraeth yn ystyried hyn yn hwyrach, ond yr hyn y byddwn i a nifer o ffermwyr am wybod yw: a ydy hynny'n debygol o ddigwydd? Awgrymwyd fod yna reolau Ewropeaidd yn golygu nad oes modd cynnig grantiau lefel isel, ond eto mae rhywun yn edrych i gyfeiriad Llywodraeth yr Alban, lle mae yna gynlluniau o'r fath yn bodoli ac sy'n ymddangos eu bod yn dod o'r un ffynonellau Ewropeaidd. Felly, byddwn yn falch am ragor o eglurder gan y Llywodraeth ynglŷn â'i bwriad i'r perwyl hwnnw. Mae'r rheolau chwe diwrnod—'the six-day standstill rule'—wrth gwrs yn fater yr wyf wedi'i godi yn y gorffennol. Roedd yn argymhelliad yn adroddiad 'Hwyluso'r Drefn', a gyhoeddwyd bron i bedair blynedd yn ôl erbyn hyn. Roedd yn argymhelliad a ddylai fod wedi cael ei weithredu erbyn mis Gorffennaf 2012. Roedd yn argymhelliad y gwnaeth y Llywodraeth ei dderbyn ar y pryd. Ond eto rŷm ni'n dal i aros i weld gwaredu ar y rheol chwe diwrnod. Rwy'n deall, wrth gwrs, bod y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid yn amlinellu'r bwriad i symud ar hyn o'r diwedd, ond nid wyf yn credu ei bod yn dderbyniol y bydd hi mwy neu lai wedi cymryd bron i bum mlynedd i hynny ddigwydd. Mae hynny yn llesteirio ac yn amharu ar hyfywedd busnesau fferm. Rŷm ni'n gwybod am ffermwyr nad ydynt yn mynd ag anifeiliaid i rai marchnadoedd oherwydd y perygl y byddant yn gorfod dod â nhw yn ôl, ac felly yn cloi'r fferm. Rŷm ni hefyd yn gwybod am ffermwyr sydd, yn aml iawn, yn cael eu gorfodi i dderbyn prisiau is am eu hanifeiliaid am yr union reswm.

Now, we have also been critical of the Government's decision to transfer that 15 per cent from pillar 1 to pillar 2, which has taken hundreds of millions of pounds out of direct payments for Welsh farms, which, again, in the same way, has been detrimental to rural communities, because much of that money would have been spent and invested in rural economies the length and breadth of Wales. The pledge, as we are always reminded, of that funding being returned, is something that we do need to hear more about. I will be raising in one of one of our amendments the need to ensure that that funding is available to more farmers. We currently do have the sustainable produce grant scheme, which is to be welcomed. It does achieve its purpose for a number of farm businesses, but the reality is that it is also beyond the reach of many farm businesses because of the level of investment required. We are talking about projects of £40,000 and, in the current climate, with farm-gate prices so low and serious problems in terms of cash flow, that means that the majority of farm businesses, I would anticipate, can't access that sort of support. Therefore, there is a need for a scheme that provides smaller grants. This was raised with the Deputy Minister this morning at committee. There was a suggestion that the Government would consider this at a later stage, but what I and many farmers would like to know is: is that likely to happen? It was suggested that there are European rules that mean that low level grants can't be provided, but, again, one looks to the Scottish Government, where there are such plans in place, and they appear to be coming from the same European sources. Therefore, I would be grateful for greater clarity from the Government on its intention in that regard. The six-day standstill rule is, of course, something that I've raised in the past. It was a recommendation in the 'Working Smarter' report, which was published nearly four years ago by now. It was a recommendation that should have been implemented by July 2012. It was a recommendation that the Government accepted at the time. But, again, we are still waiting to see that six-day rule scrapped. I understand, of course, that the animal health and welfare framework outlines the need to move on this at last, but I don't think it's acceptable that it will have taken almost five years for that to happen. That hampers the viability of farm businesses. We know of farmers who don't take livestock to some markets because of the risk that they will have to take them back, and therefore bring their farm to a standstill. We also know of farmers who are forced, very often, to accept lower prices for their livestock for the very same reason.

Mae yna welliant hefyd, wrth gwrs, sy'n cyfeirio at y taliadau sylfaenol. Problemau llif arian, fel yr wyf wedi sôn, yw yn un o ffactorau critigol y diwydiant ar hyn o bryd, ac mae gan hynny oblygiadau i'r economi wledig ehangach, wrth gwrs. Fel yr oeddwn yn sôn, mae contractwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, ac yn y blaen, i gyd yn teimlo'r effaith oherwydd y diffyg pres yn cylchdroi o fewn yr economi wledig. Mae hi'n siomedig bod y Llywodraeth wedi cadarnhau na fydd hi mewn sefyllfa i fanteisio ar yr hyblygrwydd sy'n dod o gyfeiriad y Comisiwn Ewropeaidd i wneud hyd at 70 y cant o daliadau uniongyrchol i ffermwyr o 16 Hydref ymlaen—sef, wrth gwrs, diwedd yr wythnos hon. Un o fanteision symud i drefniant taliad 'flat rate', wrth gwrs—

There is an amendment also, of course, that refers to the basic payment. Cash flow problems, as I've already mentioned, is one of the critical factors within the industry at present, and that has implications for the wider rural economy, of course. As I mentioned, contractors, wholesalers, retailers, and so on, are all feeling the impact of this because of the lack of cash flow within the rural economy. It is disappointing that the Government has confirmed that it will not be in a position to take advantage of the flexibility from the European Commission to make up to 70 per cent of direct payments to farmers from 16 October onwards—which, of course, is the end of this week. One of the advantages of moving to a flat-rate arrangement, of course—

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Please conclude.

17:02

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Yn parhau.]—oedd mai hwnnw fyddai hawsaf i'w weinyddu a'i weithredu. Felly, mae'r ffaith nad yw'r Llywodraeth yn gallu gwneud hynny yn hynod o siomedig.

[Continues.]—was that that would be the easiest to administrate and implement. Therefore, the fact that the Government isn't able to do that is very disappointing indeed.

17:02

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Conservatives are proud, actually, to hold the Welsh Government to account and to scrutinise and debate and discuss, standing up for our rural communities and, indeed, our farmers. Today's debate is relevant to many here in Wales, with over a third of our population living in the 85 per cent of our country that is considered rural Wales. With a rural economy worth over £13 billion, it simply isn't an option—. It is essential that the Welsh Government reaches out more to engage, consult and actually take real, meaningful action to support this vital industry. Last year, the Welsh agricultural economy saw a 15 per cent increase in GVA, yet the Welsh Labour Government has cut the rural affairs budget by 18 per cent to agriculture and food. With the average farm income forecast to fall by £7,000 to £22,000 a year, it is vital that our farmers are adequately supported.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn falch, mewn gwirionedd, i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac i graffu a dadlau a thrafod, gan sefyll dros ein cymunedau gwledig ac yn wir, ein ffermwyr. Mae'r ddadl heddiw yn berthnasol i lawer yma yng Nghymru, gyda thros draean o'n poblogaeth yn byw yn yr 85 y cant o'n gwlad sy'n cael ei ystyried yn gefn gwlad Cymru. Gydag economi wledig sy'n werth dros £13 biliwn, nid yw'n opsiwn o gwbl—. Mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn estyn allan mwy er mwyn ymgysylltu ac ymgynghori a'i bod mewn gwirionedd yn cymryd camau ystyrlon go iawn i gefnogi'r diwydiant hollbwysig hwn. Y llynedd, gwelwyd cynnydd o 15 y cant yng ngwerth ychwanegol gros economi amaethyddol Cymru, ac eto mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi torri 18 y cant oddi ar amaethyddiaeth a bwyd yn y gyllideb materion gwledig. Gyda rhagolwg y bydd incwm cyfartalog ffermydd yn gostwng £7,000 i £22,000 y flwyddyn, mae'n hanfodol fod ein ffermwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol.

The slashing of the EU pillar 1 payments by Labour means 15 per cent less direct funding for our farmers. It does beg the question why the previous Minister, obviously supported by members of the Cabinet now, actually made such a fundamentally damaging decision that would impact so negatively upon our farmers. I would like to ask the Minister, or Deputy Minister, here today to give some indication of what is going to happen now with the forthcoming co-financing commitment. NFU Cymru have called for the RDP to be given clear farmer benefit and direct receipt of funds. Minister, how are you ensuring higher levels of participation and uptake for the RDP, and how is the RDP monitored? In some cases there have been concerns whether there's waste—where it's not getting to the areas where it's really needed. I do ask how you scrutinise and how you actually monitor and ensure that that money gets where it really needs to be. Concerns are big now over the BPS payments, and the question is: will the majority of farmers receive these in December, or just a few? Will it be rolled out consistently—[Interruption.] I am speaking. Will it be rolled out consistently, or will it just be on a piece-by-piece basis? Will the Minister be beginning an open dialogue with banks in the event of delays to payments that would badly affect our farmers' cash flows? Again, you would ask why the Welsh Government is taking a year out simply just to work out the amount of eligible land in Wales—a move labelled ridiculous by the NFU. Those are fundamental questions that need to be answered. The NFU has also called for clarity over whether the Welsh Government expects to be making agri-environment payments in Wales next month. The answer to that would be nice.

Mae torri taliadau colofn 1 yr UE gan Lafur yn golygu 15 y cant yn llai o gyllid uniongyrchol ar gyfer ein ffermwyr. Mae'n rhaid gofyn pam y gwnaeth y Gweinidog blaenorol, sy'n amlwg yn cael ei gefnogi gan aelodau'r Cabinet yn awr, benderfyniad mor sylfaenol niweidiol o'r fath a fyddai'n effeithio mor negyddol ar ein ffermwyr. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog, neu'r Dirprwy Weinidog, yma heddiw i roi rhyw syniad o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd yn awr gyda'r ymrwymiad cydariannu sydd ar ddod. Mae NFU Cymru wedi galw am i'r Cynllun Datblygu Gwledig roi budd clir i ffermwyr a'u bod yn derbyn cyllid yn uniongyrchol. Weinidog, sut rydych chi'n sicrhau lefelau uwch o gyfranogiad a defnydd o'r Cynllun Datblygu Gwledig, a sut y caiff y Cynllun Datblygu Gwledig ei fonitro? Mewn rhai achosion, cafwyd pryderon ynglŷn â gwastraff—lle nad yw'n mynd i'r ardaloedd lle y mae ei angen mewn gwirionedd. Rwy'n gofyn sut rydych yn craffu ac yn monitro ac yn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd lle y mae angen iddo fod. Ceir pryderon mawr yn awr ynglŷn â thaliadau cynllun y taliad sylfaenol, a'r cwestiwn yw: a fydd y rhan fwyaf o ffermwyr yn cael y rhain ym mis Rhagfyr, neu ond ychydig ohonynt? A fydd yn cael ei gyflwyno gyda chysondeb—[Torri ar draws.] Rwy'n siarad. A fydd yn cael ei gyflwyno gyda chysondeb, neu a fydd yn cael ei wneud mewn modd tameidiog? A fydd y Gweinidog yn dechrau deialog agored gyda banciau mewn achosion o oedi i daliadau a fyddai'n effeithio'n wael ar lif arian ein ffermwyr? Unwaith eto, byddech yn gofyn pam y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd blwyddyn allan yn syml er mwyn cyfrif faint o dir cymwys a geir yng Nghymru—gweithred hurt yn ôl disgrifiad yr NFU. Mae'r rheini'n gwestiynau sylfaenol sydd angen eu hateb. Mae'r NFU hefyd wedi galw am eglurder ynglŷn ag a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddant yn gwneud taliadau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru y mis nesaf. Byddai'n braf cael ateb i hynny.

Minister, farmers are facing such severe delays to basic payments, and it is a failure on your Government in this regard. Farming is a business, and despite Labour's recent claims to be a pro-business Government, I doubt that many of our farmers here in Wales would agree with that. Communication is essential for any business, but no more so for those based in rural, often isolated, communities, and we all have many of those within our own constituencies. These are our food-producing champions, our custodians of our countryside, and, again, all impacting on our tourism industry.

Weinidog, mae ffermwyr yn wynebu'r fath oedi difrifol i daliadau sylfaenol, ac mae hyn yn fethiant ar ran eich Llywodraeth. Mae ffermio'n fusnes, ac er gwaethaf honiadau diweddar Llafur ei bod yn Llywodraeth sy'n cefnogi busnesau, rwy'n amheus y byddai llawer o'n ffermwyr yma yng Nghymru yn cytuno â hynny. Mae cyfathrebu'n hanfodol ar gyfer unrhyw fusnes, ond yn bendant felly i rai wedi'u lleoli mewn cymunedau gwledig, ynysig yn aml, ac mae gennym i gyd lawer o'r rheini yn ein hetholaethau. Dyma ein pencampwyr sy'n cynhyrchu bwyd, ceidwaid ein cefn gwlad, ac unwaith eto, mae'r cyfan yn effeithio ar ein diwydiant twristiaeth.

Most of the requirements now are to fill in everything online, yet in some areas in my own constituency, not only do they have no broadband reception, they have very poor mobile coverage. What is actually happening fundamentally to address this? We've all witnessed swathes of closures of our post offices, our banks, our shops and pubs across rural Wales, and the Welsh Labour Government have just sat by and let this happen. These closures severely affect the communities they once served. Cuts to bus operator grants are hardly a proactive move in supporting our rural communities, imposed by this Government, meaning that any access to what remaining service there is is actually impossible. Reductions to community transport services mean that many are left now with no means of accessing our health services or shops, or even of going to town in order to actually socialise like everybody else. The effects of isolation and lack of access to service can be severely detrimental to both physical and mental health, yet simply ensuring good quality regular bus or community transport can make a real difference, but you go withdrawing the grants.

Mae'r rhan fwyaf o'r gofynion yn awr yn galw am lenwi popeth ar-lein, ac eto mewn rhai ardaloedd yn fy etholaeth i, nid oes cysylltiad band eang ac mae'r cysylltiad symudol yn wael iawn. Beth sy'n digwydd yn sylfaenol i fynd i'r afael â hyn mewn gwirionedd? Rydym i gyd wedi gweld llu o'n swyddfeydd post, ein banciau, ein siopau a'n tafarnau'n cau ledled cefn gwlad Cymru, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi eistedd yn ôl a gadael i hyn ddigwydd. Mae'r cau yn effeithio'n ddifrifol ar y cymunedau yr oeddent unwaith yn eu gwasanaethu. Go brin fod toriadau i grantiau cwmnïau bysiau yn gam rhagweithiol yn y broses o gefnogi ein cymunedau gwledig, ond fe'u cyflawnwyd gan y Llywodraeth hon, sy'n golygu bod unrhyw fynediad at ba bynnag wasanaethau sy'n weddill yno mewn gwirionedd yn amhosibl. Mae cwtogi gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn golygu bod llawer o bobl yn cael eu gadael heb unrhyw fodd o gyrraedd ein gwasanaethau iechyd neu siopau bellach, neu hyd yn oed fodd o fynd i'r dref er mwyn cymdeithasu fel pawb arall. Gall effeithiau unigrwydd a diffyg mynediad at wasanaethau fod yn hynod o niweidiol i iechyd corfforol a meddyliol, ac eto gall sicrhau trafnidiaeth gymunedol neu fysiau rheolaidd o ansawdd da wneud gwahaniaeth go iawn, ond rydych chi'n tynnu'r grantiau yn ôl.

The Royal College of Midwives have criticised moves to centralise maternity services, and, again, in my constituency and across north Wales, there's a real fight back from the people who do not want their maternity services downgraded, especially where this will result in further isolation for those within our rural communities. We would create a dedicated position at the Cabinet table—

Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd wedi beirniadu camau i ganoli gwasanaethau mamolaeth, ac unwaith eto, yn fy etholaeth i ac ar draws gogledd Cymru, mae pobl yn ymladd yn ôl o ddifrif am nad ydynt eisiau i'w gwasanaethau mamolaeth gael eu hisraddio, yn enwedig lle y bydd hyn yn arwain at fwy o ynysu pobl yn ein cymunedau gwledig. Byddem yn creu swydd bwrpasol wrth fwrdd y Cabinet—

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish quickly now, please.

Gorffennwch yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

17:08

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and ensure early payments for farmers so that they can plan their finances, and we would introduce a red meat charter, include a voluntary code of practice for supermarkets to dedicate floor space to promoting Welsh lamb and beef.

[Yn parhau.]—ac yn sicrhau taliadau cynnar i ffermwyr fel y gallant gynllunio eu cyllid, a byddem yn cyflwyno siarter cig coch, yn cynnwys cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd i neilltuo arwynebedd llawr ar gyfer hybu cig oen a chig eidion o Gymru.

17:08 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Conservatives' motion is as wide open as it is gloomy, and I don't think it's particularly helpful to lump all of these issues together. For one thing, the needs of rural communities often overlap with those of urban and suburban communities, and everything in between. However, I do welcome the opportunity to debate some of the specific issues that have been raised, and I certainly support the Liberal Democrats' first amendment on bank closures. The latest in my region, as of December, will be the HSBC in Harlech. Customers' accounts are being transferred to Porthmadog, a good 10 miles away, or there's Barmouth, or Blaenau Ffestiniog, which is further away again. The fact is, in recent years, all of the major retail banks have been closing rural branches left, right and centre. HSBC alone in my region has pulled out of Llandysul, St Clears, Nefyn, Criccieth, Llandovery, St David's, Llandeilo, and I could go on, but I won't. As a business strategy, I feel that it is deeply misguided and equally unfair. It hits—and we've heard this mentioned already—shops and other businesses, and it does make life harder for people who don't have access to the internet or their own transport.

Mae cynnig y Ceidwadwyr yr un mor eang agored ag yw o ddigalon, ac nid wyf yn credu bod pentyrru'r holl faterion hyn gyda'i gilydd yn arbennig o ddefnyddiol. Yn un peth, mae anghenion cymunedau gwledig yn aml yn gorgyffwrdd â rhai cymunedau trefol a maestrefol, a phopeth yn y canol. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r cyfle i drafod rhai o'r materion penodol a godwyd, ac rwy'n sicr yn cefnogi gwelliant cyntaf y Democratiaid Rhyddfrydol ar gau banciau. Y diweddaraf yn fy rhanbarth, ym mis Rhagfyr, fydd HSBC yn Harlech. Mae cyfrifon cwsmeriaid yn cael eu trosglwyddo i Borthmadog, 10 milltir dda oddi yno, neu mae Abermaw, neu Flaenau Ffestiniog, sy'n bellach eto. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n ffaith fod pob un o'r prif fanciau adwerthu wedi bod yn cau canghennau gwledig dros y lle ym mhob man. Mae HSBC yn fy rhanbarth wedi tynnu allan o Landysul, Sanclêr, Nefyn, Cricieth, Llanymddyfri, Tŷ Ddewi, Llandeilo, a gallwn fynd ymlaen, ond nid wyf am wneud hynny. Fel strategaeth fusnes, rwy'n teimlo ei bod yn annoeth iawn ac yr un mor annheg. Mae'n taro—a chlywsom hyn eisoes—siopau a busnesau eraill, ac mae'n gwneud bywyd yn fwy anodd i bobl nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd neu eu cludiant eu hunain.

After the banking crisis and the bail-outs, you would have thought that big banks would have a greater sense of obligation to their customers, but apparently that is not the case. That is why the support the Welsh Government has given post offices in recent years has been vital. They are an anchor providing financial services to local businesses and residents, and since 2009, the post office diversification fund has helped hundreds of Welsh post offices get on a firm footing and invest for the future. Large numbers of those are in the very rural areas that are being discussed here today. While I too often receive letters informing me of yet another bank branch closure these days, I rarely receive one about a post office closure. Likewise, credit unions. Tomorrow—and this is for the Conservatives to think about—is International Credit Union Day, and like post offices, the Welsh Government has a proud record of supporting Wales's 21 credit unions. We've invested £1.9 million in those over the last three years.

Ar ôl yr argyfwng bancio a'r cymorth i achub eu crwyn, byddech wedi meddwl y byddai gan y banciau mawr fwy o ymdeimlad o ddyletswydd i'w cwsmeriaid, ond mae'n edrych yn debyg nad yw hynny'n wir. Dyna pam y mae'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i swyddfeydd post yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hanfodol. Maent yn angor sy'n darparu gwasanaethau ariannol i fusnesau a thrigolion lleol, ac ers 2009, mae'r gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post wedi helpu cannoedd o swyddfeydd post yng Nghymru i gael sylfaen gadarn a buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Mae nifer fawr o'r rheini yn yr ardaloedd gwledig iawn sy'n cael eu trafod yma heddiw. Er fy mod yn rhy aml yn cael llythyrau'n fy hysbysu fod cangen arall eto o fanc yn cau y dyddiau hyn, anaml y caf un am swyddfa bost yn cau. Yn yr un modd, undebau credyd. Yfory—a dyma rywbeth i'r Ceidwadwyr feddwl amdano—yw Diwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd, ac fel swyddfeydd post, mae gan Lywodraeth Cymru hanes balch o gefnogi 21 o undebau credyd Cymru. Rydym wedi buddsoddi £1.9 miliwn yn y rhain dros y tair blynedd diwethaf.

In terms of improving access to funding opportunities for small and medium-sized enterprises in rural Wales, the Welsh Government has said it is looking at the far-reaching recommendations of the recent feasibility study into the potential for a development bank for Wales. I, like others, very much look forward to the outcome of those considerations, Minister.

O ran gwella mynediad at gyfleoedd ariannu ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint yng nghefn gwlad Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn edrych ar argymhellion pellgyrhaeddol yr astudiaeth ddichonoldeb ddiweddar i botensial banc datblygu ar gyfer Cymru. Rwyf fi, fel eraill, yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ganlyniad yr ystyriaethau hynny, Weinidog.

I will turn briefly to broadband. I note and welcome the progress of the superfast roll-out. One of the issues that constituents have raised with me, however, is that, even when the exchange goes live, they have to wait, first for the connection box, and then for individual telegraph poles. In rural areas, that can be a slow process. In Johnston, for example, a local exchange went live for fibre in June 2014, but people are still waiting for that to happen in their households. People do naturally get frustrated when there is a gap between promise, expectation and delivery. So, Minister, if I could ask you to liaise with BT and ask them to do a much better job of telling people when they can realistically expect to get their fibre-optic connections. Nonetheless, what we mustn't underestimate here is that, if the Welsh Government hadn't invested in the way that it has in delivering superfast broadband to Wales, it wouldn't have happened anyway.

Trof yn fyr at fand eang. Rwy'n nodi ac yn croesawu'r cynnydd a wnaed ar gyflwyno'r band eang cyflym iawn. Un o'r materion y mae etholwyr wedi'u dwyn i fy sylw, fodd bynnag, yw hyd yn oed pan ddaw'r gyfnewidfa'n fyw, mae'n rhaid iddynt aros, yn gyntaf am y blwch cysylltu, ac yna am y polion telegraff unigol. Mewn ardaloedd gwledig, gall honno fod yn broses araf. Yn Johnston, er enghraifft, daeth cyfnewidfa leol yn fyw ar gyfer ffeibr ym mis Mehefin 2014, ond mae pobl yn dal i aros i hynny ddigwydd yn eu cartrefi. Yn naturiol mae pobl yn mynd yn rhwystredig pan fo bwlch rhwng addewid, disgwyliad a chyflawniad. Felly, Weinidog, os caf ofyn i chi gysylltu â BT a gofyn iddynt wneud gwaith llawer gwell o ddweud wrth bobl pryd y gallant ddisgwyl cael eu cysylltiadau ffeibr optig mewn gwirionedd. Serch hynny, yr hyn y mae'n rhaid i ni beidio â'i ddiystyru yma yw, pe na bai Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn y ffordd y mae wedi gwneud ar gyflwyno band eang cyflym iawn i Gymru, ni fyddai wedi digwydd beth bynnag.

17:12 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to participate in the debate today. I make a declaration that I'm a partner in an agricultural business that falls under the common agricultural policy scheme rules.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl heddiw. Rwy'n gwneud datganiad fy mod yn bartner mewn busnes amaethyddol sy'n dod o dan reolau cynllun y polisi amaethyddol cyffredin.

The rural economy and rural Wales are a huge engine and driver for economic growth. The potential that is out there is evident to anyone who drives the length and breadth of Wales—east, west, north, south. What we do have, though, are successive Labour Ministers and Labour Governments who do turn a deaf ear because they don't see it as politically important. I think that was evidenced by the budget. We all appreciate there are fewer resources to go around with the Welsh Government, and that's an accepted argument. [Interruption.] Well, you know, we can argue about that, but the point is that in one financial year the Government chose to take 17 per cent out of the rural affairs budget here. That, in fairness, really is a damning indictment of the priorities of the Welsh Government. I do owe an apology to Plaid Cymru in that I did say to Llyr that his party stood aside at the last budget round; obviously you didn't, it was the Lib Dems who allowed that budget to pass, which inflicted a 17 per cent cut in the rural affairs budget.

Mae'r economi wledig a Chymru wledig yn beiriant enfawr ac yn ysgogiad i dwf economaidd. Mae'r potensial sydd i'w gael yn amlwg i unrhyw un sy'n gyrru ar hyd a lled Cymru —dwyrain, gorllewin, gogledd, de. Yr hyn sydd gennym, fodd bynnag, yw Llywodraethau Llafur a Gweinidogion Llafur olynol sy'n troi clust fyddar am nad ydynt yn ei weld yn bwysig yn wleidyddol. Credaf fod y gyllideb yn dystiolaeth o hynny. Rydym i gyd yn sylweddoli bod llai o adnoddau gan Lywodraeth Cymru i'w rhannu, ac mae honno'n ddadl sy'n cael ei derbyn. [Torri ar draws.] Wel, wyddoch chi, gallwn ddadlau am hynny, ond y pwynt yw bod y Llywodraeth, mewn un flwyddyn ariannol, wedi dewis tynnu 17 y cant allan o'r gyllideb materion gwledig yma. A bod yn deg, mae honno'n feirniadaeth wirioneddol ddamniol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae arnaf ymddiheuriad i Blaid Cymru gan i mi ddweud wrth Llyr fod ei blaid wedi camu'r naill ochr yn y cylch cyllidebol diwethaf; ni wnaethoch hynny, wrth gwrs, y Democratiaid Rhyddfrydol a ganiataodd i'r gyllideb honno i basio, gan beri toriad o 17 y cant i'r gyllideb materion gwledig.

But what we've got to be reflecting on is the other measures that this Government have shown. The 15 per cent modulation rate that they've set for farmers across Wales, when you compare to the Republic of Ireland, when you compare to Northern Ireland, and many other parts of Europe that are direct competitors of land-based businesses here in Wales, really does put a lead weight around the necks of those businesses. It is perfectly at the discretion of the Welsh Government to set that modulation rate. But I do ask: how do you maintain that you can have a competitive agricultural industry that can then support the processing sector that turns the food into the commodities the consumer buys, which ultimately drives wealth within the countryside, because all that money is spent back in communities the length and breadth of Wales, in engineers, butchers, bakers and candlestick makers? It is spent by the farmers in those communities supporting them. So, the negative actions and the wrong choices that have been taken are now going to be exacerbated by the Minister's refusal to give any firm commitment as to exactly when she will be making clear payments to farmers under the new payment scheme. I hope that she will use the opportunity today to be very clear when she will be making those payments and what percentage of those payments will arrive with farmers when the window opens in December.

Ond yr hyn y mae'n rhaid i ni fyfyrio arno yw'r mesurau eraill y mae'r Llywodraeth hon wedi'u dangos. Mae'r gyfradd fodiwleiddio o 15 y cant a osodwyd ganddynt ar gyfer ffermwyr ar draws Cymru, pan gymharwch â Gweriniaeth Iwerddon, pan gymharwch â Gogledd Iwerddon, a sawl rhan arall o Ewrop sy'n cystadlu'n uniongyrchol â busnesau'r tir yma yng Nghymru, yn rhoi pwysau plwm am yddfau'r busnesau hynny. Gall Llywodraeth Cymru osod y gyfradd fodiwleiddio yn ôl ei disgresiwn yn llwyr. Ond rwy'n gofyn: sut rydych chi'n addef y gallwch gael diwydiant amaeth cystadleuol sydd wedyn yn gallu cefnogi'r sector prosesu sy'n troi'r bwyd yn nwyddau i'r defnyddiwr eu prynu, ac yn y pen draw yn ysgogi cyfoeth yng nghefn gwlad, wrth i'r holl arian hwnnw gael ei wario'n ôl mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru ar beirianwyr, cigyddion, pobyddion a gwneuthurwyr canwyllbrenni? Mae'n cael ei wario gan y ffermwyr yn y cymunedau sy'n eu cefnogi. Felly, mae'r camau gweithredu negyddol a'r dewisiadau anghywir sydd wedi'u gwneud yn awr yn mynd i gael eu gwaethygu gan wrthodiad y Gweinidog i roi unrhyw ymrwymiad pendant ynglŷn â pha bryd yn union y bydd yn gwneud taliadau clir i ffermwyr o dan y cynllun talu newydd. Rwy'n gobeithio y bydd yn defnyddio'r cyfle heddiw i fod yn glir iawn ynghylch pa bryd y bydd yn gwneud y taliadau hynny a pha ganran o'r taliadau fydd yn cyrraedd ffermwyr pan fydd y cyfnod talu yn agor ym mis Rhagfyr.

I do find it a little bit rich for the Member for Mid and West Wales on the Government benches to be talking about reading letters time and again about bank closures, when local services are being pulled out of Withybush hospital and other health provisions the length and breadth of her region and she fails to stand up to protect those services, which are as important as the important public service that banks do provide. There is an obligation on banks to maintain their network, especially in rural areas. I do welcome the comments from the Member for mid Wales on the Liberal benches, because it is all well and good people throwing aspersions around this Chamber, but, ultimately, under successive Governments of all colours, this has been the perennial challenge about how to keep key services open in rural locations.

Rwy'n teimlo bod tipyn o wyneb gan yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru ar feinciau'r Llywodraeth i siarad am ddarllen llythyrau dro ar ôl tro am gau banciau, pan fydd gwasanaethau lleol yn cael eu tynnu o ysbyty Llwynhelyg a darpariaethau iechyd eraill ar hyd a lled ei rhanbarth a'i bod yn methu â sefyll dros ddiogelu'r gwasanaethau hynny, sydd yr un mor bwysig â'r gwasanaeth cyhoeddus pwysig y mae banciau yn ei ddarparu. Mae rhwymedigaeth ar fanciau i gynnal eu rhwydwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rwy'n croesawu'r sylwadau gan yr Aelod dros ganolbarth Cymru ar feinciau'r Rhyddfrydwyr, gan ei bod yn hawdd i bobl daflu ensyniadau o amgylch y Siambr hon, ond yn y pen draw, o dan Lywodraethau olynol o bob lliw, dyma'r her barhaol o ran sut i gadw gwasanaethau allweddol ar agor mewn lleoliadau gwledig.

There is a need to look at how we can co-locate services. There is a need of what role, if any, the public sector has in supporting those services and ultimately making sure that there are genuine choices for businesses and individuals to access those services. But, what is vital is that there is an economic footprint within the countryside of Wales that offers opportunity for young people to stay within the countryside and ultimately either go into the business of their choice or be taken on by businesses that are already located there. What is vital is that the broadband roll-out that is happening across Wales, thanks to UK Government participation and also Welsh Government participation, actually gets its foot on the floor and delivers across the length and breadth of Wales, so that people can be genuinely competitive.

Mae angen edrych ar sut y gallwn gydleoli gwasanaethau. Mae angen gwybod pa rôl, os o gwbl, sydd gan y sector cyhoeddus o ran cefnogi'r gwasanaethau hynny a gwneud yn siŵr yn y pen draw fod yna ddewisiadau go iawn i fusnesau ac unigolion gael mynediad at y gwasanaethau hynny. Ond yr hyn sy'n hanfodol yw bod yna ôl troed economaidd yng nghefn gwlad Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc aros yng nghefn gwlad ac yn y pen draw, naill ai fynd i mewn i fusnes o'u dewis neu gael eu cyflogi gan fusnesau sydd eisoes wedi'u lleoli yno. Yr hyn sy'n hanfodol yw bod y band eang sy'n cael ei gyflwyno ar draws Cymru, diolch i ymwneud Llywodraeth y DU ac ymwneud Llywodraeth Cymru hefyd, yn cael ei droed ar lawr ac yn cyflawni ar hyd a lled Cymru, fel y gall pobl fod yn gystadleuol go iawn.

Only today, figures for the tourism industry indicate a huge decline in day trips into Wales. That is a real issue, because many of the times that those day trips are undertaken happen—[Interruption.] I'll gladly take the intervention from the Minister if he wishes to intervene. Many of those day trips are undertaken in the countryside at attractions that are located there, and have a very small window to capitalise on the tourist pound that is spent within that area. The internet is a vital source for those businesses to promote their wares as an instant opportunity for a family to jump in a car and be there within two, two and a half or three hours. So, it is vital that a clear plan of roll-out, delivery and access to broadband the length of Wales is adopted by the Welsh Government. I look forward to hearing what the Deputy Minister has to say in particular around the payment opportunities that she will be making available to farmers under the rural development scheme and also the basic payment scheme.

Heddiw ddiwethaf, mae'r ffigurau ar gyfer y diwydiant twristiaeth yn dangos gostyngiad enfawr mewn teithiau dydd i mewn i Gymru. Mae honno'n broblem go iawn, gan fod llawer o'r troeon y bydd y tripiau dydd o'r fath yn digwydd—[Torri ar draws.] Rwy'n falch o gymryd ymyriad gan y Gweinidog os yw'n dymuno ymyrryd. Mae llawer o'r teithiau dydd hynny'n dod i gefn gwlad i atyniadau sydd wedi'u lleoli yno, ac mae ganddynt amser byr iawn i fanteisio ar y bunt dwristaidd a werir yn yr ardal honno. Mae'r rhyngrwyd yn ffynhonnell hanfodol i'r busnesau hyn hyrwyddo eu nwyddau fel cyfle yn y fan a'r lle i deulu neidio i mewn i'r car a bod yno o fewn dwy, dwy a hanner neu dair awr. Felly, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu cynllun clir ar gyfer cyflwyno, darparu a sicrhau mynediad at fand eang drwy Gymru. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan y Dirprwy Weinidog i'w ddweud yn benodol am y cyfleoedd talu y mae am sicrhau eu bod ar gael i ffermwyr o dan y cynllun datblygu gwledig, a chynllun y taliad sylfaenol hefyd.

17:18

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In view of the Plaid amendment to the motion, I declare an interest, as my husband is a partner in a farming and tourism business that operates under the common agricultural policy. I also declare an interest as my children have attended a rural school and I will be referring to their experience later.

O ystyried gwelliant Plaid Cymru i'r cynnig, rwy'n datgan buddiant, gan fod fy ngŵr yn bartner mewn busnes ffermio a thwristiaeth sy'n gweithredu o dan y polisi amaethyddol cyffredin. Rwyf hefyd yn datgan buddiant gan fod fy mhlant wedi mynychu ysgol wledig a byddaf yn cyfeirio at eu profiad yn nes ymlaen.

I'd like to start with support for tourism, though—particularly food tourism and country sports. I know there are differences of opinion about country sports across this Chamber, but can we consider whether that prejudice or that principle of conviction, whichever it is, might be limiting a greater opportunity for the Welsh economy? I'm not talking about hunting, I'm talking about the £75 million that angling brings into the economy—money that could be coming into old industrial areas like the Afan valley in my region, a valley that has been trying so hard to improve its tourism offer, which has the Glyncorrwg ponds and its own strong angling community.

Hoffwn ddechrau gyda chefnogaeth i dwristiaeth, ond—yn enwedig twristiaeth bwyd a chwaraeon gwledig. Rwy'n gwybod bod gwahaniaeth barn ar chwaraeon gwledig ar draws y Siambr hon, ond a gawn ni ystyried a allai'r rhagfarn neu'r argyhoeddiad egwyddorol hwnnw, pa un bynnag ydyw, fod yn cyfyngu ar gyfle gwell i economi Cymru? Nid wyf yn sôn am hela, rwy'n sôn am y £75 miliwn y mae genweirio yn ei ddwyn i mewn i'r economi—arian a allai fod yn dod i hen ardaloedd diwydiannol megis cwm Afan yn fy rhanbarth i, dyffryn sydd wedi bod yn ymdrechu mor galed i wella ei gynnig twristiaeth, sydd â phyllau Glyncorrwg a'i chymuned enweirio gref ei hun.

Yes, you can get some helpful information about where to fish from the Visit Wales website. And, you can get information about some of our food festivals from that site. But, when was the last time that Wales's combined offer from rod to plate, the leisure and the dining, was the focus of a Visit Wales campaign to promote Wales to niche markets at home or more broadly to the emerging markets, with possibly the help of VisitBritain?

Yn wir, gallwch gael gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â ble i bysgota oddi ar wefan Croeso Cymru. A gallwch gael gwybodaeth am rai o'n gwyliau bwyd o'r un wefan. Ond pa bryd oedd y tro diwethaf i gynnig cyfunol o'r wialen i'r plât yng Nghymru, yr hamdden a'r bwyta, fod yn ffocws i ymgyrch Croeso Cymru i hyrwyddo Cymru i farchnadoedd arbenigol yn y wlad hon neu'n fwy cyffredinol i farchnadoedd sy'n datblygu, gyda chymorth VisitBritain o bosibl?

I can't help feeling that we're missing a trick with our game offer too. Every pheasant shot out of the sky and every deer culled on land managed by Natural Resources Wales should be making it to the kitchens of our hotels and restaurants as part of the Wales sell during the Year of Adventure: 'Come and shoot, come and eat'. Yet, instead of exploring this as a way of promoting Wales, our game birds disappear to processors across the border and, actually, I'm not sure at all what happens to our managed deer.

Nid wyf yn gallu osgoi'r teimlad ein bod yn colli cyfle gyda'n cynnig helgig hefyd. Dylai pob ffesant sy'n cael ei saethu o'r awyr a phob carw a leddir ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyrraedd ceginau ein gwestai a'n tai bwyta fel rhan o'r hyn sydd gan Gymru i'w werthu yn ystod y Flwyddyn Antur: 'Dewch i saethu, dewch i fwyta'. Eto i gyd, yn lle edrych ar hyn fel ffordd o hyrwyddo Cymru, mae ein hadar hela yn diflannu at broseswyr ar draws y ffin ac mewn gwirionedd, nid wyf yn siŵr o gwbl beth sy'n digwydd i'r ceirw cadw.

I hope I don't need to remind Members of the value of the work of our gamekeepers to conservation and biodiversity within Wales. What support is Welsh Government giving to this developing source of work, a type of rural-specific employment, which could be expanding and which could mean more jobs for young people locally, helping slow down rural depopulation? So, I urge Welsh Government to take a look at how participation in country sports can help turn a few more high-spend visitors' heads towards Wales, but I also ask it to consider how it might promote venison and other game alongside beef and lamb. They're not in competition. They add up rather gloriously, I think, to a high-quality basket of products with which Wales should be synonymous.

Gobeithio nad oes angen i mi atgoffa'r Aelodau am werth gwaith ein ciperiaid i gadwraeth a bioamrywiaeth yng Nghymru. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r ffynhonnell hon o waith sy'n datblygu, sef math o gyflogaeth sy'n benodol i gefn gwlad, a allai fod yn ehangu ac a allai olygu mwy o waith i bobl ifanc yn lleol, gan helpu i arafu diboblogi gwledig? Felly, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i edrych i weld sut y gall gymryd rhan mewn chwaraeon gwledig helpu i droi pennau ychydig yn rhagor o ymwelwyr sy'n gwario mwy tuag at Gymru, ond rwyf hefyd yn gofyn iddi ystyried sut y gallai hybu cig carw a mathau eraill o helgig ochr yn ochr â chig eidion a chig oen. Nid ydynt yn cystadlu â'i gilydd. Maent yn ychwanegu'n ogoneddus, rwy'n meddwl, at fasged o gynnyrch o ansawdd uchel a ddylai fod yn gyfystyr â Chymru.

Helping children understand about food through our education system is a subject that has come up in the Chamber before, but I would be curious, Deputy Minister, to know what oversight Welsh Government has over materials used in schools. I was particularly disturbed to see a video shown to 14-year-olds in schools in Bridgend, in my region, last month, promoting the virtues of vegetarianism. I've no problem with that at all, but I would be grateful if you would watch the film for food technology GCSE, made by teachvegetarian.com, to decide whether you believe that this particular resource presents a fair portrayal of farmers, especially as viewers may form unhelpful and unsupportive conclusions about farming practice in Wales as a result.

Mae helpu plant i ddeall am fwyd drwy ein system addysg yn bwnc sydd wedi codi yn y Siambr o'r blaen, ond byddwn yn chwilfrydig, Ddirprwy Weinidog, i wybod pa oruchwyliaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros ddeunyddiau a ddefnyddir mewn ysgolion. Roeddwn yn arbennig o bryderus i weld fideo a ddangosir i rai 14 oed mewn ysgolion yn fy ardal i ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y mis diwethaf, yn hyrwyddo rhinweddau llysieuaeth. Nid oes gennyf broblem gyda hynny o gwbl, ond byddwn yn ddiolchgar i chi am wylio'r ffilm ar gyfer TGAU technoleg bwyd, a wnaed gan teachvegetarian.com, i benderfynu a ydych yn credu bod yr adnodd penodol hwn yn portreadu ffermwyr yn deg, yn enwedig gan y gallai'r gwylwyr ffurfio casgliadau di-fudd ac anghefnogol am arferion ffermio yng Nghymru o ganlyniad.

I'll just finish on education and support for rural schools. Yes, there is a point at which surplus places are wasteful, but there is also a point beyond which school closures based on surplus places threaten coherent education. Both my children have been educated at a rural secondary school and both of them, once a week, have been involved in a 60-mile round-trip to exercise their entitlement under the 14-19 learning pathway. The prospect of rural sixth-forms closing and pupils having to make that kind of trip every day to a further education site is not support for the rural learner. Transport costs and travel time may be enough to put off the uncertain student altogether.

Gorffennaf gydag addysg a chefnogaeth i ysgolion gwledig. Oes, mae yna bwynt lle y bydd lleoedd dros ben yn wastraffus, ond mae yna bwynt hefyd lle y daw cau ysgolion yn seiliedig ar leoedd dros ben yn fygythiad i addysg gydlynol. Mae fy mhlant wedi cael eu haddysgu mewn ysgol uwchradd wledig ac mae'r ddau ohonynt, unwaith yr wythnos, wedi bod yn cymryd rhan mewn taith 60 milltir i gyd i arfer eu hawl o dan y llwybr dysgu 14-19. Nid yw'r posibilrwydd o chweched dosbarth ysgolion gwledig yn cau, gan orfodi disgyblion i wneud taith o'r fath bob dydd i safle addysg bellach, yn gefnogaeth i ddysgwyr gwledig. Gall costau ac amser teithio fod yn ddigon i atal myfyriwr ansicr yn gyfan gwbl.

Rural areas, by and large, are excluded from convergence funding and all the support that goes into areas identified as having multiple deprivation. So, young people in rural areas don't necessarily have that second chance to catch up with education as an adult, including with basic skills, because programmes aren't accessible in areas with no public transport, or because low population density makes providing a programme unviable due to numbers. That disadvantage inevitably leads to poorer opportunities for better paid work and finance to find an affordable home, and contributes to a disproportionately older population as young people then leave. I see no Government strategy, no rural strategy, addressing that particular challenge. Thank you.

Mae ardaloedd gwledig, ar y cyfan, yn cael eu heithrio o gyllid cydgyfeirio a'r holl gymorth sy'n mynd i ardaloedd y nodwyd bod ganddynt amddifadedd lluosog. Felly, nid yw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig o reidrwydd yn cael ail gyfle i ddal i fyny â'u haddysg fel oedolion, gan gynnwys addysg sgiliau sylfaenol, gan nad yw'r rhaglenni'n hygyrch mewn ardaloedd heb drafnidiaeth gyhoeddus, neu am fod dwysedd poblogaeth isel yn ei gwneud yn anymarferol i gynnig rhaglen oherwydd y niferoedd. Mae anfantais o'r fath yn arwain yn anochel at lai o gyfleoedd gwaith sy'n talu'n well ac arian i ddod o hyd i gartref fforddiadwy, ac yn cyfrannu wedyn at boblogaeth â lefel anghymesur o bobl hŷn wrth i'r bobl ifanc adael. Ni welaf unrhyw strategaeth gan y Llywodraeth, unrhyw strategaeth wledig, sy'n mynd i'r afael â'r her arbennig honno. Diolch.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans.

17:23 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

The socioeconomic wellbeing of rural Wales is inextricably linked to the performance of the Welsh economy, which in turn is heavily influenced by the UK Government's policies and by the state of the global economy. However, as I've made clear in previous debates on this subject, we're determined to use all of the levers at our disposal to support and strengthen the foundations that underpin the economic viability of rural Wales. We want to ensure that rural communities remain vibrant, are able to offer people an excellent quality of life, with public services sustained by reliable and effective infrastructure.

Mae lles economaidd-gymdeithasol y Gymru wledig yn rhan annatod o berfformiad economi Cymru, y dylanwedir arni'n drwm yn ei thro gan bolisïau Llywodraeth y DU a chan gyflwr yr economi fyd-eang. Fodd bynnag, fel rwyf wedi'i wneud yn glir mewn dadleuon blaenorol ar y pwnc, rydym yn benderfynol o ddefnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i ni i gefnogi a chryfhau'r sylfeini sy'n sail i hyfywedd economaidd y Gymru wledig. Rydym am sicrhau bod cymunedau gwledig yn parhau i ffynnu, yn gallu cynnig ansawdd bywyd ardderchog i bobl, gyda seilwaith cadarn, dibynadwy ac effeithiol yn cynnal gwasanaethau cyhoeddus.

In terms of the amendments proposed, banking is a matter for the UK Government and, ultimately, decisions on bank closures are commercial matters for the banks. However, I fully recognise the picture painted by William Powell and, as Ministers in a pro-business Government, we meet regularly with senior representatives of the main banks, pressing them for better access to finance for business and to give full consideration to the effects on communities of branch closures. Where possible, we also want to help mitigate any adverse impacts of branch closures and we have put measures in place. For example, one of the main reasons the Welsh Government has provided support for local post offices throughout Wales is because of the social role that they play in the communities they serve and the range of banking and financial services that they provide. The post office development and post office diversification funds provided over £10 million in capital grants to Welsh post offices between 2002 and 2015. Over half of post offices benefited from these grants, aimed at improving the retail side of post office businesses and so improving the overall sustainability of those post offices.

O ran y gwelliannau a gynigiwyd, mae bancio yn fater i Lywodraeth y DU ac yn y pen draw, materion masnachol i'r banciau yw penderfyniadau'n ymwneud â chau. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod yn llwyr y darlun a baentiwyd gan William Powell ac fel Gweinidogion mewn Llywodraeth sy'n cefnogi busnesau, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch gynrychiolwyr y prif fanciau, gan bwyso am well mynediad at gyllid i fusnesau a rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau cau cangen ar gymunedau. Lle y bo'n bosibl, rydym hefyd eisiau helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol yn sgil cau canghennau ac rydym wedi rhoi mesurau ar waith. Er enghraifft, un o'r prif resymau y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i swyddfeydd post lleol ledled Cymru yw oherwydd y rôl gymdeithasol y maent yn ei chwarae yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt a'r amrywiaeth o wasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol a ddarperir ganddynt. Darparodd cronfeydd datblygu swyddfeydd post ac arallgyfeirio swyddfeydd post dros £10 miliwn mewn grantiau cyfalaf i swyddfeydd post yng Nghymru rhwng 2002 a 2015. Elwodd dros hanner y swyddfeydd post o'r grantiau hyn, sy'n anelu i wella ochr fanwerthu busnesau swyddfeydd post a gwella cynaliadwyedd cyffredinol y swyddfeydd post hynny.

The residents of our rural communities need ready access to the range of shopping and other facilities provided by our small market towns. We have supported four rural local authorities with a £5 million loan scheme. Ceredigion, Powys, Pembrokeshire and Monmouthshire have been awarded £1.25 million each to help in bringing empty buildings and sites back into use. And we're also supporting 20 partnerships across Wales with up to £50,000 each in funding to support activities that bring investment and footfall to some of our important market towns supporting their rural hinterland.

Mae trigolion ein cymunedau gwledig angen mynediad parod at yr amrywiaeth o siopau a chyfleusterau eraill a ddarperir gan ein trefi marchnad bach. Rydym wedi cefnogi pedwar awdurdod lleol gwledig â chynllun benthyciad o £5 miliwn. Mae Ceredigion, Powys, Sir Benfro a Sir Fynwy wedi derbyn £1.25 miliwn yr un i helpu i ddod ag adeiladau a safleoedd gwag yn ôl i ddefnydd. Ac rydym hefyd yn cefnogi 20 o bartneriaethau ledled Cymru gyda hyd at £50,000 yr un mewn cyllid i gefnogi gweithgareddau sy'n dod â buddsoddiad a phobl i mewn i rai o'n trefi marchnad pwysig sy'n cefnogi eu cefnwlad wledig.

Our measures to support businesses in meeting their non-domestic rates liability are also directly benefiting rural communities. This includes reducing the annual increase in rates bills by capping the multiplier at 2 per cent in both 2014-15 and 2015-16, and providing a range of relief schemes.

Hefyd, mae ein mesurau i gynorthwyo busnesau i dalu eu hardrethi annomestig o fudd uniongyrchol i gymunedau gwledig. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r cynnydd blynyddol yn y biliau ardrethi drwy gapio'r lluosydd ar 2 y cant yn 2014-15 a 2015-16, a darparu ystod o gynlluniau rhyddhad.

Of course, digital technology, as we've heard, is just as important to businesses to help them tap into new markets. By the end of September, the Superfast Cymru project had provided fast broadband to over 500,000 premises, with rural areas within Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf over 90 per cent complete, and Gwynedd and Anglesey around 70 per cent complete. Almost 80 per cent of homes and businesses in rural Wales now have access to fast broadband, and that puts Wales ahead of the EU average and ahead of France and Italy.

Wrth gwrs, fel y clywsom, mae technoleg ddigidol yr un mor bwysig i fusnesau i'w helpu i fanteisio ar farchnadoedd newydd. Erbyn diwedd mis Medi, roedd prosiect Cyflymu Cymru wedi darparu band eang cyflym i dros 500,000 o adeiladau, gyda thros 90 y cant o'r gwaith yn gyflawn mewn ardaloedd gwledig ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, a thua 70 y cant o'r gwaith yn gyflawn yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae bron i 80 y cant o gartrefi a busnesau yng Nghymru wledig yn awr â mynediad at y band eang cyflym, ac mae hynny'n gosod Cymru yn uwch na chyfartaledd yr UE ac yn uwch na Ffrainc a'r Eidal.

Elsewhere, tourism is making an increasingly important contribution to the rural economy. Spending by tourists helps to support many rural businesses, ranging from garages to post offices and shops, which would not be viable if they just had to rely on the residential population. Our tourism strategy and action plan already supports this by encouraging a partnership approach at a local level, ensuring that development is managed with an eye to the long-term sustainability. The launch of the Year of Adventure in 2016, showcasing our fantastic landscape and environment, will bring further economic benefit to Wales.

Mewn mannau eraill, mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig i'r economi wledig. Mae gwariant twristiaid yn helpu i gefnogi llawer o fusnesau gwledig, yn amrywio o garejys i swyddfeydd post a siopau, na fyddai'n hyfyw pe bai'n rhaid iddynt ddibynnu ar y boblogaeth breswyl yn unig. Mae ein strategaeth a'n cynllun gweithredu ar gyfer twristiaeth eisoes yn cefnogi hyn drwy annog dull partneriaeth ar lefel leol, gan sicrhau bod datblygiad yn cael ei reoli gan gadw llygad ar gynaliadwyedd hirdymor. Bydd lansio'r Flwyddyn Antur yn 2016, i arddangos ein tirwedd a'n hamgylchedd gwych, yn dod â budd economaidd pellach i Gymru.

Food is also an essential part of Wales's tourism offer, and we have some of the world's best producers and world-class chefs. High-quality local ingredients, distinctive food and drink and interest in places to eat are increasingly important to our visitors. And earlier this year, I was pleased to launch, alongside the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, our food tourism action plan to help visitors to Wales discover our world-class food and drink.

Mae bwyd yn hefyd yn rhan hanfodol o gynnig twristiaeth Cymru, ac mae gennym rai o gynhyrchwyr gorau'r byd a phen-cogyddion o safon fyd-eang. Mae cynhwysion lleol o safon uchel, bwyd a diod arbennig a diddordeb mewn llefydd i fwyta yn gynyddol bwysig i'n hymwelwyr. Ac yn gynharach eleni, roeddwn yn falch o lansio, gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, ein cynllun gweithredu twristiaeth bwyd er mwyn helpu pobl sy'n ymweld â Chymru i ddarganfod ein bwyd a'n diod o safon fyd-eang.

Moreover, our Welsh Government rural communities—rural development programme will support a broad range of individuals, businesses, organisations and communities, including farms and farmers. It has agriculture at its heart, with certain elements that only farmers and land managers can access, such as the sustainable production grant, Farming Connect, the farm advisory service and all of Glastir. And, in fact, only farmers and land owners are able to apply for around 70 per cent of the rural development programme, and they can actually apply for much of the remainder too, and that is a lot more than 15 per cent.

Ar ben hynny, bydd rhaglen datblygu gwledig Llywodraeth Cymru yn cefnogi ystod eang o unigolion, busnesau, sefydliadau a chymunedau, gan gynnwys ffermydd a ffermwyr. Mae amaethyddiaeth yn ganolog i'r rhaglen, gyda rhai elfennau na fydd ond yn bosibl i ffermwyr a rheolwyr tir fanteisio arnynt, megis y grant cynhyrchu cynaliadwy, Cyswllt Ffermio, y gwasanaeth cynghori ffermwyr a Glastir i gyd. Ac mewn gwirionedd, ffermwyr a pherchnogion tir yn unig sy'n cael gwneud cais am oddeutu 70 y cant o'r rhaglen datblygu gwledig, a gallant wneud cais am lawer o'r gweddill hefyd, ac mae hynny'n llawer mwy na 15 y cant.

Our ambition is to achieve transformational change across the agriculture industry, making investments strategically of a size that have a real impact. The sustainable production grant is therefore a strategic investment fund that will target both the economic viability and the environmental performance of farms. Improving these go hand in hand, and it's not a choice of doing one over the other.

Ein huchelgais yw sicrhau newid trawsnewidiol ar draws y diwydiant amaeth, gan wneud buddsoddiadau strategol o faint sy'n sicrhau effaith wirioneddol. Felly, mae'r grant cynhyrchu cynaliadwy yn gronfa buddsoddi strategol a fydd yn targedu hyfywedd economaidd a pherfformiad amgylcheddol ffermydd. Mae gwella'r rhain yn mynd law yn llaw â'i gilydd, ac nid yw'n ddewis o wneud un yn lle'r llall.

The RDP will boost our rural economy by providing avenues of funding, such as better access to rural childcare, community energy creation and better land management. And that's just one reason why withdrawal from the EU and the impact that this would undoubtedly have in respect of the CAP would be catastrophic for Welsh agriculture, and for our rural communities.

Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn rhoi hwb i'n heconomi wledig drwy ddarparu ffynonellau cyllid, megis gwell mynediad at ofal plant mewn ardaloedd gwledig, creu ynni cymunedol a rheoli tir yn well. A dyna un rheswm yn unig pam y byddai dod allan o'r UE ac effaith hynny'n sicr o ran y PAC, yn drychinebus i amaethyddiaeth yng Nghymru, ac i'n cymunedau gwledig.

I was also pleased to announce recently that Welsh dairy farmers are to receive a one-off EU aid payment to help with their cash flow problems. And the fact that this is an EU payment reflects the EU-wide nature of the challenges that the dairy industry faces. Payments will be based on how much milk they produced in 2014-15, with an average payment of £1,800 per farm. And that support is in recognition of the prolonged period of significant financial difficulty our dairy farmers have found themselves in. We hope to make this payment quickly, and I hope it will offer some relief with the cash flow issues.

Roeddwn hefyd yn falch o gyhoeddi yn ddiweddar fod ffermwyr llaeth Cymru yn mynd i gael un taliad cymorth gan yr UE i helpu gyda'u problemau llif arian. Ac mae'r ffaith fod hwn yn daliad gan yr UE yn adlewyrchu natur UE gyfan yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant llaeth. Bydd y taliadau'n seiliedig ar faint o laeth a gynhyrchwyd ganddynt yn 2014-15, gyda thaliad cyfartalog o £1,800 y fferm. Ac mae'r cymorth hwnnw'n cydnabod y cyfnod hir o anhawster ariannol sylweddol y mae ein ffermwyr llaeth wedi bod drwyddo. Rydym yn gobeithio gwneud y taliad hwn yn gyflym, ac rwy'n gobeithio y bydd yn cynnig rhywfaint o ryddhad gyda materion llif arian.

And consistent with expectations of what will be happening elsewhere across the UK, our aim is to make BPS part payments as early as possible in the EU payment window. Our current assessment is that we expect the majority of part payments to be made during December, with the remainder made early in 2016. And part payments will be in the region of 70 to 80 per cent of an individual farmer's payment, and I've said that many times now, so I hope that Members have listened and will understand that, because I do seem to be repeating this point over and over again in response to calls for clarity.

Ac i gyd-fynd â disgwyliadau o'r hyn a fydd yn digwydd mewn mannau eraill ar draws y DU, ein nod yw gwneud rhandaliadau cynllun y taliad sylfaenol mor gynnar â phosibl yn ystod cyfnod talu'r UE. Ein hasesiad ar hyn o bryd yw ein bod yn disgwyl y caiff y rhan fwyaf o'r rhandaliadau eu gwneud yn ystod mis Rhagfyr, gyda'r gweddill yn gynnar yn 2016. A bydd y rhandaliadau oddeutu 70 i 80 y cant o daliad ffermwr unigol, ac rwyf wedi dweud hynny droeon erbyn hyn, felly rwy'n gobeithio bod yr Aelodau wedi gwrando ac yn deall hynny, oherwydd rwy'n teimlo fy mod yn ailadrodd y pwynt hwn drosodd a throsodd mewn ymateb i alwadau am eglurder.

Finally, on the calls for early scrapping of the six-day standstill rule, the six-day standstill restriction on moving animals remains an essential feature of movement controls, and it is a key measure for the protection of Welsh livestock from disease. Nothing will create more difficulty for trade and exports than an outbreak of animal disease, and we can imagine what impact that would have on farm incomes. So, there are no current plans to reduce or remove the six-day standstill rule. However, my officials have worked with the livestock industry to consider the use of quarantine units. This will provide clarity for farmers by removing the plethora of exemptions currently available and providing the option for farmers to employ a quarantine unit, which will then provide a suitable balance between disease control measures and flexibility of movement for trade that will benefit everyone concerned. If farms do not employ quarantine units, then the whole farm would continue to observe the six-day standstill period, but the choice will be up to them.

Yn olaf, ar y galwadau i gael gwared ar y gwaharddiad symud chwe diwrnod, mae'r cyfyngiad chwe diwrnod ar symud anifeiliaid yn parhau i fod yn nodwedd hanfodol o'r mesurau rheoli symudiadau, ac mae'n fesur allweddol ar gyfer diogelu da byw Cymru rhag clefyd. Ni fydd unrhyw beth yn creu mwy o anhawster i fasnach ac allforion nag achosion o glefydau anifeiliaid, a gallwn ddychmygu pa effaith a gâi hynny ar incwm ffermydd. Felly, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i leihau neu gael gwared ar y gwaharddiad symud chwe diwrnod. Fodd bynnag, mae fy swyddogion wedi gweithio gyda'r diwydiant da byw i ystyried y defnydd o unedau cwarantîn. Bydd hyn yn gwneud pethau'n fwy eglur i ffermwyr drwy gael gwared ar y llu o eithriadau sydd ar gael ar hyn o bryd a rhoi'r opsiwn i ffermwyr ddefnyddio uned gwarantîn, a fydd wedyn yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng mesurau rheoli clefydau a hyblygrwydd symud at ddibenion masnachol a fydd o fantais i bawb. Os na fydd fferm yn defnyddio unedau cwarantîn, yna byddai'r fferm gyfan yn parhau i gydymffurfio â'r gwaharddiad symud chwe diwrnod, ond eu dewis hwy fydd hyn.

So, in summing up, the Welsh Government is committed to supporting a thriving rural community, ensuring that rural communities have access to new digital technologies and improved public services. We're a pro-business Government, working closely with companies to create jobs and growth in every part of Wales, and we are delivering results for rural communities. Far from failing to support our rural communities, the Welsh Government has made supporting them a consistent theme of its work. We therefore reject the basic premise of the motion. We'll be opposing amendments 2, 4 and 5 and supporting amendments 1 and 3, but the motion is so flawed that we will be opposing it in any event.

Felly, i grynhoi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymuned wledig ffyniannus, gan sicrhau bod cymunedau gwledig yn cael mynediad at dechnolegau digidol newydd a gwell gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn Llywodraeth sy'n cefnogi busnesau, gan weithio'n agos gyda chwmnïau i greu swyddi a thwf ym mhob rhan o Gymru, ac rydym yn sicrhau canlyniadau i gymunedau gwledig. Ymhell o fethu â chefnogi ein cymunedau gwledig, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud eu cefnogi'n thema gyson o'i gwaith. Felly, rydym yn gwrthod rhagosodiad sylfaenol y cynnig. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliannau 2, 4 a 5 ac yn cefnogi gwelliannau 1 a 3, ond mae'r cynnig mor ddiffygiol fel y byddwn yn ei wrthwynebu beth bynnag.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay to reply to the debate.

Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

17:31 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank everyone who's taken part in this debate today? It's a straightforward motion that, as Members have said, says that the Welsh Government has not provided adequate support to meet the needs of Wales's rural communities. That does not say that there hasn't been support to a point, but it's not adequate support. And, yes, to those Members who criticised it for being a broad motion, it is. We make no apologies for it being a broad motion. Any debate about the nature of the rural economy, by its very nature, has to be a broad motion because the rural economy is diverse and made up of many diverse elements, all of which support each other.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw? Mae'n gynnig syml sy'n dweud, fel y mae Aelodau wedi'i ddweud, nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o gymorth i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig Cymru. Nid yw hynny'n dweud na chafwyd cymorth i raddau, ond nid yw'n gymorth digonol. Ac ydy, i'r Aelodau hynny a'i beirniadodd am fod yn gynnig eang, ydy, mae'n eang. Nid ydym yn ymddiheuro am ei fod yn gynnig eang. Rhaid i unrhyw ddadl ynghylch natur yr economi wledig, o ran ei natur, fod yn gynnig eang am fod yr economi wledig yn amrywiol ac yn cynnwys nifer o elfennau amrywiol, pob un ohonynt yn cefnogi ei gilydd.

No discussion of rural Wales can be undertaken without a debate about farming, and many Members have mentioned Welsh farming. As we know, Welsh farming incomes have fallen dramatically, and there is now a great deal of concern amongst farmers, particularly in the light of changes to the basic payment scheme, a point touched on by many Members during today's debate. Only last week, the National Farmers Union and the Farmers' Union of Wales and many farmers gathered outside this very building, and Assembly Members from all parties supported them in their campaign to highlight the problems that they face. But it is not enough to go outside and have a photo taken with a nice banner in the background that we're all e-mailed afterwards. Yes, that's great as far as it goes, but we need to look at and listen to the very real concerns of those farmers who came to see us. Why were they here? What were their issues? Are we going to listen to them and not simply have endless debates, month after month, year after year, which do not actually address their concerns?

Ni ellir cynnal unrhyw drafodaeth ar y Gymru wledig heb ddadl am ffermio, ac mae llawer o'r Aelodau wedi crybwyll ffermio yng Nghymru. Fel y gwyddom, mae incwm ffermio yng Nghymru wedi gostwng yn ddramatig, ac erbyn hyn mae llawer iawn o bryder ymysg ffermwyr, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau i gynllun y taliad sylfaenol, pwynt y cyffyrddodd nifer o'r Aelodau arno yn ystod y ddadl heddiw. Yr wythnos diwethaf, daeth Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru a llawer o ffermwyr at ei gilydd y tu allan i'r adeilad hwn, a chefnogodd Aelodau'r Cynulliad o bob plaid eu hymgyrch i dynnu sylw at y problemau y maent yn eu hwynebu. Ond nid yw'n ddigon i ni fynd allan a chael llun wedi'i dynnu gyda baner braf yn y cefndir a e-bostiwyd atom i gyd wedyn. Ydy, mae hynny'n wych cyn belled ag y mae'n mynd, ond mae angen i ni edrych ar bryderon real iawn y ffermwyr a ddaeth i'n gweld a gwrando arnynt. Pam y daethant yma? Beth oedd eu problemau? A ydym yn mynd i wrando arnynt neu ddim ond cael dadleuon diddiwedd fis ar ôl mis, flwyddyn ar ôl blwyddyn, dadleuon nad ydynt yn mynd i'r afael â'u pryderon mewn gwirionedd?

I've been contacted by one farmer who is at his wits' end in the wake of recent changes to payments. There is no acknowledgement or payment for production in the new system. As we know, there's been no tunnelling—no transitional arrangements. Yes, there are some benefits to a flat rate, but, without having transitional arrangements, as some farmers have called for, then it is simply not good enough, Minister. The farmer who contacted me is losing in the region of £20,000 a year as a result of the changes. If you factor that £20,000 into the effect on not just him, his business, his workforce, his family, but also the wider community, the wider local services that receive payments themselves down the line because of payments that are going into the farming sector, then you see that there is a very real, growing and bigger problem developing.

Cysylltodd un ffermwr â mi i ddweud ei fod ar ben ei dennyn yn sgil y newidiadau diweddar i daliadau. Nid oes cydnabyddiaeth na thaliad am gynhyrchu yn y system newydd. Fel y gwyddom, ni chafwyd unrhyw drefniadau twnelu—dim trefniadau trosiannol. Oes, ceir rhai manteision i gyfradd safonol, ond heb drefniadau trosiannol, fel y mae rhai ffermwyr wedi galw amdanynt, yna nid yw'n ddigon da, Weinidog. Mae'r ffermwr a gysylltodd â mi yn colli oddeutu £20,000 y flwyddyn o ganlyniad i'r newidiadau. Os ydych yn ffactoreiddio'r £20,000 i gynnwys yr effaith, nid yn unig arno ef, ond ar ei fusnes, ei weithlu, a'i deulu, a hefyd ar y gymuned ehangach, y gwasanaethau lleol ehangach sy'n cael taliadau eu hunain yn sgil y taliadau sy'n mynd i mewn i'r sector ffermio, yna fe welwch fod yna broblem gynyddol fwy o faint a real iawn yn datblygu.

Janet Finch-Saunders spoke about the problems that farmers are facing. You reinforced those issues, Janet. Why has the Welsh Government taken a year to assess the amount of eligible land in Wales? I don't know; I didn't hear the Minister give a clear response on that. As you said, we're talking about the food-producing custodians of the countryside. The countryside looks as it does because of our farming community. We all appreciate, as Russell George said at the start of this debate, the rural areas. It is a privilege for many of us to live in those rural areas, but the countryside looks as it does because of years and years of hard work by our farming communities, without which the countryside would not be like it is. So, we need to recognise that and we really need to address the concerns that our farmers have.

Siaradodd Janet Finch-Saunders am y problemau y mae ffermwyr yn eu hwynebu. Fe atgyfnerthoch y materion hynny, Janet. Pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd blwyddyn i asesu faint o dir sy'n gymwys yng Nghymru? Nid wyf yn gwybod; ni chlywais y Gweinidog yn rhoi ymateb clir ar hynny. Fel y dywedasoch, rydym yn sôn am y ceidwaid cefn gwlad sy'n cynhyrchu bwyd. Mae cefn gwlad fel y mae oherwydd ein cymuned ffermio. Rydym i gyd yn gwerthfawrogi'r ardaloedd gwledig, fel y dywedodd Russell George ar ddechrau'r ddadl hon. Braint i lawer ohonom yw byw yn yr ardaloedd gwledig hyn, ond mae cefn gwlad i'w weld fel y mae oherwydd blynyddoedd a blynyddoedd o waith caled gan ein cymunedau ffermio, a heb y gwaith hwn ni fyddai cefn gwlad fel y mae. Felly, mae angen i ni gydnabod hynny ac mae gwir angen i ni fynd i'r afael â'r pryderon sydd gan ein ffermwyr.

Llyr Gruffydd mentioned the way that some farmers at the moment are being forced to accept lower prices for livestock than they otherwise would, because of, you mentioned, a lack of cash flow problem in the rural economy. You also mentioned the benefits of a move to a flat rate, but said that too many of those benefits are being negated by other problems and by the way that the whole process is being implemented. Of course, we do know the problems that our dairy producers have been facing as well. I don't think it was mentioned in today's debate by Assembly Members, but there's no doubt at all that the problems that dairy farms are facing, and have been facing, are adding to an overall problem.

Crybwyllodd Llyr Gruffydd y ffordd y mae rhai ffermwyr ar hyn o bryd yn cael eu gorfodi i dderbyn prisiau is am dda byw nag y byddent fel arall yn ei gael, oherwydd, fel y sonioch, ceir problem diffyg llif arian yn yr economi wledig. Fe sonioch hefyd am y manteision o symud i gyfradd safonol, ond fe ddywedoch fod gormod o'r manteision hynny'n cael eu negyddu gan broblemau eraill a chan y ffordd y mae'r broses gyfan yn cael ei gweithredu. Wrth gwrs, gwyddom am y problemau y mae ein cynhyrchwyr llaeth wedi bod yn eu hwynebu hefyd. Nid wyf yn credu bod Aelodau'r Cynulliad wedi crybwyll hynny yn y ddadl heddiw, ond nid oes amheuaeth o gwbl fod y problemau y mae ffermydd llaeth yn eu hwynebu, ac wedi bod yn eu hwynebu, yn ychwanegu at broblem gyffredinol.

I thought that Will Powell put forward some very good ideas worth exploring in terms of the sharing of banking services and growing the connections between local rural services. I would say, of course, Will, you do have to have more than one bank or financial service or post office at the start of that process for it to actually work, and, as we know, over recent years we've lost so many local services and post offices from our rural communities that you do have to question whether that capacity is actually there at the moment for the process that you've suggested to work. But I take your point that it's better we start sooner rather than later in making sure that those links are there and that services are connected in a way that they can support each other, and our rural economy can benefit as a result. Dare I say it? We do need some kind of better strategy in place that better supports our rural economy.

Roeddwn i'n meddwl bod Will Powell wedi cyflwyno syniadau da iawn sy'n werth eu harchwilio o ran rhannu gwasanaethau bancio ac ehangu'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau gwledig lleol. Byddwn yn dweud, wrth gwrs, Will, fod yn rhaid i chi gael mwy nag un banc neu wasanaeth ariannol neu swyddfa bost ar ddechrau'r broses honno er mwyn iddi weithio mewn gwirionedd, ac fel y gwyddom, dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi colli cymaint o wasanaethau lleol a swyddfeydd post yn ein cymunedau gwledig, rhaid holi a oes capasiti yno ar hyn o bryd i'r broses rydych wedi'i hawgrymu allu gweithio. Ond rwy'n derbyn eich pwynt ei bod yn well i ni ddechrau yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau hynny yno a bod gwasanaethau yn cael eu cysylltu mewn ffordd y gallant gefnogi ei gilydd, ac y gall ein heconomi wledig elwa o ganlyniad. A fentraf ddweud bod angen rhyw fath o strategaeth well ar waith sy'n cefnogi ein heconomi wledig yn well?

Again, no debate like this is complete without touching on another big issue and that is broadband, which many Members have mentioned. On the most basic level, if you have a rural business and you need to file your forms or whatever, you need to access broadband, you need to access the internet. We know—too many of us in rural areas—the problems that you can have, certainly in the notspots in rural areas. That needs to be addressed.

Unwaith eto, ni fydd unrhyw ddadl fel hon yn gyflawn heb grybwyll mater pwysig arall, sef y band eang, y cyfeiriodd llawer o'r Aelodau ato. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, os oes gennych fusnes gwledig a bod angen i chi gyflwyno eich ffurflenni neu beth bynnag, mae angen i chi gael mynediad at fand eang, mae angen i chi gael mynediad at y rhyngrwyd. Rydym yn gwybod—gormod ohonom mewn ardaloedd gwledig—am y problemau y gallwch eu cael, yn sicr yn y mannau gwan mewn ardaloedd gwledig. Mae angen rhoi sylw i hyn.

I think Joyce Watson mentioned—forgive me if it wasn't you, Joyce; it might've been one of your colleagues, but I think it was you—the fact that, if we didn't have a contract with BT, then there wouldn't have been the roll-out that we've had in terms of delivering internet in rural areas. But I do have to say that I don't think that that contract was ambitious enough and I do question the reliance on fibre-to-cabinet, whether that was the adequate solution in some rural areas. I think that, if you look at other areas, it would've been better not putting all the eggs in one basket with BT from the start, and recognising from the start that, whilst 95 per cent of rural coverage can be achieved through the system that's been chosen, not all areas can. Many people in my area, particularly, are concerned that at the end of it there might be 99 per cent coverage, but that other 1 per cent might actually never get coverage, because of the route that the Welsh Government and contractors have gone down—[Interruption.] Well, that is a concern that is being expressed to me. I thought I was generous there in actually saying that the contract has delivered; I'm not saying it hasn't delivered in certain areas, but it has not delivered everywhere and we need to make sure that we do not end up cementing notspots in certain areas that aren't going to be looked after in the long term. That can't be allowed to happen.

Rwy'n meddwl bod Joyce Watson wedi sôn—maddeuwch i mi os nad chi a wnaeth, Joyce; gallai fod yn un o'ch cyd-Aelodau, ond rwy'n meddwl mai chi a wnaeth—pe na bai gennym gontract gyda BT, yna ni fyddai'r band eang wedi'i gyflwyno fel y cafodd ei gyflwyno o ran darparu'r rhyngrwyd mewn ardaloedd gwledig. Ond mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn credu bod y contract yn ddigon uchelgeisiol ac rwy'n cwestiynu'r ddibyniaeth ar gysylltiad ffeibr i'r cabinet, boed hynny'n ateb digonol mewn rhai ardaloedd gwledig ai peidio. Os edrychwch ar ardaloedd eraill, credaf y byddai wedi bod yn well peidio â rhoi'r holl wyau mewn un fasged gyda BT o'r dechrau, a chydnabod o'r cychwyn, er bod modd darparu cysylltiad i 95 y cant o ardaloedd gwledig drwy'r system a ddewiswyd, ni ellir cyrraedd pob ardal. Mae llawer o bobl yn fy ardal i, yn arbennig, yn pryderu y gallai fod cysylltiad gan 99 y cant o ardaloedd yn y pen draw, ond efallai na chaiff yr 1 y cant arall byth gysylltiad, oherwydd y llwybr y mae Llywodraeth Cymru a'r contractwyr wedi'i ddilyn—[Torri ar draws.] Wel, mae'n bryder a fynegwyd wrthyf. Roeddwn yn meddwl fy mod wedi bod yn hael mewn gwirionedd yn dweud bod y contract wedi cyflawni; nid wyf yn dweud nad yw wedi cyflawni mewn rhai ardaloedd, ond nid yw wedi cyflawni ym mhob man ac mae angen i ni wneud yn siŵr nad ydym yn y pen draw yn creu mannau gwan parhaol mewn rhai ardaloedd ac nad ydynt yn mynd i gael sylw yn y tymor hir. Ni ellir caniatáu i hynny ddigwydd.

Can I thank everyone who has contributed to today's debate? It has been wide-ranging, but I think that that was understandable and I think it is good that each AM has brought their own different aspect to this debate. That, at the end of the day, is a very good thing for debate and any discussion of rural issues in this place. I urge the Chamber to support the motion and provide our rural communities with a greater degree of support across a greater range of areas.

A gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw? Mae wedi bod yn eang, ond rwy'n meddwl bod hynny'n ddealladwy ac rwy'n credu ei bod yn dda fod pob AC wedi dod â'u hagwedd wahanol eu hunain i'r ddadl hon. Mae hynny, yn y pen draw, yn beth da iawn mewn dadl ac unrhyw drafodaeth ar faterion gwledig yn y lle hwn. Rwy'n annog y Siambr i gefnogi'r cynnig a rhoi mwy o gefnogaeth i'n cymunedau gwledig ar draws ystod ehangach o feysydd.

17:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item to voting time, which now follows.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sydd bellach yn dilyn.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:39

# 6. Cyfnod Pleidleisio

# 6. Voting Time

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the individual Members' debate and I call for a vote on the motion tabled in the name of Mick Antoniw, Rhodri Glyn Thomas and Peter Black. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40. There were 11 votes against. Therefore the motion is agreed.

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly pleidleisiwn yn gyntaf ar ddadl yr Aelodau unigol a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Mick Antoniw, Rhodri Glyn Thomas a Peter Black. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 40, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 40, Against 11, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5832](#)

[Result of the vote on motion NDM5832](#)

17:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the Welsh Conservatives' debate. I call for a vote on the motion tabled in the name Paul Davies. If the proposal is not agreed, we'll vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 40. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 11, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5843

Result of the vote on motion NDM5843

17:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There were 51 votes in favour and no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn ar y gwelliannau yn awr. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Roedd 51 o bleidleisiau o blaid a dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5843

Result of the vote on amendment 1 to NDM5843

17:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25. There voted against 26. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5843

Result of the vote on amendment 2 to NDM5843

17:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51 and no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid ac ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5843

Result of the vote on amendment 3 to NDM5843

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25. There voted against 26. Therefore, amendment 4 was not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid. Pleidleisio 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 4.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5843

Result of the vote on amendment 4 to NDM5843

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25. There voted against 26. Therefore, amendment 5 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 5.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5843

Result of the vote on amendment 5 to NDM5843

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5843 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5843 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i ddiwallu anghenion penodol cymunedau gwledig Cymru.

1. Regrets the failure of the Welsh Government to provide adequate support to meet the specific needs of Wales's rural communities.

2. Yn gresynu at y ffaith bod rownd arall o fanciau wedi'u cau yng nghefn gwlad Cymru yn ddiweddar.

2. Regrets the recent round of bank closures across rural Wales.

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i dalu rhan sylweddol o'r taliad sylfaenol i gymaint o ffermwyr â phosibl ar y cyfle cyntaf o fewn cyfnod talu'r Cynllun Taliad Sylfaenol.

3. Urges the Welsh Government to make a significant part payment to as many farmers as possible at the earliest opportunity within the Basic Payment Scheme payment window.

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25 and there voted against 26. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid a phleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5843 fel y'i diwygiwyd: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Motion NDM5843 as amended not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5843 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5843 as amended

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would ask all those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Hoffwn ofyn i'r holl Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

17:42

## 7. Dadl Fer: Diogelu Cleifion yn Sir Benfro—Pam Mae Angen Gwasanaethau Hanfodol yn Ysbyty Llwynhelyg

## 7. Short Debate: Protecting Patients in Pembrokeshire—Why We Need Essential Services at Withybush Hospital

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 7 is the short debate, and I call on Paul Davies to speak on the topic he has chosen.

Eitem 7 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Paul Davies i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

17:42 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am once again pleased to use my short debate this afternoon to highlight the importance of retaining services at Withybush hospital and to reflect on decisions made by the Hywel Dda health board and the Welsh Government in relation to those services. I'm happy to give Angela Burns, Simon Thomas, Joyce Watson and William Powell a minute each of my time, if there is enough time, at the end of my contribution.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch unwaith eto o gael defnyddio fy nadl fer y prynhawn yma i dynnu sylw at bwysigrwydd cadw gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg ac i fyfyrio ar benderfyniadau a wnaed gan fwrdd iechyd Hywel Dda a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny. Rwy'n hapus i roi munud yr un o fy amser i Angela Burns, Simon Thomas, Joyce Watson a William Powell, os oes digon o amser, ar ddiwedd fy nghyfraniad.

Now, I make no apology for once again tabling a debate on health services in Pembrokeshire, given the importance of health services to my constituents. For a number of years now, Pembrokeshire has seen a reduction in health services under both Hywel Dda health board and its predecessor Pembrokeshire and Derwen NHS Trust. More recently, the Welsh Government has also taken decisions to centralise services away from Pembrokeshire, and the impact of the continual removal of health services from the area continues to be extremely worrying.

Nawr, nid wyf yn ymddiheuro am gyflwyno dadl unwaith eto ar wasanaethau iechyd yn Sir Benfro, o ystyried pwysigrwydd gwasanaethau iechyd i fy etholwyr. Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae Sir Benfro wedi gweld cwtogi ar y gwasanaethau iechyd o dan fwrdd iechyd Hywel Dda a'i ragflaenydd, Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud penderfyniadau i ganoli gwasanaethau i ffwrdd o sir Benfro, ac mae effaith symud gwasanaethau iechyd yn gyson o'r ardal yn parhau'n destun pryder mawr.

Over the years, we've seen services such as orthodontics and histopathology being centralised away from Pembrokeshire. However, perhaps the most controversial decision regarding Pembrokeshire's healthcare services was the health Minister's decision to close the special care baby unit in January 2014, which devastated families across Pembrokeshire who campaigned and fought tirelessly to protect life-saving services at their local hospital. This action was then followed by Hywel Dda health board's decision to downgrade paediatric services, against the will of local people, and only served to frustrate and anger my constituents even further.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi gweld gwasanaethau fel orthodonteg a histopatholeg yn cael eu canoli i ffwrdd o Sir Benfro. Fodd bynnag, efallai mai'r penderfyniad mwyaf dadleuol ynghylch gwasanaethau gofal iechyd yn Sir Benfro oedd penderfyniad y Gweinidog iechyd i gau'r uned gofal arbennig i fabanod ym mis Ionawr 2014, a fu'n destun gofid i deuluoedd ledled Sir Benfro a ymgyrchodd ac a ymladdodd yn ddiflino i ddiogelu gwasanaethau sy'n achub bywyd yn eu hysbyty lleol. Dilynwyd y weithred hon gan benderfyniad bwrdd iechyd Hywel Dda i israddio gwasanaethau pediatrig, yn erbyn ewyllys y bobl leol, ac a achosodd rwystredigaeth a dicter pellach i fy etholwyr.

Now, over the years, politicians like me have been accused of scaremongering, because I've been highlighting the dangers of centralising and downgrading services. However, it's now clear that the concerns and worries that I've been expressing on behalf of the communities that I represent have become a reality. Many people living in Pembrokeshire believe that the Welsh Government and the Hywel Dda health board have made dangerous decisions that are putting people's lives at risk. Indeed, the evidence that I've received from local people about the current arrangements for maternity, neonatal and paediatric services has confirmed that. These patients are understandably frustrated as they're being forced to travel further afield for treatment that was once available locally.

Nawr, dros y blynyddoedd, mae gwleidyddion fel fi wedi cael eu cyhuddo o godi bwganod, am i mi dynnu sylw at beryglon canoli ac israddio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n amlwg erbyn hyn fod y gofidiau a'r pryderon a fynegais ar ran y cymunedau a gynrychiolaf wedi dod yn realiti. Mae llawer o bobl sy'n byw yn Sir Benfro yn credu bod Llywodraeth Cymru a bwrdd iechyd Hywel Dda wedi gwneud penderfyniadau peryglus sy'n rhoi bywydau pobl mewn perygl. Yn wir, mae'r dystiolaeth rwyf wedi'i chael gan bobl leol am y trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig wedi cadarnhau hynny. Mae'n ddealladwy fod y cleifion hyn yn rhwystredig am eu bod yn cael eu gorfodi i deithio ymhellach i gael triniaeth a oedd unwaith ar gael yn lleol.

One constituent e-mailed me and gave her family's personal experience and said this, and I quote:

Cefais e-bost gan etholwr yn sôn am brofiadau personol ei theulu, sy'n dweud hyn, ac rwy'n dyfynnu:

'I had to stay on my own with my son that evening in Glangwili even though there were no other children on our ward, and so my husband had to make the trip back again, which took two hours as there was roadworks. We were there all weekend, and so my husband was having to make two trips a day to see us. If the facilities were still in Withybush, it would be a 20-minute drive.'

'I had to stay on my own with my son that evening in Glangwili even though there were no other children on our ward, and so my husband had to make the trip back again, which took two hours as there was roadworks. We were there all weekend, and so my husband was having to make two trips a day to see us. If the facilities were still in Withybush, it would be a 20-minute drive.'

I've heard other terrible stories, such as babies' fathers having to sleep in their cars at Glangwili hospital in order to be near to their families, and in order to avoid the long trips back and forth to Pembrokeshire. That is surely unacceptable. It's quite evident throughout the whole of this process that the geography of Pembrokeshire has not been taken into account. Travelling from St David's to Carmarthen in an emergency situation is similar to people in Cardiff being forced to travel to Nevill Hall Hospital in Abergavenny for emergency care. That would not be right for the people of Cardiff, and therefore, it is not right for the people that I represent. In Pembrokeshire, we face challenging transport links, and therefore, travelling any distance to obtain emergency treatment will certainly lessen survival chances, and that is if there are no road closures on the way to Glangwili.

Rwyf wedi clywed straeon erchyll eraill, am dadau babanod yn gorfod cysgu yn eu ceir yn ysbyty Glangwili er mwyn bod yn agos at eu teuluoedd, ac er mwyn osgoi teithiau hir yn ôl i Sir Benfro. Mae hynny'n sicr yn annerbyniol. Mae'n eithaf amlwg drwy gydol y broses hon nad yw daearyddiaeth Sir Benfro wedi cael ei hystyried. Mae teithio o Dŷ Ddewi i Gaerfyrddin mewn sefyllfa o argyfwng yn debyg i bobl yng Nghaerdydd yn cael eu gorfodi i deithio i Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni i gael gofal brys. Ni fyddai hynny'n iawn i bobl Caerdydd, ac felly, nid yw'n iawn ar gyfer y bobl rwy'n eu cynrychioli. Yn Sir Benfro, rydym yn wynebu cysylltiadau trafnidiaeth heriol, ac felly mae teithio dros bob math o bellteroedd i gael triniaeth frys yn sicr yn lleihau'r siawns o oroesi, a hynny hyd yn oed os nad oes ffyrdd wedi'u cau ar y ffordd i Ysbyty Glangwili.

Of course, I made it quite clear in my opposition to the downgrading of services at Withybush hospital that the removal of one service will naturally have an effect on the sustainability of other services at the hospital. Clearly, there has been an impact on the A&E department at Withybush hospital following the downgrading of paediatrics. Members will be fully aware that 25 per cent of admissions to an accident and emergency department are children, and therefore, following the downgrading of paediatrics at Withybush hospital, there are serious concerns that the accident and emergency department at the hospital will eventually become unsustainable in the future, with more and more people travelling to Glangwili hospital for treatment. These changes have had a serious effect on patient experiences, and the many reports that I received have confirmed that. One resident told me that the mother-and-baby rooms in the special care baby unit at Glangwili were not completed and had no flooring. He went on to say, and I quote:

Wrth gwrs, fe'i gwnes yn gwbl glir yn fy ngwrthwynebiad i israddio gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg y bydd cael gwared ar un gwasanaeth yn naturiol yn cael effaith ar gynaliadwyedd gwasanaethau eraill yn yr ysbyty. Yn amlwg, cafwyd effaith ar yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Llwynhelyg yn dilyn israddio pediatreg. Bydd yr Aelodau'n gwbl ymwybodol fod 25 y cant o'r cleifion a dderbynnir i'r adran damweiniau ac achosion brys yn blant, ac felly, ar ôl israddio pediatreg yn Ysbyty Llwynhelyg, mae pryderon difrifol y bydd yr adran damweiniau ac achosion brys yn yr ysbyty yn y pen draw yn dod yn anghynaladwy yn y dyfodol, gyda mwy a mwy o bobl yn teithio i ysbyty Glangwili am driniaeth. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith ddifrifol ar brofiadau cleifion, ac mae llawer o'r adroddiadau a gefais wedi cadarnhau hynny. Mae un preswylydd yn dweud wrthyf nad oedd yr ystafelloedd i famau a babanod yn yr uned gofal arbennig i fabanod yng Nglangwili wedi'u cwblhau a deunydd llawr heb ei osod. Aeth ymlaen i ddweud, ac rwy'n dyfynnu:

'The hospital is old, the building work is not done yet; this is not working. The staff don't like it and are now overworked.'

'The hospital is old, the building work is not done yet; this is not working. The staff don't like it and are now overworked.'

Now, Members will be aware that, this summer, the Royal College of Paediatrics and Child Health was invited by the Hywel Dda health board and the Government to conduct a review into the current arrangements of maternity, neonatal and paediatric services at Withybush and Glangwili hospitals. As the Deputy Minister will appreciate, the review attracted a huge deal of interest from local people in Pembrokeshire, with over 800 responses feeding into the review consultation. The only public meeting held also attracted around 300 people, with the Withybush conference centre in Haverfordwest struggling to accommodate those people who turned up to air their views. Of course, I responded to that review, highlighting the experiences that I'd received from constituents on issues such as transport and the distance to Glangwili. However, the outcomes of the review have highlighted a number of issues about the way in which the review itself was conducted, and what type of analysis was made of patients' views and experiences. I was concerned to read in the interim report that

Nawr, bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod bwrdd iechyd Hywel Dda a'r Llywodraeth wedi gwahodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yr haf hwn i gynnal adolygiad o drefniadau'r gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig presennol yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili. Fel y bydd y Dirprwy Weinidog yn deall, ysgogodd yr adolygiad ddiddordeb enfawr ymhlith y bobl leol yn Sir Benfro, gyda thros 800 o ymatebion i ymgynghoriad yr adolygiad. Denodd yr unig gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd oddeutu 300 o bobl hefyd, ac roedd canolfan gynadledda Llwynhelyg yn Hwlffordd yn ei chael hi'n anodd darparu ar gyfer y bobl a ddaeth yno i leisio'u barn. Wrth gwrs, ymatebais i'r adolygiad, gan dynnu sylw at y profiadau a gefais gan etholwyr ar faterion megis trafnidiaeth a'r pellter i Glangwili. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r adolygiad wedi tynnu sylw at nifer o faterion yn ymwneud â'r ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad ei hun, a pha fath o ddadansoddiad a wnaed o safbwyntiau a phrofiadau cleifion. Testun pryder i mi oedd darllen yn yr adroddiad interim

‘Formal complaints relating to the service change are responded to under the Health Board’s procedures but the picture of actual patient experience gathered by the Health Board is significantly more positive than that expressed by campaigners in the social and mainstream media or at public meetings.’

Well, I’m not surprised that the health board has given a more positive impression of patient experience, compared to the public meeting. The review team need to make it absolutely clear whether or not they have fully analysed the responses that they received to the survey, including speaking to those respondents who suggested that safety issues had arisen in their experiences. The Deputy Minister must tell us in his response, whether real patient experiences were personally examined and analysed by the review team, because it’s obvious from a recent health board meeting that this was not made clear. He should tell us whether the review team actually met some of the 800 respondents who fed into the consultation, and whether their concerns were genuinely examined and taken on board.

There is clearly a marked disagreement between the review team, who believe that no harm is being done to patients by extending the distance travelled, and what the public are saying in Pembrokeshire. The interim report suggests that travelling and distance issues can be easily overcome by buses and volunteer drivers. Well, this would be laughable if it wasn’t so serious. Clearly, the review team has not done their homework when it comes to Pembrokeshire’s transport network. The transport network in Pembrokeshire presents a number of challenges, not least of all because the public transport system in the county does not run 24 hours a day. In fact, there are no buses from Haverfordwest to Carmarthen on a Sunday. So, to advocate that buses and volunteers are the answer demonstrates a fundamental lack of understanding. There would also be a cost attached to that for my constituents, in terms of travel costs, but also in terms of childcare issues and arrangements that just don’t seem to be taken into account. Even today, we see reports in the ‘Western Telegraph’ newspaper that a mother was forced to take her child to Glangwili hospital around midnight, only to be discharged a few hours later in the pouring rain, having to pay £15 for a taxi to the train station and wait outside until 7.45 a.m., when the next train arrived. That is surely unacceptable.

‘Formal complaints relating to the service change are responded to under the Health Board’s procedures but the picture of actual patient experience gathered by the Health Board is significantly more positive than that expressed by campaigners in the social and mainstream media or at public meetings.’

Wel, nid wyf yn synnu bod y bwrdd iechyd wedi rhoi argraff fwy cadarnhaol o brofiad y claf, o gymharu â’r cyfarfod cyhoeddus. Mae angen i’r tîm adolygu ei gwneud yn gwbl glir a ydynt wedi dadansoddi’r ymatebion a gawsant i’r arolwg yn llawn ai peidio, gan gynnwys siarad â’r ymatebwyr a awgrymodd eu bod wedi profi problemau’n ymwneud â diogelwch. Mae’n rhaid i’r Dirprwy Weinidog ddweud wrthym yn ei ymateb a aeth y tîm adolygu ati’n bersonol i archwilio a dadansoddi profiadau real cleifion, gan ei bod yn amlwg o un o gyfarfodydd y bwrdd iechyd yn ddiweddar nad oedd hyn yn glir. Dylai ddweud wrthym a oedd y tîm adolygu wedi cyfarfod â rhai o’r 800 o ymatebwyr a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, ac a gafodd eu pryderon eu harchwilio a’u hystyried mewn gwirionedd.

Mae’n eglur fod anghytundeb amlwg rhwng y tîm adolygu, sy’n credu na wneir unrhyw niwed i gleifion drwy ymestyn y pellter a deithir, a’r hyn y mae’r cyhoedd yn ei ddweud yn Sir Benfro. Mae’r adroddiad interim yn awgrymu y gellir goresgyn materion teithio a phellter yn hawdd drwy ddefnyddio bysiau a gyrwyr gwirfoddol. Wel, byddai hyn yn chwerthinllyd pe na bai mor ddifrifol. Yn amlwg, nid oedd y tîm adolygu wedi gwneud eu gwaith cartref mewn perthynas â rhwydwaith trafnidiaeth Sir Benfro. Mae’r rhwydwaith trafnidiaeth yn Sir Benfro yn creu nifer o heriau, yn bennaf oll am nad yw’r system drafnidiaeth gyhoeddus yn y sir yn rhedeg 24 awr y dydd. Yn wir, nid oes unrhyw fysiau o Hwlffordd i Gaerfyrddin ar ddydd Sul. Felly, mae argymell mai bysiau a gwirfoddolwyr yw’r ateb yn dangos diffyg dealltwriaeth sylfaenol. Hefyd byddai cost ynghlwm wrth hynny i fy etholwyr, o ran costau teithio, ond hefyd o ran materion gofal plant a threfniadau nad yw’n ymddangos eu bod wedi’u hystyried. Hyd yn oed heddiw, gwelwn adroddiadau ym mhapur newydd y ‘Western Telegraph’ fod mam wedi gorfod mynd â’i phlentyn i ysbyty Glangwili tua hanner nos, i gael eu rhyddhau ychydig oriau yn ddiweddarach, a hithau’n arllwys y glaw, a gorfod talu £15 am dacsi i’r orsaf drenau ac aros y tu allan tan 7.45 a.m. i’r trên nesaf gyrraedd. Mae hynny’n sicr yn annerbyniol.

The review panel has also reassured the health board that they are satisfied that the changes are safe. Now, I know the Deputy Minister will probably argue in his response that the changes were made in order to make services safe and sustainable in the future. But it's quite clear that the previous model at Withybush hospital was safe and sustainable. Don't take my word for it. The perinatal mortality rate at Withybush hospital, taken from the all-Wales perinatal survey prior to the changes, was among the best in Wales. In fact, the all-Wales 2012 perinatal survey showed Withybush, Bronglais and Glangwili hospitals in its table on perinatal mortality by intended hospital of birth as being the first, third and fourth best in Wales, respectively. The perinatal mortality rate for the Hywel Dda area was around five per 1,000 deliveries and was therefore one of the best in Wales prior to the changes. The facts are that the funnel plots for the Hywel Dda unit show the best results in Wales for perinatal mortality from 2010 to 2014, casting further doubt on the claims that the service was unsafe prior to the recent changes. However, as Ruth Howells, the former executive member of the speciality training committee for obstetrics and gynaecology of the Welsh Deanery and retired consultant and former clinical director of the department of obstetrics and gynaecology at Withybush General Hospital said:

Mae'r panel adolygu hefyd wedi rhoi sicrwydd i'r bwrdd iechyd eu bod yn fodlon fod y newidiadau'n ddiogel. Nawr, gwn y bydd y Dirprwy Weinidog yn dadlau yn ei ymateb yn ôl pob tebyg fod y newidiadau wedi'u cyflawni er mwyn gwneud gwasanaethau'n ddiogel ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Ond mae'n eithaf amlwg fod y model blaenorol yn ysbyty Llwynhelyg yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny. Roedd y gyfradd marwolaethau amenedigol yn ysbyty Llwynhelyg, a gymerwyd o arolwg amenedigol Cymru gyfan cyn y newidiadau, ymhlith y gorau yng Nghymru. Yn wir, dangosodd arolwg amenedigol Cymru gyfan ar gyfer 2012 ysbytai Llwynhelyg, Bronglais a Glangwili yn ei dabl marwolaethau amenedigol yn ôl ysbyty y bwriedid geni ynddo, fel y cyntaf, y trydydd a'r pedwerydd gorau yng Nghymru, yn y drefn honno. Y gyfradd marwolaethau amenedigol ar gyfer ardal Hywel Dda oedd tua phump o bob 1,000 genedigaeth ac roedd felly'n un o'r goreuon yng Nghymru cyn y newidiadau. Y ffaith yw bod y plotiau twndis ar gyfer uned Hywel Dda yn dangos y canlyniadau gorau yng Nghymru mewn perthynas â marwolaethau amenedigol 2010-2014, gan fwrw amheuaeth bellach ar yr honiadau nad oedd y gwasanaeth yn ddiogel cyn y newidiadau diweddar. Fodd bynnag, fel y dywedodd Ruth Howells, cyn-aelod gweithredol o bwyllgor hyfforddiant arbenigol obstetreg a gynaecoleg Deoniaeth Cymru, meddyg ymgynghorol wedi ymddeol a chyn-gyfarwyddwr clinigol adran obstetreg a gynaecoleg Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg:

'I fail to see how the review team can give such reassurances that the current arrangements are safe on statistical grounds after only a year's duration of change, and data for even less than a year.'

'I fail to see how the review team can give such reassurances that the current arrangements are safe on statistical grounds after only a year's duration of change, and data for even less than a year.'

It's clear that safety reassurances regarding the current arrangements cannot be given just based on 12 months' data. But we can certainly look at the data prior to the changes, which make it clear that those services at Withybush hospital were, at that time, safe and therefore sustainable.

Mae'n amlwg na ellir rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch y trefniadau presennol ar sail data 12 mis yn unig. Ond gallwn yn sicr edrych ar y data cyn y newidiadau, sy'n ei gwneud yn glir fod y gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg bryd hynny'n ddiogel ac felly'n gynaliadwy.

The Deputy Minister will be well aware that the review panel has also made it clear that the Glangwili hospital labour ward is

Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol iawn fod y panel adolygu hefyd wedi'i gwneud yn glir nad yw ward esgor ysbyty Glangwili yn addas at y diben;

'not fit for purpose; it is too small, with insufficient facilities and provides a poor environment for women and staff.'

'it is too small, with insufficient facilities and provides a poor environment for women and staff.'

Therefore, the Deputy Minister must come clean and explain why his colleague, the health Minister, who is not in his place at the moment, took the decision in January 2014 to close the special care baby unit at Withybush hospital without ensuring that the facilities at Glangwili hospital were appropriate and adequate for my constituents. It's shocking that it could take another 18 months before a decision is made to carry out improvements at this unit, let alone actually carrying out the work. Decisions made by the Hywel Dda Local Health Board and the Welsh Government to reconfigure services away from local communities in Pembrokeshire have had an enormous impact on families in my constituency. Whatever the Deputy Minister chooses to believe, there is no doubt that families across Pembrokeshire feel that service change has led to a less stable, more unsafe health service in Pembrokeshire. The effects of these changes on patient experiences has not been positive, according to my constituents, who have been forced to travel to a unit that is not fit for purpose. The effect of these changes also has an important knock-on effect on the sustainability of other services at Withybush hospital, which has been proven by the health board's decision to transfer in-patient paediatric services to Glangwili hospital. Therefore, I call on the Deputy Minister today to establish some leadership and revisit the catastrophic service change implemented by Hywel Dda health board and the Welsh Government. The people's campaign to retain and, indeed, reintroduce services is not going to go away. That is what the people of Pembrokeshire want, according to the responses that I've received to a constituency-wide survey that I've conducted. Over 400 responses have so far indicated that they want to see their local services reinstated and the Welsh Government must take notice. As local Members, it is our duty to represent their views in this Chamber.

Felly, mae'n rhaid i'r Dirprwy Weinidog esbonio'n onest pam y penderfynodd ei gyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd, nad yw yn ei sedd ar hyn o bryd, ym mis Ionawr 2014 i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg heb sicrhau bod y cyfleusterau yn Ysbyty Glangwili yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer fy etholwyr. Mae'n frawychus y gallai gymryd 18 mis arall cyn y gwneir penderfyniad ar wneud gwelliannau i'r uned hon, heb sôn am wneud y gwaith. Mae penderfyniadau a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Llywodraeth Cymru i ad-drefnu gwasanaethau i ffwrdd o gymunedau lleol yn Sir Benfro wedi effeithio'n enfawr ar deuluoedd yn fy etholaeth. Beth bynnag y mae'r Dirprwy Weinidog yn dewis ei gredu, nid oes amheuaeth fod teuluoedd ar draws Sir Benfro yn teimlo bod newid y gwasanaeth wedi arwain at wasanaeth iechyd llai sefydlog, a llai diogel yn Sir Benfro. Nid yw effeithiau'r newidiadau hyn ar brofiadau cleifion wedi bod yn gadarnhaol, yn ôl fy etholwyr, sydd wedi cael eu gorfodi i deithio i uned nad yw'n addas at y diben. Mae effaith y newidiadau hyn hefyd wedi cael sgil-effaith bwysig ar gynaliadwyedd gwasanaethau eraill yn ysbyty Llwynhelyg, fel y profwyd gan benderfyniad y bwrdd iechyd i drosglwyddo cleifion mewnol gwasanaethau pediatrig i ysbyty Glangwili. Felly, galwaf ar y Dirprwy Weinidog heddiw i ddangos rhywfaint o arweiniad ac ailystyried y newid trychinebus i'r gwasanaeth a gyflawnwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda a Llywodraeth Cymru. Nid yw ymgyrch y bobl i gadw ac yn wir, i ailgyflwyno gwasanaethau yn mynd i ddiflannu. Dyma y mae pobl Sir Benfro yn ei ddymuno, yn ôl yr ymatebion a gefais o arolwg a gynhaliais ar draws yr etholaeth. Hyd yn hyn mae dros 400 o ymatebion wedi nodi eu bod am weld eu gwasanaethau lleol yn cael eu hadfer a rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd sylw. Fel Aelodau lleol, mae'n ddyletswydd arnom i gynrychioli eu barn yn y Siambr hon.

Today's debate has been tabled to reflect on the changes made last year and to once again put it to the Welsh Government that its decision is a catastrophic blow for the people of Pembrokeshire. We need to see obstetrician-led services at Withybush hospital, along with the reintroduction of the special care baby unit, so that high-risk expectant mothers can be confident that they are receiving the safest possible care. I therefore say to the Government once again that the downgrading of services at Withybush hospital is putting people's lives at risk. We will not give up our fight, and I urge the Deputy Minister and the Government to reconsider these decisions and to listen to the people of Pembrokeshire.

Cyflwynwyd y ddadl heddiw er mwyn myfyrio ar y newidiadau a wnaed y llynedd ac i ddweud unwaith eto wrth Lywodraeth Cymru fod ei phenderfyniad yn ergyd drychinebus i bobl Sir Benfro. Mae angen i ni weld gwasanaethau dan arweiniad obstetrydd yn ysbyty Llwynhelyg, ynghyd ag ailgyflwyno'r uned gofal arbennig i fabanod, fel y gall mamau beichiog risg uchel fod yn hyderus eu bod yn cael y gofal mwyaf diogel posibl. Felly, rwy'n dweud wrth y Llywodraeth unwaith eto fod israddio gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg yn rhoi bywydau pobl mewn perygl. Ni fyddwn yn rhoi'r gorau i'n brwydr, ac rwy'n annog y Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth i ailystyried y penderfyniadau hyn ac i wrando ar bobl Sir Benfro.

17:55 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would like to draw your attention to recent data from the Nuffield Trust. The data of particular interest are the July 2015 public expenditure statistical analyses. In England, spending on health remains relatively flat. In Northern Ireland, a substantial increase. Scotland remains the highest-spending nation. Wales has seen the largest decrease in real terms. It is the lowest-spending country in real terms on health in the United Kingdom. To put this in context, if you funded health at the same amount per person as Scotland, there would be an increase to Hywel Dda health board of £60 million per year, which would wipe out their forecasted deficit and leave some £20 million for investment, which means that Hywel Dda could've had the money to have ensured the labour ward at Glangwili was fit for purpose, and it could have ensured that Hywel Dda had the money to make sure that ward 10 and the chemotherapy day unit were in place and up and running for the people of Pembrokeshire. It's about money; you're simply not funding the national health service to the tune it so richly deserves in this country.

Weinidog, hoffwn dynnu eich sylw at ddata diweddar gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Y data sydd o ddiddordeb penodol yw'r dadansoddiadau ystadegol o wariant cyhoeddus ar gyfer Gorffennaf 2015. Yn Lloegr, mae gwariant ar iechyd yn parhau i fod yn gymharol wastad. Yng Ngogledd Iwerddon, cafwyd cynnydd sylweddol. Yr Alban yw'r genedl sy'n gwario fwyaf o hyd. Cymru sydd wedi profi'r gostyngiad mwyaf mewn termau real. Dyma'r wlad sy'n gwario leiaf mewn termau real ar iechyd yn y Deyrnas Unedig. O'i roi mewn cyd-destun, pe baech yn ariannu iechyd ar yr un lefel y pen â'r Alban, byddai cynnydd o £60 miliwn y flwyddyn i fwrdd iechyd Hywel Dda, a fyddai'n dileu'r diffyg a ragwelir ac yn gadael tua £20 miliwn ar gyfer ei fuddsoddi, sy'n golygu y gallai Hywel Dda fod wedi cael yr arian i sicrhau bod y ward esgor yng Nglangwili yn addas at y diben, a gallai fod wedi sicrhau bod gan Hywel Dda arian i wneud yn siŵr fod ward 10 a'r uned ddydd cemotherapi ar waith ac yn weithredol ar gyfer pobl Sir Benfro. Mae'n ymwneud ag arian; yn syml, nid ydych yn ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol i'r graddau y mae'n llwyr haeddu cael ei ariannu yn y wlad hon.

17:57 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, it is not excessive to say that the people of Pembrokeshire feel betrayed by the removal of maternity services and the cuts to 24-hour A&E at Withybush. There were positive arguments for the special care baby unit at Glangwili, but not when the labour ward to which Pembrokeshire mothers are now being sent is described as not fit for purpose by an independent assessment. And the Government was shameful to sign off on that change of services knowing full well that the ward could not be fit for purpose. Having talked to Glangwili nurses over the last few days, it is clear that the difficulties arising were the sheer numbers that are presenting themselves Glangwili, and coping with that on too small a ward. The lack of 24-hour paediatric cover at Withybush also undermines the long-term viability of A&E at that hospital. I believe that these services should be available to all within an hour's travelling time at minimum.

Ddirprwy Lywydd, nid yw'n ormod dweud bod pobl Sir Benfro yn teimlo eu bod wedi'u bradychu yn sgil cael gwared ar wasanaethau mamolaeth a'r toriadau i wasanaeth damweiniau ac achosion brys 24 awr yn Llwynhelyg. Cafwyd dadleuon cadarnhaol dros yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Glangwili, ond nid pan fo asesiad annibynnol yn disgrifio'r ward esgor y mae mamau Sir Benfro yn cael eu hanfon iddi yn awr fel un nad yw'n addas at y diben. Ac roedd hi'n gywilyddus fod y Llywodraeth wedi cymeradwyo'r newid i'r gwasanaethau gan wybod yn iawn na allai'r ward fod yn addas at y diben. Ar ôl siarad â nyrsys Glangwili dros y dyddiau diwethaf, mae'n amlwg mai'r anawsterau sy'n codi yw'r niferoedd sy'n dod i Langwili, ac ymdopi â hynny ar ward sy'n rhy fach. Mae diffyg gwasanaeth pediatrig 24 awr yn Llwynhelyg hefyd yn tanseilio hyfywedd hirdymor gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn yr ysbyty hwnnw. Rwy'n credu y dylai'r gwasanaethau hyn fod ar gael i bawb o fewn amser teithio o awr fan bellaf.

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are well over time, so I can't call Joyce Watson or William Powell. I do remind you that the Minister is able to give way during his speech, should you be fortunate enough to attract his eye. I call the Deputy Minister for Health to reply to the debate. Vaughan Gething.

Rydym ymhell dros yr amser, felly ni allaf alw ar Joyce Watson neu William Powell. Rwy'n eich atgoffa y gall y Gweinidog ildio i ymyriad yn ystod ei araith, os byddwch yn ddigon ffodus i ddal ei lygad. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ymateb i'r ddadl. Vaughan Gething.

17:58 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](Bywgraffiad) [Biography](Biography)

Senedd.tv
[Fideo](Fideo) [Video](Video)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do welcome this short debate, as it gives me another opportunity to put on the record the value that the Welsh Government and, indeed, the local population and Hywel Dda university health board place upon the significant role that Withybush hospital plays in providing services to people in Pembrokeshire. Our commitment to Withybush's future is clear. We have made significant investments in the hospital over the last few years, including £8 million for a new dialysis unit, which opened exactly a year ago and provides 15 extra stations, increasing capacity at the hospital to 21 stations. The £2.5 million refurbishment of the pathology department at Withybush will be completed this month, enabling it to accommodate automated and specialist equipment. The health technology fund provided £600,000 for a new single-photon emission CT multimodal scanner at Withybush to improve patient experience and service effectiveness in March 2014. And, earlier this year, with funding from the Welsh Government, Withybush became the fourth Welsh endoscopy unit to gain accreditation—the third in the Hywel Dda area—giving patients assurance that they are receiving the highest standard of diagnostic services in Pembrokeshire. We've also invested £3.8 million to support the first phase of changes to maternity, neonatal and paediatric services in Pembrokeshire and Carmarthen, and I will of course return to those in more detail.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddadl fer hon, gan ei bod yn rhoi cyfle arall i mi gofnodi'r modd y mae Llywodraeth Cymru ac yn wir, y boblogaeth leol a bwrdd iechyd prifysgol Hywel Dda yn gwerthfawrogi'r rôl sylweddol y mae ysbyty Llwynhelyg yn ei chwarae yn darparu gwasanaethau i bobl yn Sir Benfro. Mae ein hymrwymiad i ddyfodol Llwynhelyg yn glir. Rydym wedi gwneud buddsoddi sylweddol yn yr ysbyty yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys £8 miliwn ar gyfer uned ddialysis newydd, a agorodd union flwyddyn yn ôl ac sy'n darparu 15 o gorlannau ychwanegol, gan gynyddu capasiti yn yr ysbyty i 21 o gorlannau. Cwblheir gwaith adnewyddu gwerth £2.5 miliwn yn adran batholeg Llwynhelyg y mis hwn, gan ei galluogi i ddarparu offer awtomataidd ac arbenigol. Ym mis Mawrth 2014, darparodd y gronfa technoleg iechyd £600,000 ar gyfer sganiwr CT amlfodd allyriadau un-ffoton yn Llwynhelyg er mwyn gwella profiad y claf ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Ac yn gynharach eleni, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, Llwynhelyg oedd y bedwaredd uned endosgopi i gael ei hachredu yng Nghymru—y drydedd yn ardal Hywel Dda—gan roi sicrwydd i gleifion eu bod yn cael gwasanaethau diagnostig o'r safon uchaf yn Sir Benfro. Rydym hefyd wedi buddsoddi £3.8 miliwn i gefnogi cam cyntaf y newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig yn Sir Benfro a Chaerfyrddin, ac wrth gwrs, byddaf yn dychwelyd at y rheini'n fwy manwl.

Hospitals are iconic and totemic, but the vast majority of healthcare happens outside our hospitals, in our local communities and, increasingly, in our own homes. We want people to receive as much care as possible as locally as possible. We do not want people to go to hospital unless they have to, and Pembrokeshire is no exception to this. The Bro Preseli development that was opened in November by the older people's commissioner for Wales supports people to stay healthy, active and independent. On one purpose-built site in Crymych it combines a GP practice and a community resource centre with extra-care apartments, and was funded by the intermediate care fund. Newport pharmacy provides a triage and treat service, helping people with minor injuries, preventing the need for them to make an appointment to see a doctor or travel to the A&E department. There will of course, however, be times when hospital care is necessary, and Withybush will continue to provide essential services for sick and injured patients in Pembrokeshire as part of a wider healthcare network. That includes primary and community-based services, and also the support of neighbouring Glangwili hospital in Carmarthen and specialist care in Morriston Hospital in Swansea.

Mae ysbytai yn eiconig ac yn dotemaidd, ond mae'r mwyafrif helaeth o ofal iechyd yn digwydd y tu allan i'n hysbytai, yn ein cymunedau lleol ac yn gynyddol, yn ein cartrefi eu hunain. Rydym am i bobl dderbyn cymaint o ofal ag y bo modd mor lleol â phosibl. Nid ydym am i bobl fynd i'r ysbyty oni bai bod rhaid iddynt, ac nid yw Sir Benfro yn eithriad i hyn. Mae datblygiad Bro Preseli a agorwyd ym mis Tachwedd gan gomisiynydd pobl hŷn Cymru yn cynorthwyo pobl i aros yn iach, yn weithgar ac yn annibynnol. Ar un safle yng Nghrymych a adeiladwyd at y diben, mae'n cyfuno meddygfa a chanolfan adnoddau gymunedol â fflatiau gofal ychwanegol, ac ariannwyd y cynllun o'r gronfa gofal canolraddol. Mae fferyllfa Casnewydd yn darparu gwasanaeth brysbennu a thrin, sy'n helpu pobl â mân anafiadau, gan atal yr angen iddynt wneud apwyntiad i weld meddyg neu deithio i'r adran damweiniau ac achosion brys. Fodd bynnag, bydd yna adegau, wrth gwrs, pan fydd gofal ysbyty yn angenrheidiol, a bydd Llwynhelyg yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer cleifion sy'n sâl neu wedi'u hanafu yn Sir Benfro fel rhan o rwydwaith gofal iechyd ehangach. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau sylfaenol ac yn y gymuned, a chefnogaeth ysbyty cyfagos Glangwili yng Nghaerfyrddin a gofal arbenigol yn Ysbyty Treforys yn Abertawe.

Withybush has of course experienced recent difficulty in recruiting A&E doctors, and that is a UK-wide problem. Hywel Dda university health board is doing what it can in partnership with its local communities and clinicians to maintain a 24-hour emergency care service at the hospital despite the temporary shortage of doctors. It's a real credit to the local clinical community that that service continues. The health board has been able to start recruitment from overseas, with six new doctors who have recently started work after the Wales Deanery was unable to allocate core medical trainees to Withybush in August. The actions the health board has taken to maintain the 24-hour service at Withybush, including additional ambulance cover, show its commitment to the long-term provision of safe services for patients in Pembrokeshire.

Wrth gwrs, mae Llwynhelyg wedi wynebu anhawster yn ddiweddar gyda recriwtio meddygon damweiniau ac achosion brys, ac mae honno'n broblem ar draws y DU. Mae bwrdd iechyd prifysgol Hywel Dda yn gwneud yr hyn a all mewn partneriaeth â'i gymunedau lleol a chlinigwyr i gynnal gwasanaeth gofal brys 24 awr yn yr ysbyty er gwaethaf y prinder dros dro o feddygon. Mae'n glod mawr i'r gymuned glinigol yn lleol fod y gwasanaeth hwnnw'n parhau. Mae'r bwrdd iechyd wedi gallu dechrau recriwtio o dramor, gyda chwe meddyg newydd wedi dechrau gweithio yn ddiweddar ar ôl i Ddeoniaeth Cymru fethu â dyrannu hyfforddeion meddygol craidd i Lwynhelyg ym mis Awst. Mae'r camau gweithredu y mae'r bwrdd iechyd wedi'u rhoi ar waith i gynnal y gwasanaeth 24 awr yn Llwynhelyg, gan gynnwys gwasanaeth ambiwlans ychwanegol, yn dangos ei ymrwymiad i ddarpariaeth hirdymor o wasanaethau diogel i gleifion yn Sir Benfro.

I now turn to the changes to maternity, neonatal and paediatric services in west Wales. I understand that change of any kind is difficult, and change perhaps in the health service is hardest of all, especially when it comes to changing hospital-based services. However, the reality is the NHS is constantly changing and evolving. It cannot and does not stand still. There have been numerous comments from the party opposite and others over the last few weeks seeking to undermine the Royal College of Paediatrics and Child Health's independent evaluation of changes to maternity, neonatal and paediatric services in Pembrokeshire and Carmarthenshire. It's been a campaign designed to maximise fear, to mislead, and obscure the simple truth of the independent expert review. I want to remind Members what the Royal College concluded: that there is no evidence of any harm to any patients as a result of the changes, which are now sustainable in the long term. The new services are safe and, even more importantly, they are providing improved outcomes—improved outcomes—for mothers and their babies, with better compliance on professional standards, and more women are actually being cared for within Hywel Dda than under the old arrangements. I'll take the intervention from Nick Ramsay.

Trof yn awr at y newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig yng ngorllewin Cymru. Rwy'n deall bod newid o unrhyw fath yn anodd, ac efallai bod newid yn y gwasanaeth iechyd yn anos na dim, yn enwedig newid gwasanaethau mewn ysbytai. Fodd bynnag, y realiti yw bod y GIG yn newid ac yn esblygu'n gyson. Ni all, ac nid yw, yn aros yn ei unfan. Cafwyd nifer o sylwadau gan y blaid gyferbyn ac eraill dros yr wythnosau diwethaf yn ceisio tanseilio gwerthusiad annibynnol y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar newidiadau i wasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae wedi bod yn ymgyrch a gynlluniwyd i ysgogi ofn, i gamarwain, a chuddio gwirionedd syml yr adolygiad arbenigol annibynnol. Rwyf am atgoffa'r Aelodau o'r hyn a gasglodd y Coleg Brenhinol: nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw niwed i unrhyw gleifion yn sgil y newidiadau, sydd bellach yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r gwasanaethau newydd yn ddiogel ac yn bwysicach fyth, maent yn darparu canlyniadau gwell—canlyniadau gwell—i famau a'u babanod, sy'n cydymffurfio'n well â safonau proffesiynol, ac mae mwy o fenywod yn cael gofal gan Hywel Dda nag o dan yr hen drefniadau. Fe gymeraf ymyriad gan Nick Ramsay.

18:03

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for giving way? I really do have to contest with you, though, this idea that we are scaremongering, and that this is a campaign based on fear. These are very real concerns of our constituents and of Paul Davies's constituents in particular with regard to this debate, and we are bringing these concerns to this Chamber. You need to listen to them and respond to these concerns in one way or another, because people are not happy.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ildio? Mae'n rhaid i mi gwestiynu hyn gennych, fodd bynnag, y syniad hwn ein bod yn codi bwganod, a bod hon yn ymgyrch sy'n seiliedig ar ofn. Mae'r rhain yn bryderon real iawn gan ein hetholwyr ac etholwyr Paul Davies yn arbennig o ran y ddadl hon, ac rydym yn dod â'r pryderon hyn gerbron y Siambr. Mae angen i chi i wrando arnynt ac ymateb i'r pryderon mewn un ffordd neu'r llall, gan nad yw pobl yn hapus.

18:03

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

When you look at the language that people have chosen to use in this debate, in other debates, and in press releases and comments, I do not believe this is a responsible campaign conducted by the party opposite. The report is clear. There is no clinical sense in reversing the changes that have delivered improved outcomes for Pembrokeshire families. I'll give way to Joyce Watson.

Pan edrychwch ar yr iaith y mae pobl wedi dewis ei defnyddio yn y ddadl hon, mewn dadleuon eraill, ac mewn datganiadau a sylwadau i'r wasg, nid wyf yn credu bod yr ymgyrch hon sy'n cael ei chynnal gan y blaid gyferbyn yn un gyfrifol. Mae'r adroddiad yn glir. Nid oes unrhyw synnwyr clinigol mewn gwrthdroi'r newidiadau sydd wedi cyflwyno canlyniadau gwell i deuluoedd yn Sir Benfro. Fe ildiaf i Joyce Watson.

18:04

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Thank you for giving way. I'd like to draw people's attention to the fact the special care baby unit in Glangwili is the highest-staffed baby unit in Wales, and also to the fact that fewer babies are now leaving the Hywel Dda area needing specialist care than they ever were before, which was actually what all these changes were predicated on—increasing the higher end need of care from level 1 to level 2.

Diolch i chi am ildio. Hoffwn dynnu sylw pobl at y ffaith mai'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Glangwili yw'r uned fabanod sydd â mwyaf o staff yng Nghymru, a hefyd at y ffaith fod llai o fabanod yn awr yn gadael ardal Hywel Dda am eu bod angen gofal arbenigol nag a fu erioed o'r blaen, a dyna, mewn gwirionedd, yw'r hyn y seiliwyd yr holl newidiadau hyn arno—codi pen uwch yr angen am ofal o lefel 1 i lefel 2.

Senedd.tv
Fideo Video

18:04

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

It's exactly the point. The changes have been designed to deliver improved care for families in west Wales, for the babies to be treated and looked after in west Wales, and that is what the independent expert review has found. Paul Davies does not welcome—quite amazingly, he does not welcome—the improved service with improved outcomes for his constituents. He is committed to taking away that improved service. It is quite extraordinary. The independent expert report notes that there has been a gradual increase in the use of the midwife-led unit at Withybush, consistent with the introduction of new midwife-led units across the UK. Women using those facilities are almost universally positive about their experience. They've set up their own social media site to try and combat some of the stories and the commentary being given by some Members in this Chamber. I'll give way to William Powell.

Dyna'r union bwynt. Lluniwyd y newidiadau i ddarparu gofal gwell i deuluoedd yng ngorllewin Cymru, i'r babanod gael eu trin a derbyn gofal yng ngorllewin Cymru, a dyna'r hyn y mae'r adolygiad arbenigol annibynnol wedi'i ganfod. Nid yw Paul Davies yn croesawu—yn eithaf rhyfeddol, nid yw'n croesawu—y gwasanaeth gwell gyda'r canlyniadau gwell i'w etholwyr. Mae wedi ymrwymo i gael gwared ar y gwasanaeth gwell hwnnw. Mae'n eithaf syfrdanol. Mae'r adroddiad arbenigol annibynnol yn nodi y bu cynnydd graddol yn y defnydd o'r uned o dan arweiniad bydwragedd yn Llwynhelyg, i gyd-fynd â chyflwyno unedau newydd o dan arweiniad bydwragedd ar draws y DU. Mae menywod sy'n defnyddio'r cyfleusterau hynny bron yn unfryd gadarnhaol ynglŷn â'u profiad. Maent wedi sefydlu eu safle cyfryngau cymdeithasol eu hunain i geisio brwydro yn erbyn rhai o'r straeon a'r sylwebaeth sy'n cael ei rhoi gan rai o'r Aelodau yn y Siambr hon. Ildiaf i William Powell.

Senedd.tv
Fideo Video

18:05

## William Powell Bywgraffiad Biography

Thank you very much, Minister. I strongly support the main thrust of the debate that's been presented by Paul Davies. But, you've spoken about scare tactics. Do you agree with me, Minister—you referenced recruitment earlier on—that actually we've got a serious problem coming up the track in terms of the potential deportation of nurses from the Hywel Dda area, including nurses at Withybush, with the Conservative Government's crazy policy of having £35,000 as a requirement for earnings? That wouldn't necessarily be the case with doctors. But, with nurses, it would be fundamental to the future delivery of services at Withybush and elsewhere.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Cefnogaf yn gryf brif fyrdwn y ddadl a gyflwynwyd gan Paul Davies. Ond rydych chi wedi siarad am dactegau codi ofn. A ydych yn cytuno â mi, Weinidog—fe gyfeirioch at recriwtio yn gynharach—fod gennym broblem ddifrifol mewn gwirionedd ar y ffordd o ran y posibilrwydd o allgludo nyrsys o ardal Hywel Dda, yn cynnwys nyrsys yn Llwynhelyg, yn sgil polisi gwallgof y Llywodraeth Geidwadol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ennill £35,000 o gyflog? Ni fyddai hynny o anghenraid yn wir gyda meddygon. Ond gyda nyrsys, byddai'n allweddol i ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol yn Llwynhelyg ac mewn mannau eraill.

Senedd.tv
Fideo Video

18:06

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

I quite agree with William Powell. It would be a truly shameful act if the Conservative Government did in fact deport nurses from the UK, delivering high-quality patient care across health and social care. The Tory Government's plan is, if they're not paid well enough, they will be deported.

Cytunaf yn llwyr â William Powell. Byddai'n weithred wirioneddol gywilyddus pe bai'r Llywodraeth Geidwadol mewn gwirionedd yn allgludo nyrsys o'r DU, nyrsys sy'n darparu gofal cleifion o ansawdd uchel ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bwriad y Llywodraeth Dorïaidd yw eu hallgludo os nad ydynt yn cael eu talu'n ddigon da.

Senedd.tv
Fideo Video

Turning back to issues around Withybush, there is capacity to increase activity at the midwife-led unit, enabling more women to give birth locally in Pembrokeshire. But, their confidence and the morale of staff is being damaged by the constant public attacks; attacks based on anecdote and speculation, rather than evidence—just as we have heard yet again today. Darren Millar said the changes are dangerous. Paul Davies says the changes could put lives at risk. Paul Davies said the services are inadequate. He again says that they're dangerous today. All of those points have been comprehensively and unanimously dismissed by the independent expert report.

Gan droi yn ôl at faterion yn ymwneud â Llwynhelyg, mae yna gapasiti i gynyddu gweithgaredd yn yr uned o dan arweiniad bydwragedd, gan alluogi mwy o fenywod i roi genedigaeth yn lleol yn Sir Benfro. Ond caiff hyder a morâl staff ei niweidio gan yr ymosodiadau cyhoeddus cyson; ymosodiadau ar sail anecdotau a dyfalu, yn hytrach na thystiolaeth—yn union fel y clywsom eto heddiw. Dywedodd Darren Millar fod y newidiadau'n beryglus. Mae Paul Davies yn dweud y gallai newidiadau roi bywydau mewn perygl. Dywedodd Paul Davies fod y gwasanaethau'n annigonol. Dywedodd unwaith eto heddiw eu bod yn beryglus. Mae pob un o'r pwyntiau hynny wedi cael eu diystyru'n gynhwysfawr ac yn unfrydol gan yr adroddiad arbenigol annibynnol.

There's a choice to be made here. Do people listen to that independent expert report and the evaluation undertaken, or do they listen to people who are committed to attacking whatever happens because of the politics of west Wales? That is the choice that the public must make. I'll take the intervention from Darren Millar.

Mae dewis i'w wneud yma. A yw pobl yn gwrando ar yr adroddiad arbenigol annibynnol a'r gwerthusiad a gynhaliwyd, neu a ydynt yn gwrando ar bobl sydd wedi ymrwymo i ymosod ar beth bynnag sy'n digwydd oherwydd gwleidyddiaeth gorllewin Cymru? Dyna'r dewis y mae'n rhaid i'r cyhoedd ei wneud. Fe gymeraf ymyriad gan Darren Millar.

18:08

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You've made many references to the independent expert panel, which concluded that the facilities were not fit for purpose. What on earth are you doing to ensure that those facilities are fit for purpose and why did the Welsh Government agree to relocate services into a facility that was not fit for purpose and mislead the public into thinking that those services would be in a place that was fit for purpose?

Rydych wedi gwneud sawl cyfeiriad at y panel arbenigol annibynnol, a ddaeth i'r casgliad nad oedd y cyfleusterau yn addas at y diben. Beth ar y ddaear rydych yn ei wneud i sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n addas at y diben, a pham y cytunodd Llywodraeth Cymru i adleoli gwasanaethau i gyfleuster nad oedd yn addas at y diben a chamarwain y cyhoedd i feddwl y byddai'r gwasanaethau hynny mewn man a oedd yn addas at y diben?

18:08

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And this reiterates the shameful tenor of the debate from some people, because Darren Millar and others who have read the report know perfectly well—[Interruption.]

Ac mae hyn yn cadarnhau naws gywilyddus y ddadl gan rai pobl, gan fod Darren Millar ac eraill sydd wedi darllen yr adroddiad yn gwybod yn iawn— [Torri ar draws.]

18:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

18:08

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar and other people who have read the report know perfectly well the phrase about the 'fitness for purpose' was about the physical environment of that particular part of the unit. It is not about the quality of care or the safety of care being provided. I will happily come back, in the rest of my remarks, about what we are doing to see through the improvements required. Attacks are being made upon the quality of care provided by dedicated midwives; attacks upon the safety of midwife-led care; wilfully dishonest attacks upon this service that has improved outcomes for mothers and babies from Pembrokeshire.

Mae Darren Millar a phobl eraill sydd wedi darllen yr adroddiad yn gwybod yn iawn fod yr ymadrodd ynghylch 'addasrwydd at y diben' yn ymwneud ag amgylchedd ffisegol y rhan benodol honno o'r uned. Nid yw'n ymwneud â safon y gofal neu ddiogelwch y gofal a ddarperir. Byddaf yn falch o ddod yn ôl, yng ngweddill fy sylwadau, at yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen. Ymosodir ar ansawdd y gofal a ddarperir gan fydwragedd ymroddedig; ymosodiadau ar ddiogelwch gofal o dan arweiniad bydwragedd; ymosodiadau bwriadol anonest ar y gwasanaeth hwn sydd wedi gwella canlyniadau ar gyfer mamau a babanod o Sir Benfro.

18:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Order. I've heard both sides now use words like 'wilfully dishonest' and 'misleading'. I'm not going to draw attention to a particular Member at this stage, but anyone who now uses those phrases I will call to order. This has been a very passionate short debate and I realise that there are great interests involved. But, you know, we do have to debate these as calmly as possible, important as they are. I don't mind colourful rhetoric, but there are limits, especially when we are referring either to the honesty of the Government or to the integrity of Members raising constituency matters. Deputy Minister.

Trefn. Trefn. Rwyf wedi clywed y ddwy ochr yn awr yn defnyddio geiriau fel 'bwriadol anonest' a 'chamarweiniol'. Nid wyf yn mynd i dynnu sylw at Aelod penodol ar hyn o bryd, ond byddaf yn awr yn galw unrhyw un sy'n defnyddio ymadroddion o'r fath i drefn. Bu hon yn ddadl fer angerddol iawn ac rwy'n sylweddoli bod yna fuddiannau mawr ynghlwm wrthi. Ond wyddoch chi, mae'n rhaid i ni drafod y rhain mor bwyllog ag y bo modd, waeth pa mor bwysig ydynt. Nid wyf yn gwrthwynebu rhethreg liwgar, ond mae yna gyfyngiadau, yn enwedig pan fyddwn yn cyfeirio naill ai at onestrwydd y Llywodraeth neu gywirdeb Aelodau sy'n cyflwyno materion etholaethol. Ddirprwy Weinidog.

18:09 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Survey data collected from 500 women after they had given birth at all three sites across Hywel Dda since the changes were made has shown overwhelmingly positive responses. Now, that's credit to the hard work of staff delivering those services and changes. But I say honestly and sincerely, you cannot claim to support front-line staff when you then attack the quality of the care that those staff provide, and I believe an apology is owed to those staff.

Mae data arolwg a gasglwyd gan 500 o fenywod ar ôl iddynt roi genedigaeth yn y tri safle ar draws Hywel Dda ers i'r newidiadau gael eu gwneud wedi dangos ymatebion hynod o gadarnhaol. Nawr, dyna glod i waith caled y staff sy'n darparu'r gwasanaethau a'r newidiadau hynny. Ond rwy'n dweud yn onest ac yn gywir, ni allwch honni eich bod yn cefnogi staff rheng flaen a mynd ati wedyn i ymosod ar ansawdd y gofal y mae'r staff hynny yn ei ddarparu, ac rwy'n credu bod arnoch ymddiheuriad i'r staff am hynny.

The £3.8 million investment I referred to earlier has provided modern midwife-led units in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire, giving women a new choice about how they want to give birth. It's increased capacity at Glangwili for labour services and special care baby services to accommodate additional activity. It's created a dedicated paediatric high-dependency unit and invested in additional nurse staffing, as Joyce Watson pointed out earlier. As people in this Chamber know, and as both Angela Burns and Paul Davies know very well, the second phase of the works to the maternity unit at Glangwili hospital could not happen until after the independent evaluation by the royal college had been undertaken, because the health board could not be in a position where it was pre-empting the findings of that review. We now expect the case to improve the physical environment at Glangwili to make progress. A project management company, a cost adviser, an architect and structural and mechanical engineers have been appointed to assist in developing the business case.

Mae'r buddsoddiad o £3.8 miliwn y cyfeiriais ato'n gynharach wedi darparu unedau modern o dan arweiniad bydwragedd yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, gan roi dewis newydd i fenywod ynglŷn â'r ffordd y maent am roi genedigaeth. Mae wedi cynyddu capasiti yng Nglangwili i wasanaethau geni a gwasanaethau gofal arbennig i fabanod allu darparu ar gyfer gweithgarwch ychwanegol. Mae wedi creu uned bediatreg dibyniaeth fawr arbennig ac wedi buddsoddi mewn staff nyrsio ychwanegol, fel y nododd Joyce Watson yn gynharach. Fel y mae'r bobl yn y Siambr hon yn gwybod, ac fel y gŵyr Angela Burns a Paul Davies yn dda iawn, ni allai ail gam y gwaith ar yr uned famolaeth yn Ysbyty Glangwili ddigwydd tan ar ôl y gwerthusiad annibynnol gan y coleg brenhinol, am na allai'r bwrdd iechyd fod mewn sefyllfa lle roedd yn achub y blaen ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw. Rydym bellach yn disgwyl datblygiad yr achos dros wella'r amgylchedd ffisegol yng Nglangwili. Mae cwmni rheoli prosiect, cynghorydd costau, pensaer a pheirianwyr strwythurol a mecanyddol wedi'u penodi i gynorthwyo i ddatblygu'r achos busnes.

I'll conclude by returning to the title of the motion, which is supposedly about providing for and protecting patients in Pembrokeshire. That is exactly what this Government intends to see happen. We are committed to seeing our NHS deliver the right care, at the right time and in the right place. Maternity, neonatal and paediatric services are now delivering better care with better outcomes for Pembrokeshire families. We have continued to invest in Withybush, and we expect to see it continue to play a vital part in the health service, not just in Pembrokeshire, but as part of an integrated public national health service for all the people of Wales.

Fe orffennaf drwy ddychwelyd at deitl y cynnig, sydd i fod i ymwneud â darparu ar gyfer a diogelu cleifion yn Sir Benfro. Dyna'r union beth y mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu ei weld yn digwydd. Rydym wedi ymrwymo i weld ein GIG yn darparu'r gofal iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. Mae gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig bellach yn darparu gofal gwell gyda gwell canlyniadau i deuluoedd Sir Benfro. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn Llwynhelyg, ac rydym yn disgwyl ei weld yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwasanaeth iechyd, nid yn unig yn sir Benfro, ond fel rhan o wasanaeth iechyd gwladol cyhoeddus integredig ar gyfer holl bobl Cymru.

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:12.*

*The meeting ended at 18:12.*